Ministry of Defence

# Adolygiad Amddiffyn Strategol

## Gwneud Prydain yn Fwy Diogel: yn gadarn gartref, yn gydnerth dramor

2025



Ministry of Defence

# Adolygiad Amddiffyn Strategol

## Gwneud Prydain yn Fwy Diogel: yn gadarn gartref, yn gydnerth dramor

**2025**

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Delwedd y clawr: Gweithredwr drôn o 2il Fataliwn Catrawd Frenhinol Swydd Efrog yn lansio drôn ar Wastadedd Salisbury fel rhan o ddigwyddiad tân byw 'Recce-Strike' (2024). *Ffynhonnell: Corporol Rebecca Brown, MOD Hawlfraint y Goron 2024.*

Wedi'i argraffu ar ECF di-bren, FSC Mix 70%, ac Ecolabel yr UE

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Prif Weinidog** 2

**Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol** 3

**Rhagair gan yr Adolygwyr** 9

**1. Cyflwyniad a Throsolwg** 11

**2. Yr Achos dros Drawsnewid** 25

**3. Rolau Amddiffyn y DU** 35

**4. Trawsnewid Gallu'r DU i Ryfela** 42

4.1 Model y Llu Integredig 45

4.2 Arloesedd a Diwydiant: Dull Gweithredu Newydd ar gyfer Atal a Thyfu 51

4.3 'Un Amddiffyniad': Pobl, Hyfforddiant ac Addysg 64

**5. Cynghreiriaid a Phartneriaid** 72

Perthnasoedd Amddiffyn Byd-eang: Man Cychwyn yr Adolygiad Amddiffyn Strategol 82

**6. Amddiffyn a Gwydnwch Gartref: Dull Gweithredu Cymdeithas Gyfan** 86

**7. Y Llu Integredig: Llu sy'n Addas i Ryfel yn yr 21ain Ganrif** 94

7.1 Rhaglen Niwclear Ataliol y DU 98

7.2 Y Parth Morol 104

7.3 Y Parth Tir 108

7.4 Y Parth Awyr 112

7.5 Y Parth Gofod 116

7.6 Y Parth Seiber ac Electromagnetig 119

7.7 Y Drefn Reoli Strategol 124

7.8 Y Lluoedd Arfog Arbennig 126

7.9 Cudd-wybodaeth 127

7.10 Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn 130

7.11 Seilwaith 133

**Atodiad: Y Broses Adolygu** 138

# Cyflwyniad y Prif Weinidog



**Fy nyletswydd pennaf fel Prif Weinidog yw cadw pobl Prydain yn ddiogel. Dyna pam mai diogelwch gwladol yw carreg sylfaen Cynllun ar gyfer Newid y Llywodraeth hon. Yn yr oes newydd hon sydd ohoni ar gyfer amddiffyn a diogelwch, gyda Rwsia yn rhyfela ar ein cyfandir ac yn procio ein hamddiffynfeydd gartref, rhaid inni wynebu'r perygl yn uniongyrchol. Rhaid inni gydnabod bod gwir natur rhyfela yn cael ei drawsnewid ar faes y gad yn Wcráin gan addasu ein lluoedd arfog a'n diwydiant i arwain yr arloesi hwn. A rhaid deall hefyd bod ansefydlogrwydd byd-eang yn effeithio ar ddiogelwch economaidd, gan leihau twf a chynyddu costau byw i deuluoedd sy'n gweithio yn y DU.**

Dyna pam mai un o'm gweithredoedd cyntaf fel Prif Weinidog oedd lansio'r Adolygiad Amddiffyn Strategol hwn, gan herio'r Adolygwyr i archwilio sut y dylai ein cenedl fynd i'r afael â hyn ar unwaith. Mae'r neges yn glir: mae'r newid sylweddol yn y bygythiadau a wynebwn yn gofyn am newid sylweddol ym mesurau amddiffyn Prydain. Nid rhywbeth hap a damwain yw ein diogelwch cenedlaethol. O'r herwydd, rwyf eisoes wedi cymryd camau gweithredu gan gyhoeddi'r cynnydd parhaus mwyaf mewn gwariant amddiffyn ers y Rhyfel Oer. Rydym yn gwireddu ein hymrwymiad i wario 2.5% o GDP ar amddiffyn, ac yn cyflymu'r amserlen i 2027, gan osod uchelgais i gyrraedd 3% yn y Senedd nesaf yn amodol ar amodau economaidd ac ariannol. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi terfyn ar y duedd o wanhau ein lluoedd arfog ac yn galluogi'r DU i gamu i'r adwy, i arwain yn NATO, ac i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ein hunanamddiffyn ar y cyd.

Ond ni ellir cyfyngu ein hymateb i gynyddu gwariant ar amddiffyn yn unig. Mae angen hefyd inni weithredu'r newid mwyaf mewn meddylfryd a welwyd yn ystod fy oes: rhoi diogelwch ac amddiffyn yn gyntaf ac yn flaenllaw—a'i wneud yn egwyddor drefniadol sylfaenol i lywodraeth.

Roedd ein profiad o'r pandemig wedi amlygu'r gwendidau o ddibynnu ar gadwyni cyflenwi rhyngwladol 'dim ond mewn pryd' a'r angen am ymateb cymdeithas gyfan. Yn yr ysbryd hwnnw, rhaid inni ysgogi partneriaeth newydd gyda diwydiant, diwygio caffael yn radical, a chreu swyddi, cyfoeth a chyfleoedd ym mhob cwr o'n gwlad—dyma'r 'difidend amddiffyn' rydym yn benderfynol o fanteisio arno. Rhaid iddo sbarduno arloesedd ar gyflymder rhyfel, gan roi'r DU ar flaen y gad o ran arloesi yn NATO a rhoi'r ystod lawn o alluoedd confensiynol a thechnolegol i'n lluoedd. A rhaid iddo feithrin cyd-ymdrech genedlaethol lle mae'r wladwriaeth, busnes a chymdeithas yn uno i geisio diogelwch y genedl a ffyniant ei phobl.

Bydd yr Adolygiad Amddiffyn Strategol pwysig hwn yn helpu i wireddu hyn. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Arglwydd Robertson o Port Ellen, y Cadfridog Syr Richard Barrons, a Dr Fiona Hill am eu holl waith yn arwain yr Adolygiad. Bydd y Llywodraeth hon yn awr yn cynnull ymdrech genedlaethol i'w gyflawni.

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Keir Starmer AS**

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol



**Mae'r byd wedi newid. Mae'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu nawr yn fwy difrifol ac yn llai rhagweladwy nag ar unrhyw adeg ers y Rhyfel Oer, gan gynnwys rhyfel yn Ewrop, ymddygiad fwyfwy ymosodol Rwsia, risgiau niwclear newydd, ac ymosodiadau seiber dyddiol gartref.**

Mae ein gwrthwynebwyr yn cydweithio fwy â'i gilydd, tra bo technoleg yn newid sut mae rhyfeloedd yn cael eu hymladd. Bellach yn y rhyfel yn Wcráin, mae dronau yn lladd mwy o bobl na magnelau traddodiadol, a phwy bynnag sy'n cael technoleg newydd gyflymaf i ddwylo eu Lluoedd Arfog fydd yn ennill.

Ac ers i ni ddechrau gweithio ar yr Adolygiad Amddiffyn Strategol, mae'r DU a'n cynghreiriaid Ewropeaidd wedi cael eu herio i gamu i'r adwy o ran diogelwch yn Ewrop.

Rydym mewn cyfnod newydd o fygythiadau, sy'n galw am gyfnod newydd i Amddiffyn yn y DU. Mae'r Adolygiad hwn yn nodi'r weledigaeth i wneud Prydain yn fwy diogel: yn gadarn gartref, yn gydnerth dramor.

## Darparu ar gyfer Amddiffyn

Ers yr Etholiad Cyffredinol lai na blwyddyn yn ôl, rydym wedi dangos ein bod yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer Amddiffyn.

Rydym wedi cyhoeddi'r codiad parhaus mwyaf mewn gwariant amddiffyn ers diwedd y Rhyfel Oer, wedi cynyddu'r cymorth i Wcráin, wedi dyfarnu'r codiad cyflog mwyaf ers dros 20 mlynedd i staff y Lluoedd Arfog, wedi llofnodi'r Cytundeb Trinity House hanesyddol gyda'r Almaen, wedi prynu'n ôl dros 36,000 o gartrefi milwrol i wella llety i deuluoedd y lluoedd arfog ac arbed biliynau o bunnoedd i drethdalwyr y DU, wedi gosod targedau newydd i fynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio, wedi ei gwneud yn haws i gyn-filwyr gael gafael ar ofal a chymorth hanfodol o dan y system VALOUR newydd, ac wedi pasio Bil Comisiynydd y Lluoedd Arfog drwy'r Senedd i wella bywyd yn y lluoedd.

Lansiwyd yr Adolygiad Amddiffyn Strategol cyntaf o'i fath gan y Prif Weinidog o fewn pythefnos i'r Etholiad Cyffredinol. Mae wedi cael ei arwain yn allanol gan George Robertson, Richard Barrons, a Fiona Hill, sydd wedi gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i fanteisio ar yr arbenigedd gorau o'r tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth i lunio'r adolygiad cyntaf mewn 25 mlynedd o Amddiffyn yn y DU o'r bôn i'r brig. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu gwaith eithriadol.

Yn ystod proses yr adolygiad, roedd 1,700 o unigolion, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau wedi cyflwyno dros 8,000 o ymatebion, roedd 200 o gwmnïau wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig, roedd dros 150 o uwch arbenigwyr wedi cymryd rhan yn y paneli Adolygu a Herio, a chynhaliwyd bron i 50 o

gyfarfodydd rhwng yr Adolygwyr a'n huwch swyddogion milwrol. Bu aelodau o'r cyhoedd hefyd yn ymweld â safleoedd Amddiffyn fel rhan o 'Banel Dinasyddion' i gynnig eu barn. Cyflwynir y safbwyntiau hyn drwy gydol yr adroddiad hwn.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi cymryd rhan. Fe wnaethom sefydlu'r Adolygiad Amddiffyn Strategol yn y ffordd unigryw hon i chwalu'r hen feddylfryd, i gyflwyno syniadau newydd, ond yn bwysicach, i sicrhau bod yr Adolygiad yn gweithredu fel Adolygiad Amddiffyn Prydain, ac nid Adolygiad y Llywodraeth yn unig.

## Oes Newydd

Mae'r Adolygiad Amddiffyn Strategol yn arwydd o newid pwysig yn ein hamddiffyniad a'n hataliaeth: gan symud tuag at barodrwydd i ryfela er mwyn atal bygythiadau a chryfhau diogelwch yn yr Ewro-Atlantig. Cyflawnir hyn wrth i'r DU gymryd yr awenau o fewn NATO ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ddiogelwch Ewropeaidd. Dyna pam mai 'NATO yn Gyntaf' yw ein polisi amddiffyn. Daw cryfder strategol y DU o'n cynghreiriaid ac, mewn byd peryglus, mae ein hymrwymiad diysgog i NATO yn golygu na fyddwn byth yn gorfod ymladd ar ein pen ein hunain. Ond nid yw 'NATO yn Gyntaf' yn golygu 'NATO yn unig'—rydym wedi ymrwymo o hyd i'n cynghreiriaid a'n partneriaid ledled y byd, gan fod cysylltiad agos rhwng ein cyd-ddiogelwch. Mae'r Adolygiad Amddiffyn Strategol yn gosod llwybr ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt i drawsnewid Amddiffyn. Byddwn yn rhoi terfyn ar y duedd o wanhau ein Lluoedd Arfog, ac yn cymryd yr awenau mewn NATO cryfach, gyda mwy o gapasiti i achosi angau. Byddwn hefyd yn dysgu gwersi o'r rhyfel yn Wcráin, sydd wedi dangos bod Lluoedd Arfog gwlad ond cyn gryfed â'r diwydiant, yr arloeswyr a'r buddsoddwyr sydd wrth eu cefn. A bod arloesi technolegol yn hanfodol er mwyn aros ar y blaen i'n gwrthwynebwyr. Yn bwysig, mae'n gosod gweledigaeth newydd ar gyfer sut dylid ystyried ein Lluoedd Arfog—cyfuniad o ymladdwyr rhyfel confensiynol a digidol; pŵer dronau, AI, ac awtonomi sy'n ategu'r tanciau a magnelau 'metel trwm'; arloesi a chaffael sy'n cael eu mesur mewn misoedd, nid blynyddoedd; chwalu rhwystrau rhwng Gwasanaethau unigol, rhwng y fyddin a'r sector preifat, a rhwng y Lluoedd Arfog a chymdeithas.

Yr Adolygiad Amddiffyn Strategol yw'r Cynllun ar gyfer Newid ym maes Amddiffyn. Mae'n nodi'r uchelgeisiau newydd canlynol:

- **'NATO yn Gyntaf'**—cymryd cam ymlaen ar ddiogelwch Ewropeaidd drwy arwain yn NATO, gydag amddiffyniad niwclear cryfach, technoleg newydd, a galluoedd confensiynol ar eu newydd wedd.
- **Symud tuag at barodrwydd i ryfela**—sefydlu 'llu integredig' gyda mwy o gapasiti i achosi angau wedi'i arfogi ar gyfer y dyfodol, a chryfhau amddiffyniad gartref.
- **Peiriant ar gyfer twf**—gyrru swyddi a ffyniant drwy bartneriaeth newydd â diwydiant, diwygiadau caffael radical, a chefnogi busnesau yn y DU.
- **Arloesi yn y DU sy'n cael ei ysgogi gan wersi o Wcráin**—defnyddio dronau, data a rhyfela digidol i wneud ein Lluoedd Arfog yn gryfach a'u diogelu.
- **Agwedd cymdeithas gyfan**—ehangu cyfranogiad mewn gwydnwch cenedlaethol ac adnewyddu contract y Genedl gyda'r rheini sy'n gwasanaethu.

Mae'r Llywodraeth—a'n penaethiaid milwrol—yn croesawu'r weledigaeth a'r cyfeiriad hwn yn fawr. Bydd hyn yn gosod fframwaith strategol ar gyfer Amddiffyn y DU. I gyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Llywodraeth yn Diwygio, yn Buddsoddi ac yn Gweithredu.

## Diwygio

Ar Ddiwrnod 1 yn y Llywodraeth, gwnaethom lansio'r rhaglen Diwygio Amddiffyn—y diwygiadau amddiffyn dyfnaf ers 50 mlynedd. Mae'r Adolygiad Amddiffyn Strategol yn cefnogi'n gryf y rhaglen newid hon ac yn cydnabod na all y naill lwyddo heb y llall.

O 1 Ebrill 2025 ymlaen, gwnaethom sefydlu Pencadlys Strategol Milwrol (MSHQ) newydd, sefydlu Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol (NAD) newydd i yrru ein strategaeth ddiwydiannol amddiffyn yn ei blaen, a rhoi pwerau newydd i Bennaeth y Staff Amddiffyn (CDS) i reoli Penaethiaid Gwasanaeth am y tro cyntaf. Rydym hefyd wedi dirwyn i ben Diwygiadau Levene ac wedi disodli deg deiliad cyllideb gyda phedwar maes cyllideb newydd er mwyn rheoli cyllidebau'n dynnach.

Bydd y newidiadau hyn yn cryfhau Amddiffyn drwy arweinyddiaeth gryfach, atebolrwydd cliriach, cyflawni cyflymach, llai o wastraff, a gwell gwerth am arian. Byddwn yn datgloi bron i £6bn o arbedion newydd yn ystod y Senedd hon drwy arbedion mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant, newidiadau i'r gweithlu sifil, a symleiddio strwythurol.

Mae Diwygio Amddiffyn yn rhaglen drwy gydol tymor y Senedd. Cyflwynir rhagor o welliannau dros y 12 mis nesaf—mwy o integreiddio, lleihau dyblygu, a gwella'r ddarpariaeth. Byddwn hefyd yn cyflwyno diwygiadau radical i'r system gaffael ym maes amddiffyn, oherwydd bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn ill dau wedi dweud bod y system 'wedi torri'.

## Buddsoddi

Ar 25 Chwefror 2025, cyhoeddodd y Prif Weinidog y cynnydd parhaus mwyaf mewn gwariant ar amddiffyn ers diwedd y Rhyfel Oer—yn codi i 2.5% o GDP erbyn 2027, ac i 3% yn y Senedd nesaf pan fydd amodau cyllidol ac economaidd yn caniatáu hynny. Rydym eisoes wedi rhoi hwb o £5bn i amddiffyn eleni. Mae amddiffyn bellach yn ganolog i'n diogelwch cenedlaethol a'n twf economaidd.



Wrth galon y buddsoddiad hwn mae ein hymrwymiad llwyr i weithredu, i gynnal ac i adnewyddu ein hataliaeth niwclear, sy'n cael ei defnyddio bob munud o bob dydd i ddiogelu ein pobl, ein cenedl a'n ffordd o fyw. Mae ataliaeth niwclear y DU yn ymdrech genedlaethol go-iawn sydd wedi bodoli ers dros 60 mlynedd ac mae'n anfon y rhybudd eithaf i unrhyw un sy'n ceisio gwneud niwed i ni.

Mae cyllideb 'Buddsoddi' flynyddol newydd gwerth £11bn hefyd wedi'i sefydlu o dan y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol. Bydd hyn yn ariannu cit ein lluoedd rheng flaen sy'n fforddiadwy ac sy'n tyfu ein sylfaen ddiwydiannol yn y DU. Bydd ein partneriaeth newydd â diwydiant a degawd o wariant amddiffyn sy'n cynyddu'n gyson yn denu mwy o gyllid preifat i dyfu ein cwmnïau technoleg arloesol a defnydd deuol.

## Gweithredu

Mae'r Llywodraeth hon yn cymeradwyo'r weledigaeth ac yn derbyn pob un o'r 62 o argymhellion yn yr Adolygiad Amddiffyn Strategol. Bydd y rhain yn cael eu gweithredu. Yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad Amddiffyn Strategol, rydym hefyd yn cymryd camau pellach ar unwaith.

- Byddwn yn sicrhau dyfodol ein hataliaeth niwclear, drwy ymrwymo i fuddsoddi £15bn yn y rhaglen arfben sofran yn ystod y Senedd hon a chefnogi dros 9,000 o swyddi.
- Byddwn yn creu 'Llynges Hybrid Newydd', gan adeiladu llongau tanfor Dreadnought ac SSN-AUKUS, llongau rhyfel arloesol a llongau cymorth, yn trawsnewid ein llongau cludo, ac yn cyflwyno llongau awtonomaidd newydd i batrolio Gogledd yr Iwerydd a thu hwnt.
- Byddwn yn creu Byddin Brydeinig sydd â 10 gwaith y capasiti i achosi angau fel rhan o'n hataliaeth ar y tir, drwy gyfuno mwy o bobl a gallu arfog ag amddiffynfeydd awyr, cyfathrebu, deallusrwydd artiffisial, meddalwedd, arfau pellter hir, a haid o ddronau tir.
- Byddwn yn creu RAF y genhedlaeth nesaf, gydag awyrennau F-35, uwchraddio'r Typhoon, jetiau cyflym y genhedlaeth nesaf drwy'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang, ac awyrennau ymladd awtonomaidd i amddiffyn awyr Prydain ac i allu taro unrhyw le yn y byd.
- Byddwn yn diogelu tir cartref y DU gyda hyd at £1bn o gyllid newydd yn cael ei fuddsoddi mewn amddiffynfeydd awyr a thaflegrau, a chreu Trefn Reoli SeiberEM newydd i amddiffyn Prydain rhag ymosodiadau dyddiol yn y parth llwyd.
- Byddwn yn sicrhau bod Amddiffyn yn beiriant ar gyfer twf ledled y DU, drwy fuddsoddi £6bn mewn arfau yn y Senedd hon, gan gynnwys £1.5bn mewn piblinell 'ymlaen drwy'r amser' ar gyfer arfau rhyfel ac adeiladu o leiaf chwe ffatri egnïeg ac arfau newydd yn y DU, gan greu dros 1,000 o swyddi a hybu potensial allforio.
- Byddwn yn ymrwymo i gynhyrchu llongau tanfor yn barhaus drwy fuddsoddi yn Barrow a Raynesway i'n galluogi i gynhyrchu llong danfor bob 18 mis. Drwy raglen AUKUS, bydd hyn yn ein galluogi i dyfu ein fflyd llongau tanfor ymosod pŵer-niwclear i hyd at 12. Bydd hyn yn atgyfnerthu ein Hataliaeth Barhaus ar y Môr (CASD) ac yn rhoi'r DU mewn sefyllfa i gyflawni'r bartneriaeth AUKUS gydag UDA ac Awstralia.
- Byddwn yn adeiladu hyd at 7,000 o arfau pellter hir newydd yn y DU i ddarparu mwy o ataliaeth i Ewrop gan gynnal tua 800 o swyddi.
- Byddwn yn buddsoddi mewn arloesedd o'r radd flaenaf mewn systemau awtonomaidd yn y Senedd hon i roi hwb i botensial allforio'r DU. A byddwn yn buddsoddi dros £1bn i integreiddio ein Lluoedd Arfog drwy We Targedu Digidol newydd a gyflwynir yn 2027.

- Byddwn yn darparu arweiniad yn NATO, drwy drawsnewid ein cludwyr awyrennau er mwyn sefydlu'r adain awyr hybrid gyntaf yn Ewrop—gyda jetiau cyflym, arfau pellter hir a dronau.
- Byddwn yn sefydlu Arloesedd Amddiffyn y DU gyda £400m i ariannu a thyfu cwmnïau yn y DU.
- Byddwn yn creu Swyddfa Allforion Amddiffyn newydd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn i sbarduno allforion i'n cynghreiriaid a thwf gartref.
- Byddwn yn adnewyddu llety milwrol mewn rhaglen unwaith mewn cenhedlaeth, gydag o leiaf £7bn o gyllid yn y Senedd hon—gan gynnwys dros £1.5bn o fuddsoddiad newydd ar gyfer gwaith sydyn i drwsio cyflwr gwael tai teuluoedd y lluoedd arfog.

## Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn

Byddwn yn datblygu Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn newydd i gyflawni gweledigaeth yr Adolygiad Strategol. Byddwn yn sicrhau bod y Cynllun yn gyraeddadwy ac yn fforddiadwy, yn ystyried seilwaith ochr yn ochr â galluoedd, yn caniatáu hyblygrwydd i fanteisio ar gyfleoedd technoleg newydd, ac yn manteisio i'r eithaf ar wariant amddiffyn i dyfu economi'r DU. Bydd hwn yn disodli'r hen Gynllun Offer Amddiffyn.

Bydd hyn yn rhoi'r offer a'r dechnoleg orau yn nwylo ein lluoedd rheng flaen yn gyflym ac, yn bwysig iawn, yn buddsoddi yn economi'r DU ac yn ei thyfu. Bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn yn cael ei gwblhau yn ystod hydref 2025.

**Y Gwir Anrhydeddus John Healey AS**






# Adolygiad Amddiffyn Prydain

# Rhagair gan yr Adolygwyr







**Pan ofynnodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Amddiffyn i'r tri ohonom—un gwleidydd, un milwr, ac un arbenigwr polisi tramor—i arwain, yn allanol, yr Adolygiad Amddiffyn Strategol newydd, yr oedd y byd eisoes mewn cyfnod cythryblus. Roedd Rwsia, sy'n wladwriaeth ag arfau niwclear, wedi goresgyn a meddiannu rhan o wladwriaeth sofran gyfagos mewn modd creulon ofnadwy. Ac wrth wneud hyn, cafwyd cefnogaeth gan Tsieina, cyfarpar o Iran, a milwyr o Ogledd Corea ar dir Ewrop am y tro cyntaf erioed.**

Mae natur anrhagweladwy y digwyddiadau hyn a digwyddiadau byd-eang eraill, ynghyd â chyflymder y newid ym mhob maes, wedi creu bygythiadau a gwendidau brawychus newydd i'n gwlad—gyda'r byd mewn cyfnod o gymhlethdod peryglus.

A dweud y gwir, mae'r cyd-destun geo-wleidyddol wedi gwaethygu fwy fyth ers i ni ddechrau ar ein gwaith. Mae'r heriau i'r Byd Rhydd wedi dwysau gyda'r gystadleuaeth i fod y 'prif bŵer' honedig ac wrth i'r consensws ar ôl yr Ail Ryfel Byd ddatgymalu. Mae'r sicrwydd o amgylch y drefn ryngwladol a dderbyniwyd ers cyhyd bellach yn cael ei herio—ac nid gan yr awdurdodwyr yn unig. Mae'r bwrdd gwyddbwyll rhyngwladol wedi cael ei droi ben i wared.

Mewn byd lle mae'r amhosibl heddiw'n dod yn anochel yfory, ni ellir gorffwys ar ein rhwyfau ynghylch amddiffyn ein gwlad. Ni ellir ystyried mwyach bod amddiffyn yn rhywbeth sy'n cael ei gontractio i'n Lluoedd Arfog yn unig, er cystal a dewr ydynt hwythau. Wrth i ni wynebu nifer o fygythiadau a heriau nawr ac yn y dyfodol, mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu fel cymdeithas gyfan. Mae gan bawb ran i'w chwarae ac mae angen cael sgwrs genedlaethol am sut rydym ni'n gwneud hyn.

I ddechrau, gofynnodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Amddiffyn i ni, yr Adolygwyr, 'bennu'r rolau, y galluoedd a'r diwygiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau, bygythiadau a chyfleoedd yr unfed ganrif ar hugain'. Dros yr un-ar-ddeg mis diwethaf, dyna yr ydym wedi ceisio'i wneud. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn ffrwyth llafur o graffu manwl ar bob agwedd ar Amddiffyn, ac mae wedi cynnwys un o'r ymgynghoriadau dwysaf a mwyaf trylwyr erioed ar y pwnc.

Mae'n adolygiad trawsnewidiol a strategol go-iawn. Fe'i luniwyd i atgyfnerthu ataliaeth drwy ail-adeiladu ein parodrwydd i ymladd rhyfel. Mae'n dwyn i gof y geiriau 'Os ydych chi'n deisyfu heddwch, paratowch am ryfel'. Mae ein rhaglen niwclear ataliol annibynnol, un o'r ffactorau dylanwadol sydd ar flaen meddwl ein gelynion, wedi ymrwymo i NATO ac, o'r herwydd, mae'n cyfrannu at ddiogelwch y gymuned Ewro-Iwerydd gyfan. Mae'n cael ei adnewyddu.

Rydym yn cynnig cyfuniad o gryfhau ein gwydnwch gartref a model newydd o Lu Integredig, sy'n rhoi NATO yn gyntaf. Drwy hynny, rydym yn sicrhau y bydd pobl Prydain yn fwy diogel gartref ac yn fwy dylanwadol

dramor. Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn disgwyl brwydro yn y dyfodol yn erbyn pŵer milwrol 'cyfatebol' mawr ar ein pen ein hunain. NATO yw carreg sylfaen ein hamddiffyniad, gyda 31 o wledydd eraill wedi ymrwymo i ddiogelu'n gilydd. Mae biliwn o bobl yn ardal yr Ewro-Iwerydd yn cysgu'n dawel bob nos, wedi'u gwarchod gan gymal amddiffyn ar y cyd, sef Erthygl V o Gytuniad Gogledd Iwerydd. Rhaid i ni weithio'n galed i sicrhau bod hyn yn parhau, gan roi hwb i'r Gynghrair drwy ein dull gweithredu a'n hymdrechion beunyddiol.

Drwy archwilio pob agwedd ar Amddiffyn yn drwyadl, mae'r Adolygiad yn herio'r syniad o 'fusnes fel arfer', yn union fel y mae ein gelynion ninnau hefyd wedi datblygu a moderneiddio. Mae'n cynnig partneriaeth newydd gyda diwydiant, dan arweiniad Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol newydd pwerus, i sicrhau bod gan ein lluoedd y cyfarpar sydd eu hangen arnynt—yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Mae gan drethdalwyr hawl i fod yn hyderus bod yr arian y maent yn ei dalu i'w cadw'n ddiogel yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ac yn briodol.

Bydd yr Adolygiad yn rhoi hwb i'r Lluoedd Wrth Gefn, yn rhoi bywyd newydd i hyfforddiant, yn mynd i'r afael â phroblemau llety milwyr, yn cael gwared ar fiwrocratiaeth gynhenid, ac yn newid y diwylliant ym maes Amddiffyn. Gan ddysgu o'r datblygiadau arloesol sydd ar waith yn Wcráin, y wers sylfaenol ar gyfer y presennol yw bod yn rhaid i dechnoleg ddatblygu'n gyflymach nawr nag ar unrhyw adeg yn hanes dyn—rhaid i'n lluoedd ein hunain, a'r adran Amddiffyn gyfan, arloesi ar gyflymder rhyfel. Dros amser, bydd rhaid gwyrdroi'r duedd o wanhau ein lluoedd—sef nodwedd o'r 'difidend heddwch' mawr ar ôl i'r Rhyfel Oer ddod i ben.

Gofynnwyd i ni gynnal ein Hadolygiad o fewn cyd-destun cyllidebol o drawsnewid i 2.5% o GDP.[1] Rydym yn cydnabod, diolch byth, y bydd hyn yn berthnasol o 2027, ac nid dim hwyrach. Yr hyn sydd hefyd yn arwyddocaol yw'r dyhead i wario 3% o GDP ar amddiffyn yn y 2030au os bydd yr amodau economaidd ac ariannol yn caniatáu hynny. Mae hyn yn newyddion da o ystyried y gallai'r 2.3% presennol (sy'n cynnwys buddsoddiad sylweddol yn y rhaglen niwclear ataliol, sef prif flaenoriaeth amddiffyn y DU, ac ymrwymiadau craidd eraill) fod wedi gorfodi gwneud arbedion mewn galluoedd hanfodol.

Rydym yn hyderus bod y trawsnewidiad rydym yn ei gynnig ar gyfer y byd caletach hwn rydym yn byw ynddo nawr yn mynd i fod yn fforddiadwy dros ddeng mlynedd, o ystyried yr adnoddau newydd hyn sy'n cael eu haddo. Fodd bynnag, gan ein bod yn byw mewn cyfnod mor gythryblus, efallai y bydd angen symud yn gyflymach. Mae modd cyflymu'r cynllun rydym wedi'i gyflwyno i naill ai roi mwy o sicrwydd neu i gynnull system Amddiffyn mewn argyfwng.

Rydym wedi cynnal yr Adolygiad hwn ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (nid ar ei chyfer), ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Amddiffyn. Felly, ni ddylai'r cynnwys achosi unrhyw sioc iddynt—hyd yn oed os nad oeddem wedi sicrhau consensws ac yn sicr nid ydym yn cefnu ar y cyfle i fod yn feiddgar ac yn radical.

Mae'r Adolygiad wedi elwa o ymdrechion ac arbenigedd ein cyd-arolygwyr, 'Tîm Adolygiad Amddiffyn 6': Grace Cassy; Edward Dinsmore; Jean-Christophe Gray; Angus Lapsley; Robin Marshall; a'r Gwir Anrhydeddus Syr Jeremy Quin. Rydym hefyd wedi cael cymorth arwrol drwyddi draw gan dîm o bobl ymroddedig, talentog, o sawl adran wahanol—o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Lluoedd Arfog, adrannau eraill y Llywodraeth, a charfan o swyddogion cyswllt milwrol rhyngwladol a swyddogion sifiliaid. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt oll.

**Yr Arglwydd Robertson o Port Ellen KT GCMG**

**Y Cadfridog Syr Richard Barrons KCB CBE**

**Dr Fiona Hill CMG**

1 Gyda chyfraniad Cymuned Cudd-wybodaeth y DU, bydd gwariant ar amddiffyn yn codi i gyfanswm o 2.6% o GDP o 2027.



# 1. Cyflwyniad a Throsolwg

1. **Mae'r her i'n cenhedlaeth ni heddiw yn gofyn am ymateb dros genhedlaeth.** Am y tro cyntaf ers diwedd y Rhyfel Oer, mae'r DU yn wynebu bygythiadau lluosog, uniongyrchol i'w diogelwch, ei ffyniant a'i gwerthoedd democrataidd. Mae'r byd i gyd yn wynebu cyfnod anwadal ac ansicrwydd difrifol.

2. Mewn ymateb, rhaid i'r DU, gyda'i chynghreiriaid—yn enwedig y rhai yn NATO—fod yn barod unwaith eto i ddelio â'r amgylchiadau anoddaf un: **atal a rhwystro rhyfel llawn drwy fod yn barod i ymladd ac i ennill**. Tan yn ddiweddar, byddai rhyfel o'r fath yn erbyn gwlad arall sydd â lluoedd milwrol datblygedig yn anodd ei gredu. Mae'n debyg y byddai'r ymateb hwn yn llawn dwyster, hirfaith a chostus ym mhob ffordd. Mae symud i sefyllfa lle'r ydym yn barod i ymladd rhyfel yn yr oes newydd hon yn hanfodol.

3. Wrth i ddatblygiadau cyflym mewn technoleg yrru'r newidiadau mwyaf ers dros ganrif o ran brwydro mewn rhyfel, **mae'n rhaid i'r DU droi at ffordd newydd o ryfela**. Rhaid harneisio technoleg newydd yn barhaus a meddwl yn wahanol am beth yw 'pŵer milwrol' confensiynol a sut i'w gynhyrchu. Mewn rhyfela modern, mae metrigau syml, fel nifer y bobl a'r platfformau a ddefnyddir, wedi dyddio ac yn annigonol. Bellach, rhaid cael rhwydweithiau deinamig o asedau â chriw, asedau heb griw, asedau awtonomaidd a llifoedd data i greu effaith filwrol a chapasiti i achosi angau,[2] gyda systemau milwrol yn gwneud penderfyniadau ar gyflymder peiriant ac yn gweithredu'n hyblyg ar draws parthau.

4. **Rhaid i Luoedd Arfog y DU allu goroesi unwaith eto mewn ymgyrchoedd hir** drwy gael mynediad sicr at alluoedd allweddol—a hyn i gyd yn cael ei seilio ar ddiwydiant ffyniannus sy'n barod i dyfu a chynnal arloesedd a chynhyrchiant yn ôl yr angen.

5. Ac mewn newid pendant o'r cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer, **mae'n hanfodol rhoi pwyslais o'r newydd ar amddiffyn a gwydnwch gartref hefyd**, gyda gweithgareddau 'o dan y trothwy',[3] mwy o fynediad at y gofod a'r gofod seiber, a datblygiadau di-ben-draw mewn systemau arfau i gyd yn ei gwneud yn haws i'n gelynion achosi niwed i'r DU, hyd yn oed o bell.

6. Lle mae adolygiadau blaenorol wedi mynd i'r afael â'r Lluoedd Arfog yn fwy cyfyng, mae'r Adolygiad Amddiffyn Strategol hwn yn **adolygiad 'o'r bôn i'r brig' o Amddiffyn yn y DU** a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2024 mewn ymateb i fyd sy'n newid yn gyflym. Mae'n amlinellu'r diwygiadau dwfn sydd eu hangen i '**sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gadarn gartref ac yn gydnerth dramor**—nawr ac am flynyddoedd i ddod'.[4]

---

2 Mae 'capasiti i achosi angau' yn cyfeirio at bŵer ymladd (grym niweidiol a dinistriol) y Lluoedd Arfog.

3 Mae ymosodiadau 'o dan y trothwy' yn ymosodiadau nad ydynt bob amser yn cyrraedd y trothwy cyfreithiol ar gyfer 'rhyfel'. Maent yn cynnwys defnyddio ysbïo, dylanwad gwleidyddol, sabotaj, llofruddio a gwenwyno, ymyrraeth etholiadol, twyllwybodaeth, propaganda, a dwyn Eiddo Deallusol (IP). Mae ymosodiadau o'r fath yn aml yn anodd eu priodoli'n ddiamheuol i droseddwr oherwydd y dulliau a ddefnyddir a'r ffaith bod gwladwriaethau'n aml yn dibynnu ar weithredwyr procsi. Yn yr Adolygiad hwn, rydym yn defnyddio'r term ymosodiad 'o dan y trothwy'. Efallai y bydd eraill yn cyfeirio atynt fel 'ymosodiadau tir llwyd' oherwydd bod gweithredoedd o'r fath yn y tir llwyd rhwng 'heddwch' a 'rhyfel', gan herio eglurder y gwahaniaeth cyfreithiol rhwng y ddau. Defnyddir y term 'rhyfela hybrid' yn gyfnewidiol yn aml o fewn y termau hyn ond rydym ni'n ystyried bod ganddo ystyr mwy penodol, lle defnyddir gweithredoedd milwrol 'cinetig' ar yr un pryd ag ymosodiadau o dan y trothwy i gyflawni amcanion y wladwriaeth.

4 Adolygiad Amddiffyn Strategol 2024-2025: Cylch gorchwyl - GOV.UK, 17 Gorffennaf 2024.

7. Dan oruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, cafodd yr Adroddiad Amddiffyn Strategol ei arwain gan Adolygwyr allanol: Yr Arglwydd (George) Robertson; y Cadfridog Syr Richard Barrons; a Dr Fiona Hill. Cafodd ei gynnal o fewn y Cylch Gorchwyl a bennwyd gan y Llywodraeth a'i gostio wedyn o fewn y gyllideb amddiffyn uwch o 2.5% o GDP o Ebrill 2027 a 3% yn y 2030s, yn amodol ar yr amodau economaidd a chyllidol.[5] Nodir proses yr Adolygiad, gan gynnwys ei ymgysylltiad sylweddol ag arbenigedd mewnol ac allanol, yn yr Atodiad.

8. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi:

- **Pam mae angen newidiadau i Amddiffyn yn y DU**, gan ystyried y cyd-destun rhyngwladol a'r cyd-destun diogelwch yn y cyfnod hyd at 2040 a chyflwr presennol Amddiffyn (Pennod 2).[6]
- **Pa rolau y dylai Amddiffyn eu chwarae ac ymhle** yn y blynyddoedd nesaf (Pennod 3).
- **Sut dylai'r Lluoedd Arfog frwydro a sut dylai Amddiffyn ehangach gefnogi'r frwydr honno**, gyda gweithlu sydd wedi'i rymuso a hyblyg i drawsnewid dulliau ymladd rhyfeloedd y DU (Pennod 4).
- **Ochr yn ochr â phwy y dylai Amddiffyn ymladd**: pa mor ganolog yw cynghreiriaid a phartneriaid er mwyn i'r DU allu adeiladu pŵer diwydiannol a galluoedd cyffredin, ac yn y pen draw ymladd ac ennill (Pennod 5); a phwysigrwydd creu cysylltiad o'r newydd â chymdeithas y DU i sicrhau gwydnwch a dyfnder strategol yn achos argyfwng neu wrthdaro (Pennod 6).
- **Galluoedd brwydro'r Llu Integredig** (Pennod 7), gan roi sylw i elfennau rheng flaen a galluoedd Amddiffyn sylfaenol y DU—creu grym sy'n addas ar gyfer rhyfel yn yr 21ain Ganrif drwy Gynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn newydd dros ddeng mlynedd.[7]

9. **Oes newydd o fygythiadau.** Mae hon yn foment bwysig iawn i'r DU a'i chynghreiriaid (Pennod 2). Roedd ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022 yn drobwynt strategol. Dangosodd hyn natur cyfnewidiol a deinamig y bygythiad, gyda rhyfel gwladwriaethol yn dychwelyd i Ewrop, gelynion yn defnyddio rhethreg niwclear mewn ymgais i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, a'r DU a'i chynghreiriaid o dan warchae yn ddyddiol gan weithredoedd o dan drothwy rhyfel wrth i gystadleuaeth ryngwladol ddwysau. Mae'r gwrthdaro hefyd wedi dangos grym technoleg newydd sydd wedi newid ble y caiff rhyfeloedd eu hymladd, sut a gyda beth. Mae perygl y bydd y Lluoedd Arfog nad ydynt yn newid ar yr un cyflymder â thechnoleg yn mynd yn ddiwerth.

10. Mae'n bwysig nodi mai dim ond un fflachbwynt o lawer yw Wcráin ymysg **ansefydlogrwydd ac anwadalrwydd cynyddol yn y byd a amlygir gan gyflymder rhyfeddol y newidiadau yn y dirwedd ryngwladol** ers lansio'r Adolygiad hwn yn 2024. Yr hyn sydd fwyaf amlwg adeg ysgrifennu'r adroddiad

5 Adolygiad Amddiffyn Strategol 2024-2025: Cylch gorchwyl - GOV.UK, 17 Gorffennaf 2024; Datganiad Llafar y Prif Weinidog i Dŷ'r Cyffredin: 25 Chwefror 2025. Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd y bwriad i gydnabod cyfraniad UKIC (Cymuned Cudd-wybodaeth y DU) at amddiffyn y DU, gydag Amddiffyn ac UKIC gyda'i gilydd yn gwario 2.6% o'r GDP ar amddiffyn erbyn 2027.

6 Mae'r Adolygiad hwn wedi ystyried y cyd-destun strategol yn y cyfnod hyd at 2040. Fodd bynnag, mae rhaglenni'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio ar gylchoedd o ddeng mlynedd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad hwn, sy'n cyfleu gweledigaeth ar gyfer Amddiffyn a llwybr at drawsnewid erbyn 2035.

7 A fydd yn disodli'r Cynllun Cyfarpar.

hwn yw'r: trafodaethau am gadoediad yn rhyfel Wcráin-Rwsia; y posibilrwydd o ddanfon 'llu sicrwydd' i Wcráin petai yna gadoediad; a chwestiynau mawr am ddyfodol diogelwch yn Ewrop sy'n anochel ar ôl i'r Unol Daleithiau newid ei blaenoriaethau diogelwch gyda'i ffocws nawr yn troi at yr Indo-Môr Tawel a diogelu'r famwlad.[8] Yn y bôn, nid yw rhagdybiaethau hirsefydlog y DU am strwythurau a balansau pŵer byd-eang mor sicr mwyach.

11. Mae Lluoedd Arfog y DU wedi dechrau ar broses angenrheidiol o newid mewn ymateb i'r realiti newydd hwn. Ond nid yw'r cynnydd wedi bod yn ddigon cyflym na radical. **Mae'r Lluoedd Arfog yn dal i gael eu siapio gan risgiau a gofynion y cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer**—wedi'u teilwra'n bennaf ar gyfer gwrthdaro yn erbyn gweithredwyr nad ydynt yn wladwriaethau ar ymylon Ewrop a thu hwnt. Er bod y rhain yn sylweddol ac yn heriol, nid oedd y gweithrediadau hyn yn gofyn bod 'cymdeithas gyfan' yn ymbaratoi ar gyfer rhyfel, amddiffyn gartref, cadernid, a chynhyrchiant diwydiannol.

## Oes newydd i Amddiffyn yn y DU

12. Mewn ymateb i'r cyd-destun strategol hwn, mae ein Hadolygiad yn disgrifio oes newydd ar gyfer Amddiffyn. Gan adeiladu ar y newidiadau sydd eisoes ar waith, **ein gweledigaeth yw y bydd Amddiffyn y DU, erbyn 2035:**




8 Sylwadau Agoriadau gan yr Ysgrifennydd Amddiffyn Pete Hegseth yng Ngrŵp Cyswllt Amddiffyn Wcráin, Brwsel, Gwlad Belg, 12 Chwefror 2025.

**Yn bŵer amddiffyn blaenllaw sy'n defnyddio technoleg, gyda Llu Integredig sy'n atal, yn ymladd ac yn ennill drwy arloesi'n gyson ar gyflymder rhyfel.**

Rhaid i Amddiffyn allu cyflawni ei rôl sylfaenol: sef atal bygythiadau i'r DU a'i chynghreiriaid drwy ymbaratoi ar gyfer rhyfel, a darparu polisi yswiriant cadarn petai ataliaeth yn methu. Dylid mynd ar drywydd hyn fel rhan o ddull gweithredu cymdeithas gyfan ar gyfer atal ac amddiffyn, lle mae Amddiffyn yn cyfuno ei gryfderau â rhai'r Llywodraeth, diwydiant a chymdeithas yn ehangach.

## Rolau Amddiffyn y DU

13. Y man cychwyn ar gyfer yr Adolygiad hwn yw polisi 'NATO yn Gyntaf' y Llywodraeth (Pennod 3). Mae angen amlwg i'r DU ddyblu ei hymdrechion o fewn y Gynghrair a **chynyddu ei chyfraniad at ddiogelwch yr Ewro-Iwerydd** yn fwy eang—yn enwedig wrth i ymddygiad ymosodol Rwsia dyfu ar draws Ewrop ac wrth i Unol Daleithiau America addasu ei blaenoriaethau rhanbarthol. Wrth wneud y newid hwn, dylid prif-ffrydio'r Gynghrair o ran sut mae Amddiffyn yn cynllunio, yn meddwl ac yn gweithredu.

14. **Nid yw 'NATO yn Gyntaf' yn golygu 'NATO yn unig'**. Dylai'r DU fabwysiadu dull pragmatig o gryfhau cyd-ddiogelwch yn yr Ewro-Iwerydd drwy gyfrwng partneriaethau dwyochrog ac amlochrog[9] cryfach. Mae'r Gynghrair ei hun yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid y tu allan i'r rhanbarth—gan adlewyrchu'r cysylltiad rhwng diogelwch yr Ewro-Iwerydd a diogelwch rhanbarthau eraill fel y Dwyrain Canol a'r Indo-Môr Tawel. Rhaid i Amddiffyn hefyd allu canlyn a diogelu buddiannau, ymrwymiadau a chyfrifoldebau sylweddol y DU y tu allan i'r rhanbarth, gan gynnwys amddiffyn ei thiriogaeth sofran.

15. Serch hynny, gwelir pwysigrwydd sylfaenol diwallu ymrwymiadau'r Gynghrair a siapio ataliaeth yn yr Ewro-Iwerydd bob dydd yn y **rolau parhaus sy'n atgyfnerthu ei gilydd, y mae'n rhaid i Amddiffyn eu cyflawni**. Dyma'r tair rôl graidd i Amddiffyn:

    - **Rôl 1:** Amddiffyn, gwarchod a gwella gwydnwch y DU, ei Thiriogaethau Tramor, a'i Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron.
    - **Rôl 2:** Atal ac amddiffyn yn yr Ewro-Iwerydd.
    - **Rôl 3:** Dylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang.

    Y ddwy swyddogaeth galluogi ar gyfer Amddiffyn yw:

    - Datblygu sylfaen ddiwydiannol ac arloesedd ffyniannus a chadarn o ran amddiffyn.
    - Cyfrannu at gydlyniant a pharodrwydd cenedlaethol.

## Trawsnewid gallu'r DU i ymladd rhyfeloedd

16. Er mwyn ymateb i fygythiadau heddiw ac yfory, **rhaid i Amddiffyn newid yn sylfaenol sut mae'n brwydro a sut mae'n cefnogi'r frwydr honno**: gan gynyddu'n gyflym capasiti'r Lluoedd Arfog i achosi angau, ac i frwydro drwy arloesi ym maes technoleg (Pennod 4). Gan ddefnyddio gwersi o'r rhyfel yn Wcráin a'r newidiadau sefydliadol a alluogir drwy Diwygio Amddiffyn, dylai'r cyfan o'r gwaith Amddiffyn (y Lluoedd Arfog ac Adran y Wladwriaeth gyda'i gilydd) gael ei sbarduno gan **resymeg y cylch arloesi**—

9 Hynny yw, mewn grwpiau gyda nifer fach o wledydd a grwpiau gyda nifer fwy o wledydd.

sef gallu darganfod arloesedd, ei brynu a'i ddefnyddio, a'i wthio drwodd o'r cysyniad cychwynnol i'r rheng flaen yn gyflym.

17. **Wrth wraidd y trawsnewidiad hwn mae tri newid sylfaenol yn y dull gweithredu.** Rhaid i Amddiffyn gyflawni'r canlynol:

**Integreiddio drwy ddyluniad.** Er mwyn i'r Lluoedd Arfog fod mor effeithiol â phosibl o ran capasiti i achosi angau, **rhaid iddynt gwblhau'r daith o newid o 'gydweithio' i 'integredig'**: wedi'u dylunio a'u cyfarwyddo fel un llu o dan awdurdod Pennaeth y Staff Amddiffyn, ac yn cael eu darparu yn unol â'r dyluniad hwn gan un Drefn Reoli Strategol a Gwasanaethau. O dan y model newydd hwn, nid oes angen darparu dyluniad llu sefydlog erbyn dyddiad penodol. Rhaid i ddyluniad a galluoedd y Llu Integredig, a'r ffordd y caiff ei gefnogi gan Amddiffyn yn ehangach, barhau i esblygu yn yr un modd â bygythiadau a thechnoleg. Rhaid i'r Llu Integredig **allu gweithredu mewn gwahanol ffurf**: fel rhan o Drefniadau Rheoli NATO yn ôl ei ddyluniad; mewn clymblaid; ac fel grym sofran. Er mwyn cyflawni newid sylweddol yn ei gapasiti i achosi angau, rhaid i'r Llu Integredig fod yn **seiliedig ar sylfaen ddigidol gyffredin a data a rennir.** Dylai darparu fod yn un o'r prif flaenoriaethau. Dylai un 'cenhadaeth ddigidol'—i ddarparu 'gwe targedu' digidol[10] yn 2027—alluogi Amddiffyn i lwyddo lle mae wedi methu o'r blaen, yn ogystal â chreu grŵp arbenigol o Ymladdwyr Rhyfel Digidol y gellid eu defnyddio ochr yn ochr â'r personél rheng flaen (Pennod 4.1).

**Arwain gan arloesedd.** Heddiw, mae llawer o'r arloesi gorau i'w weld yn y sector preifat, tra bo'r cynnydd mewn amlygrwydd technolegau defnydd deuol[11] wedi ehangu'r rhwyd o ddarpar gyflenwyr sy'n gallu cyfrannu at ganlyniadau Amddiffyn. **Rhaid i amddiffyn gofleidio ei rôl o ran sbarduno arloesedd a thwf**, gan fabwysiadu technoleg newydd yn gyflym i gadw'r Llu Integredig ar flaen y gad o ran rhyfela. Yn benodol, dylai Amddiffyn feithrin perthynas â'r buddsoddwyr y tu ôl i'r arloeswyr. Dylid ceisio arbenigedd allanol yn systematig drwy Grŵp Cynghori newydd ar gyfer Buddsoddwyr Amddiffyn, gydag aelodau'n cynnwys buddsoddwyr cyfalaf menter ac ecwiti preifat, a bod cyllid preifat yn cael ei ddwyn i mewn o dan fodelau cyllido newydd. Er mwyn paratoi ar gyfer llwyddiant yn fewnol, dylai Amddiffyn ad-drefnu'r strwythurau presennol i greu dau sefydliad ar wahân o dan y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol:

- Sefydliad Ymchwil a Gwerthuso Amddiffyn,[12] sy'n canolbwyntio ar alluogi ymchwil camau cynnar allanol ac sy'n agor y drws i academia.
- Sefydliad newydd ar gyfer Arloesedd Amddiffyn y DU (UKDI),[13] sy'n canolbwyntio ar harneisio arloesedd masnachol, gan gynnwys technolegau defnydd deuol. Bydd gan UKDI gyllideb flynyddol wedi'i chlustnodi o £400m o leiaf (Pennod 4.2).

**Cefnogir gan ddiwydiant.** Er mwyn datblygu sylfaen ddiwydiannol ac arloesedd ffyniannus a chadarn i gefnogi'r Llu Integredig, **rhaid i Amddiffyn greu partneriaeth newydd gyda diwydiant.**

10 Byddai'r we targedu digidol yn cysylltu 'synwyryddion', 'penderfynwyr', ac 'effeithiau'. Mae hyn yn arwain at ddewis a chyflymder wrth benderfynu sut i ddifrodi neu ddinistrio targed penodol ar draws parthau, ac mewn parth seiber ac electromagnetig cystadleuol.

11 Technoleg a ddatblygwyd at ddefnydd bywyd sifil ond sydd hefyd â defnydd milwrol o bosibl.

12 Gan gadw'r brand Dstl o bosib.

13 Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Government to turbocharge defence innovation - GOV.UK.

Wedi'i arwain gan y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn sydd ar y gweill ac o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol, mae hyn yn golygu **ailwampio prosesau caffael** o'r gwaelod i'r brig: gan ymgysylltu â diwydiant yn gynnar mewn prosesau caffael ar ganlyniadau dymunol; sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu gwobrwyo am gynhyrchiant a chymryd risgiau; a lleihau'r baich ar ddarpar gyflenwyr, boed y rheini'n fusnesau newydd neu'n brif gwmnïau. Wrth galon y bartneriaeth hon, dylid meithrin agwedd newydd, wedi'i segmentu, at gaffael:[14]

- Platfformau modiwlaidd mawr (contractio o fewn dwy flynedd).
- Uwchraddio'n gyflym ar batrwm troellen a modiwlaidd (contractio o fewn blwyddyn).
- Masnacheiddio'n gyflym iawn (contractio o fewn tri mis), gydag o leiaf 10% o gyllideb caffael offer Amddiffyn yn cael ei wario ar dechnolegau newydd bob blwyddyn.

**Dylid hefyd prif-ffrydio allforion a phartneriaethau gyda galluoedd rhyngwladol**[15] i brosesau caffael o'r cychwyn cyntaf, gyda'r cyfrifoldeb dros allforion amddiffyn yn cael ei roi yn ôl i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn ogystal â fframwaith newydd ar gyfer adeiladu a chynnal cydberthnasau llywodraeth-i-lywodraeth. Dylai penderfyniadau buddsoddi ystyried y costau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn wirioneddol fforddiadwy—er enghraifft, caffael, cymorth ac uwchraddio gydol oes, a newidiadau i seilwaith ategol (Pennod 4.2).

18. Drwy ddefnyddio ei bŵer marchnad yn fwy pwrpasol a thrwy flaenoriaethu busnes yn y DU, dylai Amddiffyn hefyd anelu at **gyflawni ar gyfer economi'r DU a darparu ar gyfer ymladdwyr rhyfel yr un pryd.** Mae gan amddiffyn **botensial sylweddol heb ei wireddu i fod yn beiriant newydd ar gyfer twf** wrth galon strategaeth economaidd y DU. Byddai diwygio radical o'r bôn i'r brig ym maes caffael amddiffyn—ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn arloesi, technoleg newydd, gweithgynhyrchu uwch, a sgiliau—yn cynyddu gallu cynhyrchiol economi'r DU. Dylai Amddiffyn anelu'n uchel, gan fesur llwyddiant o ran nifer a maint cwmnïau technoleg amddiffyn a defnydd deuol yn y DU. Bydd llwyddiant hefyd yn golygu **gwelliant sylweddol mewn cynhyrchiant Amddiffyn, cystadleurwydd, allforion a gwerth am arian**, a chaiff hyn ei gefnogi gan y Cynllun Effeithlonrwydd a Diwygio Amddiffyn[16] newydd (Pennod 4.2).

19. Yn y pen draw, **rhaid i bobl y DU gyflawni'r trawsnewidiad hwn i Amddiffyn** (Pennod 4.3), wedi'u grymuso gan newidiadau mewn polisïau 'pobl' a diwylliant sy'n cael gwared ar fiwrocratiaeth ac sy'n dileu ymddygiad annerbyniol yn y gweithle. Mae angen ymyriad wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r argyfwng yn y gweithlu Amddiffyn—gwella recriwtio drwy opsiynau cyflymach a mwy hyblyg fel 'blynyddoedd i ffwrdd' milwrol, gwella lefelau cadw drwy

14 Cyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ym mis Mawrth 2025. Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 36.

15 Megis AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang (GCAP). O dan AUKUS, bydd Awstralia, y DU a'r Unol Daleithiau yn datblygu llongau tanfor niwclear wedi'u harfogi'n gonfensiynol y gellir eu cyfnewid, yn ogystal â thechnolegau datblygedig fel AI, systemau awtonomaidd, seiber, taflegrau hypersonig, a rhyfela o dan y dŵr. O dan GCAP, bydd yr Eidal, Japan a'r DU yn datblygu awyren y chweched cenhedlaeth—rhan o'r System Brwydro Awyr y Dyfodol (Future Combat Air System), sy'n cynnwys awyrennau â chriw, platfformau heb griw, arfau'r genhedlaeth nesaf, rhwydweithiau a rhannu data.

16 Datganiad Llafar y Prif Weinidog i Dŷ'r Cyffredin: 25 Chwefror 2025.

gynllun gweithio hyblyg arfaethedig y Weinyddiaeth Amddiffyn, a blaenoriaethu buddsoddiad yn y Senedd hon yn y llety sy'n bell iawn o'r safonau angenrheidiol ar hyn o bryd.

20. **Rhaid canolbwyntio ar sicrhau bod y 'llu cyfan'[17] mor effeithiol â phosibl:**

- Er mwyn cyflawni'r rolau a nodir yn yr Adolygiad hwn, nid oes lle i leihau nifer y Milwyr Parhaol sydd wedi'u hyfforddi a'u harfogi'n dda ar draws y tri Gwasanaeth, hyd yn oed wrth i'r lluoedd symud tuag at roi llawer mwy o bwyslais ar awtonomi. Yn gyffredinol, rydym yn rhagweld cynnydd yng nghyfanswm nifer y personél Rheolaidd pan fydd cyllid yn caniatáu hynny. Mae hyn yn cynnwys cynnydd bach yn nifer Milwyr Rheolaidd y Fyddin fel blaenoriaeth.
- Gan gynyddu nifer y Milwyr Wrth Gefn 20% pan fydd cyllid yn caniatáu (yn fwyaf tebygol yn y 2030au), ac adfywio'r berthynas â'r Lluoedd Wrth Gefn Strategol.
- Ail-lunio gweithlu'r Gwasanaeth Sifil gyda phwyslais ar berfformiad, cynhyrchiant a sgiliau, gan leihau costau o leiaf 10% erbyn 2030.
- Rhyddhau staff milwrol o swyddogaethau swyddfa gefn i rolau rheng flaen ac awtomeiddio 20% o swyddogaethau AD, Cyllid a Masnachol erbyn Gorffennaf 2028. Dylai hyn fod yn gam cyntaf o leiaf.
- Diwygio hyfforddiant ac addysg fel eu bod yn addasu llawer mwy i wersi gweithredol, gan sicrhau y gellir cymryd risgiau dan reolaeth mewn hyfforddiant milwrol, a chreu mwy o gapasiti a hyblygrwydd drwy ddatblygu un amgylchedd ar-lein. Dylid defnyddio cymwysterau a darpariaeth addysg sifil lle bo hynny'n bosibl i gynyddu effeithlonrwydd ac i leihau'r rhwystrau rhwng Amddiffyn, diwydiant a chymdeithas ehangach.

## Cryfhau ataliaeth drwy gynghreiriau a phartneriaethau

21. **Rhaid i'r DU gryfhau cyd-ddiogelwch a chreu dyfnder strategol drwy fuddsoddi'n weithredol yn ei berthnasoedd** (Pennod 5). Mae adnoddau cyfyngedig yn golygu na all y DU fod yn bopeth i bawb. Rhaid i'r DU flaenoriaethu ei ffordd o weithio, yn seiliedig ar y rolau a amlinellir ym Mhennod 3 a gan ddefnyddio'r ystod lawn o ddulliau sydd ar gael.

22. Mae cytundebau dwyochrog a phartneriaethau galluogrwydd—gyda'r Unol Daleithiau a Chynghreiriaid NATO Ewropeaidd—yn cynnig arf pwerus i gryfhau perthnasoedd a sefydlogrwydd Ewro-Iwerydd. Mae'r un peth yn wir am weithgarwch dwyochrog â nifer fach o wledydd, gan gynnwys y Fyddin Ymgyrchol ar y Cyd, a'r fformatau E3 ac E5.[18] Caiff hyn ei ategu drwy weithredu Partneriaeth Diogelwch ac Amddiffyn y DU a'r UE. Rhaid datblygu AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang fel patrwm o gydweithio ar alluogrwydd ac fel arwydd pwerus o uchelgais y DU i ddod â phartneriaid o ranbarthau daearyddol gwahanol yn nes at ei gilydd i gefnogi cyd-ddiogelwch. Mae ategu cefnogaeth i Wcráin er mwyn ceisio setliad gwleidyddol gwydn yn hanfodol, yn ogystal â dysgu o'r profiadau eithriadol mewn rhyfela ar y tir, gyda drôn, a brwydro hybrid.

17 Yn cynnwys y Lluoedd Rheolaidd ac Wrth Gefn, gweision sifil a chontractwyr.

18 Mae'r Llu Ymgyrchol ar y Cyd (Joint Expeditionary Force) yn cael ei harwain gan y DU ac mae'n cynnwys naw aelod arall: Denmarc; Estonia; y Ffindir; Gwlad yr Iâ; Latfia; Lithwania; yr Iseldiroedd; Norwy; a Sweden. Mae'r E3 yn fformat ar gyfer cydweithredu diplomyddol rhwng Ffrainc, yr Almaen a'r DU, tra bo'r E5 yn fformat ar gyfer cydweithredu diplomyddol rhwng Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Gwlad Pwyl a'r DU.

## Amddiffyn a gwydnwch gartref: dull cymdeithas gyfan

23. Mae **ffocws o'r newydd ar wydnwch ac amddiffyn gartref yn hanfodol i ataliaeth fodern**, gan sicrhau parhad bywyd cenedlaethol mewn argyfwng (Pennod 6). Dylai ail-greu'r cysylltiad rhwng Amddiffyn a chymdeithas fod yn fan cychwyn, fel rhan o sgwrs genedlaethol dan arweiniad y Llywodraeth ar amddiffyn a diogelwch. Gellir cyflawni hyn yn rhannol drwy ehangu'r Lluoedd Cadetiaid 30% erbyn 2030 (gydag uchelgais i gyrraedd 250,000 yn y tymor hwy) a drwy weithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog ymysg pobl ifanc mewn ysgolion.

24. **Mae angen corff mwy sylweddol o waith i sicrhau diogelwch a gwydnwch y seilwaith cenedlaethol hanfodol** a'r gwasanaethau hanfodol mae'n eu darparu. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda'r Llywodraeth ehangach, archwilio 'cytundeb newydd' ar gyfer diogelu ac amddiffyn y seilwaith cenedlaethol hanfodol sydd wedi'i wreiddio mewn partneriaeth â'r sector preifat a gweithredwyr cysylltiedig. I gefnogi hyn, dylai'r Llynges Frenhinol chwarae rôl arweiniol a chydlynol newydd i warchod piblinellau a cheblau o dan y môr a thraffig morol.

25. **Rhaid i'r Llywodraeth hefyd allu sicrhau trosglwyddiad cynaliadwy ac effeithiol i ryfel os oes angen.** Dylai Bil Parodrwydd i Amddiffyn newydd roi pwerau wrth gefn i'r Llywodraeth i ymbaratoi'r Lluoedd Wrth Gefn a diwydiant petai argyfwng yn datblygu'n wrthdaro. Dylai hefyd hwyluso craffu allanol ar barodrwydd y DU i ymladd rhyfeloedd.



## Y Llu Integredig: llu sy'n addas i ryfel yn yr 21ain ganrif

26. **Y dasg hanfodol yw trawsnewid y Lluoedd Arfog, adfer eu parodrwydd i ymladd, a gwrthdroi'r duedd o 'wanhau' y galluoedd sylfaenol** na ellir dygymod hebddynt mewn gwrthdaro hirfaith a dwys (Pennod 7).

27. **Rhaid i'r DU barhau i ymroi ei rhaglen niwclear ataliol annibynnol gyda NATO** (Pennod 7.1), gan addasu ei chynghreiriau, ei sylfaen ddiwydiannol, a'i galluoedd milwrol i sicrhau y gall barhau i atal y bygythiadau mwyaf eithafol. Bydd angen i'r DU gael sbectrwm llawn o opsiynau i reoli unrhyw ddwysau fel rhan o NATO, a hynny drwy ei grymoedd niwclear a chonfensiynol ar y cyd. Dylai Amddiffyn ddechrau trafod â'r Unol Daleithiau a NATO am fanteision ac ymarferoldeb posibl cyfraniad pellach y DU yn ymgyrch niwclear NATO. Byddai rhagor o fuddsoddiad mewn galluoedd ymosodiadau manwl confensiynol ac Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig yn cynyddu'r opsiynau ar gyfer atal ac ymateb i fygythiadau difrifol.

28. Rhaid i Uwch Weinidogion sbarduno ymdrechion i gynnal y rhaglen niwclear ataliol fel y brif flaenoriaeth Amddiffyn ac fel 'Ymdrech Genedlaethol'. Mae'r rhaglen i ddisodli'r arfben sofran yn hollbwysig a bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y Senedd hon. Byddai cadarnhau niferoedd arfaethedig y llongau tanfor ymosod SSN yn rhoi eglurder ynghylch y capasiti adeiladu a'r tempo angenrheidiol ar gyfer pob llong danfor niwclear. I sicrhau dyfodol hirdymor y rhaglen niwclear ataliol, rhaid i'r Llywodraeth ddechrau gweithio yn y Senedd hon i ddiffinio'r gofyniad am olynydd i'r llong danfor Dreadnought.

29. Dylai **symud tuag at ddefnyddio mwy o awtonomi a Deallusrwydd Artiffisial (AI) yng ngrymoedd confensiynol y DU** fod yn flaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer trawsnewid y llu (Pennod 7). Fel yn Wcráin, byddai hyn yn darparu mwy o gywirdeb, rhagor o gapasiti i achosi angau, a galluoedd rhatach—gan newid economeg Amddiffyn. Dylai'r symudiad hwn tuag at ddeallusrwydd artiffisial ac awtonomi fanteisio ar y datblygiad cyfochrog o sylfaen ddigidol gyffredin, Cronfa Fuddsoddi Amddiffyn mewn Deallusrwydd Artiffisial sydd wedi'i gwarchod, a galluogrwydd gweithredol cychwynnol ar gyfer Canolfan Systemau Amddiffyn Heb Griw newydd a gaiff ei sefydlu erbyn mis Chwefror 2026.

30. Dylai'r Lluoedd Arfog gyflymu'r newid hwn i gymysgedd 'uchel-isel' o offer—er enghraifft, drwy:
    - Cysyniad 'Atlantic Bastion' **y Llynges Frenhinol** ar gyfer diogelu Gogledd yr Iwerydd ar ran y DU a NATO a'i chynlluniau ar gyfer llongau cludo asgell awyr hybrid (Pennod 7.2).
    - Model 'Recce-Strike' **y Fyddin** ar gyfer grym ymladd ar y tir, gyda'r nod o arwain at ddatblygu deg gwaith y capasiti i achosi angau.[19] Dylai'r model newydd hwn fod yn sail i drawsnewid y ddwy adran a Phencadlys y Corfflu sydd wedi ymrwymo i Gorfflu Llu Wrth Gefn Strategol NATO (Pennod 7.3).
    - Datblygiad yr **RAF** o'r System Brwydro Awyr y Dyfodol—chweched genhedlaeth y jet gyda chriw yn gweithredu drwy blatfformau cydweithredol awtonomaidd (Pennod 7.4).

19 Wedi'i fesur yn erbyn model confensiynol o frigâd arfogaeth.

31. Gyda'r Llu Integredig yn ymladd fel un ar draws pob un o'r pum maes, rhaid rhoi mwy o sylw i'r parthau gofod a seiber ac electromagnetig (SeiberEM):[20]

- Mae mynediad sicr i weithredu yn y gofod, oddi yno a thrwyddo yn sail i ddiogelwch a ffyniant y DU. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fuddsoddi yng ngwydnwch systemau gofod milwrol, gan ganolbwyntio ar reoli'r gofod, mantais gwneud penderfyniadau, a galluoedd sy'n cefnogi swyddogaethau 'Deall' ac 'Ymosod'. Dylai'r is-bwyllgor Cabinet ar ei newydd wedd bennu dull strategol y DU o ymdrin â'r gofod, gan fanteisio i'r eithaf ar y synergeddau rhwng sector gofod sifil y DU ac anghenion milwrol clir (Pennod 7.5).
- Mae'r parth SeiberEM yr un mor hanfodol i ddiogelu a gweithredu yn yr holl barthau eraill ac mae'n hanfodol ar gyfer y we targedu digidol. Mae'n hanfodol cryfhau swyddogaethau Amddiffyn hanfodol i ymosodiadau seiber. Rhaid i Amddiffyn symud i sylfaen fwy rhagweithiol yn y maes hwn. Dylai'r Drefn Reoli SeiberEM newydd—a sefydlwyd o fewn y Drefn Reoli Strategol—efelychu'r Drefn Reoli Gofod wrth sicrhau cydlyniad y parth, yn hytrach na chyfarwyddo gweithrediad. Dylid sefydlu gallu gweithredu cychwynnol erbyn diwedd 2025 (Pennod 7.6).

32. Wrth Ddiwygio Amddiffyn, bydd y **Drefn Reoli Strategol** yn gyfrifol am gyflawni (ar gyfarwyddyd y Pencadlys Strategol Milwrol newydd) llawer o gyd-alluogwyr a galluoedd arbenigol y Llu Integredig—o Ddeallusrwydd Amddiffyn i'r Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang Integredig, Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn, a'r Lluoedd Arfog Arbennig (SF) a'r Lluoedd Gweithredoedd Arbennig (SOF). **Mae Lluoedd Arbennig y DU**—neu "flaen y llafn" fel y cânt eu hadnabod—yn cynrychioli model gweithredol y Llu Integredig, gan arwain y ffordd o ran arloesi technolegau a systemau newydd ar draws pob parth. Rhaid i Amddiffyn ddal ati i wella'r Lluoedd Arfog Arbennig, gan sicrhau dewis sofran y DU drwy gynnal y gallu strategol hwn ar y lefel uchaf un.

33. Er bo rhai adolygiadau yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar offer rheng flaen ar draul galluoedd sylfaenol, rydym wedi ceisio unioni'r cydbwysedd hwn. Rydym yn argymell canolbwyntio ar y canlynol:

- **Grymuso Deallusrwydd Amddiffyn** fel arweinydd swyddogaethol yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â deallusrwydd amddiffyn—rhoi sylw i flaenoriaethau a safonau cyffredin, wedi'u hategu gan siarter Deallusrwydd Amddiffyn newydd, ac, ymhen amser, sy'n gwbl rhyngweithredol â Chymuned Cudd-wybodaeth y DU (Pennod 7.9).
- **Ail-adeiladu Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn**, cydlynu gwahanol adnoddau meddygol amddiffyn a chychwyn adolygiad sbrint gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau y gellir diwallu anghenion personél adeg heddwch ac adeg rhyfel (Pennod 7.10).
- **Adfer y Pencadlys Strategol**[21] **y mae'r Lluoedd Arfog yn gweithredu oddi yno**: cyflwyno Cynllun Ailgyfalafu'r Seilwaith Amddiffyn erbyn mis Chwefror 2026 i fynd i'r afael â blynyddoedd

20 Mae'r sbectrwm electromagnetig a seiberofod bellach yn cael eu trin fel un parth milwrol (Pennod 7.6).

21 Y rhwydwaith seilwaith (meysydd awyr, porthladdoedd, warysau, pencadlysoedd a chanolfannau ymgyrchoedd), 'asedau trafnidiaeth' (fel trenau a llongau), a gweithgareddau i gludo milwyr a deunyddiau.

o danariannu a chanfod ffyrdd o gynyddu gwerth yr ystad fel ased cenedlaethol (Pennod 7.11).

- T**argedu buddsoddiad mewn cyd-gefnogi galluogwyr ac arfau rhyfel**. Dylai Amddiffyn gynnal galluoedd arfau sydd 'ar waith bob amser', gan osod y sylfeini diwydiannol i allu cyflymu cynhyrchiant os oes angen. Dylai hyn gael ei ategu gan ddatblygu ymhellach arfau newydd sy'n targedu ynni (Pennod 7).

## Y rheidrwydd i drawsnewid

34. **Mae angen dilyniant darbodus i sicrhau bod gan y Lluoedd Arfog yr hyn sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt** o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac i sicrhau'r budd gorau posibl ar fuddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys bod yn barod i sbarduno ymdrechion i drawsnewid y Lluoedd Arfog ac adfer parodrwydd petai'r amodau'n gwaethygu ymhellach, neu i fyddino Amddiffyn y DU yn gyflym os bydd argyfwng. Yn y cyfnod newydd ac ansicr hwn, ni ddylai neb synnu petai'n rhaid trawsnewid ymhellach ac yn gyflymach.

35. **Nid oes rheswm dros oedi cyn newid yn sylfaenol sut mae Amddiffyn yn gweithio**. Fodd bynnag, gellir defnyddio Diwygio Amddiffyn—y rhaglen barhaus o newid sefydliadol a diwylliannol (Blwch 1)—fel sbardun ar gyfer diwygio ar draws yr Adran Wladol a'r Lluoedd Arfog. Yn wahanol i adrannau eraill yn y Llywodraeth, nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn reolaeth dros yr amserlen adeg anghydfod neu wrthdaro. Ond mae gan 'ddigwyddiadau' a gelynion y DU hynny. Felly, mae angen gweithredu'n feiddgar a phendant. **Nid yw 'busnes fel arfer' yn opsiwn**.

36. Rydym yn ymwybodol iawn bod geiriau fel 'trawsnewid' wedi cael eu defnyddio o'r blaen mewn adolygiadau amddiffyn ond mai pur anaml y mae'r bwriad wedi cael ei gyflawni. Bydd Diwygio Amddiffyn yn ffactor allweddol o ran llwyddiant yn y blynyddoedd i ddod. Lle mae'r Adolygiad Amddiffyn Strategol yn datgan beth mae'n rhaid i Amddiffyn ei wneud yn y ddegawd nesaf a'r tu hwnt, bydd y rhaglen Diwygio Amddiffyn yn penderfynu yn y pen draw sut mae'n cael ei gyflawni, a pha mor llwyddiannus ydyw. I gefnogi gweithredu, rydym wedi nodi ymyriadau a dyddiadau allweddol i roi hwb pellach i gynnydd lle bu'n araf yn y gorffennol a lle bu diffyg atebolrwydd. Yn anorfod, y Weinyddiaeth Amddiffyn fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn o greu cynlluniau gweithredu manwl—sy'n gam hanfodol i sicrhau bod yr adran yn cymryd perchnogaeth dros ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad.



**Blwch 1: Diwygio Amddiffyn: paratoi ar gyfer llwyddiant ym maes Amddiffyn**

Pwrpas Diwygio Amddiffyn yw sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn a symlach, creu atebolrwydd cliriach, a phrosesau gwneud penderfyniadau cyflymach ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog. Y man cychwyn yw ailstrwythuro Amddiffyn o dan bedwar maes (Ffigur 1).


**Ffigur 1: Cyfrifoldebau uwch swyddogion a staff milwrol o dan y rhaglen Diwygio Amddiffyn**

Yr **Adran Wladol (DoS),** dan arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol a'r tîm gweinidogol, gyda chymorth yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Parhaol (PUS) sef:

- Y prif gynghorydd polisi, sy'n darparu'r weledigaeth, y strategaeth, a'r cynllun adrannol.
- Y Prif Swyddog Cyfrifyddu, sy'n atebol i'r Senedd am sicrhau bod yr adran Amddiffyn yn gweithredu o fewn y gyllideb ac yn darparu gwerth am arian.

**Grŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol (Grŵp NAD),** dan arweiniad y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol sy'n:

- Gyfrifol am barodrwydd y 'cyfarpar' cenedlaethol i fodloni gofynion cynlluniau amddiffyn.
- Llunio a chyflawni diwygiadau caffael a strategaeth ddiwydiannol i roi hwb i ddiwydiant amddiffyn y DU.




**Pencadlys Strategol y Lluoedd Arfog (MSHQ),** dan arweiniad Pennaeth y Staff Amddiffyn (CDS) sef:

- Pennaeth proffesiynol Lluoedd Arfog y DU, sy'n atebol am eu parodrwydd i frwydro ac i ennill.
- Rheolaeth ffurfiol dros Benaethiaid Gwasanaeth.
- Uwch Gynghorydd Milwrol i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.

Y **Sefydliad Niwclear Amddiffynnol (DNO)**, dan arweiniad y Pennaeth Niwclear Amddiffynnol (CDN) sef:

- Pwynt ffocws, noddwr a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y **Rhwydwaith Niwclear Amddiffynnol (DNE)**, o lunio'r strategaeth i'w chyflawni.
- Y DNE yw'r bartneriaeth o sefydliadau sy'n gweithredu, yn cynnal a chadw, yn adnewyddu, ac yn sicrhau rhaglen niwclear ataliol y DU.

Rydym yn cefnogi'n gryf y newid sefydliadol a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd Amddiffyn ac a geisir o dan Diwygio Amddiffyn. Wrth iddo fynd rhagddo dylai ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi meddylfryd 'Un Gwasanaeth Amddiffyn' drwy strwythurau rheoli gyrfa sy'n gwobrwyo ymddygiad a gweithrediad yn unol â hynny, gyda NATO yn brif ystyriaeth. Dylid edrych ar opsiynau mwy radical i ddileu seilos Gwasanaeth unigol, fel byrddau dyrchafu ar y cyd neu drefniadau rheoli gyrfaoedd canolog.
- Creu newid sylweddol yn nhrefniadau rheoli ariannol a rheoli rhaglenni'r adran. Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i'r Is-ysgrifennydd Parhaol gadw'r prif gyfrifoldeb dros gynllunio ariannol a rhaid iddo allu rhoi cyfrif am sefyllfa ariannol yr adran, hyd yn oed wrth i uwch arweinwyr eraill gael mwy o awdurdod ariannol yn eu priod feysydd cyfrifoldeb. Gellid symleiddio'r broses o gymeradwyo prosiectau a rhaglenni ymhellach drwy weithredu'n llawn y model 'tair llinell amddiffyn' safonol yn y diwydiant ar gyfer sicrhau risg.[22] Mae ymgorffori Trysorlys EM a Swyddogaeth Fasnachol Swyddfa'r Cabinet yn y model hwn yn rhoi'r seiliau yn eu lle ar gyfer gwell perthynas waith.
- Sicrhau bod rôl y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r diwydiant a phartneriaid rhyngwladol i ddatblygu agenda diwydiant amddiffyn ac allforion y Llywodraeth. Bydd hyn yn gofyn am ddirprwyo awdurdod dros reoli caffael ac elfennau eraill o waith Grŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol.
- Bydd cefnogi'r gwaith o fabwysiadu technolegau newydd yn barhaus, yn enwedig deallusrwydd artiffisial (AI), yn galluogi Amddiffyn i gymryd camau breision yn y ffordd y mae'n brwydro a'r cynhyrchiant y mae'n ei gyflawni. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gyfrannu at waith y Cynllun Gweithredu Cyfleon Deallusrwydd Artiffisial,[23] dan arweiniad yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, lle bynnag y bo modd.

Cawsom ein harwain yn bennaf gan y tîm Diwygio Amddiffyn, neu drwy gydweithio â nhw, ar y strwythurau sefydliadol mwyaf effeithiol ar gyfer llywodraethu a chyflawni ym maes Amddiffyn. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn, byddwn weithiau'n gwneud awgrymiadau i'w hystyried ynghylch rolau a chyfrifoldebau i'r rhaglen Diwygio Amddiffyn ddatblygu ymhellach.

22 Lle mai'r rheolwr rhaglen neu bortffolio yw'r pwynt sicrwydd risg (neu'r 'llinell amddiffyn') cyntaf, y bwrdd cymeradwyo mewnol yw'r ail bwynt, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n darparu'r trydydd pwynt sicrwydd drwy graffu allanol.

23 AI Opportunities Action Plan, 13 Ionawr 2025 – GOV.UK.



# 2. Yr Achos dros Drawsnewid

1. **Mae'r DU ar drothwy cyfnod newydd o fygythiadau a heriau.** Mae'r byd yn fwy anwadal ac yn fwy ansicr nag ar unrhyw adeg yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac mae'r newid yn digwydd yn eithriadol o gyflym.

2. **Unwaith eto, mae'r DU a'i chynghreiriaid dan fygythiad uniongyrchol gan wladwriaethau eraill sydd â lluoedd milwrol datblygedig.** Mae yna eisoes ymosodiadau dyddiol ar y DU—fel ysbïo, ymosodiadau seiber a chamddefnyddio gwybodaeth—sy'n achosi niwed i gymdeithas ac i'r economi. Mae rhyfel rhwng gwladwriaethau wedi dychwelyd i Ewrop, gyda Rwsia yn dangos pa mor barod ydyw i ddefnyddio grym milwrol, i achosi niwed i sifiliaid, ac i fygwth defnyddio arfau niwclear i gyflawni ei amcanion. Yn fwy cyffredinol, mae mantais filwrol hirdymor y Gorllewin yn lleihau wrth i wledydd eraill foderneiddio ac ehangu eu lluoedd arfog yn gyflym. Ar yr un pryd, mae blaenoriaethau diogelwch yr Unol Daleithiau yn newid, wrth i'w ffocws droi at yr Indo-Môr Tawel ac at ddiogelu'r famwlad.

3. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r darlun yw hyn. Yn y byd mwy cymhleth hwn, mae'n rhaid i'r DU ddelio ag amrywiaeth eang o heriau i'w diogelwch, ei ffyniant a'i gwerthoedd ar yr un pryd. Rhaid hefyd fod yn barod i dderbyn ac ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl a siociau, gan gydnabod nad oes modd atal neu amddiffyn rhag pob risg a bygythiad.

4. Mae adolygiadau blaenorol wedi cydnabod dirywiad cyflym yr amgylchedd diogelwch rhyngwladol. Fodd bynnag, nid yw newidiadau mewn Amddiffyn wedi digwydd ar yr un cyflymder â'r bygythiadau na maint yr her. **Mae'n amlwg felly bod rhaid newid meddylfryd.**

## Byd mwy ansefydlog ac ansicr: y cyd-destun strategol hyd at 2040

5. Mae'r amgylchedd y bydd Amddiffyn yn gweithredu ynddo dros y blynyddoedd nesaf yn cael ei lywio gan ddau brif duedd sy'n cyflymu'n sydyn:

   - **Twf mewn amlbegynedd a mwy o gystadleuaeth strategol** rhwng gwladwriaethau—a gweithredwyr nad ydynt yn wladwriaeth—am bwerau gwleidyddol, milwrol, economaidd a thechnolegol. Fel rhan o'r gystadleuaeth hon, mae gwladwriaethau'n ceisio ail-lunio'r drefn ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau sydd wedi bod yn llywodraethu cysylltiadau rhyngwladol ers yr Ail Ryfel Byd.[24] Mae'r newid clir ym mlaenoriaethau diogelwch yr Unol Daleithiau yn tanlinellu pa mor daer a gwahanol yw'r gystadleuaeth strategol ar hyn o bryd.
   - **Datblygiadau technolegol cyflym ac annisgwyl** sy'n sbarduno cystadleuaeth strategol ac sy'n newid yn barhaus sut y caiff y lluoedd arfog eu trefnu a'u harfogi, a sut y maent yn brwydro.

6. Mae'r tueddiadau hyn yn mynd rhagddynt yn erbyn **cefndir o heriau traws-wladol parhaus**, gan gynnwys:

   - **Newid yn yr hinsawdd a dirywiad amgylcheddol**: sy'n creu gwirioneddau daearyddol newydd a chystadleuaeth am adnoddau; sy'n sbarduno mudo, ansefydlogrwydd, a thrychinebau dyngarol mwy cyffredin; ac sy'n mynnu bod rhaid i'r fyddin addasu i weithredu mewn amodau

24 Y 'drefn ryngwadol sy'n seiliedig ar reolau' yw'r gyfres o ddeddfau, rheolau, normau a sefydliadau a sefydlwyd ers 1945 i alluogi cydweithrediad rhyngwladol mewn meysydd fel diogelwch, masnach a datblygu, hawliau dynol, rheoli arfau, a safonau technoleg.

tywydd mwy eithafol. Un ffactor sy'n arbennig o bwysig o safbwynt Amddiffyn yw'r tebygolrwydd y bydd yr Arctig a'r Gogledd Uchel yn 'ddi-rew' bob haf erbyn 2040, sy'n golygu y bydd gan fwy o weithredwyr fynediad i'r ardal gan greu safle newydd am gystadleuaeth yng nghymdogaeth ehangach y DU.

- **Bygythiad parhaus terfysgaeth.** Mae'r bygythiad a achosir gan grwpiau terfysgol tramor yn codi ei ben eto, gan fynnu sylw ac adnoddau.[25] Mae Daesh ac al-Qa'ida wedi esblygu ac mae cefnogaeth y wladwriaeth yn cynyddu galluoedd rhai grwpiau terfysgol, gan gynnwys eu galluoedd yn y seiberofod.
- **Newid demograffig anghyfartal yn fyd-eang**, sy'n newid cydbwysedd pŵer byd-eang ac yn sbarduno ansefydlogrwydd domestig a rhanbarthol, gan gynnwys drwy fudo, trefoli, a gofynion newydd ar lywodraethau o ran cyflogaeth a chymorth lles cymdeithasol.

7. Mae mynd i'r afael ag unrhyw un o'r heriau hyn yn anodd. **Mae mynd i'r afael â nhw i gyd ar yr un pryd yn brawf enfawr i'r DU ac i Amddiffyn.**

## Twf mewn amlbegynedd a mwy o gystadleuaeth strategol

8. Bydd mwy o gystadleuaeth strategol yn ei gwneud yn **anoddach i'r DU a'i chynghreiriaid siapio'r byd a digwyddiadau** er eu budd nhw. Mae'n bosibl y bydd angen setliadau ac atebion rhanbarthol wrth iddi ddod yn **fwyfwy anodd i wladwriaethau gyflawni amcanion cyffredin ar lefel fyd-eang.** Bydd y berthynas rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina yn ffactor allweddol mewn byd mwy lle mae mwy o begynnu a gaiff ei nodweddu gan gystadleuaeth 'pŵer mawr' a lle mae pŵer byd-eang yn cael ei ddosbarthu'n fwy eang—er yn anwastad—ar draws rhanbarthau a gwledydd. Nid cystadleuaeth rhwng gwladwriaethau'n unig mo hon: mae mudiadau terfysgol, grwpiau troseddu cyfundrefnol, gweithredwyr procsi a grwpiau partner, a sefydliadau preifat pwerus i gyd yn ceisio llywio'r amgylchedd geo-wleidyddol o'u plaid nhw.

9. **Bydd rheoli cystadleuaeth rhwng gwladwriaethau—a'r posibilrwydd y gallai arwain at argyfwng a gwrthdaro—yn mynd yn fwy heriol.** Mae gwladwriaethau fel Rwsia yn mynd ati'n fwriadol i wneud y ffin yn fwy niwlog rhwng bygythiadau niwclear, bygythiadau confensiynol a bygythiadau o dan y trothwy, gan amharu ar allu'r DU a'i chynghreiriaid i reoli prosesau dwysáu a chamgyfrif posibl. Mae technoleg yn creu llwybrau dwysáu newydd drwy greu ffyrdd amgen o aflonyddu a gorfodi, er enghraifft, yn y seiberofod a'r gofod. Mae gwladwriaethau a gweithredwyr nad ydynt yn wladwriaethau yn fwyfwy ymosodol wrth ddefnyddio gweithgareddau o dan y trothwy i geisio mantais.

10. Ar ben arall y sbectrwm, mae gwladwriaethau arfog niwclear fel Rwsia a Tsieina yn rhoi arfau niwclear wrth galon eu strategaethau diogelwch, gan gynyddu nifer a mathau'r arfau yn eu stoc. Bydd y degawdau nesaf yn cael eu diffinio gan benblethau lluosog sy'n cyd-ddigwydd, technolegau mwy datblygedig ac aflonyddgar, ac erydiad cytundebau a sefydliadau rhyngwladol sydd wedi helpu yn y gorffennol i atal gwrthdaro rhwng

---

25 Lladdwyd dau ar bymtheg o wladolion Prydain adeg ymosodiad Hamas ar Israel ar 7 Hydref 2023: y nifer fwyaf o Brydeinwyr sydd wedi'u lladd mewn ymosodiad terfysgol ers 2017. Amlygwyd pa mor agored i niwed yw cadwyni cyflenwi byd-eang i fygythiadau gan weithredwyr anwladwriaethol ar ôl i'r Houthi dargedu llwybr morgludo'r Môr Coch.

pwerau niwclear. Caiff sefydlogrwydd strategol ei herio gan lwybrau dwysáu newydd a mwy cymhleth y bydd angen i'r DU a'i chynghreiriaid fynd i'r afael â nhw. Bydd darparu sicrwydd rhwng cynghreiriaid yn mynd yn fwy cymhleth wrth i eraill gael eu cymell i ddatblygu arfau niwclear eu hunain.

11. **Rwsia: bygythiad dybryd a sylweddol.** Mae'r ffaith bod Rwsia wedi ymosod ar Wcráin yn tanlinellu'n glir ei pharodrwydd i ddefnyddio grym i gyflawni ei hamcanion, yn ogystal â'i bwriad i ailsefydlu cylchoedd ei dylanwad yn y tiroedd cyfagos gan amharu ar y drefn ryngwladol i'r DU a'i chynghreiriaid. Er bod y gwrthdaro yn Wcráin wedi gwanhau lluoedd byddin tir confensiynol Rwsia am y tro, mae'r camau i foderneiddio ac ehangu ei lluoedd arfog yn gyffredinol yn golygu y bydd yn fygythiad parhaus mewn meysydd allweddol fel y gofod, seiberofod, gweithrediadau gwybodaeth, rhyfela tanfor, ac arfau cemegol a biolegol. Os caiff ei chynnal, bydd economi rhyfel Rwsia yn ei galluogi i ailadeiladu ei gallu ar y tir yn gyflymach os bydd cadoediad yn Wcráin.

12. **Tsieina: her soffistigedig a pharhaus.** Mae Tsieina yn manteisio fwyfwy ar ei galluoedd economaidd, technolegol a milwrol, gan geisio sefydlu goruchafiaeth yn yr Indo-Môr Tawel, erydu dylanwad yr Unol Daleithiau, a rhoi pwysau ar y drefn ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau. Mae technoleg Tsieineaidd a'i lledaeniad i wledydd eraill eisoes yn her flaenllaw i'r DU, gydag Amddiffyn yn debygol o wynebu technoleg Tsieineaidd ble bynnag a gyda phwy bynnag y bydd yn brwydro yn eu herbyn. Mae'n debygol y bydd Tsieina yn dal ati i geisio mantais drwy ysbïo ac ymosodiadau seiber, a thrwy sicrhau eiddo deallusol arloesol drwy ddulliau cyfreithlon ac anghyfreithlon. Mae hefyd wedi dechrau ar broses moderneiddio'r lluoedd arfog ar raddfa fawr ac yn eithriadol o gyflym. Mae hyn yn cynnwys:

    - Cynnydd enfawr mewn systemau arfau a phlatfformau datblygedig, megis galluoedd rhyfela yn y gofod.
    - Amrywiaeth a thwf digyffelyb ei grymoedd taflegrau confensiynol a niwclear, gyda thaflegrau sy'n gallu cyrraedd Ewrop a'r DU.
    - Mwy o arfau niwclear a mwy o fathau gwahanol nag erioed o'r blaen, gyda disgwyl y bydd yr arsenal yn dyblu i 1,000 o arfbennau niwclear erbyn 2030.

13. **Iran a Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Corea (DPRK): yn drysu'r drefn yn rhanbarthol.** Bydd Iran yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau ansefydlogi ar draws y rhanbarth, gan gynnwys cefnogi gweithredwyr procsi a phartneriaid fel Hamas, Hezbollah, yr Houthis, a'r milisias Iracaidd sydd wedi'u halinio ag Iran. Mae ei rhaglen niwclear gynyddol yn peri risg i ddiogelwch rhyngwladol a'r bensaernïaeth fyd-eang ar gyfer atal twf arfogaeth niwclear. Mae'n debygol y bydd y DRPK yn mynd ati i foderneiddio niwclear ymhellach i sicrhau bod y gyfundrefn yn goroesi ac i ddylanwadu ar ei chymdogion. Mae'r ddwy wlad yn datblygu rhaglenni taflegrau sydd â chyrhaeddiad cynyddol, ac maent yn parhau i beri bygythiad uniongyrchol i'r DU yn y seiberofod.

14. **Cynghreirio parhaus a ffynonellau newydd o elyniaeth.** Mae'r berthynas rhwng Tsieina a Rwsia wedi dyfnhau a bydd dal rhesymau cryf am alinio strategol a manteisgar ag Iran a'r DPRK. Fodd bynnag, bydd deinameg y cydberthnasau hyn yn cael eu cyflyru gan fuddiannau gwahanol a diffyg ymddiriedaeth hirsefydlog. Mae'n debyg y byddan nhw'n parhau i geisio denu eraill

i mewn i'w rhwydweithiau gweithrediadol er mwyn mynd ar drywydd gwahanol amcanion. Wrth i ddeinameg pŵer byd-eang newid, bydd yn bwysig sganio am fygythiadau newydd, gan gynnwys bygythiadau o'r 'pwerau canol' a allai fod yn elyniaethus i fuddiannau'r DU.

## Newidiadau technolegol cyflym ac annisgwyl

15. **Mae datblygiadau cyflym mewn technoleg yn esgor ar gyfleoedd a risgiau**, gan newid y dosbarthiad pŵer byd-eang. Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg **eisoes yn newid nodweddion rhyfela'n fwy sylweddol nag ar unrhyw adeg yn hanes dyn**. Bydd y datblygiadau'n parhau ar draws amrywiaeth o dechnolegau ac ni ellir rhagweld eu heffaith gyfunol (Blwch 2).

16. Bydd dulliau rhyfela yn cael eu siapio gan gymysgedd sy'n esblygu o alluoedd milwrol lefel uchel a lefel isel.[26] Bydd y ffaith bod galluoedd masnachol, oddi-ar-y-silff ar gael yn eang yn golygu bod ystod ehangach o weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol yn gallu cael gafael arnynt a'u datblygu. O'r herwydd, bydd goblygiadau sylweddol i ataliaeth a rheoli materion rhag dwysau, yn ogystal ag ar ryddid y DU i symud ar draws tir, môr, awyr a gofod. Bydd hefyd yn newid economeg amddiffyn, gydag arfau cost isel yn cael eu defnyddio i ddifrodi neu wanychu galluoedd milwrol drud. Mae technoleg yn datblygu'n gynt na'r fframweithiau rheoleiddio ar gyfer llawer o'r technolegau sydd â'r posibilrwydd o darfu fwyaf. Mae'n annhebygol y bydd cystadleuwyr y DU yn glynu wrth y safonau moesegol cyffredin o ran datblygu a defnyddio'r technolegau hyn.



26 Er enghraifft, mae dronau ymosod rhad, sydd ar gael ar y farchnad yn eang, eisoes yn cael eu defnyddio gan wladwriaethau ochr yn ochr â thaflegrau datblygedig i drechu amddiffynfeydd awyr.

**Blwch 2: Technolegau sy'n ailddiffinio rhyfela**

Nid un datblygiad technolegol fydd yn rhoi'r llaw uchaf ar faes y gad ond yn hytrach cyfuniad o alluoedd presennol ac amrywiaeth o dechnolegau newydd gan gynnwys:

- **Deallusrwydd artiffisial (AI), dysgu peiriannol, a gwyddor data**, gwella ansawdd a chyflymder penderfyniadau, gwydnwch rhwydweithiau digidol, ac effeithiolrwydd gweithredol. Mae'r rhagolygon ar gyfer Deallusrwydd Cyffredinol Artiffisial[27] yn ansicr ond mae'r amserlen yn dod yn nes, a bydd ganddo oblygiadau pellgyrhaeddol i Amddiffyn.
- **Roboteg ac awtonomi**, gyda'r lluoedd arfog yn defnyddio galluoedd di-griw ac awtonomaidd fwyfwy i gynhyrchu más a chapasiti i achosi angau.
- **Arfau targedu manwl** sy'n golygu bod modd taro targedau'n fwy cywir o bellteroedd hirach.
- **Arfau ynni cyfeiriedig**, fel DragonFire y DU, sydd â'r potensial i leihau difrod ystlysol a dibyniaeth ar ffrwydron drud.
- **Taflegrau hypersonig** sy'n gallu cynnig mwy o gyrhaeddiad o ran pellter a mwy o allu i osgoi amddiffynfeydd wrth iddynt deithio ar dros bum gwaith cyflymder sain.
- **Galluoedd yn y gofod** sy'n galluogi pob agwedd ar weithrediadau modern. Mae gwladwriaethau'n prysur ddatblygu ffyrdd o amharu ar asedau milwrol a sifilaidd yn y gofod ac o'r gofod.
- **Cwantwm.** Mae datblygiadau mewn cyfrifiadura cwantwm yn cynnig y potensial i dorri amgryptiad, sy'n golygu bod cyfathrebu diogel yn llawer anoddach. Mae gan dechnolegau cwantwm y potensial i leihau dibyniaeth ar GPS sy'n seiliedig ar loeren, y gellir amharu arno.
- **Bygythiadau seiber** a fydd yn anoddach eu lliniaru wrth i dechnoleg esblygu, gydag AI, technoleg cwantwm, a'r ddibyniaeth gynyddol ar gyfathrebu lloeren yn debygol o sbarduno'r newidiadau mwyaf aflonyddgar i'r dirwedd bygythiadau seiber.
- **Bioleg peirianneg** sy'n creu'r posibilrwydd o wella gallu'r lluoedd arfog drwy ddatblygiadau mewn meddygaeth, gofal iechyd a lles, posibiliadau ar gyfer deunyddiau egnïol a ffrwydrol newydd, yn ogystal â llwybrau a all achosi niwed enfawr ar ffurf pathogenau newydd ac arfau eraill sy'n achosi dinistr eang.

27 Lle mae AI yn perfformio cystal, os nad yn well na phobl o ran deall, dysgu a chymhwyso gwybodaeth ar draws amrywiaeth o sefyllfaoedd heb gymorth.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'r DU ac i Amddiffyn?


17. **Rhaid i Amddiffyn baratoi ar gyfer byd llawer anoddach** lle mae'r gystadleuaeth yn ddwysach, yr argyfyngau yn amlach, a lle mae ymosodiadau milwrol confensiynol yn cael eu cyfuno ag ymddygiad ymosodol dwys o dan y trothwy (Blwch 3), gyda bygythiadau o bosibl i ddefnyddio arfau niwclear neu arfau distryw mawr (WMD) eraill. Mae'r DU eisoes yn wynebu ymosodiad dyddiol o dan y trothwy, sy'n targedu ei seilwaith cenedlaethol hanfodol, yn profi ei gwendidau fel economi agored a chenedl sy'n masnachu'n fyd-eang (Ffigur 2), yn ogystal â herio ei chydlyniant cymdeithasol. Mae newidiadau yn y cyd-destun strategol yn golygu bod yn rhaid i Amddiffyn y DU gynllunio ar y sail y gall Cynghreiriaid NATO gael eu denu—neu eu gorfodi—i ryfel gyda gwladwriaeth niwclear arall. Gyda'r Unol Daleithiau'n datgan yn glir nad diogelwch Ewrop yw eu prif ffocws rhyngwladol mwyach, rhaid i Gynghreiriaid y DU ac Ewrop gynyddu eu hymdrechion.

**Blwch 3: Effeithiau posibl rhyfel ar ffordd o fyw'r DU**

Yn seiliedig ar ffyrdd rhyfeloedd presennol, pe bai'r DU yn ymladd rhyfel gwladwriaethol fel rhan o NATO yn 2025, gallai ddisgwyl bod yn destun rhai, neu bob un, o'r dulliau ymosod canlynol:

- Ymosodiadau ar y Lluoedd Arfog yn y DU ac ar safleoedd tramor.
- Ymosodiad awyr a thaflegrau (o ddronau pellter hir, taflegrau, a thaflegrau balistig) sy'n targedu seilwaith milwrol a seilwaith cenedlaethol hanfodol yn y DU.
- Mwy o ddifrodi ac ymosodiadau seiber sy'n effeithio ar seilwaith cenedlaethol hanfodol ar y tir a'r môr.
- Ymdrechion i darfu ar economi'r DU—yn enwedig y diwydiant sy'n cefnogi'r Lluoedd Arfog—gan gynnwys drwy ymosodiadau seiber, rhwystro masnach forol, ac ymosodiadau ar y seilwaith cenedlaethol hanfodol yn y gofod.
- Ymdrechion i drin gwybodaeth er mwyn tanseilio cydlyniant cymdeithasol ac ewyllys wleidyddol.

**Ffigur 2: Bywyd bob dydd yn y DU: dibyniaethau a bygythiadau tramor**



## Cyflwr Amddiffyn heddiw

18. **Y man cychwyn ar gyfer yr Adolygiad hwn yw lluoedd arfog y DU gyda chryfderau di-rif**, a berchir ledled y byd am ei ymroddiad a'i natur broffesiynol. Mae'r DU yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ymdrechion NATO i ddiogelu'r Ewro-Iwerydd rhag ymosodiadau cynyddol Rwsia ym mhob ardal; mae'n rhoi sicrwydd diogelwch y Cynghreiriaid a'r DU yn y pen draw wrth ddatgan eu rhaglen niwclear ataliol i'r Gynghrair. Mae'r Lluoedd Arfog yn adnodd ystwyth a hanfodol o ran cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth: diogelu rheng flaen NATO yn Estonia a Gwlad Pwyl; gollwng cymorth o'r awyr i'r Palesteiniaid yn Gaza; helpu i amddiffyn Israel rhag ymosodiad awyr gan Iran; amddiffyn llwybrau rhyngwladol yn y Môr Coch; amddiffyn y DU rhag ymosodiadau seiber parhaus; a gwella cysylltiadau'r DU â'i chynghreiriaid a'i phartneriaid i gefnogi cyd-ddiogelwch.

19. **Mae amddiffyn hefyd yn parhau i fod yn rhan annatod o economi'r DU a'r gymdeithas ehangach**, ac mae'n cefnogi 440,000 o swyddi o ansawdd uchel ledled y wlad ac yn sbarduno symudedd cymdeithasol drwy'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig i staff y Lluoedd Arfog a gweision sifil, gan gynnwys miloedd o brentisiaid. Mae enghreifftiau o ragoriaeth arloesi ym maes Amddiffyn yn dangos ei allu i ddarparu galluoedd o'r radd flaenaf i ymladdwyr rhyfel a'r potensial i sicrhau mwy o dwf economaidd ledled y DU.

20. **Fodd bynnag, mae Amddiffyn yn dal i gael ei siapio i raddau helaeth gan weithrediadau'r cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer**, a hynny'n bennaf yn erbyn gwrthwynebwyr nad ydynt yn wladwriaethau. Gostyngodd maint a pharodrwydd y Lluoedd Arfog wrth i'r bygythiad a berir gan yr Undeb Sofietaidd gilio. Mae llu mawr sefydledig y Rhyfel Oer o fwy na 311,000 o bersonél Cyffredin wedi disgyn i ychydig dros 136,000, gyda dim ond lluoedd bach yn barod i'w lleoli ar unrhyw adeg benodol a'r gweddill yn cael eu dal ar wahanol lefelau o barodrwydd. Roedd gwariant ar amddiffyn wedi gostwng ar yr un adeg, o 4.1% o GDP yn 1989 i 2.3% heddiw.

> Mae angen i ni wario mwy ar amddiffyn. Fel arall, fydd hi ddim yn hir cyn i rywbeth mwy arwyddocaol ddigwydd a byddwn yn meddwl y dylai fod wedi cael mwy o flaenoriaeth
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, Camp Rollestone**

21. **Mae'r gostyngiad hwn mewn buddsoddiad wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf** yn sgil pwysau ariannol ychwanegol, gan gynnwys chwyddiant ac amrywiadau mewn gwerth arian yn dilyn pandemig Covid-19 ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Mae ymdrechion cadarnhaol i wella cyflogau staff milwrol a phrynu cyfarpar sydd wedi'i ddylunio i ymdopi â bygythiadau yn y dyfodol wedi rhoi mwy o bwysau ar gyllid adrannau.

22. Yn fwy sylfaenol, **mae ffyrdd ehangach Amddiffyn o weithio yn fwy addas i gyfnod o heddwch**, gydag arloesi'n cael ei lesteirio a biwrocratiaeth yn cymryd ymdrechion ac amser gwerthfawr. Y canlyniad yw sefydliad nad yw wedi'i optimeiddio ar hyn o bryd ar gyfer rhyfel yn erbyn gwladwriaeth filwrol 'gyfatebol':[28]

28 Mae gelyn 'cyfatebol' yn wlad gyda'r un gallu milwrol â'r DU a/neu ei chynghreiriaid.

- **Mae ffocws ar alluoedd 'medrus' wedi cuddio'r ffaith bod gallu'r Lluoedd Arfog i ryfela wedi cael ei 'wanhau'**. Mae cyflenwadau'n annigonol, ac mae'r rheiny wedi'u lleihau ymhellach yn sgil yr angen pwysig ac angenrheidiol i drosglwyddo deunyddiau i Wcráin. Mae diffyg capasiti a gwydnwch yn y Pencadlys Strategol yn dilyn blynyddoedd o danfuddsoddiad. Mae gwasanaethau meddygol yn parhau i gael eu hoptimeiddio ar gyfer gweithrediadau gwrthderfysgaeth ac nid oes ganddynt y gallu i ymdopi â gwrthdaro lle mae llawer o gleifion.
- **Nid yw systemau caffael a pherthynas y Weinyddiaeth Amddiffyn â diwydiant wedi newid rhyw lawer ers y Rhyfel Oer**. Mae lleihau risg a gwneud penderfyniadau consensws yn cael blaenoriaeth dros gynhyrchiant ac arloesedd ar gyflymder newid technolegol. Yn rhy aml o lawer, mae cyfleoedd allforio yn ôl-ystyriaeth wrth gynllunio. Mae optimistiaeth ynghylch costau cyfarpar ac amserlenni ar gyfer cyflawni yn golygu bod y Cynllun Cyfarpar yn uwch na'r gyllideb yn gyson ac mae galluoedd hen ffasiwn yn parhau i gael eu defnyddio allan yn y maes yn rhy hir. Mae Amddiffyn yn ei chael hi'n anodd blaenoriaethu gwario ar wyddoniaeth a thechnoleg a manteisio ar arloesi er mwyn sicrhau mantais weithredol. Nid yw wedi'i baratoi'n ddigonol ar gyfer maes brwydr digidol, mae diffyg graddfa a gwydnwch o ran llif data, ac mae'n cario lefelau risg seiber na ellir eu goddef.
- **Mae lefelau gwael o ran recriwtio a chadw staff, llety sâl, gostyngiad mewn morâl, a heriau diwylliannol wedi creu argyfwng yn y gweithlu**. Mae nifer y Milwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn yn y DU wedi gostwng yn gyson (gostyngiad o 8% ers 2022 ar gyfer y Lluoedd Arfog Rheolaidd). Mae'r diffyg yn effeithio'n anghymesur ar y sgiliau sydd bwysicaf i sicrhau mantais y DU, fel y mae i gynghreiriaid a phartneriaid.

## Yr achos dros drawsnewid

23. Mae'r Lluoedd Arfog wedi dechrau ar y broses hanfodol o drawsnewid mewn ymateb i'r cyd-destun newidiol hwn ac i'r gwersi o'r rhyfel yn Wcráin. Serch hynny, maent yn dal i gael eu siapio'n sylfaenol gan risgiau a gofynion y cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer, pan oedd Llywodraethau olynol wedi ceisio, yn ddigon rhesymol, i sicrhau'r 'difidend' mwyaf a gynigir gan heddwch yn Ewrop.

24. Mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Llywodraeth ehangach, a diwydiant baratoi'n well ar gyfer rhyfel hirfaith a llawn dwyster. Mae'r newidiadau ysgubol a chyflym i'r amgylchedd diogelwch rhyngwladol yn golygu nad yw'n ddigon dim ond newid sut a gyda beth mae'r Lluoedd Arfog yn ymladd. Er mwyn atal bygythiadau drwy fod yn barod am ryfel, **mae'n rhaid i Amddiffyn i gyd newid sut mae'n cefnogi'r Lluoedd Arfog fel rhan o ymateb polisi mwy hyblyg**: atal ymosodiadau sy'n cymylu'r ffiniau rhwng cystadleuaeth a gwrthdaro ar draws pob maes, harneisio'r technolegau gorau posibl ar gyflymder cyfnod rhyfel, a manteisio ar gefnogaeth gan bob rhan o'r Llywodraeth, diwydiant, cymdeithas a chynghreiriaid. Mae'r penodau canlynol yn nodi hynt y trawsnewidiad hwn.



# 3. Rolau Amddiffyn y DU

1. Rôl sylfaenol y Lluoedd Arfog yw **atal bygythiadau fel nad oes angen ymladd rhyfel i amddiffyn y DU, Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron, a chynghreiriaid.** Rhaid iddo fod yn gwbl glir i elynion posibl fod gan y DU a NATO y gallu a'r ewyllys i ymladd.

2. Y tro diwethaf i'r DU wynebu bygythiad milwrol uniongyrchol oedd gan wrthwynebydd gwladwriaethol medrus iawn oedd yn ystod y Rhyfel Oer. Ers hynny, mae wedi dibynnu i raddau helaeth ar ddull ymgyrchol i amharu ar fygythiadau posibl cyn iddynt allu cyrraedd Ewrop. Ochr yn ochr â hyn, mae'r DU wedi gwarchod rhag y posibilrwydd i fygythiadau mwy sylweddol ailymddangos drwy ei rhaglen niwclear ataliol a'i haelodaeth o NATO. Nid yw hyn yn ddigonol bellach. Mae natur ddeinamig bygythiadau heddiw (Pennod 2) yn her ddiogelwch fwy cymhleth o lawer.

3. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae llywio drwy'r amgylchedd hwn yn gofyn am **ddull gweithredu integredig, cymdeithas-gyfan ar gyfer atal ac amddiffyn.** Yn bwysicaf oll, **rhaid i'r Llywodraeth allu gweithredu ac addasu yn ystwyth** i greu amheuaeth a chyfyng-gyngor i elynion a chynnal goruchafiaeth gynyddol—canfod a phriodoli ymosodiadau, dewis pryd a sut i ymateb, a gallu cynnal yr ymateb hwnnw a'i gynyddu eto os oes angen. I gyflawni hyn, **bydd angen i'r DU wneud y canlynol:**

   - **Cynyddu ei opsiynau ar gyfer bygwth dial**—boed yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol neu gyda chynghreiriaid—er mwyn argyhoeddi gelyn posibl y bydd cost ei weithredoedd yn fwy na'r manteision posibl.
   - **Meithrin cydnerthedd cenedlaethol i ymosodiadau a siociau**, gan wella gallu'r DU i wrthsefyll, i adfer yn gyflym, ac i rwystro gelynion rhag cael manteision posibl. Rhaid diogelu seilwaith sy'n hanfodol i economi'r DU a'i ffordd o fyw. Mae ailsefydlu paratoadau cenedlaethol credadwy ar gyfer rhyfel, amddiffyn gartref, a chynhyrchiant diwydiannol yn flaenoriaeth.
   - **Meithrin perthynas gref gyda chynghreiriaid.** Ni all unrhyw wladwriaeth fynd i'r afael â'r holl heriau hyn ar ei phen ei hun. Gyda'i gilydd, mae gan y DU a'i chynghreiriaid fwy o ddylanwad economaidd, milwrol a diplomyddol nag unrhyw un o'u gelynion posibl—yn unigol neu ar y cyd.

4. **Mae Amddiffyn yn chwarae rhan ganolog yn y dull cymdeithas gyfan hwn.** Mae'n un o offerynnau allweddol y Llywodraeth: cartref rhaglen niwclear ataliol y DU, Lluoedd Arbennig a chonfensiynol aml-barth; ac unig ddarparwr galluoedd arbenigol iawn sy'n hanfodol i ddiogelwch gwladol, fel arbenigedd gwrthderfysgaeth a gwrthgemegol, biolegol, radiolegol a niwclear. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i gefnogi amcanion y Llywodraeth—boed hynny mewn rhyfel neu yn ystod cyfnodau lle mae mwy o gystadleuaeth neu argyfwng—rhaid cyfeirio'r lluoedd hyn yn ddi-dor ar draws parthau[29] a chyda chynghreiriaid, gan ddefnyddio partneriaid ar draws y Llywodraeth, diwydiant a'r gymdeithas ehangach.

29 Y pum parth yw morol, tir, awyr, gofod a seiberofod, a'r sbectrwm electromagnetig.

## Dull 'NATO yn Gyntaf' o atal ac amddiffyn

5. **Mae cyd-ddiogelwch, sy'n cael ei ategu gan gynghreiriau a phartneriaethau ffurfiol, yn lluosogi grym o ran atal ac amddiffyn y DU.** Mae NATO yn flaenllaw ymysg nifer o gynghreiriau gwerthfawr y DU, ac mae wedi dod â heddwch i'r Ewro-Iwerydd ers dros 75 mlynedd. O dan Erthygl V o gytuniad sefydlu NATO, byddai'r DU bob amser yn disgwyl ymladd gelyn milwrol 'cyfatebol' ochr yn ochr â Chynghreiriaid. Ond mae'r Gynghrair yn cynnig mwy na dim ond cryfder mewn niferoedd os bydd argyfwng. Mae'n darparu fforwm unigryw ar gyfer gweithredu ar y cyd a chydweithio diwydiannol yn yr Ewro-Iwerydd ac mae'n hwyluso cytundeb ar faterion byd-eang a phartneriaeth â gwledydd y tu hwnt i'r rhanbarth.

6. Mae angen amlwg i'r DU ddyblu ei hymdrechion o fewn y Gynghrair a **chynyddu ei chyfraniad at ddiogelwch yr Ewro-Iwerydd** yn fwy eang—yn enwedig wrth i ymddygiad ymosodol Rwsia dyfu ar draws Ewrop ac wrth i Unol Daleithiau America addasu ei blaenoriaethau rhanbarthol.

7. **Felly, 'NATO yn Gyntaf' yw egwyddor ddiffiniol yr Adolygiad hwn** (Blwch 4). Mae hyn yn golygu bod angen gweithredu'n wahanol i'r hyn sydd wedi bod yn cael ei wneud ers diwedd y Rhyfel Oer. Rhaid i'r Gynghrair fod yn fan cychwyn ar gyfer sut mae'r Lluoedd Arfog yn cael eu datblygu, eu trefnu, eu harfogi a'u hyfforddi er mwyn cyfrannu at atal yn yr Ewro-Iwerydd, gan siapio'r amgylchedd a syniadau gelynion posibl bob dydd. Bydd y dull hwn yn galw am newid sefydliadol a diwylliannol o fewn Amddiffyn ac ar draws Whitehall, o ystyried y gefnogaeth hanfodol a ddarperir gan adrannau eraill y Llywodraeth. Yn yr un modd, fe ddylai'r ymdrechion i ddyfnhau perthnasoedd dwyochrog ac amlochrog gael eu targedu at gryfhau saernïaeth diogelwch Ewrop (Pennod 5).

**Blwch 4: Beth mae 'NATO yn Gyntaf' yn ei olygu i Amddiffyn y DU?**

Drwy ddyluniad, bydd Amddiffyn yn cael ei integreiddio â NATO. Mae hyn yn mynnu bod NATO:

- **Yn flaenllaw o ran sut mae Amddiffyn yn cynllunio.** Dylai'r DU flaenoriaethu ei gallu i gyfrannu at gynlluniau NATO (gan gynnwys amddiffyn y DU), ac fe ddylai fod wrth galon datblygu galluoedd a dylunio lluoedd. Rhaid i'r DU chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau, safonau a dilysu'r Gynghrair.
- **Sylfaen sut mae Amddiffyn yn meddwl**: mae'n cael ei phrif ffrydio drwy bolisi, athrawiaeth a datblygu cysyniadau, addysg, a rheoli talent.
- **Wedi'i wreiddio yn y ffordd mae Amddiffyn yn gweithredu**: gan sicrhau bod gweithgarwch cenedlaethol yn blaenoriaethu ac yn gwella dulliau integreiddio ac amcanion NATO. Mae hyn yn cynnwys gweithrediadau, ymarferion, strategaeth ddiwydiannol, a gweithgareddau ymgysylltu amddiffyn.



8. Wrth i NATO adnewyddu ei ddull ei hun o atal ac amddiffyn, fe ddylai'r DU wneud y canlynol:

- Ategu ei ymrwymiad i Erthygl V drwy **roi NATO wrth galon y ffordd mae'n bwriadu ymladd yn ardal yr Ewro-Iwerydd.** Dylai'r DU flaenoriaethu ei gallu i ymladd fel rhan o gynlluniau strategol a gweithredol NATO, cefnogi eu datblygiad, a chyfrannu arweinyddiaeth o fewn y strwythurau gorchymyn a fydd yn eu rhoi ar waith. Mae'n rhaid i hyn barhau i gael ei seilio ar raglen niwclear ataliol y DU, sydd wedi'i neilltuo i amddiffyn NATO a'i addasu wrth i fygythiadau niwclear i'r Gynghrair gynyddu.
- **Rhoi NATO yng nghanol y broses o ddatblygu ei lluoedd**, gyda ffocws ar siapio a chyflawni Targedau Galluogrwydd uchelgeisiol NATO sydd wedi'u cynllunio i gryfhau galluoedd milwrol y Gynghrair a gwella'r gallu i rannu baich rhwng Ewrop a Chanada ar un llaw ac UDA ar y llaw arall.
- **Cyflawni rhwymedigaethau cynllunio amddiffyn sifil a gwydnwch** o dan Erthygl III o gytuniad sefydlu NATO i gryfhau ataliaeth a sicrhau gallu'r DU i gyflwyno grym i gefnogi NATO yn yr Ewro-Iwerydd a thu hwnt.[30] Rhaid i'r DU hefyd sicrhau ei bod yn gallu darparu Cymorth Gwlad Cynnal milwrol a sifil i NATO, gan gynnwys adeg argyfwng a rhyfel.
- **Cefnogi datblygiad NATO mewn meysydd sy'n hanfodol i ryfela.** Dylai hyn gynnwys: arwain y ffordd mewn cysyniadau newydd; annog NATO i adlewyrchu technolegau amddiffyn a defnydd deuol blaenoriaethol mewn prosesau cynllunio galluoedd; a dylanwadu ar safonau ac arferion gweithredu yn unol â hynny. Byddai defnyddio profiad, arbenigedd a galluoedd a ddatblygwyd drwy weithgarwch cenedlaethol ac amlochrog—er enghraifft, fel rhan o'r Llu Ymgyrchol ar y Cyd—yn cefnogi arloesi ar draws

30 Mae Erthygl III o Gytuniad Washington NATO yn datgan y bydd Partïon yn y Cytuniad 'ar wahân ac ar y cyd, drwy gymorth parhaus ac effeithiol gan y naill a'r llall, yn cynnal ac yn datblygu eu gallu unigol ac ar y cyd i wrthsefyll ymosodiadau arfog.'

NATO ymhellach. Byddai ymgysylltu â sefydliadau arloesi NATO[31] yn y DU, a defnyddio eu gwaith, o fudd i'r naill a'r llall wrth gyflawni'r nod hwn.

- **Ymgysylltu'n llawn ag ymdrechion dan arweiniad NATO i gryfhau cydweithrediad diwydiannol ar draws yr Iwerydd** fel elfen ganolog atal ac amddiffyn ar y cyd, gyda NATO yn osodwr safonau ac yn gynullydd cynyddol bwysig. Mae'n allweddol dylanwadu ar safonau NATO a'u mabwysiadu yn ddiofyn.

9. **Nid yw dull 'NATO yn Gyntaf' yn golygu 'NATO yn unig'.** Mae'r Gynghrair ei hun yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid megis y Pedwar Indo-Môr Tawel[32]—gan adlewyrchu'r cysylltiad rhwng diogelwch yr Ewro-Iwerydd a diogelwch rhanbarthau eraill fel y Dwyrain Canol a'r Indo-Môr Tawel. Mae gan y DU hefyd fuddiannau, ymrwymiadau a chyfrifoldebau sylweddol y tu hwnt i'r Ewro-Iwerydd. Mae'r rhain yn cynnwys: amddiffyn tiriogaeth sofran y DU; statws y DU fel un o'r pum aelod parhaol yng Nghyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig; cynghrair cudd-wybodaeth Five Eyes;[33] a phartneriaethau galluogrwydd blaenllaw AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang. Mae pob un ohonynt yn hanfodol i ddiogelwch y DU a chynghreiriaid ac i siapio'r amgylchedd diogelwch rhyngwladol.

## Rolau amddiffyn craidd

10. Mae'r Adolygiad wedi nodi **rolau parhaus sy'n atgyfnerthu ei gilydd** y mae'n rhaid i Amddiffyn eu gwneud er mwyn sicrhau'r canlyniadau a bennwyd gan y Llywodraeth gyda'r adnoddau sydd ar gael. Maent wedi llywio ein hargymhellion ar y dulliau a'r galluoedd trawsnewidiol yn y penodau sy'n dilyn. Yn unol â dull NATO yn Gyntaf, o dan Rôl 1 a Rôl 2 mae ymdrechion ac adnoddau'n canolbwyntio ar amddiffyn ac atal yn yr Ewro-Iwerydd, gyda ffocws ar amddiffyn a gwydnwch gartref. Mae Rôl 3 yn defnyddio pob adnodd Amddiffyn—fel rhan o ymdrech drawslywodraethol—i amddiffyn lle mae'n rhaid i'r DU wneud hynny, ac i siapio'r amgylchedd o blaid buddiannau cenedlaethol lle bo modd. Bydd cyflawni'r tair rôl yn dibynnu ar alluoedd a ddefnyddir yn y meysydd gofod a seiber ac electromagnetig yn ogystal â galluogwyr sylfaenol cyffredin. Bwriedir i Luoedd Arbennig y DU hefyd gyfrannu at gyflawni'r tair rôl lle bo angen, fel rhan o ymdrech ar draws Amddiffyn i ddarparu ymateb mewn argyfwng, boed hynny yn y DU, yr Ewro-Iwerydd, neu'r tu hwnt.

11. Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r DU, **y rolau ar gyfer Amddiffyn yw:**

### Rôl 1: Amddiffyn, gwarchod a gwella gwydnwch y DU, ei Thiriogaethau Tramor a'i Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron

- Mae natur bygythiadau heddiw yn golygu bod yn rhaid i Amddiffyn unwaith eto gael cynlluniau credadwy ar gyfer amddiffyn tiriogaeth gartref y DU fel rhan o NATO, a'r rheiny wedi'u gwreiddio mewn gwell cydnerthedd cenedlaethol (Pennod 6)— rhwymedigaeth Erthygl III NATO. Rhaid i'r Lluoedd Arfog hefyd allu amddiffyn a gwarchod Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron a bod yn barod i'w lleoli'n fyd-eang i gefnogi gwladolion Prydeinig dramor yn ystod argyfyngau.

31 Cronfa Arloesi NATO a DIANA (y Cyflymydd Arloesedd Amddiffyn yng Ngogledd yr Iwerydd).
32 Y Pedwar Indo-Môr Tawel yw Awstralia, Japan, Gweriniaeth Corea, a Seland Newydd.
33 Awstralia, Canada, Seland Newydd, y DU, ac UDA.

### Rôl 2: Atal ac amddiffyn yn yr Ewro-Iwerydd

- Rhaid i Amddiffyn gyfrannu'n ddyddiol at ataliaeth yn yr Ewro-Iwerydd, gyda llu wedi'i optimeiddio ar gyfer rhyfela i amddiffyn a gwarchod tiriogaeth NATO a phoblogaethau Cynghreiriau rhag ymosodiadau ac yn seiliedig ar raglen niwclear ataliol y DU. Rhaid i'r DU ddefnyddio ei chryfderau i gefnogi'r Gynghrair, gan wella ataliaeth drwy fynd ati i foderneiddio. Mae'r rôl hon yn ymateb yn uniongyrchol i ymrwymiad Erthygl V y DU lle mae diogelwch un Cynghreiriad yn golygu diogelwch pawb, a lle byddai'r DU bob amser yn disgwyl ymladd yn erbyn gelyn milwrol 'cyfatebol' ochr yn ochr â Chynghreiriaid NATO.

### Rôl 3: Dylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang

- Rhaid i Amddiffyn ddylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang o blaid buddiannau'r DU, wedi'i gefnogi gan y defnydd blaenoriaethol o'r holl adnoddau sydd ar gael iddo, fel rhan o ymdrechion ehangach y Llywodraeth (Pennod 5). Dylid defnyddio presenoldeb milwrol y tu hwnt i'r Ewro-Iwerydd er mwyn sicrhau 'ffitrwydd' ehangach a dyfnach y Lluoedd Arfog, gan ddatblygu a dangos arweinyddiaeth, arloesedd, a galluoedd dynol a thechnegol wrth ryfela. Er mwyn sicrhau nad yw presenoldeb o'r fath yn amharu ar gyflawni Rolau 1 a 2, mae'n rhaid i'r Lluoedd Arfog allu dychwelyd yn gyflym i'r Ewro-Iwerydd os oes angen.
- Mae'r Adolygiad yn argymell mai'r Dwyrain Canol a'r Indo-Môr Tawel yw'r rhanbarthau blaenoriaeth nesaf ar ôl yr Ewro-Iwerydd o ran ymgysylltu Amddiffyn. Mae'r cysylltiadau cynyddol rhwng Rwsia, Tsieina, Iran a Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Corea yn cymhlethu'r prosesau cyfrifo ataliaeth a rheoli pethau rhag dwysau ar draws rhanbarthau.

## Galluogi rolau Amddiffyn

12. Mae dwy rôl alluogi arall ar gyfer Amddiffyn y DU sy'n hanfodol i gyflawni Rolau 1–3. Mae'r rolau hyn yn gwneud y DU yn gryfach ac yn rhoi'r Lluoedd Arfog mewn gwell sefyllfa i atal ac amddiffyn. Maent yn cael eu harchwilio'n fanylach drwy gydol yr Adolygiad hwn. Y rolau galluogi hyn yw:

### Datblygu sylfaen ddiwydiannol ac arloesedd ffyniannus a chadarn o ran amddiffyn

- Er mwyn cefnogi'r broses o symud i ryfela, mae'n rhaid i sylfaen ddiwydiannol ac arloesedd y DU o ran amddiffyn allu addasu ac ymestyn i gyflawni blaenoriaethau a gofynion sy'n dod i'r amlwg (Pennod 4.2). Mae partneriaeth newydd gyda diwydiant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Lluoedd Arfog yn cael eu cysylltu'n barhaol ag arloesedd a bod diwydiant yn gallu cynyddu cynhyrchiant yn gyflym er mwyn cynnal rhyfelgyrchoedd mwy a hirach. Bydd buddsoddi yn y galluoedd a'r technolegau a fydd yn sbarduno mantais weithredol y DU yn ei dro yn creu twf economaidd eang ar draws y wlad.

### Cyfrannu at gydlyniant a pharodrwydd cenedlaethol

- Ni ellir cyflawni rolau craidd Amddiffyn oni bai eu bod yn cael eu cefnogi gan ymdrechion cymdeithas gyfan i feithrin cydnerthedd cenedlaethol a pharodrwydd ar gyfer argyfwng neu wrthdaro (Pennod 6).

Rhaid i Amddiffyn chwarae ei ran yn hyn, gan gyfathrebu'n glir â'r cyhoedd am y bygythiadau sy'n wynebu'r DU a'r hyn y bydd yn rhaid ei wneud i'w hatal a'u trechu, gan weithio ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â gwendidau posibl y gallai gelynion fanteisio arnynt. Rhaid i Amddiffyn sicrhau presenoldeb gweithredol ar draws pedair gwlad yr Undeb a chynyddu ei ymdrechion i recriwtio a dal gafael ar weithlu sy'n cynrychioli cymdeithas Prydain gyfan i harneisio'r doniau gorau sydd gan y wlad i'w cynnig.

**Argymhellion:**

1. Er bod Amddiffyn yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sicrhau diogelwch, ffyniant a gwerthoedd y DU, mae natur bygythiadau heddiw yn golygu na all wneud hyn ar ei ben ei hun. Er mwyn sicrhau bod y DU yn gallu gweithredu gyda'r ystwythder sy'n angenrheidiol i atal gelynion mewn cystadleuaeth, argyfwng a gwrthdaro, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn weithio gyda'r Llywodraeth ehangach i wneud y canlynol:
   - Cynyddu'r opsiynau ar gyfer dial mewn ymateb i ymosodiad—neu fygythiad o ymosodiad—ar y DU a'i chynghreiriaid.
   - Sicrhau parodrwydd a chydnerthedd cenedlaethol, gan sicrhau bod y DU yn gallu gwrthsefyll ymosodiadau ac adfer yn gyflym.
   - Meithrin diwylliant strategol cadarn, gan sicrhau bod uwch arweinwyr a swyddogion ar draws y Llywodraeth yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r fframwaith deallusol i ddeall y dimensiynau niwclear a'r risgiau dwysau sy'n perthyn i'r amgylchedd strategol heddiw. Dylai hyn gael ei ymarfer a'i brofi'n rheolaidd drwy gemau rhyfel ac ymarferion desg.
   - Ailadeiladu'r berthynas gyda'r sylfaen ddeallusol y tu allan i'r Llywodraeth, a'i defnyddio'n well, er mwyn cefnogi addasu'r polisi ataliaeth ac amddiffyn yn yr hirdymor, gan weithio gyda diwydiant, melinau trafod a'r byd academaidd i sicrhau bod rhwydwaith ffyniannus o drafodaethau ac arbenigedd.
   - Cydlynu'r ymdrechion hyn gyda chynghreiriaid agos, gan ddatblygu ac ymarfer mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau gwleidyddol mewn ymateb i argyfyngau, yn enwedig pan nad ydynt yn cyrraedd rhyfel.
2. Mae polisi 'NATO yn Gyntaf' yn hanfodol wrth i'r DU gynyddu ei chyfraniad at ddiogelwch yr Ewro-Iwerydd. Mae hyn yn golygu bod angen gweithredu'n wahanol i'r hyn sydd wedi bod yn cael ei wneud ers diwedd y Rhyfel Oer. Dylid prif-ffrydio'r Gynghrair o ran sut mae Amddiffyn yn cynllunio, yn meddwl ac yn gweithredu. Rhaid i Amddiffyn sefydlu map ar gyfer cyflawni'r gallu dyfnach hwn i ryngweithredu gyda Chynghreiriaid NATO ac ar gyfer arwain y ffordd ar ddulliau a safonau a rennir erbyn mis Ionawr 2026. Dylid dechrau ei roi ar waith cyn mis Gorffennaf 2026 fan bellaf.



# 4. Trawsnewid Gallu'r DU i Ryfela

## Gweledigaeth ar gyfer Amddiffyn y DU erbyn 2035:
Yn bŵer amddiffyn blaenllaw sy'n defnyddio technoleg, gyda Llu Integredig sy'n atal, yn ymladd ac yn ennill drwy arloesi'n gyson ar gyflymder rhyfel.

1. **Mae'r Adolygiad hwn yn dilyn cyfnod newydd ar gyfer Amddiffyn, gan adfer gallu'r DU i atal, ymladd ac ennill**—gyda chynghreiriaid—yn erbyn gwladwriaethau sydd â lluoedd milwrol datblygedig erbyn 2035. Gellid gwireddu'r weledigaeth hon yn gynt pe bai amgylchiadau'n mynnu hynny a phe bai mwy o adnoddau ar gael.

2. Nid nifer y bobl, cerbydau, awyrennau a llongau a ddefnyddir gan y Lluoedd Arfog yw'r unig fesur o effeithiolrwydd milwrol heddiw. Mae pŵer milwrol yn cael ei gynhyrchu a'i asesu fwyfwy o ran y canlynol:

   - Pa mor gyflym y gall y Lluoedd Arfog a diwydiant arloesi a rhoi technoleg ar waith sy'n datblygu'n gyflymach nag erioed yn hanes dyn.
   - Pa mor effeithiol mae'r Lluoedd Arfog yn defnyddio asedau rhwydwaith—sy'n llawn mwy a mwy o lwyfannau di-griw ac awtonomaidd—i greu ystwythder, capasiti i achosi angau, màs a dygnwch.

3. Fel y disgrifir ym Mhennod 2, mae Lluoedd Arfog y DU wedi dechrau ar broses angenrheidiol o newid mewn ymateb i'r realiti newydd hwn. Ond nid yw'r cynnydd wedi bod yn ddigon cyflym na radical, ac mae wedi'i gyfyngu i arbrofi pwysig ond ar raddfa fach a chaffael nifer fach o alluoedd gwerthfawr. Er mwyn ymateb i fygythiadau heddiw ac yfory, **rhaid i Amddiffyn drawsnewid yn sylfaenol sut mae'n gweithio: newid sut mae'n brwydro a sut mae'n cefnogi'r frwydr honno**.

4. Mae gwersi o'r rhyfel yn Wcráin a newid sefydliadol o dan y rhaglen Diwygio Amddiffyn yn fannau cychwyn hollbwysig. Dylai'r cyfan o'r gwaith Amddiffyn—y Lluoedd Arfog a'r Adran Wladol gyda'i gilydd—gael ei sbarduno gan **resymeg y cylch arloesi**:

   - **Canfod:** Rhaid i Amddiffyn allu sbarduno ymchwil camau cynnar a nodi arloesedd allanol a fydd yn sicrhau bod Lluoedd Arfog y DU ar flaen y gad o ran technoleg, gan ddefnyddio ei bŵer prynu i ddylanwadu ar y farchnad fasnachol.
   - **Prynu:** Rhaid i Amddiffyn allu datblygu arloesedd o syniadau ar y rheng flaen yn gyflym, gan roi galluoedd newydd yn nwylo ymladdwyr rhyfel a chreu'r amodau i'r farchnad fuddsoddi, arbrofi a datblygu.
   - **Defnyddio:** er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, mae'n rhaid i Amddiffyn ddatblygu set sgiliau ei bobl yn barhaus, addasu ei sefydliad, a manteisio ar sylfaen ddigidol gyffredin y mae'r holl asedau sy'n gallu defnyddio meddalwedd yn cysylltu â hi.

5. Gyda thechnoleg defnydd deuol yn dod yn fwyfwy canolog i fantais filwrol, dylai Amddiffyn **ddefnyddio ei bŵer marchnad yn fwy pwrpasol i greu twf economaidd**—gan flaenoriaethu busnesau yn y DU heb golli manteision cystadleuaeth—gan ddarparu ar gyfer ymladdwyr rhyfel yr un pryd. Bydd

llwyddiant o ran gwreiddio'r cylch arloesi hefyd yn golygu **gwelliant sylweddol mewn cynhyrchiant, cystadleurwydd, allforion a gwerth am arian Amddiffyn**, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael iddo, a chaiff hyn ei gefnogi gan y Cynllun Effeithlonrwydd a Diwygio Amddiffyn newydd.

6. Wrth wraidd y trawsnewidiad hwn mae tri newid sylfaenol yn y dull gweithredu. Rhaid i Amddiffyn gyflawni'r canlynol:

   - **Integreiddio drwy ddyluniad:** darparu llu ymladd sydd wedi'i integreiddio'n ddigidol ac sydd mor effeithiol â phosibl o ran capasiti i achosi angau ac sy'n rhyngweithredol â NATO (Pennod 4.1).
   - **Arwain gan Arloesedd:** mabwysiadu technoleg newydd yn gyflym i gadw'r Llu Integredig hwn ar flaen y gad o ran rhyfela (Pennod 4.2).
   - **Gyda chefnogaeth diwydiant:** datblygu sylfaen ddiwydiannol ac arloesedd ffyniannus a chadarn sy'n gallu sbarduno arloesi a chynhyrchu i gefnogi'r Llu Integredig (Pennod 4.2).

7. Nid yw'r diagnosis hwn yn newydd. Ond nid yw Amddiffyn eto wedi ymgymryd â'r newid sefydliadol a diwylliannol sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant. Mae bwrw ymlaen â diwygio 'o'r bôn i'r brig' o ran yr hyn y mae Amddiffyn yn ei wneud a sut—a gefnogir gan gaffael galluoedd digidol dethol—yn cynnig y potensial am welliannau cyflym o ran capasiti'r Lluoedd Arfog i achosi angau. Gyda bwriadau a galluoedd gelynion yn newid mor sylweddol, a chyda thechnoleg yn newid dulliau rhyfela mor gyflym, nid yw **'busnes fel arfer' bellach yn opsiwn.** Nawr yw'r adeg i weithredu.

**Argymhelliad:**

3. Rhaid i Amddiffyn drawsnewid sut mae'n gweithio i ddod yn bŵer amddiffyn blaenllaw sy'n defnyddio technoleg, gyda Llu Integredig sy'n atal, yn ymladd ac yn ennill drwy arloesi'n gyson ar gyflymder rhyfel. Er mwyn sbarduno'r trawsnewid hwn, rhaid i Amddiffyn sicrhau'n fwy systematig bod ei ymdrechion yn cyflawni ar gyfer y rhyfelwr ac ar gyfer economi'r DU—gyda'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn sydd ar y gweill yn gyfle pwysig i wreiddio diwygiadau radical. I lwyddo, bydd gofyn i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddatblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ei chystadleurwydd milwrol a pherfformiad y sylfaen arloesedd amddiffyn a diwydiannol. Fel man cychwyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu a thracio metrigau ar gyfer:

   - Capasiti'r Lluoedd Arfog i achosi angau.
   - Cynhyrchiant o fewn Amddiffyn ac, ar wahân, ym maes diwydiant.
   - Effaith economaidd genedlaethol y gwariant ar gaffael Amddiffyn (gan gynnwys ymchwil adrannol a gwariant ar ddatblygu), yn enwedig yn y sectorau technoleg defnydd deuol ac amddiffyn.

# 4.1 Model y Llu Integredig

1. Mae'r DU wedi bod ar flaen y gad ers tro o ran ymdrechion i ddarparu llu ymladd sy'n 'cydweithio' ac yn 'aml-barth'. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r Gwasanaethau unigol wedi datblygu i raddau helaeth ar wahân o ran dyluniad, cyfarpar a hyfforddiant—gan greu seilos. Y canlyniad yw llu sy'n dod at ei gilydd ar faes brwydr yn unig: pennir effeithiolrwydd y Lluoedd Arfog mewn gweithrediadau gan y galluoedd sydd ar gael i bob Gwasanaeth adeg lleoli, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio a darparu cydgysylltiedig.

2. Er mwyn i'r Lluoedd Arfog fod mor effeithiol â phosibl o ran capasiti i achosi angau, **rhaid iddynt gwblhau'r daith o newid o 'gydweithio' i 'unedig'**, gan wyrdroi'r model fel bod awdurdodau ar gyfer dylunio a chyflawni yn llifo o'r brig i lawr o bwynt awdurdod milwrol unigol. Mae'r newid sylweddol hwn o ran dull gweithredu yn dibynnu ar ddyrchafu Pennaeth y Staff Amddiffyn o dan Ddiwygio Amddiffyn fel pennaeth y Pencadlys Strategol Milwrol newydd gyda rheolaeth dros Benaethiaid Gwasanaeth. Rhaid integreiddio'r Gwasanaethau ym maes cynllunio, parodrwydd, lleoli, a chaffael. Ac mae'n rhaid i'r Llu Integredig hwn fod yn seiliedig ar y sylfaen ddigidol gyffredin a'r data a rennir sy'n ganolog i ddulliau rhyfela heddiw a ddiffinnir gan feddalwedd.

## Integreiddio drwy ddyluniad

3. Dyma brif nodweddion y Llu Integredig:

   - **Dyluniad llu unigol** sy'n darparu llu ymladd sy'n fwy ystwyth ac effeithiol o ran capasiti i achosi angau. Mae Lluoedd Arbennig a niwclear a chonfensiynol y DU wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn ymdrech unedig, gydag elfennau'r llu heb fod yn niwclear yn cael eu dylunio a'u cyfarwyddo gan Bennaeth y Staff Amddiffyn fel un llu i gyflawni'r nodau a osodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r llu ymladd cydlynol hwn yn hyfforddi ac yn ymladd ar draws parthau o dan un weledigaeth, gan ddefnyddio cryfderau ac arbenigedd unigryw'r Gwasanaethau unigol a'r Drefn Reoli Strategol. Mae Pennaeth y Staff Amddiffyn yn gyfrifol am barodrwydd a dygnwch y Llu Integredig, gyda chefnogaeth y Penaethiaid Gwasanaeth. Wrth ddylunio'r llu unedig hwn, mae'n rhaid i Bennaeth y Staff Amddiffyn gydbwyso buddsoddiad rhwng galluoedd rheng flaen a'r galluogwyr sylfaenol sy'n cynnal y llu mewn rhyfel hirfaith a llawn dwyster.
   - **Set gyffredin o alluogwyr sylfaenol.** Mae'r ystod lawn o weithgareddau ategol a galluoedd[34] yn cael eu darparu yn unol ag un cynllun a bennir gan Bennaeth y Staff Amddiffyn a'r Pencadlys Strategol Milwrol. Mae'r gwaith o gyflawni'r dyluniad hwn yn cael ei gyfarwyddo gan Bennaeth y Staff Amddiffyn ac yn cael ei arwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth.

34 Megis hyfforddiant, ymarferion, seilwaith, logisteg, gwasanaethau meddygol, cudd-wybodaeth, cyflenwadau ac arfau.

Mae'n cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol newydd. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys arloesi ym maes amddiffyn, caffael, cymorth, seilwaith ac Amddiffyn Digidol.

- **Mae galluogi digidol wrth ei wraidd**. Mae sylfaen ddigidol gyffredin o ddata, Deallusrwydd Artiffisial, amgylcheddau synthetig a rhwydweithiau yn cysylltu pobl a llwyfannau ar draws pob parth, a chyda chynghreiriaid a phartneriaid. Mae hyn yn rhoi ystwythder i'r Llu Integredig, yn ogystal â'r gallu i symud yn gyflym a thargedu yn effeithiol er mwyn trechu gwrthwynebwyr.
- **Cydweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth mewn amser real**, yn enwedig Cymuned Cudd-wybodaeth y DU,[35] er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl mewn ymateb i heriau diogelwch cenedlaethol.

4. Er mwyn cyflawni'r rolau ar gyfer Amddiffyn a amlinellir ym Mhennod 3, **mae'n rhaid i'r Llu Integredig fod yn gallu gweithredu mewn gwahanol ffurf**. Dylai:

   - Drwy ddyluniad, gael ei integreiddio â NATO (Blwch 4 ym Mhennod 3), gallu gweithredu fel rhan o Drefniadau Rheoli Cydrannau NATO gan barhau i ddefnyddio galluogwyr cyffredin y DU ynghyd ag elfennau eraill y Llu Integredig, fel Cymuned Cudd-wybodaeth y DU.
   - Gallu integreiddio wrth weithredu mewn cynghrair, gan gynnwys fel gwlad fframwaith flaenllaw[36] ac fel partner sy'n cyfrannu.
   - Gallu gweithredu fel grym sofran, integredig pan fo angen. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth gyflawni cyfrifoldebau'r DU i'r Tiriogaethau Tramor.

5. Lle mae adolygiadau blaenorol wedi sefydlu dyluniad llu sefydlog i'w gyflawni erbyn dyddiad penodol, mae'r Adolygiad hwn yn argymell **model o arloesi cyson mewn perthynas â'r Llu Integredig ar gyflymder adeg rhyfel**, a gyflawnir drwy bartneriaeth newydd â diwydiant (Pennod 4.2). Mae hyn yn sicrhau bod arloesi masnachol a'r gallu i dyfu a chynnal y cyflenwad yn rhan o sut mae'r Lluoedd Arfog yn cael eu creu ac yn gweithredu. O dan y model hwn, **nid oes cyflwr terfynol i'r Llu Integredig**: rhaid i'w ddyluniad a'i alluoedd—a'r ffordd mae Amddiffyn ehangach yn ei gefnogi—barhau i esblygu yn yr un modd â bygythiadau a thechnoleg.

## Integreiddio wedi'i alluogi'n ddigidol

6. **Mae integreiddio digidol yn hanfodol er mwyn sicrhau newid sylweddol o ran y capasiti i achosi angau.** Data a systemau digidol yw sylfeini pob gallu milwrol modern, sy'n golygu eu bod yn fwy galluog, gwydn ac angheuol. Maent yn annatod wrth ddatblygu llu sy'n llawn deallusrwydd artiffisial, systemau di-griw ac awtonomaidd, ac wrth baratoi'r tir ar gyfer effaith ddwys bosibl Deallusrwydd Cyffredinol Artiffisial. Ni ellir eu hystyried bellach yn ddewis o ran gallu i'w pwyso a mesur yn erbyn platfformau milwrol traddodiadol, fel taflegrau, llongau neu danciau. Mae angen darpariaeth a chyllid blaenoriaeth ar eu cyfer.

35 Mae'n cynnwys y Gwasanaeth Diogelwch (MI5), y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol (SIS neu MI6), a Phencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ).

36 Darparu'r arweinyddiaeth sefydliadol, galluogwyr milwrol, a llawer o elfennau lluoedd ar gyfer gweithrediad, lle bydd partneriaid yn 'plygio' galluoedd arbenigol i mewn iddo.

## Atgyweirio'r sylfeini ar frys

7. Mae elfennau o ragoriaeth yn gweithio tuag at y weledigaeth hon ar draws y maes Amddiffyn.[37] Fodd bynnag, mae trawsnewid digidol Amddiffyn wedi'i lesteirio yn sgil colli cyllid canolog, diffyg safonau a phensaernïaeth wedi'u diffinio a'u cymhwyso'n gyson, a phrinder parhaus o sgiliau digidol allweddol yn y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaeth Sifil.

8. **Dylai amddiffyn ganolbwyntio'n ddidostur ar gyflawni'r llwyfan digidol craidd ar gyfer ymladdwyr rhyfel.** Rhaid i'r Prif Swyddog Gwybodaeth gael awdurdod clir i sefydlu a goruchwylio safonau technegol cyffredin, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a rheoli data. Gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth yn diffinio'r llwyfan a'r safonau craidd yn y 'canol', mae ecsbloetiaeth yn symud yn bennaf i'r cyrion: gall staff rheng flaen arbrofi a chreu'r rhaglenni digidol sydd eu hangen arnynt yn gyflym, gan fwydo eu gwybodaeth yn ôl i'r dyluniad canolog. Er mwyn darparu'r llwyfan craidd, mae angen gwneud y canlynol:

   - **Canolbwyntio ar alluoedd y fenter graidd**: rhwydweithiau cyfathrebu cadarn a diogel, ffabrig data sicr,[38] a'r gallu i ddefnyddwyr ddefnyddio gwasanaethau a manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial a galluoedd awtonomaidd mewn amser real, mewn unrhyw leoliad, ac ar raddfa. Mae hyn yn gofyn am gynnydd cyflym o ran darparu'r Secret Cloud.[39]
   - **Seiberddiogelwch gadarn.** Dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau etifeddol er mwyn lleihau'r lefelau risg seiber na ellir eu dioddef sydd gan Amddiffyn ar hyn o bryd.
   - **Croesawu pensaernïaeth agored a safonau technegol a rennir**, o byrth caledwedd dronau safonol i brotocolau deallusrwydd artiffisial a chyfathrebu cyffredinol. Mae symlrwydd yn allweddol.
   - **Trin data fel ased strategol**, gyda seilwaith data a chyfrifiadura wedi'i ddiogelu, a llifoedd data wedi'u sicrhau gan gynghreiriaid a Chymuned Cudd-wybodaeth y DU. Byddai penodi arweinydd data/deallusrwydd artiffisial ym mhob portffolio gallu caffael (Pennod 4.2) yn sicrhau bod data ac AI yn cael eu hystyried drwy gylch bywyd llawn y galluoedd newydd.

> Buddsoddi yn y bobl ... mae'n rhaid iddyn nhw ddeall y dechnoleg. Gallwch ei adeiladu a'i brynu, ond mae'n bwysig eu bod yn gallu ei ddefnyddio
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, RAF Waddington**

---

37 Yn enwedig yn y Lluoedd Arfog. Mae prosiectau ASGARD (y Fyddin), EVE (y Llynges Frenhinol) a NEXUS (y Llu Awyr Brenhinol) hefyd yn defnyddio datblygiadau arloesol digidol a data i gysylltu lluoedd ar y tir, yn yr awyr, neu ar y môr gydag asedau rhwydwaith eraill i ddarparu cymorth i wneud penderfyniadau ar gyflymder peiriant ar gyfer rhagchwiliadau ac ymosodiadau.

38 Mae ffabrig data yn system soffistigedig sy'n galluogi rheoli ac integreiddio symiau mawr o ddata yn effeithlon ar draws nifer o ffynonellau. Mae'n hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio strategol mewn byd sy'n dod yn fwyfwy digidol, lle mae data'n cael ei gynhyrchu a'i storio mewn lleoliadau a fformatau amrywiol. Fel y mae rhwydwaith trafnidiaeth sydd wedi'i ddylunio'n dda yn sicrhau bod modd teithio'n esmwyth ac yn effeithlon, mae ffabrig data'n cysylltu ac yn cysoni gwahanol ffynonellau data, sy'n golygu bod modd cael golwg gynhwysfawr a chydlynol ar y dirwedd data.

39 Llwyfan diogel y gellir ei ehangu ar gyfer storio a rhannu gwybodaeth yn y Secret Cloud.

9. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion technoleg arloesol a'r bensaernïaeth ddigidol gyffredin, mae'n rhaid i Amddiffyn hefyd wneud ymdrech ar y cyd i ddatblygu'r sgiliau digidol, deallusrwydd artiffisial, seiber ac electromagnetig angenrheidiol sy'n ganolog i ryfela modern.

10. Byddai sefydlu **grŵp Ymladdwyr Rhyfel Digidol penodol yn galluogi Amddiffyn i ddefnyddio ymladdwyr rhyfel digidol a chonfensiynol ochr yn ochr â'i gilydd ar weithrediadau**, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu ac addasu'n gyflym. Byddai'r Rhyfelwyr Digidol yn manteisio ar dechnolegau fel synwyryddion, systemau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial, a dronau i sicrhau mantais bendant: dadansoddi data maes brwydr mewn amser real, rhagweld bygythiadau, optimeiddio strategaeth weithredol, cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, a gwella dulliau cyfathrebu ac integreiddio ar draws parthau. Dylai'r grŵp newydd hwn ddangos arferion gorau ar gyfer recriwtio, cadw a hyfforddi staff: bod yn ddeniadol i'r rheini na fyddent fel arfer yn ystyried Amddiffyn fel opsiwn gyrfa; elwa ar gyfleoedd hyblyg o fewn ffrydiau gyrfa strwythuredig; a charfan o bersonél Parhaol, Wrth Gefn, sifilaidd a diwydiant.

## Un cenhadaeth ddigidol: y we targedu digidol

11. **Byddai cenhadaeth uno glir yn galluogi Amddiffyn i lwyddo lle mae wedi methu o'r blaen**, gan sbarduno cynnydd o ran gosod y sylfeini. Yn y pen draw, byddai sefydlu'r 'we targedu' digidol newydd (Blwch 5 a Ffigur 3) yn cael effaith gatalytig a hefyd yn gwella cywirdeb a chapasiti'r Lluoedd Arfog i achosi angau ar raddfa a chyrhaeddiad. Gan mai'r Pencadlys Strategol Milwrol sy'n darparu'r signal galw canolog ar gyfer y we newydd hon, dylid dal arweinwyr digidol i gyfrif am ei rhoi ar waith. Dylid sefydlu Panel Cynghori allanol i gefnogi'r weledigaeth a chyflawni'r genhadaeth.



**Blwch 5: Y we targedu digidol**

Yn seiliedig ar wersi o Wcráin, byddai'r we targedu digidol yn **cysylltu 'synwyryddion', 'penderfynwyr', ac 'effeithwyr'**. Mae hyn yn arwain at ddewis a chyflymder wrth benderfynu sut i ddifrodi neu ddinistrio targed penodol ar draws parthau, ac mewn parth seiber ac electromagnetig cystadleuol. Er enghraifft, gallai synhwyrydd ar long neu yn y gofod ddod o hyd i darged cyn cael ei analluogi gan awyren F-35, drôn, neu weithred seiber ymosodol. Gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a chyda chefnogaeth amgylchedd synthetig cyffredin, mae'r we targedu yn ymgorffori sut mae'n rhaid i'r Llu Integredig ymladd ac addasu. Mae ei fodolaeth yn unig yn cyfrannu at ataliaeth.

**Ffigur 3: Darlun o'r we targedu digidol**



**Argymhellion:**

4. Dylai'r Llywodraeth roi model y Llu Integredig ar waith er mwyn integreiddio'n llawn ym maes Amddiffyn, gan ddarparu grym ymladd sy'n fwy ystwyth ac angheuol. Er mwyn sicrhau atebolrwydd dros addasiad parhaus y Llu Integredig dros amser, dylai Amddiffyn wneud y canlynol:
   - Cyflwyno datganiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddyluniad lluoedd sy'n nodi beth sydd wedi newid.
   - Cynnal gwerthusiad blynyddol o effeithiolrwydd model y Llu Integredig, wedi'i fesur drwy welliannau amlwg o ran: argaeledd asedau; cynaliadwyedd; cyflymder ecsbloetiaeth; cyfraddau arbrofi hyd at fabwysiadu; gallu NATO i ryngweithredu; a chyflymder gwneud penderfyniadau.
5. Mae integreiddio digidol yn hanfodol os yw Lluoedd Arfog y DU am gynyddu eu capasiti i achosi angau yn sylweddol. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn (a) diogelu gwariant digidol fel blaenoriaeth na fydd yn methu a (b) ymgorffori diwylliant o arloesi cyson gyda tharged o newid blynyddol sylfaenol o 10% o wariant o alluoedd cyfredol i'r genhedlaeth nesaf ar ei gwasanaethau a'i llwyfannau digidol menter. Er mwyn sicrhau atebolrwydd am gyflawni:
   - Dylai cynnydd o ran sefydlu galluoedd sylfaenol llwyfan cyffredin craidd—dan awdurdod y Prif Swyddog Gwybodaeth—gael ei adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol bob chwarter.
   - Dylid sbarduno cynnydd drwy un genhadaeth ddigidol: i ddarparu gwe targedu digidol yn 2027, sy'n gofyn am fynediad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at Gwmwl Cudd ar draws Amddiffyn, gyda chynnyrch hyfyw sylfaenol ar gael yn 2026.
   - Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Gorffennaf 2026 ynghylch sicrwydd llif data hanfodol, gyda chynllun ar gyfer cynyddu dosbarthiad a defnydd o ddata mewn rhyfeloedd ac ar draws Amddiffyn.
   - Dylid sefydlu grŵp Ymladdwyr Rhyfel Digidol newydd, gyda rhyddid priodol o ran recriwtio a thâl, erbyn mis Gorffennaf 2026. Dylai'r grŵp newydd hwn alluogi Amddiffyn i ddefnyddio ymladdwyr rhyfel digidol a chonfensiynol ochr yn ochr â'i gilydd ar weithrediadau.

# 4.2 Arloesedd a Diwydiant: Dull Gweithredu Newydd ar gyfer Atal a Thyfu

1. **Mae arloesedd a phŵer diwydiannol yn ganolog i ataliaeth a ffactorau tyngedfennol mewn rhyfeloedd**. Mae'r gwrthdaro yn Wcráin yn ein hatgoffa pa mor hanfodol yw cadw digon o stociau arfau ac offer sbâr, a'r angen i ddiwydiant allu adnewyddu ac ailgyflenwi'n gyflym, yn ogystal â chylch cyflym a pharhaus o arloesi rhwng diwydiant a'r rheng flaen.

2. Heddiw, mae llawer o'r arloesi gorau i'w weld yn y sector preifat, tra bo'r cynnydd mewn amlygrwydd technolegau defnydd deuol wedi ehangu'r rhwyd o ddarpar gyflenwyr sy'n gallu cyfrannu at ganlyniadau Amddiffyn. **Mae ystod eang o bartneriaid y tu allan i Amddiffyn y mae'n rhaid iddo geisio eu cynnwys** ochr yn ochr â phrif gontractwyr, o gwmnïau technoleg ac arloesi newydd a busnesau sy'n tyfu,[40] i fusnesau bach a chanolig, buddsoddwyr preifat, a'r undebau llafur a'u haelodau, hebddynt ni fydd yn bosibl creu'r newid sylweddol mewn cynhyrchiant diwydiannol.

3. **Mae gan Amddiffyn rôl hollbwysig i'w chwarae o ran datblygu'r sylfaen ffyniannus a chadarn** sy'n sail i sefyllfa lle'r ydym yn barod i gystadlu a rhyfela (Pennod 3). Ond erys o hyd y cylchoedd caffael o oes y Rhyfel Oer a'i berthynas â diwydiant. Mae prosesau presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn yn llesteirio'r gallu i addasu a chynhyrchu, gan osod amserlenni, gofynion a chostau annymunol ar gwmnïau llai. Mae cylchoedd arloesi'n digwydd fwyfwy dros ddiwrnodau ac wythnosau nawr yn hytrach na misoedd a blynyddoedd. Ond ar gyfer prosiectau sy'n werth dros £20m, mae'n cymryd 6.5 mlynedd ar gyfartaledd i ddyfarnu contract.

4. **Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Amddiffyn y DU, nid yw busnes fel arfer yn opsiwn mwyach**. Drwy gefnogaeth y DU i Wcráin, rydym wedi gweld sut beth yw cydweithio effeithiol rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a diwydiant. Mae prosesau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cyfnod o heddwch wedi cael eu chwyldroi er mwyn gallu cyflawni'n gyflym. Rhaid i Amddiffyn brif ffrydio'r arferion hyn: mae creu partneriaeth newydd gyda diwydiant, trawsnewid prosesau caffael, a sicrhau cymorth gydol oes yn ffactor canolog mewn penderfyniadau caffael.

5. Hefyd, mae gan amddiffyn **botensial sylweddol heb ei wireddu i fod yn beiriant newydd ar gyfer twf** wrth galon strategaeth economaidd y DU. Mae eisoes yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi'r DU. Yn 2023/24, gwariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn oddeutu £29bn gyda diwydiant y DU.[41] Roedd gwerth allforion Amddiffyn yn £14.5bn yn 2023. Mae Amddiffyn yn cynnal 440,000 o swyddi ledled y DU a thros


40 Mae cwmni 'sy'n tyfu' yn un sydd wedi symud y tu hwnt i'r cyfnod sefydlu, ar ôl profi ei fodel busnes.

41 MOD regional expenditure with industry 2023/24 - GOV.UK.

24,000 o brentisiaethau, gyda manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol (Ffigur 4).[42] Ond gall wneud mwy.

6. Byddai diwygio radical o'r bôn i'r brig ym maes caffael amddiffyn—ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn arloesi, technoleg newydd, gweithgynhyrchu uwch, a sgiliau—yn cynyddu gallu cynhyrchiol economi'r DU, gan sicrhau bod **buddsoddiad mewn Amddiffyn yn cyflawni ar gyfer yr ymladdwyr rhyfel a'r economi.**

**Ffigur 4: Y diwydiant amddiffyn cenedlaethol**




42 Roedd prentisiaethau milwrol a ddechreuodd yn 2018/19 wedi sicrhau budd economaidd gros o tua £600m erbyn 2023/24. Measuring the Net Present Value of Further Education in England 2018-19 - GOV.UK.

7. I lwyddo, **rhaid i Amddiffyn fod yn fwy pwrpasol o ran ei agwedd at ddiwydiant.** Mae mewn sefyllfa unigryw i ddefnyddio ei rym gwario i gefnogi twf economaidd, o ystyried ei faint sylweddol yn y farchnad, ei allu i brynu ar raddfa fawr drwy gaffael cydlynol, ac angen sy'n esblygu'n barhaus am dechnoleg. Gan flaenoriaethu busnesau yn y DU, dylai Amddiffyn anelu'n uchel: dylid mesur llwyddiant o ran nifer a graddfa cyflenwyr technoleg ddofn yn y DU mewn meysydd fel Deallusrwydd Artiffisial, awtonomi, gweithgynhyrchu uwch, cwantwm a gofod—gyda chwmnïau Eiddo Deallusol uchel yn darparu galluoedd blaengar ar gyfer Amddiffyn ar yr un pryd â chreu swyddi medrus â chyflog uchel a hybu allforion ym maes meddalwedd, Eiddo Deallusol, a chyfarpar.

8. **Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn sydd yn yr arfaeth yn gyfle pwysig i sbarduno'r diwygio radical angenrheidiol.** Dylai nodi'n glir sut mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r diwydiant esblygu, gydag arweinyddiaeth yn cael ei darparu o fewn Amddiffyn gan y Bwrdd Twf Amddiffyn[43] newydd a'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol (NAD).

## Plannu arloesedd a thwf

9. **Rhaid i Amddiffyn groesawu ei safle unigryw yn y farchnad**—gan gynnwys pŵer ei rôl fel 'cwsmer cyntaf' ar gyfer busnesau newydd—i blannu arloesedd a thwf. Dylai dull mwy cynhwysfawr ac uchelgeisiol gynnwys y canlynol:

   - **Y Weinyddiaeth Amddiffyn i fuddsoddi cymaint â phosibl mewn ymchwil a datblygu**—oddeutu £2.6bn yn 2023/24.[44] Dylid cefnogi hyn drwy gydweithio â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT), Yr Adran Busnes a Masnach, Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), a'r Asiantaeth Ymchwil ac Arloesi Uwch i sicrhau bod ymchwil a ariennir gan drethdalwyr yn cefnogi setiau problemau blaenoriaeth Amddiffyn. Rhaid i leisiau gwyddoniaeth a thechnoleg ac arloesi arbenigol gael eu clywed ar y bwrdd uchaf yn y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn dylanwadu ar y weledigaeth strategol ar gyfer y buddsoddiad hwn a chefnogi'r gwaith o'i gyflawni.
   - **Ymdrech ar y cyd i ddatgloi cyfalaf preifat ac arbenigedd.** Mae diddordeb y sector preifat yn y sector amddiffyn yn tyfu ond mae rhwystrau i fuddsoddiad preifat yn parhau. Rhaid i Amddiffyn ddatblygu gwell perthynas â'r sector gwasanaethau ariannol, a datblygu dealltwriaeth ohono. Dylid archwilio modelau cyllido newydd i wneud arloeswyr amddiffyn yn gynnig mwy deniadol ar gyfer cyfalaf preifat, lleihau cost cyllid i gwmnïau amddiffyn, a chynyddu'r gallu i gyfuno cyfalaf â chynghreiriaid.
   - **Menter drawslywodraethol i ddatblygu clystyrau rhanbarthol**[45] ar gyfer technolegau penodol ac i ysgogi twf yn seiliedig ar leoedd, o seiber ym Manceinion i ddeallusrwydd artiffisial yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ac awtonomi forol yn Plymouth. Mae'r bartneriaeth i ddatblygu Barrow-in-Furness (Blwch 6), sy'n gartref i raglen niwclear ataliol y DU, yn cynnig model defnyddiol ar gyfer partneriaethau lleol-cenedlaethol


43 Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 19. Bydd y bwrdd yn cael ei gyd-gadeirio gan yr Ysgrifennydd Amddiffyn a Changhellor y Trysorlys.

44 Gwariant net. MOD departmental resources: 2024 - GOV.UK.

45 Mae clwstwr rhanbarthol yn grynodiad daearyddol o fusnesau cydgysylltiedig, a gefnogir gan brifysgolion a sefydliadau ymchwil, wedi'u hadeiladu o amgylch gwybodaeth arbenigol, arbenigedd a phrofiad.

sy'n cyfuno cyllid cenedlaethol a rhanbarthol ac arbenigedd i ddatblygu cryfderau lleol. Rhaid ystyried hefyd y diwydiannau amddiffyn ar draws y gwledydd datganoledig—Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon—wrth fwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn.

- **Creu llif o sgiliau a thalent greadigol** a fydd yn helpu Amddiffyn a diwydiant i ddarparu galluoedd arloesol ar yr un pryd â datblygu'r sylfeini ar gyfer twf economaidd. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn weithio gyda'r Adran Addysg, DSIT (gan gynnwys yn uniongyrchol gydag UKRI), a phrifysgolion i fuddsoddi mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a sgiliau arbenigol eraill.



**Blwch 6: Datblygu trefi a rhanbarthau drwy bartneriaeth leol-genedlaethol: Barrow-in-Furness**

Lansiwyd y Cynllun ar gyfer Barrow yn 2024, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol y dref ar gyfer cynnal a chadw rhaglen niwclear ataliol y DU. Drwy fwy na £200m o fuddsoddiad gan y llywodraeth dros y deng mlynedd nesaf, bydd 'Tîm Barrow'—partneriaeth rhwng y Llywodraeth, Cyngor Westmoreland a Furness, a BAE Systems—yn mynd i'r afael â thanfuddsoddiad hanesyddol a lefelau uchel o amddifadedd, er mwyn helpu i adfywio ac adnewyddu'r ardal er budd Amddiffyn, y gymuned leol, a'r economi leol.

Mae Tîm Barrow yn fodel o gydweithio trawslywodraethol. Ochr yn ochr â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, mae'r Adrannau Trafnidiaeth, Addysg, Busnes a Masnach, Gwaith a Phensiynau, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol oll yn chwarae rhan hollbwysig drwy gyllido neu gefnogi mentrau. Mae'r rhain yn cynnwys gwell cysylltedd trafnidiaeth, cartrefi ychwanegol a mannau cyhoeddus newydd, cynigion addysg diwygiedig, cymorth i fusnesau lleol, a chynlluniau i liniaru prinder sgiliau.

10. **Bydd cyflawni'r dull mwy uchelgeisiol hwn yn golygu bod yn rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu ei hun i lwyddo'n fewnol.** Mae gwahaniaeth amlwg rhwng plannu ymchwil wyddonol camau cynnar (o egwyddorion sylfaenol i brofi yn y labordy) a siapio'r sector masnachol drwy gydweithio a chontractau. Mae llwyddiant yn y ddau beth hyn yn dibynnu ar wahanol ffyrdd o weithio, sgiliau, partneriaid a rhwydweithiau. Rhaid i'r Amddiffyn eu trin ar wahân, **gan ad-drefnu'r timau presennol i greu dau strwythur newydd** (Blwch 7). Dylid cydlynu agendâu'r timau hyn fel elfennau craidd o Grŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol newydd, gan gyfuno o amgylch ymgyrchoedd thematig a thechnolegol sydd, yn eu tro, yn cyd-fynd â chynlluniau gallu a sectorau diwydiannol.[46] Dylai'r sefydliadau adrannol newydd hyn ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Plannu ymchwil wyddonol camau cynnar**. Dylai sefydliad Ymchwil a Gwerthuso Amddiffyn newydd—wedi'i greu fel esblygiad o'r timau Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn a Dstl presennol[47]—fod yn borth i'r byd academaidd a sefydliadau ymchwil ledled y DU a gwledydd cysylltiedig, gan ysgogi Gwyddoniaeth a Thechnoleg o'r radd flaenaf a ariennir gan y Llywodraeth yn fwy effeithiol i'w gwneud yn werth chweil i brifysgolion fuddsoddi mewn meithrin gallu a chapasiti yn y tymor hir.
- **Harneisio arloesedd masnachol**. Dylai'r sefydliad newydd ar Arloesi Amddiffyn y DU (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025)[48] ddarparu'r mecanwaith a ddefnyddir gan Amddiffyn i ddarganfod ac i brynu cynnyrch a gwasanaethau masnachol arloesol yn gyflym gan y DU a gwledydd y cynghreiriaid. Drwy gysylltu arloesedd allanol â chaffael Amddiffyn, dylai'r sefydliad hwn weithredu fel peiriant ar gyfer twf yn y sectorau amddiffyn a thechnoleg defnydd deuol. Bydd ganddo gyllideb flynyddol wedi'i chlustnodi o £400m o leiaf.[49]

> Dylem fod yn buddsoddi mewn ymennydd, syniadau, ac arloesedd. Mae bob amser yn bwysig defnyddio eich cryfderau
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, Canolfan Llynges EM Portsmouth**

11. O dan y model diwygiedig hwn ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac arloesi, bydd y Prif Gynghorydd Gwyddonol yn yr Adran Wladol yn parhau â'r rôl hanfodol o ddarparu canllawiau polisi gwyddoniaeth ac yn cysylltu'n allanol â rhwydwaith CSA y Llywodraeth, prifysgolion a sefydliadau gwyddonol eraill. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddefnyddio'r arbenigedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac arloesi sydd ar gael fel mater o drefn i lywio penderfyniadau caffael.

46 Yn seiliedig ar Lefelau Parodrwydd Technoleg 1 i 9 sy'n cynrychioli camau datblygu technolegau, o brofi yn y labordy (lefel 1), i'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio ar weithrediadau (lefel 9).

47 Efallai y bydd yr adran yn dymuno dal gafael ar frand Dstl ar gyfer y sefydliad mwy penodol hwn.

48 Government to turbocharge defence innovation - GOV.UK. Dylai arweinydd y sefydliad newydd hwn gael teitl priodol ar gyfer ymgysylltu allanol, fel 'Prif Swyddog Arloesi'.

49 Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 18.

**Blwch 7: Canfod a llywio ymchwil camau cynnar ac arloesedd masnachol**

Dylai'r sefydliad **Ymchwil a Gwerthuso Amddiffyn** newydd weithio gyda sefydliadau academaidd ac ymchwil i wneud y canlynol:

- Dylunio a chyflwyno portffolio ymchwil gwyddoniaeth a thechnoleg camau cynnar, gyda rheolaeth gadarn dros y rhaglen ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol, ar ôl ymgynghori â phartneriaid mewnol ac allanol. Dylai'r sefydliad Ymchwil a Gwerthuso Amddiffyn rannu setiau problem â'r byd academaidd a sefydliadau ymchwil i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu Amddiffyn.
- Dylai ymchwil fewnol y sefydliad ganolbwyntio'n benodol ar nifer fach o faterion diogelwch gwladol lle mae sgiliau a pherchnogaeth sofran yn hanfodol, wedi'u cefnogi gan bartneriaeth gydag un neu ddwy brifysgol i ddatblygu arbenigedd a thalent.[50] Dylai'r ymdrech ganolog, bennaf fod ar:
    - Amddiffyniad cemegol a biolegol.[51] Dyma'r gweithgaredd hanfodol a brys.
    - Systemau arfau newydd ac anghonfensiynol, gan gynnwys deunyddiau grymus a ffrwydrol.
    - Technoleg gwrthderfysgaeth a gweithgynhyrchu, gan gynnwys arfau arbenigol.
    - Cynnal galluoedd profi unigryw, fel labordy Porton Down.[52]

  Mae'n bosibl y bydd angen cyfraniadau gan adrannau eraill y Llywodraeth, o ystyried y ffaith ei fod yn ddefnyddiol y tu hwnt i Amddiffyn yn unig.
- Grymuso'r rhwydwaith o Gynghorwyr Gwyddonol i sicrhau bod penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyngor gwyddonol yn cael eu mabwysiadu ar draws y maes Amddiffyn, a gweithio'n agos â'r Rheolwyr Rheng Flaen dan arweiniad y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol.
- Gwella ymdrechion gwyddonol y cynghreiriaid a NATO, gan gynnwys siapio a chyfrannu at ymchwil ryngwladol, gyfrinachol pan fo hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol.
- Sganio'r gorwel am ddatblygiadau cynnar ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg a allai siapio galluoedd amddiffyn hirdymor a nodi lle gall y Llywodraeth sbarduno a dylanwadu ar y farchnad drwy gontractau prawf o gysyniad.
- Ailedrych ar flaenoriaethau allweddol yn rheolaidd, gan dorri ar brosiectau nad ydynt yn cyflawni a sicrhau hyblygrwydd yn y gyllideb ar gyfer themâu sy'n dod i'r amlwg.

---

50 O ystyried y gofynion diogelwch, mae'n debygol mai dim ond un neu ddwy brifysgol neu glystyrau bach a fydd yn darparu'r hyfforddiant a'r arbenigedd perthnasol.

51 Bydd y Sefydliad Arfau Atomig yn parhau i stiwardio ymchwil wyddonol camau cynnar ar ran y Fenter Niwclear Amddiffynnol (Pennod 7.1).

52 Mae labordy Porton Down yn enghraifft o alluoedd hollbwysig Amddiffyn sydd gyda'r gorau yn y byd, fel y gwelwyd drwy ei rôl yn canfod y sylwedd nerfol graddfa filwrol, Novichok, a ddefnyddiwyd gan Rwsia mewn ymdrechion i lofruddio yn y DU yn 2018.

- Datblygu cysylltiadau agosach ar draws yr ecosystem Gwyddoniaeth a Thechnoleg, yn enwedig gyda phrifysgolion. Dylai hyn gynnwys sefydlu arbenigwyr thematig sy'n gweithio gyda phrifysgolion, Cymuned Cudd-wybodaeth y DU, ac eraill yn y Llywodraeth ar draws meysydd o flaenoriaeth genedlaethol.
- Fel is-gangen o'r cysylltiadau hyn, sefydlu 'partneriaethau angor' gyda set fach o brifysgolion dibynadwy i fanteisio ar Wyddoniaeth a Thechnoleg o'r radd flaenaf a ariennir gan y Llywodraeth yn fwy effeithiol, a'i gwneud yn werth chweil i brifysgolion fuddsoddi mewn meithrin gallu yn y tymor hir. Dylid adolygu'r cysylltiadau sefydliadol hyn bob pum mlynedd a'u haddasu i sicrhau eu bod yn berthnasol i flaenoriaethau Amddiffyn.

Dylai sefydliad **Arloesi Amddiffyn newydd y DU** lunio a defnyddio arbenigedd arloesi allanol i wneud y canlynol:

- Dod o hyd i atebion masnachol llawn, rhannol neu 'ddigonol' sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys technolegau defnydd deuol—gan rannu setiau problemau â diwydiant, nid manylebau.
- Gyrru'r gwaith o fabwysiadu arloesedd drwy gysylltu arloeswyr â thimau caffael Amddiffyn sydd wedi'u cyd-leoli yng Ngrŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol a chael gafael ar gyllid sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer masnacheiddio'n gyflym iawn.
- Nodi lle gallai ysgogi'r farchnad fel 'cwsmer cyntaf'.
- Cydlynu cyfres sylweddol symlach o hybiau arloesi (ar draws y Drefn Reoli Rheng Flaen) a heriau arloesi (o dan y Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch) yn unol â blaenoriaethau Amddiffyn ac i gefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu sy'n cael eu harwain gan arloesedd.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu clystyrau rhanbarthol a chefnogi partneriaethau lleol-cenedlaethol—gan ddefnyddio staff lleol i feithrin dealltwriaeth o sectorau busnes lleol.
- Meithrin perthynas ag adrannau eraill y Llywodraeth, yn enwedig gyda'r Adran Busnes a Masnach a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. Dylai hyn gynnwys cyflawni'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn a gweithgareddau 'Sganio' o dan y Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial.
- Troi at bartneriaethau sy'n 'seiliedig ar ganlyniadau' gyda:
  - Busnesau newydd, busnesau sy'n tyfu, a chwmnïau deillio, gan greu'r tonnau presennol a nesaf o gynnyrch a gwasanaethau technoleg.
  - Sefydliadau arloesi, ecwiti preifat, cyfalaf menter, a buddsoddwyr eraill yn y DU ac aelod-wladwriaethau NATO.

## Partneriaeth newydd â'r diwydiant

12. O dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol a'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn sydd yn yr arfaeth, mae'n rhaid i Amddiffyn ailwampio ei brosesau caffael er mwyn gwella cynhyrchiant a **chreu partneriaeth newydd â diwydiant**—gan symud i ffwrdd o'r berthynas rhwng y cwsmer a'r gwerthwr a chreu'r amodau lle gall cwmnïau ag eiddo deallusol uchel uwchraddio a thyfu. Mae hyn yn gofyn am ddull mwy deallus:

    - Ymgysylltu â diwydiant yn gynnar yn y broses gaffael ynghylch y canlyniadau a ddymunir ac ar gyfer datrys problemau.
    - Sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu gwobrwyo am eu cynhyrchiant ac am gymryd mwy o risg yn eu buddsoddiadau.
    - Cael gwared ar rwystrau i gydweithio, yn enwedig i gwmnïau llai.

13. Wrth galon y bartneriaeth hon, dylid meithrin **agwedd wedi'i segmentu at gaffael**[53] (Ffigur 5) sy'n adeiladu ar y Model Caffael Integredig[54] a'r newidiadau diweddar i Fodel Gweithredu DE&S. Byddai segmentu'n cynyddu'r amrywiaeth o gyflenwyr sydd ar gael i Amddiffyn drwy deilwra prosesau ac amserlenni i'r math o gaffael, cyflenwr, a'r risg dan sylw. Byddai gwarchod y gyllideb er mwyn masnacheiddio'n gyflym iawn (y trydydd segment) yn sicrhau nad yw arloesi tempo uchel yn cael ei wasgu allan gan fuddsoddiadau mewn llwyfannau mawr, gan ddatgloi cyllid preifat mewn ffordd sy'n fwy dibynadwy.[55] Rhaid diweddaru arferion masnachol drwy ddefnyddio contractau bytholwyrdd mwy hyblyg yn rheolaidd.[56] Byddai mynediad rheolaidd at efeilliaid digidol[57] a modelau rhagfynegi (efelychiadau) hefyd yn lleihau'r amser o gysyniad i ganlyniad.

14. Byddai **portffolios galluoedd gwasanaeth-agnostig** sy'n cyfuno cyllid ac arbenigedd ar gyfer meysydd technoleg yn cefnogi caffael ystwyth ymhellach ac yn gwreiddio safonau cyffredin ar draws y Llu Integredig. Byddai hyblygrwydd cyllid yn ystod y flwyddyn yn galluogi'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol i symud adnoddau lle mae eu hangen fwyaf o fewn portffolio. Dylid ymgorffori'r costau a'r prosesau ar gyfer caffael a chymorth gydol oes ym mhob portffolio i sicrhau fforddiadwyedd a gwella parodrwydd.

53 Cyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ym mis Mawrth 2025. Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 36.

54 Mae'r Model Caffael Integredig, a lansiwyd ym mis Ebrill 2024, yn ceisio cyflymu'r broses o ddarparu galluoedd milwrol ar draws y Lluoedd Arfog.




55 Dylai prosesau caffael ar gyfer y segment 'masnacheiddio'n gyflym iawn' adeiladu ar brofiad Tîm Galluoedd y Dyfodol yr adran Cyfarpar Amddiffyn a Chymorth.

56 Bydd contract 'bytholwyrdd' yn adnewyddu'n awtomatig ar ôl y dyddiad cau neu'r dyddiad dod i ben. Ar gyfer caffael meddalwedd, gellid ehangu'r dull 'Commercial X'—defnyddio fframwaith newydd i gyflymu caffael ar gyfer microfusnesau neu fusnesau bach—i alluogi cylch profi a datblygu cyflymach cyn prynu ar raddfa fawr.

57 Mae gefell digidol yn gynrychiolaeth rithiol o wrthrych neu system sy'n adlewyrchu'r gwrthrych ffisegol yn gywir. Mae'n cael ei ddiweddaru gan ddefnyddio data amser real. Dylai'r efeilliaid digidol, y modelau a'r data gadw at safonau a ddiffinnir gan Brif Swyddog Gwybodaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn (Pennod 4.1).

**Ffigur 5: Segmentu'r farchnad ar gyfer caffael doethach**

**Gwersi a nodwyd**

| Segment | Cost / cyfnod | Amser | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **Platfformau Modiwlaidd Mawr**<br>Cystadlu lle mae'n briodol yn unig<br>▪ Tymor hir, rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddi<br>▪ Manteision i yrru cynhyrchiant a chreu partneriaethau<br>▪ Cynyddu cyfran y DU | £££<br>2 flynedd o darged o'r contract cyntaf | **5+ mlynedd** | E.e. Prif danc brwydro, awyren, ffrigad<br> |
| **Uwchraddio troellog a modiwlaidd ar gyflymder**<br>Cystadleuol<br>▪ Uwchraddio'n rhwydd gan ddefnyddio dull 'plygio-a-defnyddio'<br>▪ Mwy o weithgynhyrchu yn y DU<br>▪ Safonau a phensaernïaeth ddigidol gyffredin yn gosod gofynion y platfform | ££<br>1 flwyddyn o darged o'r contract cyntaf | **Tua 2 flynedd** | E.e. Systemau cyfathrebu, synwyryddion ac uwchraddio arfau<br> |
| **Masnacheiddio'n gyflym iawn**<br>Contractau cystadleurwydd ac ar raddfa<br>▪ Rhoi'r dechnoleg ddiweddaraf ar waith<br>▪ Sbarduno arloesedd<br>▪ Datgloi ecwiti preifat a chyfalaf menter | £<br>Cylch 3-mis | **Misoedd** | E.e. Systemau heb griw a meddalwedd ddigidol<br> |

## Hybu allforion a phartneriaethau galluogrwydd

15. **Os ydym yn ymladd gyda'n gilydd, dylem adeiladu gyda'n gilydd.** Nid yw bellach yn fforddiadwy i Gynghreiriaid NATO, yn enwedig yn Ewrop, ddatblygu eu galluoedd medrus eu hunain ar lefelau cynhyrchu isel. Mae bodolaeth dros 165 o systemau/cerbydau milwrol ar draws NATO yn dangos maint y broblem. Mae allforion amddiffyn a phartneriaethau gyda galluoedd rhyngwladol—fel AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang (Blwch 8)—yn cynnig ateb posibl, gan gynnig arbedion maint a mas, llwybrau newydd at arloesedd a thwf economaidd, y gallu i ryngweithredu â chynghreiriaid, a sylfaen ddiwydiannol amddiffyn gyfunol gryfach. Maent yn sail i berthnasoedd y DU ac, yn y pen draw, maent yn cryfhau cyd-ddiogelwch (Pennod 5).

16. **Rhaid i allforion a phartneriaethau galluogrwydd gael eu hystyried mewn penderfyniadau caffael o'r cychwyn cyntaf.** Bydd dull newydd o allforio yn sbarduno cyfran y DU o'r farchnad, yn rhoi hwb i alluoedd, ac yn cryfhau twf. Yn bwysicaf oll, bydd yn sail i iechyd hirdymor y sector amddiffyn. Mae allforion amddiffyn yn golygu mwy na masnachu gan gwmnïau preifat yn unig. Mae llwyddiant yn seiliedig ar berthynas hirdymor rhwng Llywodraethau a sefydliadau milwrol. Unwaith eto, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddatblygu'r galluoedd ar gyfer allforio a'r perthnasoedd sy'n sail iddynt. Er mwyn gwella'r cyfleoedd i allforio, dylai'r DU ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer mecanwaith llywodraeth-i-lywodraeth well ochr yn ochr â threfniadau cydweithio milwrol-i-filwrol parhaus ar ôl gwerthu. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol feddu ar y gallu i gynyddu'r gwaith o gydlynu a chydweithio â chynghreiriaid (y tu mewn i NATO a'r tu allan iddo), gan gynnwys drwy gytuno ar safonau cyffredin a mwy o gydweithio ym maes ymchwil a datblygu.

**Blwch 8: Cydweithio rhyngwladol ar waith: AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang (GCAP)**

Bydd AUKUS a GCAP yn darparu galluoedd y genhedlaeth nesaf ar gyfer Lluoedd Arfog y DU drwy gydweithio â chynghreiriaid agos. O dan AUKUS, bydd Awstralia, y DU a'r Unol Daleithiau yn datblygu llongau tanfor niwclear wedi'u harfogi'n gonfensiynol y gellir eu cyfnewid, yn ogystal â thechnolegau datblygedig fel Deallusrwydd Artiffisial, systemau awtonomaidd, seiber, taflegrau hypersonig, a rhyfela o dan y dŵr. O dan GCAP, bydd yr Eidal, Japan a'r DU yn datblygu awyren y chweched cenhedlaeth—rhan o'r System Brwydro Awyr y Dyfodol (**Future Combat Air System**), sy'n cynnwys awyrennau â chriw, platfformau heb griw, arfau'r genhedlaeth nesaf, rhwydweithiau a rhannu data.

Ond mae'r rhaglenni hyn yn darparu mwy na galluoedd milwrol arloesol. Ar ei anterth, amcangyfrifir y bydd dros 21,000 o bobl yn gweithio ar y rhaglen llongau tanfor ymosod AUKUS ar safleoedd yn y DU, gyda'r gwaith yn cynhyrchu 7,000 o swyddi medrus ychwanegol. Mae eithriad ITAR gwledydd AUKUS a threfniadau rheoli allforion cyfatebol y DU ac Awstralia wedi cael effaith fuddiol o ran galluogi cynghreiriaid i gydweithio. Mae GCAP yn cefnogi dros 3,500 o swyddi yn y DU, gan gynnal gweithlu medrus ar gyfer diwydiant brwydro yn yr awyr y DU.

## Blaenoriaethu cadarn mewn penderfyniadau caffael

17. **Mae proses Cydbwyso Buddsoddiadau gadarn yn hanfodol os yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn am flaenoriaethu galluoedd ar gyfer caffael yn effeithiol**, gan arwain at gyfaddawdu rhwng amcanion adrannau. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn newydd (olynydd y Cynllun Cyfarpar) yn wirioneddol fforddiadwy, dylai'r broses Cydbwyso Buddsoddiadau ystyried y costau cysylltiedig er enghraifft, uwchraddio gydol oes, caffael a chefnogi, a newidiadau i seilwaith. Wrth asesu buddsoddiadau posibl, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael mynediad at ddata sicr yn ogystal â dadansoddiad manwl o gostau gydol oes a fforddiadwyedd y gallu arfaethedig yn y portffolio Amddiffyn cyffredinol. Dylai'r awdurdod dros ddileu o'r rhaglen fod yn nwylo'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol ar y cyd â'r Penaethiaid Gwasanaeth, gan ddarparu cyngor ar y cyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Argymhellion:**

6. Er mwyn hybu buddsoddiad preifat yn y sectorau amddiffyn a thechnoleg defnydd deuol, ac i gefnogi newydd-ddyfodiaid ac arloesedd, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddatblygu strategaeth benodol ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol erbyn mis Mawrth 2026. Mae'r mannau cychwyn pwysig yn cynnwys: sefydlu Grŵp Cynghori ar gyfer Buddsoddwyr Amddiffyn, gyda'i aelodau'n cynnwys buddsoddwyr cyfalaf menter ac ecwiti preifat; ac archwilio modelau cyllid ac ariannu amgen ar gyfer rhaglenni a phrosiectau Amddiffyn.
7. Erbyn mis Rhagfyr 2025, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu system wedi'i hadfywio ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg ac arloesi sy'n ymateb yn fwy uniongyrchol i'r broblem flynyddol a osodir gan y Pencadlys Strategol Milwrol i'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ad-drefnu'r strwythurau presennol yn ddau sefydliad newydd o dan Grŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol:
   - Sefydliad Ymchwil a Gwerthuso Amddiffyn, sy'n canolbwyntio ar alluogi ymchwil camau cynnar allanol. Dylai ymchwilwyr Amddiffyn arbenigol iawn wasanaethu fel cyfadran gyswllt â phrifysgolion partner, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2026–27.
   - Sefydliad Arloesedd Amddiffyn y DU, sy'n canolbwyntio ar harneisio arloesedd masnachol, gan gynnwys technolegau defnydd deuol.

   Dylai'r ddau sefydliad hyn weithio ar y cyd â'r Prif Gynghorydd Gwyddonol. Dylai'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol osod targedau uchelgeisiol ar gyfer tynnu drwodd a graddio, gan adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol bob chwarter ynglŷn â'r ymdrechion hyn.

**Argymhellion:**

8. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu partneriaeth newydd gyda diwydiant sy'n manteisio i'r eithaf ar arbenigedd mewnol a diwydiannol, sy'n cyflymu prosesau caffael, sy'n rheoli risgiau a chostau, ac sy'n ymgysylltu ag ystod ehangach o gyflenwyr. Dylid darparu mwy o ystwythder a chynhyrchiant drwy bortffolios galluoedd gwasanaeth-agnostig ac agwedd wedi'i segmentu at gaffael:
    - Platfformau modiwlaidd mawr (contractio o fewn dwy flynedd).
    - Uwchraddio'n gyflym ar batrwm troellen a modiwlaidd (contractio o fewn blwyddyn).
    - Masnacheiddio'n gyflym (contractio o fewn tri mis). Dylai'r segment hwn gael budd o gyllid sydd wedi'i ddiogelu, gydag o leiaf 10% o gyllideb caffael cyfarpar y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael ei gwario ar dechnolegau newydd bob blwyddyn.[58]

    Dylid sefydlu'r dull newydd hwn o segmentu'r farchnad a phortffolios galluogrwydd erbyn mis Mawrth 2026.
9. Er mwyn sicrhau atebolrwydd hirdymor am gyflawni:
    - Dylid cytuno ar ddau Ddangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol —un yn canolbwyntio ar gynhyrchiant adrannau (y dylid rhannu atebolrwydd ar ei gyfer gyda Phennaeth y Staff Amddiffyn), a'r llall yn canolbwyntio'n allanol ar gynhyrchiant y gadwyn gyflenwi.
    - Dylai Prif Berchnogion Cyfrifol portffolios galluogrwydd gwasanaeth-agnostig a rhaglenni caffael ar gyfer platfformau modiwlaidd mawr aros yn eu swyddi am o leiaf bum mlynedd, heb anfantais o ran cael dyrchafiad.
10. Erbyn mis Ebrill 2026, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddatblygu pecyn cymorth i'w phartneriaid diwydiannol sy'n cael gwared ar rwystrau i gydweithio ac sy'n sbarduno canlyniadau gwell a mwy cost-effeithiol: gan sicrhau gostyngiad o 50% o leiaf ym maich Safonau ac Amodau Amddiffyn; gweithio ar draws y Llywodraeth i ddiwygio'r Rheoliadau Contractau Ffynhonnell Sengl; diwygio rheoliadau, trin Eiddo Deallusol, a gofynion cliriad diogelwch; a darparu mynediad at gudd-wybodaeth, data, a safleoedd profi a gwerthuso.
11. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu mecanwaith ar gyfer asesu goblygiadau llawn partneriaethau galluogrwydd ar raddfa fawr gyda chynghreiriaid, gan gynnwys yn NATO. Dylai hyn gael ei ategu gan gynllun galluoedd amlochrog gyda Chynghreiriaid NATO sy'n nodi galluoedd ar gyfer caffael ar y cyd, yn cytuno ar safonau cyffredin, ac yn hybu'r gallu i ryngweithredu. Byddai'r ddarpariaeth yn cael ei gwella drwy gydnabyddiaeth gilyddol o drefniadau profi a gwerthuso cadarn ar draws y Gynghrair, gan arbed amser ac arian.

58 Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 18.

**Argymhellion:**

12. Rhaid i'r DU sefydlu'r amodau angenrheidiol ar gyfer hybu allforion amddiffyn a phartneriaethau galluogrwydd ar y cyd o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol. Dylai gynnwys y canlynol:
    - Trefniadau llywodraethu clir, atebolrwydd, a phrosesau symlach. Dylai'r cyfrifoldeb dros Allforion Amddiffyn a Diogelwch y DU gael ei drosglwyddo o'r Adran Busnes a Masnach i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn gydgysylltu ag adrannau perthnasol eraill i gyflawni ei nodau allforio.
    - Fframwaith newydd ar gyfer meithrin a chynnal cysylltiadau llywodraeth-i-lywodraeth, gan gynnwys drwy gydweithio milwrol-i-filwrol parhaus, gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd allforio i fusnesau'r DU. Adolygu polisïau trwyddedu allforion. Dylai hyn gynnwys ystyried sut i flaenoriaethu'n well a rhoi eglurder i'r diwydiant a phartneriaid rhyngwladol.
13. Mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gael proses Cydbwyso Buddsoddiadau gadarn lle mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol fynediad at ddadansoddiad manwl o gostau gydol oes a fforddiadwyedd y gallu arfaethedig yn y portffolio Amddiffyn cyffredinol. I gefnogi hyn:
    - Mae'n rhaid i Wasanaeth Dadansoddi a Sicrwydd Costau'r Weinyddiaeth Amddiffyn gael mynediad 'llyfr agored' at ddata yn ogystal â'r awdurdod a'r annibyniaeth i ddarparu cyngor rheolaidd i Weinidogion, gan gynnwys ynghylch fforddiadwyedd y gyllideb gyffredinol.
    - Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddigideiddio prosesau caffael a chefnogi cyn gynted ag y bydd cyllid yn caniatáu hynny.

# 4.3 ‘Un Amddiffyniad’: Pobl, Hyfforddiant ac Addysg

1. **Mae pobl yn hanfodol i Amddiffyn y DU ac i gyflawni’r trawsnewid a nodir yn yr Adolygiad hwn.** Mewn sawl ffordd, mae gan Amddiffyn rywbeth da i’w gynnig: cyflogau cychwynnol atyniadol, gwaith pwrpasol, addysg a hyfforddiant sgiliau, bri, a’r cyfle i weld y byd. Mae’r Lluoedd Arfog yn cael eu parchu am eu sgiliau, eu proffesiynoldeb a’u hymroddiad ledled y byd. Ar adeg pan fydd dyfnder strategol yn y gweithlu Amddiffyn yn fwyfwy pwysig i ataliaeth, rhaid iddo nawr fodloni’r her hirsefydlog o recriwtio a chadw cenedlaethau newydd sydd â gofynion gwahanol—her a rennir gan lawer o gynghreiriaid a phartneriaid yn y DU. Rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd ryddhau ei gweithlu o’r fiwrocratiaeth a’r amharodrwydd i gymryd risgiau sy’n llesteirio gweithredu ar bob lefel yn y sefydliad.

2. Mae mentrau sy’n mynd rhagddynt yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gam pwysig tuag at fynd i’r afael â’r heriau hyn. Fodd bynnag, er mwyn llwyddo **mae’n rhaid i Amddiffyn fod yn fwy radical wrth ryddhau arloesedd a chynhyrchiant wrth fynd ar drywydd ei ddiben canolog**: atal drwy fod yn barod i ymladd ac ennill rhyfeloedd. Fel man cychwyn, mae’r bennod hon yn edrych ar fentrau presennol. Mae ei argymhellion yn cyd-fynd â nodau Adolygiad Haythornthwaite 2023[59] ond dyma’r flaenoriaeth ar gyfer newid catalytig o ran creu dull ‘Un Amddiffyniad’ ar gyfer pobl, hyfforddiant ac addysg.

## Datblygu a chynllunio gweithlu lefel uchel

3. Mae ar Amddiffyn angen ‘cyfuniad’ deinamig o Filwyr Parhaol, Milwyr Wrth Gefn, a gweision sifil i ddarparu’r cymysgedd o sgiliau, profiad a dyfnder strategol sy’n ofynnol ar gyfer bygythiadau’r oes sydd ohoni. Bydd angen i’r cyfuniad hwn esblygu dros amser wrth i fygythiadau, dulliau rhyfela a thechnoleg esblygu. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu a chynllunio gweithlu lefel uchel i gefnogi canlyniadau Amddiffyn sy’n cynnwys y **‘llu cyfan’, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn seiliedig ar sgiliau**: rhoi’r bobl briodol yn y rolau priodol a defnyddio’r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion sy’n newid, gan gynnwys drwy ymdrechion recriwtio a chadw, harneisio sgiliau’r diwydiant yn well mewn meysydd dethol, a chynnig addysg a hyfforddiant penodol.

4. Er mwyn cyflawni’r rolau a nodir yn yr Adolygiad hwn, **nid oes lle i leihau nifer y Milwyr Parhaol sydd wedi’u hyfforddi a’u harfogi’n dda ar draws y tri Gwasanaeth**, hyd yn oed wrth i’r lluoedd symud tuag at roi llawer mwy o bwyslais ar awtonomi (Pennod 7). Dylid rhoi blaenoriaeth i gynyddu cyfanswm nifer y personél Cyffredin pan fydd cyllid yn caniatáu hynny, yn ystod tymor y Senedd nesaf mae’n debyg. Rhaid rhoi gofal a sylw i’r rolau sy’n cael eu cyflawni gan Filwyr Parhaol i ffwrdd o’r rheng flaen. Maent yn cyflawni’r rolau hyn â balchder ac yn fedrus ond gallai

59 ‘Agency and agility: Incentivising people in a new era’, 2023

o bosibl wanhau cryfder ymladd y DU, gan ganiatáu i sgiliau gweithredol a hyfforddiant grebachu.

5. **Mae’r amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau, profiad ac ymddygiad y mae Milwyr Wrth Gefn yn ei gyfrannu o’u swyddi allanol yn gryfder amhrisiadwy.** Rydym yn rhagweld y bydd angen cynyddu lluoedd Wrth Gefn gweithredol y DU gan o leiaf 20% pan fydd cyllid yn caniatáu hynny, sy’n fwyaf tebygol o fod yn y 2030au. Yn y cyfamser, er mwyn adfer mas a gwydnwch mewn argyfwng, mae’n rhaid i Amddiffyn wneud defnydd llawer gwell o’r adnoddau sydd ar gael drwy adfywio ar frys sut mae’n ymgysylltu â’r Llu Strategol Wrth Gefn (y cyn-filwyr Parhaol sydd â rhwymedigaeth cynnull, Pennod 6) a gwella trefniadau recriwtio a chadw o fewn y Lluoedd Wrth Gefn gweithredol. Rydym yn cefnogi gwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn i symleiddio’r strwythurau a’r mathau o Filwyr Wrth Gefn, cynyddu gwelededd a chydnabyddiaeth o’u rolau, a’i gwneud yn haws cynyddu sgiliau arbenigol a’u defnyddio’n helaeth os oes angen. I gefnogi’r gwaith hwn, dylai’r adran wneud y canlynol:
   - Rhoi gwell cyhoeddusrwydd i’r rolau ‘arbenigol’ sydd ar gael yn y Lluoedd Wrth Gefn (fel cyfreithwyr, peirianwyr ac arbenigwyr seiber) a sicrhau bod eu gallu, eu sgiliau a’u cyngor ar gael i’r gweithlu cyfan.
   - Diogelu amser, cyllid a chyfarpar ar gyfer y Milwyr Wrth Gefn yn y rhaglen hyfforddiant, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a graddfa drwy gysoni rolau ac arbenigeddau Milwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn.

6. **Mae gweision sifil yn ganolog i ganlyniadau Amddiffyn ac mae’n rhaid eu trin felly.** Rhaid i Amddiffyn fuddsoddi’n bwrpasol yn y Gwasanaeth Sifil sydd ei angen arno—ail-lunio’r gweithlu gan ganolbwyntio ar berfformiad, cynhyrchiant a sgiliau. Mae natur wirioneddol integredig y gweithlu milwrol a sifilaidd yn fantais sylweddol ac ni ddylid ei cholli.

7. Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu’r cyfle a’r angen i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.[60] Dylid lleihau costau Gwasanaeth Sifil y Weinyddiaeth Amddiffyn o leiaf 10% erbyn 2030. **Byddai cyflymu ymdrechion i harneisio Deallusrwydd Artiffisial, awtomeiddio, a thechnoleg cynyddu gallu** yn golygu bod staff milwrol (oddeutu 5,000 ohonynt) a gweision sifil mewn rolau Adnoddau Dynol, Cyllid a Masnachol yn gallu symud i rolau rheng flaen a lleihau costau gweinyddol. Bydd hyn yn arwain at Wasanaeth Sifil Amddiffyn llai dros amser ond dylai’r ffocws fod ar gynhyrchiant ac nid niferoedd.

8. Ar ben hynny, byddai cynnal adolygiad sylfaenol o holl rolau’r Brif Swyddfa a’r Pencadlys Staff yn nodi pa rai fyddai’n elwa’n sylweddol o gael eu cyflawni gan staff milwrol, gyda golwg ar ryddhau nifer sylweddol i rolau gweithredol (yn unol â’r camau sy’n cael eu cymryd gan gynghreiriaid a phartneriaid). Mae’r rhai sy’n gadael y Lluoedd Arfog, a’r rhai sy’n cael eu cyflogi fel Milwyr Wrth Gefn neu weision sifil, yn ddirprwyon addas yn y meysydd cyfyngedig lle mae angen profiad milwrol a lle nad yw defnyddio technoleg yn opsiwn.

60 Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo pob adran i leihau eu cyllidebau gweinyddol 15% erbyn diwedd y degawd. Datganiad y Gwanwyn 2025, tud. 25.

## Atgyweirio recriwtio a chadw staff

9. Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn yn wynebu argyfwng hirsefydlog o ran recriwtio a chadw staff. Heddiw mae pobl ifanc eisiau pethau gwahanol gan eu cyflogwyr, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd a’r gallu i weithio’n hybrid. Maent yn disgwyl newid swydd sawl gwaith yn ystod eu gyrfaoedd. Yn hollbwysig, mae ganddynt hefyd lai o gysylltiadau â’r Lluoedd Arfog. Nid oes ateb sydyn i’r heriau hyn.

10. **Mae llwyddiant hirdymor yn dibynnu ar ailgysylltu cymdeithas â’r Lluoedd Arfog a phwrpas Amddiffyn**, wedi’i ategu gan sgwrs genedlaethol dan arweiniad y Llywodraeth (Pennod 6). Mae gwaith y Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn allweddol i gysylltu’n gadarnhaol â chymdeithas a recriwtio’r genhedlaeth nesaf, drwy baratoi cyn-filwyr i lwyddo. Dylai hyn gael ei gefnogi gan ymyriadau wedi’u targedu mewn recriwtio a chadw staff, gan ganolbwyntio ar gynlluniau sy’n cael yr effaith fwyaf ac sy’n denu’r ystod ehangaf bosibl o dalent.

11. **Ar gyfer recriwtio, dylai’r ffocws fod ar gyflymder**, gan gwtogi’n sylweddol ar y cyfnod rhwng ymgeiswyr yn mynegi diddordeb ac yn ymuno. Mae angen dull mwy modern a hyblyg, gan gynnwys: safonau meddygol a ffitrwydd mwy hyblyg, lleihau nifer y cyflyrau sy’n bodoli’n barod sy’n rhwystro pobl rhag cael mynediad; ac ymrwymiadau byrrach sy’n rhoi blas ar yrfaoedd milwrol i bobl, gan gynnig llwybr iddynt tra byddant yn meithrin sgiliau a phrofiad y gallant fynd gyda nhw am oes. Mae ‘blynyddoedd i ffwrdd’ byddin Awstralia yn cynnig model cyffrous i ddysgu ohono.

> Y bobl rydyn ni wedi cwrdd â nhw sydd wedi cael yr argraff fwyaf arna i—y proffesiynoldeb, yr ymroddiad, yr angerdd a’r cyffro maen nhw wedi’u portreadu
>
> **—Aelod o’r Panel Dinasyddion, Canolfan Llynges EM Portsmouth**



12. **Er mwyn gwella lefelau cadw staff, mae’n rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn roi blaenoriaeth i gyflawni ei chynllun ‘gweithio hyblyg’**, gan alluogi staff milwrol i gynyddu a lleihau eu hymrwymiad drwy gydol eu gyrfa—sy’n newid mawr i’r arferion presennol. Os bydd llety ymhell islaw’r safon sy’n ofynnol, mae’n rhaid iddo gael ei wella’n gyflym (Pennod 7.11). Dylid hefyd edrych ar ddarparu cymorth i ddod yn berchen ar gartref (a delir yn ôl drwy ddychwelyd i wasanaeth ac yn unol â chostau llety gwasanaeth). Dylid croesawu polisïau sy’n cefnogi teuluoedd—gan gynnwys gweithio hyblyg a mwy o sefydlogrwydd o ran lleoliad a swyddi.

13. Os bydd Amddiffyn yn dychwelyd i leoliadau parhaus ar raddfa fawr, bydd cymorth bugeiliol, ymarferol ac ariannol i deuluoedd yn hanfodol er mwyn cadw staff, ac fe ddylid rhoi cyfrif am hynny mewn cynlluniau gweithredol.

## Diwylliant o rymuso

14. **Er mwyn sbarduno arloesedd a chynhyrchiant, mae’n rhaid grymuso pobl Amddiffyn i gyflawni**, gan dorri drwy fiwrocratiaeth a mynd i’r afael ag amharodrwydd i gymryd risg. Rhaid diwygio polisïau ‘pobl’ ar egwyddor ymddiriedaeth. Rhaid annog rheolwyr llinell i ddefnyddio synnwyr cyffredin o fewn fframwaith rhagnodedig yn hytrach na chodeiddio hawliau llym mewn miloedd o dudalennau polisi. Rhaid i dechnoleg hefyd chwarae rhan, gan gynnwys gwella’r broses o ganfod twyll (fel mewn adrannau eraill o’r Llywodraeth a’r sector preifat).

15. **Mae llwyddiant yn dibynnu ar greu amgylchedd lle gall pawb ddatblygu a chyflawni.** Rhaid i arweinwyr Amddiffyn wneud llawer iawn mwy i gael gwared ar ymddygiad sy’n annerbyniol ac yn wrthgynhyrchiol yn y gweithle: creu amgylchedd lle mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi ac yn teimlo’n fodlon eu bod yn gallu rhoi gwybod am ddrwgweithredu; a chyflawni ei ddyletswydd gofal i’r rheini sy’n cael eu cyhuddo o ddrwgweithredu tra bydd yn ymchwilio i honiadau. Pan fydd drwgweithredu’n cael ei brofi, ni ddylid ei oddef: dylid atal y rheini sy’n methu â newid eu hymddygiad—a rhaid rhoi sylw eang i hyn er mwyn iddo gael effaith. Rydym yn croesawu’r ddeddfwriaeth i greu Comisiynydd y Lluoedd Arfog i wella bywyd yn y Lluoedd Arfog—fel pwynt cyswllt uniongyrchol i staff y Lluoedd Arfog a’u teuluoedd—yn ogystal ag uned gwynion newydd y Tri Gwasanaeth ar gyfer y Lluoedd Arfog.[61]

16. Ni fydd Amddiffyn yn mynd at wraidd y broblem oni bai fod y gweithlu’n dod yn fwy cynrychioladol o gymdeithas, **ac yn harneisio’r holl dalentau i ddarparu’r gweithlu cryfaf posibl.**[62] Rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar ddata i ddeall a mynd i’r afael â’r problemau ymddygiadol, strwythurol ac arweinyddiaeth systemig sy’n atal pobl rhag symud ymlaen o fewn Amddiffyn a darparu ar ei gyfer. Rhaid i’r gwaith sy’n cael ei wneud mewn seilos Gwasanaeth unigol ar hyn o bryd gael ei ddwyn ynghyd er mwyn manteisio i’r eithaf ar syniadau da. Mae angen i Weinidogion a’r Bwrdd Amddiffyn roi ffocws cyson ar hyn, yn ogystal â goruchwylio’r gwaith cyflawni’n bwerus ac yn annibynnol, gan fod yn atebol i’r Ysgrifennydd Gwladol.

61 Fundamental changes to Armed Forces processes to better support Women in UK Defence - GOV.UK, 18 Mawrth 2025.

62 Er enghraifft, dim ond 12% o’r personél Cyffredin sy’n fenywod.

## System hyfforddiant ac addysg addasol

17. Mewn sawl ffordd, mae system addysg a hyfforddiant Amddiffyn yn effeithiol iawn ac yn uchel ei pharch. Mae sefydliadau fel y Coleg Brenhinol Astudiaethau Amddiffyn a'r academïau a'r colegau milwrol yn arweinwyr yn eu maes. Maent yn denu'n barhaus yr arweinwyr amddiffyn a diogelwch cenedlaethol byd-eang nesaf, gan osod seiliau ar gyfer cynghreiriau a phartneriaethau. Mae canolfannau addysgol fel yr Academi Amddiffyn yn cynnig cyfle i staff milwrol ddysgu ochr yn ochr â gweision sifil a chynrychiolwyr diwydiant, a datblygu sgiliau technegol ac arbenigedd technolegol.

18. **Dylid cynllunio hyfforddiant ac addysg amddiffyn i ddarparu arloesedd yn gyflym**, o ystyried mai dyma'r gwahaniaeth rhwng buddugoliaeth ac aflwyddiant mewn rhyfel. Dylai ei ddyluniad hefyd sicrhau bod **Amddiffyn yn hyfforddi sut y bydd yn brwydro**, gyda'r ddarpariaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

    - **'Y llu cyfan yn ddiofyn'** i ddatblygu diwylliant cyffredin a gallu credadwy i ryfela. Lle gellir cyflawni gweithgarwch gan, ac ar gyfer, 'Un Amddiffyniad' dylid gwneud hynny, gyda darpariaeth Gwasanaeth unigol dim ond lle mae arbenigedd o ran y parth yn hollbwysig.
    - **NATO yn Gyntaf**, gan ddefnyddio rhaglen ymarfer, athrawiaeth, a phroses gynllunio NATO fel sail ar gyfer hyfforddiant ac addysg yn y DU. Lle mae dadl ddilys dros eithriadoldeb, dylai'r DU geisio dylanwadu ar NATO i fabwysiadu ei ddull gweithredu ei hun (gan nodi bod y DU eisoes yn gwneud mwy nag unrhyw Gynghreiriad arall i ddatblygu a chynnal athrawiaeth ar y cyd).
    - **Addasu ar gyflymdra dulliau rhyfela a thechnoleg sy'n newid**, gan gymhwyso arloesedd a gwersi o weithrediadau mewn addysg, athrawiaeth a chysyniadau. Nid yw'r polisi presennol[63] wedi'i anelu at ddulliau hyfforddi gwirioneddol arloesol, ac yn hytrach mae'n sbarduno ymddygiad gwrth-risg a lefelau sicrwydd. Mae mynd i'r afael â hyn yn **elfen allweddol o gyflawni'r cylch arloesi** (Pennod 4).

19. **Rhaid i bolisi hyfforddiant sicrhau bod modd cymryd risgiau synhwyrol dan reolaeth mewn hyfforddiant milwrol**, fel nad ydynt yn cael eu cymryd yn ormodol ar faes y gad, gan wrthdroi tuedd ddiweddar tuag at ddiogelwch ar bob cyfrif. Rhaid defnyddio profion dilysu i baratoi'r comander i ennill, gan gymell dysgu drwy gamgymeriadau. Byddai defnyddio safonau a ddilyswyd gan NATO yn ddiofyn[64] yn caniatáu i hyfforddiant ac ymarfer cenedlaethol fod yn llawer mwy arbrofol drwy leihau'r angen i ddilysu fwy nag unwaith. Byddai ategu hyfforddiant byw gydag amgylcheddau hyfforddi rhithwir hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i Filwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn ddysgu, yn ogystal â manteision eraill fel y gallu i brofi cysyniadau, ymarfer cenadaethau, bwrw ymlaen ag integreiddio'r DU a NATO, a chynyddu cyfleoedd i allforio.

20. **Ni ddylai Amddiffyn gynnal sesiynau hyfforddiant ac addysg ei hun oni bai nad oes modd ei sicrhau'n allanol am gost a safon addas.** Mae colegau Addysg Bellach yn cynnig potensial, tra dylai partneriaethau strategol sy'n seiliedig ar ganlyniadau gyda phrifysgolion ddod

63 JSP 822 – Cyfarwyddyd a Chanllawiau Amddiffyn ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg

64 Yn hytrach na dilysiad wedi'i achredu gan NATO na fydd bob amser yn angenrheidiol nac ar gael.

ag ymchwil arloesol i mewn i hyfforddiant ac addysg. Byddai’r newid hwn mewn dull gweithredu’n cael ei gynorthwyo drwy **fabwysiadu cymwysterau a safonau sifilaidd lle mae rhywbeth cyfatebol addas yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin**—er enghraifft, ar gyfer rheolwyr traffig awyr neu barafeddygon—gan eu hategu â chymwysterau milwrol dim ond lle bo angen. Byddai hyn yn gwella datblygu sgiliau a’r ecosystem pobl gyfan: recriwtio a chadw; cyflogaeth i gyn-filwyr; gyrfaoedd igam-ogam rhwng y sector Amddiffyn a sectorau eraill; integreiddio â diwydiant; a chynnull Milwyr Wrth Gefn os bydd rhyfel.

## Sgiliau sylfaenol ar gyfer y Llu Integredig

21. **Rhaid i arloesi cyson ar draws Amddiffyn gael ei gefnogi gan ddull ystwyth o ddatblygu sgiliau o fewn y llu cyfan.** Rhaid i Amddiffyn fwrw ymlaen â’r gwaith o gyflwyno ‘Fframwaith Sgiliau Amddiffyn Gyfan’ syml ond effeithiol,[65] gan ei ddefnyddio i gysylltu cynllunio’r gweithlu â chanlyniadau Amddiffyn (fel gwell parodrwydd) ac i alluogi symud gyrfa. Byddai ymestyn y Fframwaith i bartneriaid diwydiannol (wedi’u cymell drwy brosesau masnachol) a’r Lluoedd Wrth Gefn Gweithredol a Strategol yn galluogi’r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddeall lle mae sgiliau ar gael yn y gadwyn gyflenwi, lle mae risgiau i Amddiffyn, a lle mae atebion ar gael.

22. **Mae rhai sgiliau yn sylfaenol i ryfela a’r gweithle modern**, ac yn hanfodol i weithredu’r cylch arloesi a dod yn bartner mwy deallus i’r diwydiant. Mae’n rhaid i Amddiffyn fuddsoddi yn y sgiliau allweddol canlynol ar draws y llu cyfan fel mater o frys:

- **Arweinyddiaeth**, y mae’n rhaid ei haddysgu, hyfforddi, arfer a gwobrwyo drwy’r system gyfan. Mae hyn yn ymwneud â chreu arweinwyr sy’n addasu, yn galluogi eu timau, ac yn ail-ddychmygu’r sefydliad, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial a thechnolegau digidol.
- **Rheolaeth ariannol, fasnachol a rhaglenni**, gan gynnwys ym maes comisiynu a rheoli contractau a gwasanaethau. Dylid annog ceisio ennill cymwysterau proffesiynol.
- **Seiber**, sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o risgiau seiber cynyddol ac yn barod i gymryd camau angenrheidiol.
- **Sgiliau digidol, deallusrwydd artiffisial a data**, y mae prinder cyson ohonynt ond cyfle i arwain yn NATO os bydd Amddiffyn yn gwneud hyn yn iawn. Rhaid i’r gweithlu cyfan feddu ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen. Dylid rhoi sylw i’r angen am sgiliau mwy arbenigol drwy greu grŵp Ymladdwyr Rhyfel Digidol (Pennod 4.1).



65 Dull ‘gweithlu cyfan’ newydd o ganfod, diffinio a rheoli sgiliau pobl Amddiffyn a’u rolau cysylltiedig.

**Argymhellion:**

14. Rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn fabwysiadu dull ‘gweithlu cyfan’ sy’n seiliedig ar sgiliau o gynllunio’r gweithlu er mwyn sicrhau canlyniadau Amddiffyn a bodloni gofynion esblygol y Llu Integredig dros amser. Yn y sefyllfa strategol a chyllidol bresennol:
    - Ni ddylid cael unrhyw ostyngiad pellach yn nifer y Milwyr Parhaol ar draws y tri Gwasanaeth.
    - Dylai nifer y Milwyr Wrth Gefn Gweithredol gynyddu 20% pan fydd y cyllid yn caniatáu hynny.
    - Dylid lleihau costau’r Gwasanaeth Sifil o leiaf 10% erbyn 2030.

    I gael gweithlu sy’n wirioneddol ‘Un Amddiffyniad’, dylai’r Milwyr Wrth Gefn a’r gweision sifil gael mynediad wedi’i ddiogelu at y cyllid, yr amser a’r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer hyfforddi ochr yn ochr â Milwyr Parhaol. Er mwyn manteisio i’r eithaf ar yr adnoddau presennol, dylai’r Weinyddiaeth Amddiffyn geisio symud yr holl bersonol Cyffredin o rolau gweinyddol i rolau rheng flaen a dylai awtomeiddio o leiaf 20% o swyddogaethau Adnoddau Dynol, Cyllid a Masnachol erbyn mis Gorffennaf 2028. Dylai hyn gael ei wneud fel cam cyntaf o leiaf.

15. Er mwyn creu gweithle lle mae gan bawb y grym i gyflawni, mae’n rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud y canlynol:
    - Dileu’r fiwrocratiaeth ormodol sy’n cael ei chreu gan bolisïau ‘pobl’, prosesau a sicrwydd. Dylai ailysgrifennu ei pholisïau ‘pobl’ yn unol ag egwyddor ymddiriedaeth, gan ddechrau gyda’r rhai sydd ymysg y deg uchaf erbyn mis Mai 2026. Dylid defnyddio technoleg i wneud prosesau beunyddiol, fel hawlio treuliau ac archwilio, yn haws, gyda phrofiad cadarnhaol ac effeithlon i ddefnyddwyr yn faen prawf allweddol.
    - Datblygu cynllun i flaenoriaethu a mynd i’r afael â’r rhwystrau strwythurol, ymddygiadol ac arweinyddiaeth rhag creu gweithlu mwy cynrychioliadol a meritocrataidd sy’n darparu grym atal a rhyfela mwy galluog. Dylid sefydlu’r cynllun hwn erbyn mis Mehefin 2026. Dylid gwneud argymhellion ar gyfer goruchwyliaeth annibynnol ar y gweithrediad erbyn mis Hydref 2025.

16. Rhaid i Amddiffyn gynnig ffyrdd newydd o ymuno â’r Lluoedd Arfog sy’n denu mwy o bobl o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd, gan gyflwyno cynllun gydag amserlenni ar gyfer cyflawni i’r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Tachwedd 2025. Dyma rai opsiynau:
    - Cynnig ymrwymiadau byrrach sy’n apelio at fwy o bobl mewn cymdeithas, gan gynnwys y cynlluniau sydd ar y gweill gan y Weinyddiaeth Amddiffyn am ‘flynyddoedd i ffwrdd’.
    - Datblygu cyfres o wersylloedd ‘cyfnod 0’ y Tri Llu Arfog y gall ymgeiswyr adrodd iddynt o fewn 30 diwrnod i fynegi diddordeb cychwynnol, gyda recriwtiaid addas yn cael cynnig rolau ar ddiwedd y gwersyll.
    - Cymhwyso safonau meddygol sydd wedi’u teilwra i’r mathau o rolau, gan roi cyfrif am ddatblygiadau mewn triniaethau meddygol ac adlewyrchu cyfnodau gwasanaeth tybiedig byrrach. Gellir newid telerau ac amodau i symud atebolrwydd am rai cyflyrau sydd eisoes yn bodoli i’r ymgeisydd, a fydd wedyn yn galluogi llawer mwy o bobl sydd eisiau ymuno ar y telerau hynny i wneud hynny.

**Argymhellion:**

17. Er mwyn helpu i gadw staff, dylai Amddiffyn archwilio’r opsiynau i gefnogi dyheadau staff y Lluoedd Arfog i fod yn berchen ar gartref. Byddai hyn yn cryfhau’r cysylltiad rhwng y rheini sy’n gwasanaethu a’r cymunedau sy’n eu cefnogi. Dylai gael ei ategu gan ddull gweithredu sy’n lleihau pa mor aml y mae’n rhaid i bobl symud i leoliadau newydd os mai dyna yw eu dewis, gan aros mewn rolau’n hirach neu symud i rolau yn yr un lleoliad.
18. Er mwyn diwallu anghenion newidiol y Llu Integredig, mae’n rhaid i addysg fod i’r ‘llu cyfan yn ddiofyn, ac un Gwasanaeth drwy eithriad’. Erbyn diwedd 2026, rhaid i Amddiffyn sefydlu llwybr addysg gyrfa ar gyfer y llu cyfan—Milwyr Parhaol, Milwyr Wrth Gefn, a’r Gwasanaeth Sifil—sydd wedi’i gynllunio i ymateb i’r ffyrdd newidiol o ryfela dros amser a chyda NATO yn ganolog iddo. I sbarduno integreiddio, dylai’r Pencadlys Strategol Milwrol wneud y canlynol:
    - Goruchwylio pa staff sy’n ymgymryd â chyrsiau allweddol ar bob cam o’r llwybr addysg.
    - Cyfarwyddo’r gwaith o ddarparu hyfforddiant i staff o’r Cwrs Cychwynnol i Staff, gyda mewnbwn Gwasanaeth unigol.
    - Darparu elfennau integredig gofynnol y cyrsiau Gwasanaeth unigol.
    - Meddu ar y cyllid ar gyfer addysg ar y cyd er mwyn dileu’r cymhellion i Wasanaethau unigol ‘optio allan’.
19. Rhaid i hyfforddiant ac addysg allu addasu i wersi gweithredol, arloesedd ac ymchwil. Rhaid i’r Weinyddiaeth Amddiffyn ailysgrifennu’r polisi perthnasol erbyn mis Ionawr 2026, gan rymuso’r rheini sy’n darparu hyfforddiant i adolygu cyrsiau’n gyflym a throi atynt wrth ddylunio’r polisi. Dylai’r adran hefyd wneud y canlynol:
    - Datblygu un amgylchedd hyfforddi rhithiol sydd wedi’i integreiddio i bensaernïaeth ddigidol gyffredin Amddiffyn, gan ddefnyddio adnoddau presennol pan fydd hyn yn fuddiol. Rhaid i raglenni caffael ymgorffori gofyniad am hyfforddiant rhithwir a synthetig sy’n ddigon da i leihau dibyniaeth ar hyfforddiant byw.
    - Mabwysiadu cymwysterau a safonau sifilaidd lle bo modd a defnyddio darparwyr sifilaidd ar gyfer addysg a hyfforddiant lle bo hynny ar gael am gost debyg neu lai. Dylai’r gwaith o adolygu safonau, cymwysterau a hyfforddiant mewnol presennol gael ei gwblhau erbyn diwedd 2025. Lle mae rhwystrau sylweddol i gynnydd, dylai’r Weinyddiaeth Amddiffyn weithio gyda’r Adran Addysg, adrannau perthnasol eraill y Llywodraeth, a’r diwydiant i ddatblygu cynllun i’w goresgyn.
20. Rhaid i Amddiffyn fuddsoddi mewn sgiliau arweinyddiaeth, ariannol, masnachol a thechnoleg sylfaenol ar draws y gweithlu sifil a milwrol. Dylai hyn gynnwys: yr hyblygrwydd i wobrwyo datblygiad arbenigedd mewn meysydd arbenigol, gan gynnwys drwy ryddid tâl a dyrchafiad; a datblygu rhaglen secondiad ddwy ffordd gyda ffocws ar gynlluniau anffurfiol tymor byr sy’n effeithiol ac sy’n gallu cael eu cyflawni’n gyflym. Dylid datblygu cynllun cyflawni erbyn mis Mawrth 2026.



# 5. Cynghreiriaid a Phartneriaid

1. **Cynghreiriau a phartneriaethau yw sylfaen sefydlogrwydd byd-eang ac maent hyd yn oed yn bwysicach i'r DU yng nghyd-destun risg ac ansicrwydd cynyddol** (Pennod 2). Maent yn hanfodol i'r Llu Integredig a'r gallu i atal, ymladd ac ennill: sicrhau cryfder cyfunol drwy ryngweithredu; cyfuno adnoddau ariannol a thechnolegol i arloesi, gyda manteision milwrol ac economaidd; adeiladu gwydnwch diwydiannol ac yn y gadwyn gyflenwi; a lliniaru anfanteision daearyddol.

2. **Dylai'r DU atgyfnerthu cyd-ddiogelwch drwy fuddsoddi'n weithredol yn y perthnasoedd hyn**, gan ddechrau gyda'r perthnasoedd a nodir yn yr adran nesaf ('Perthnasoedd Amddiffyn Byd-eang') yn ogystal ag aelodaeth y DU o gyrff rhyngwladol fel Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, y Grŵp o 7 (G7), a NATO. Mae gan Amddiffyn lawer i'w gynnig, o alluoedd gweithredol ei Luoedd Arfog i'w sefydliadau addysg filwrol proffesiynol. Dylid cydlynu'r ymdrechion hyn gydag adrannau eraill, yn enwedig y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfraniad unigryw a phwerus y Weinyddiaeth Amddiffyn at uchelgeisiau ac agwedd y Llywodraeth at gysylltiadau rhyngwladol. **Mae adnoddau cyfyngedig yn golygu na all y DU fod yn bopeth i bawb. Bydd angen i Amddiffyn flaenoriaethu ei ffordd o weithio**, yn seiliedig ar y rolau a amlinellir ym Mhennod 3 a gan ddefnyddio'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael.

## Unol Daleithiau America

3. **Unol Daleithiau America** yw cyfaill amddiffyn a diogelwch agosaf y DU, sy'n adleisio'r diddordeb cyffredin a hirsefydlog mewn cyfrannu at ddiogelwch byd-eang yn yr oes hon o gystadleuaeth strategol. Mae UDA yn wynebu her strategol fawr, gyda dau gystadleuydd niwclear sy'n gymheiriaid agos ar ffurf Tsieina a Rwsia. Dylai'r DU weithio gydag UDA i **fanteisio i'r eithaf ar botensial y berthynas fel lluosydd grym wrth adnewyddu ataliaeth**: moderneiddio eu grymoedd milwrol; manteisio ar alluoedd arbenigol a safleoedd tramor y DU; cysylltu'r Ewro-Iwerydd â chynghreiriaid allweddol yn yr Indo-Môr Tawel i gryfhau cyd-ddiogelwch yn y ddau ranbarth; ac adeiladu capasiti diwydiannol amddiffyn ar y cyd.

4. **Mae potensial enfawr i ehangu cydweithio diwydiannol a thechnolegol gydag UDA yn benodol.** Mae cydweithio ar dechnoleg ddwyochrog eisoes heb ei hail, gyda'r DU yn cymryd rhan mewn mwy o brosiectau technoleg dan arweiniad UDA er budd milwrol nag unrhyw wlad arall.[66] Dylai Amddiffyn archwilio sut i hybu manteision y buddsoddiad hwn i'r naill ochr a'r llall, gan ddatblygu trefniadau cydweithio dyfnach mewn meysydd fel awtonomi, Deallusrwydd Artiffisial, rhyfela electromagnetig, modelu ac efelychu. **Un sianel bwysig ar gyfer hyn yw AUKUS**, sy'n cynnig cyfle unigryw i ddatblygu mantais filwrol a sylfeini diwydiannol ac arloesedd ffyniannus gyda chynghreiriaid agos.

## Cynghreiriaid NATO yn Ewrop

5. Mwy o arweinyddiaeth wleidyddol a milwrol gan Gynghreiriaid Ewropeaidd yn NATO yw'r ffordd orau o ymateb i her Rwsia. I gefnogi dull gweithredu NATO yn Gyntaf y DU, **mae cytundebau dwyochrog gyda Chynghreiriaid yn Ewrop yn arf arbennig o bwerus** y gellir

66 Mae'r DU yn cyfrannu at fwy o brosiectau Rhyfela Cynghrair UDA a Phrofion Cymharol Tramor gydag UDA na gwledydd eraill, yn ogystal â phortffolio helaeth o raglenni technoleg dwyochrog ac amlochrog.

eu defnyddio i greu dyfnder strategol i gryfhau'r Gynghrair a sefydlogrwydd yn yr Ewro-Iwerydd:

- Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn adeiladu ar  Gytundebau Lancaster House 2010[67] gyda **Ffrainc** a Chytundeb Trinity House 2024[68] gyda'r **Almaen** fel sail ar gyfer mwy o gydweithredu a chydweithredu mwy agos: gan ddatblygu agwedd a rennir, galluoedd arloesol, trefniadau rhannu baich, a chapasiti a thwf diwydiannol.
- Bydd y Cytuniad newydd rhwng y DU a **Gwlad Pwyl** yn sail ar gyfer perthynas agosach fyth, gyda'r ddwy wlad yn gweithio gyda'i gilydd i gryfhau Ystlys Ddwyreiniol NATO, mynd i'r afael â thwyllwybodaeth a bygythiadau milwrol hybrid, a chyda chydweithrediad diwydiannol amddiffyn wedi'i angori mewn amddiffyn awyr a chydweithrediad arfau cymhleth, yn ogystal ag allforio ffrigadau Arrowhead Math 31 i Wlad Pwyl.
- Mae negodi cytundeb amddiffyn newydd gyda **Norwy**, gan adeiladu ar Ddatganiad ar y Cyd 2024 ar y Bartneriaeth Strategol rhwng y DU a Norwy, yn cynnig potensial i wella dulliau rhyngweithredu dwyochrog ar Ystlys Ogleddol NATO, yn ogystal â chydweithredu ar ddiogelu seilwaith hanfodol o dan y môr a mynd i'r afael â bygythiadau hybrid.
- Dylai'r DU barhau i ddyfnhau ac addasu ei pherthynas â'r **Eidal**—partner dwyochrog hanfodol ar Ystlys Ddeheuol NATO a chyfrannwr



67 Lancaster House Treaties – GOV.UK.

68 Trinity House Agreement – GOV.UK.

at ddiogelwch ym Môr y Canoldir—drwy'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang, a gynhelir ar y cyd â Japan, a dyfnhau'r gallu i ryngweithredu rhwng Grwpiau Llongau Cludo Ymosod y ddwy wlad.

- Mae **Twrci** yn parhau i fod yn bartner NATO allweddol ac yn bartner dwyochrog i'r DU, gydag integreiddiad milwrol cryf a chydweithio diwydiannol o safbwynt amddiffyn. Fel aelod dylanwadol o'r G20 sydd wedi'i leoli ar y groesffordd rhwng y Môr Du, y Cawcasws, y Dwyrain Canol ac Affrica, mae Twrci yn hanfodol i fuddiannau diogelwch y DU ledled Ewrop ac ar ystlysoedd NATO.

6. **Dylid hefyd cymryd camau amlochrog gyda Chynghreiriaid—yn enwedig gyda'r E3, E5, a'r Llu Ymgyrchol ar y Cyd—i gryfhau diogelwch yn Ewrop**. Dylai Amddiffyn barhau i weithio gyda'i Chynghreiriaid i ddatblygu'r Llu Ymgyrchol ar y Cyd fel cynghrair galluog a pharod sydd wedi ymrwymo i wella gallu NATO i atal yng Ngogledd Ewrop a'r Gogledd Uchel. Dylid anelu at gynhyrchu a gwreiddio dulliau newydd o atal ar y cyd o fewn y Gynghrair. Dylai'r DU hefyd ystyried meithrin perthnasoedd â chynghreiriaid sydd â buddiannau neu alluoedd a allai ychwanegu gwerth at Amddiffyn y DU a lle mae gan y DU gynnig credadwy i'w wneud, fel gyda Chynghreiriaid NATO yn y Môr Du.

7. I ategu dull NATO yn Gyntaf y DU a gwella cydweithrediad rhwng NATO a'r Undeb Ewropeaidd (UE), **fe ddylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn gefnogi gweithrediad Partneriaeth Diogelwch ac Amddiffyn y DU gyda'r UE**. Mae'r UE yn weithredwr amddiffyn a diogelwch o arwyddocâd cynyddol, a gall ei adnoddau rheoleiddio ac ariannol unigryw ategu rôl NATO fel prif warantwr diogelwch Ewrop—fel y dangoswyd gan gynigion diweddar y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ailarfogi aelod-wladwriaethau'r UE.[69]

## Wcráin

8. Mae hwn yn **drobwynt unwaith mewn cenhedlaeth ar gyfer cyd-ddiogelwch yn Ewrop**: mae sicrhau setliad gwleidyddol gwydn yn Wcráin sy'n diogelu ei sofraniaeth, ei huniondeb tiriogaethol, a'i diogelwch yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn atal Rwsia rhag dangos mwy o ymddygiad ymosodol ar draws y rhanbarth. Mae'r DU yn ategu ei chefnogaeth i gryfhau Wcráin, gan gynyddu ei harweinyddiaeth ryngwladol a chynnal ei hymrwymiad digynsail o £3bn o gymorth milwrol i Wcráin bob blwyddyn cyhyd ag y bo angen (Ffigur 6).

9. Dylai'r DU edrych ar ffyrdd eraill o gynnal capasiti diwydiannol amddiffyn Wcráin a'i diogelwch—er enghraifft, drwy gynyddu mentrau ar y cyd rhwng diwydiannau amddiffyn y DU ac Wcráin ac, ar ôl i'r gwrthdaro presennol ddod i ben, cefnogi Wcráin i gael mynediad at farchnadoedd newydd ar gyfer ei diwydiant amddiffyn, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethu a moderneiddio hen gyfarpar Sofietaidd sy'n cael ei ddefnyddio gan drydydd gwledydd. **Dylai Amddiffyn hefyd ddysgu o brofiadau eithriadol Wcráin mewn rhyfela ar y tir, gyda drôn, a brwydro hybrid** wrth ddatblygu ei dull modern ei hun o ryfela.

69 Comisiwn Ewropeaidd, 'Press statement by President von der Leyen on the defence package', 4 Mawrth 2025; Joint White Paper for European Defence Readiness 2030, Mawrth 2025.

**Ffigur 6: Cefnogaeth y DU i Wcráin ers ymosodiad Rwsia yn 2022**




**£1.5bn+**

wedi'i gyfrannu at Gronfa Ryngwladol Wcráin i gyllido galluoedd hanfodol

**55,000+**

o bersonél Wcráin wedi'u hyfforddi yn y DU o dan Ymgyrch INTERFLEX

**Tua 400**

o alluoedd wedi'u darparu i Wcráin, gan gynnwys drwy gaffael sydyn gyda'r diwydiant amddiffyn

**20+**

math o offer, gan gynnwys amddiffyn awyr wedi'i deilwra'n arbennig, rhyfela electromagnetig, a systemau gwrth-arfog

## Y tu hwnt i'r Ewro-Iwerydd

10. Rhaid i Amddiffyn weithio ar y cyd a thrwy NATO i **gryfhau galluoedd ei gynghreiriaid a'i bartneriaid ar feysydd y gad eraill sy'n bwysig i'r DU**, yn enwedig y Dwyrain Canol a'r Indo-Môr Tawel. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o gymorth â diogelwch, partneriaethau galluogrwydd, a masnach. Dylai cynnig y DU wneud y canlynol:

- **Canolbwyntio buddsoddiadau Amddiffyn ar y perthnasoedd hynny sy'n cynnig y fantais strategol fwyaf** heb amharu ar ymdrechion atal, rhyfela, a datblygiad galluoedd yn yr Ewro-Iwerydd.
- Bod yn **bartner o ddewis ar gyfer allforion a phartneriaethau galluogrwydd** (Pennod 4.2) i ddatblygu galluoedd y genhedlaeth nesaf, cryfhau gwydnwch o ran capasiti cynhyrchu, a sicrhau cadwyni cyflenwi.

- Defnyddio arbenigedd trawslywodraethol ac allanol, yn enwedig yn y byd academaidd a diwydiant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio **timau bach, hyblyg o arbenigwyr technegol milwrol a/neu sifilaidd** i gefnogi partneriaid mewn meysydd arbenigol fel seiber, gofod, cudd-wybodaeth a rhyfela gwrth-hybrid heb ddargyfeirio staff gweithredol.
- **Defnyddio gweithgareddau effeithiol ond cost isel sy'n cynnig 'bet gyffredin'** yn erbyn datblygiadau annisgwyl yn y dyfodol drwy gynnal dealltwriaeth o wledydd partner a chymhlethdodau byd-eang. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymrwymiadau gweinidogol lefel uchel, rhannu cudd-wybodaeth, cyfleoedd i allforio, cynigion hyfforddiant ac addysg, a chydweithio ar dechnoleg. Mae buddsoddi hyd yn oed yn y we deneuaf o berthnasoedd ehangach yn werthfawr iawn er mwyn i'r DU allu manteisio ar bartneriaethau a chydweithio presennol wrth i amgylchiadau newid, gan ategu'r perthnasoedd dyfnach a mwy penodol a nodir yn y bennod hon.

11. Dylai'r DU adeiladu ar ei chysylltiadau yn y **Dwyrain Canol**, gan gryfhau diogelwch a datblygu cyfleoedd masnach tymor hir a thechnoleg a phartneriaethau galluogrwydd ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi hwb i dwf economaidd. Mae'r Dwyrain Canol yn arwyddocaol i ddiogelwch a ffyniant y DU oherwydd ei safle fel dolen gyswllt ar gyfer masnach fyd-eang a'i rôl mewn cyflenwadau ynni byd-eang. Mae ôl troed y DU yn y rhanbarth a'r buddsoddiad uwch mewn partneriaethau amddiffyn strategol yn cefnogi agenda twf economaidd y Llywodraeth. Ar hyn o bryd mae masnach y DU gydag aelodau o Gyngor Cydweithredol y Gwlff[70] yn werth £57bn



70 Bahrain, Kuwait, Oman, Qatar, Saudi Arabia, a'r Emiradau Arabaidd Unedig.

y flwyddyn ac mae'r rhanbarth yn cyfrif am fwy na £5bn o allforion amddiffyn bob blwyddyn—marchnad fwyaf y DU.

12. Mae'r **Indo-Môr Tawel** yn strategol bwysig i'r DU fel pwerdy economaidd a gwleidyddol byd-eang a maes o densiynau geo-wleidyddol cynyddol. Mae pendantrwydd cynyddol Tsieina yn un o brif sbardunwyr ansefydlogrwydd rhanbarthol a byd-eang. Yn benodol, mae perygl y bydd ymarferion milwrol Tsieina ger Taiwan yn gwaethygu'r sefyllfa yn Afon Taiwan, tra bod ei gweithredoedd ymosodol yn sbarduno tensiwn ym Môr De Tsieina. Gall Amddiffyn gyfrannu at ymdrechion ehangach y Llywodraeth i amddiffyn a siapio rheolau a normau rhyngwladol yn y rhanbarth drwy **gryfhau partneriaid rhanbarthol a diogelu rhyddid mordwyo.** Dylai gynnal sianeli cyfathrebu milwrol-i-filwrol gyda Tsieina er mwyn dyfnhau cyd-ddealltwriaeth ac osgoi camgyfrif a gwaethygu pethau'n anfwriadol os bydd argyfwng.

13. Mae **AUKUS**, gydag Awstralia ac UDA, a'r **Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang**, gyda Japan a'r Eidal, **yn enghreifftiau blaenllaw o bartneriaethau galluogrwydd sy'n cryfhau cynghreiriaid a chyd-ddiogelwch** yn yr Ewro-Iwerydd a'r Indo-Môr Tawel—arwydd pwerus o uchelgais y DU i ddod â phartneriaid o ranbarthau daearyddol gwahanol yn nes at ei gilydd. Wedi'u hategu gan ymarferion milwrol ar y cyd, mae'r partneriaethau hyn yn anfon negeseuon atal cryf at elynion drwy ddarparu technoleg drawsnewidiol ar gyfer rhyfela dwys, modern. Maent hefyd yn sbarduno cyfleoedd i arloesi ac allforio ar gyfer pob un o'r gwledydd dan sylw. **Mae'n rhaid i'r DU wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddwy bartneriaeth hyn yn enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus ar alluogrwydd**.

14. **Dylai Amddiffyn barhau i fuddsoddi yn y Trefniadau Amddiffyn Pum Pŵer** gydag Awstralia, Malaysia, Seland Newydd a Singapore i hyrwyddo cydweithredu a rhyngweithredu yn y rhanbarth. Dylid defnyddio ymrwymiadau gweinidogol a gweithgarwch amddiffyn i wella cyfleoedd allforio. Rhaid i weithgarwch y DU yn yr Indo-Môr Tawel ac o amgylch y byd hefyd **barhau i gael ei ategu gan gynghrair cudd-wybodaeth Five Eyes**—elfen hanfodol yn amddiffyniad a diogelwch ei bum aelod ers yr Ail Ryfel Byd. Dylai amddiffyn weithio gyda phartneriaid ar draws y Llywodraeth i gefnogi rôl Five Eyes o ran mynd i'r afael â bygythiadau nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys drwy rannu cudd-wybodaeth, datblygu galluogrwydd, a chydlynu gweithredol.

15. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl gydag adnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i'r DU fynd ati i **rannu baich yn well gyda phartneriaid Ewropeaidd yn yr Indo-Môr Tawel**, gan nodi ble a sut y gall y DU gyfrannu'n fwyaf effeithiol at ddiogelwch a sefydlogrwydd yn y rhanbarth.

## Meithrin perthnasoedd drwy rwydwaith byd-eang y DU

16. **Mae gan rwydwaith byd-eang y DU ddiben pwysig o ran cyflawni rolau craidd Amddiffyn** (Pennod 3). Mae'n rhaid i Amddiffyn feithrin a chynnal perthnasoedd er mwyn gwella ei ddealltwriaeth o ddeinameg rhanbarthol a byd-eang ac i liniaru risgiau. Er mwyn datblygu'r perthnasoedd hyn ac i ddiogelu buddiannau'r DU, dylai Amddiffyn ddefnyddio'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael, a dylid nodi'r rhain mewn Strategaeth Diplomyddiaeth Amddiffyn newydd.

17. Rydym yn cefnogi'r gwaith parhaus i greu un **Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang Integredig** (IGDN, wedi'i

ymgorffori yn Ffigur 7),[71] drwy gyfuno rhwydwaith tramor Amddiffyn (pobl, lleoedd, technoleg) o dan un drefn reoli a rhoi mwy o ystwythder a chyrhaeddiad i Amddiffyn. Rhaid rheoli'r rhwydwaith mewn ffordd sy'n sicrhau'r effaith fwyaf arwyddocaol ac ystyrlon o ran cyflawni nodau Amddiffyn a nodau'r DU.

18. Mae **Safleoedd Tramor y DU** yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r IGDN o ran amddiffyn tiriogaeth sofran y DU, siapio buddiannau'r DU, cefnogi ymateb i argyfyngau byd-eang, a galluogi perthnasoedd a chydweithrediad parhaus rhwng y DU a gwledydd partner.[72] Wrth i amgylchiadau a thechnoleg newid, mae'n bwysig addasu'r safleoedd i sicrhau eu bod o faint addas i'r diben ac yn saff a diogel i'w defnyddio ar yr un pryd â chyflawni'r ymrwymiad i amddiffyn tiriogaeth sofran y DU. Mae llawer o'r Safleoedd Tramor hyn wedi'u lleoli yn Nhiriogaethau Tramor y DU, sy'n cefnogi ystod eang o alluoedd diogelwch. Rhaid diogelu sofraniaeth dros y Tiriogaethau rhag pob her er mwyn cynnal hawl y rheini sy'n byw yn y Tiriogaethau fel dinasyddion Prydeinig i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal ymagwedd filwrol amddiffynnol yn yr Ynysoedd Falkland, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, yn ogystal â buddiannau Prydeinig eraill, gan gynnwys cynnal system Cytuniad yr Antarctig.
- Cynnal presenoldeb milwrol y DU yn Gibraltar, gan gynnwys ar gyfer gweithrediadau amddiffyn lluoedd morol, cynnal sofraniaeth Dyfroedd Tiriogaethol Gibraltar Prydain, yn ogystal â darparu canolfan mewn lleoliad strategol wrth fynedfa orllewinol Môr y Canoldir i ddarparu cymorth hanfodol i amcanion milwrol y DU—ac amcanion milwrol y cynghreiriaid.
- Amddiffyn y ganolfan ar y cyd rhwng y DU a'r Unol Daleithiau ar Diego Garcia fel gwrthglawdd ar gyfer diogelwch rhanbarthol a byd-eang. Cyflawnir hyn drwy gytundeb mis Mai 2025 â Mauritius (gyda chefnogaeth yr Unol Daleithiau) lle bydd y DU yn cadw rheolaeth lawn dros y ganolfan hanfodol hon, gan sicrhau ei sofraniaeth weithredol ymhell i'r ganrif nesaf.


19. Er mwyn cynnal swyddogaethau 'deall' ac 'ymgysylltu' cryf, **dylai ymgysylltiad rhyngwladol ym maes amddiffyn fod yn ffrwd yrfaol filwrol a sifilaidd ar wahân**, gan greu gweithlu mwy proffesiynol a gwybodus a datblygu dealltwriaeth o ranbarthau penodol. Dylid ffurfio rhaglen hyfforddi bwrpasol ar y cyd â'r FCDO, prifysgolion a melinau trafod. Dylai cymhellion i ddal gafael ar wybodaeth ac arbenigedd gynnwys llwybrau at uwch benodiadau sy'n cydnabod swyddi ymgysylltu rhyngwladol.

> Rydyn ni'n cydweithio â gwledydd eraill drwy'r amser ym maes amddiffyn ac mae angen siarad mwy am hynny ... Mae'n gwneud i mi deimlo ein bod ni mewn gwell sefyllfa gan fod y cydweithio hwnnw'n galonogol
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, Camp Rollestone**

71 Mae'r IGDN yn cynnwys y rhwydwaith Attachés Amddiffyn, Safleoedd Tramor, ystadau hyfforddi, Staff y Gwasanaeth Benthyg, Cynghorwyr, Swyddogion Cyswllt/Cyfnewid, Staff Amddiffyn Prydain, Canolfannau Strategol Byd-eang (Ardaloedd y Safleoedd Sofran yn Cyprus, Gibraltar, yr Almaen, Oman, Kenya), Unedau Cefnogi, a staff yn Strwythurau Trefn Reoli a Lluoedd NATO.

72 Mae'r rhain yn cynnwys Bahrain, Brunei, Kenya, Oman, Singapore, yr Emiradau Arabaidd Unedig, a Gweriniaeth Cyprus.

## Ffigur 7: Ôl-troed tramor yr Amddiffyn




### 8 o Staff Amddiffyn Prydain

Y Gwlff – Riyadh
Gorllewin Affrica – Abuja
Dwyrain Affrica – Nairobi
Asia Môr Tawel – Singapore
Dwyrain Ewrop – Kyiv
Oceania – Canberra
Ffrainc – Paris
UDA – Washington, DC

### 6 ystad hyfforddi'r Fyddin

BATUS (Suffield, Canada)
BATUB (Belize)
Hwb Byd-Eang yr Almaen
BATUK (Kenya)
Brunei
Duqm, Oman

### 6 Hwb

Ardaloedd y Safleoedd Sofran, Cyprus
Gibraltar
Yr Almaen
Oman
Kenya
Singapore

Mae lleoliadau eraill sydd heb eu dangos yn ymwneud â'r Pencadlys ar y Cyd Parhaol (PJHQ), Trefn Reoli Cydrannau Morol y DU (UKMCC) yn Bahrain, a NATO

**Ystadegau allweddol**

**8,500** o bersonél milwrol a sifilaidd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u danfon dramor

**239** o Staff Adran Amddiffyn (yn cynnwys Dirprwy Attachés Milwrol)

**91** o wledydd gydag Attachés a Chynghorwyr Amddiffyn

**81** o wledydd gydag Attachés sydd ddim yn byw yno

**Argymhellion:**

21. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn gydlynu ag adrannau eraill y Llywodraeth ac asiantaethau i flaenoriaethu'r defnydd o'r offeryn amddiffyn i gefnogi amddiffyn y DU a pholisi tramor ehangach. Dylai wneud hynny ar sail Strategaeth Diplomyddiaeth Amddiffyn newydd i'w chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.
22. Dylai'r DU geisio meithrin perthnasoedd dwyochrog agosach â Chynghreiriaid NATO er mwyn cryfhau cyd-ddiogelwch yn yr Ewro-Iwerydd, gan ddatblygu dulliau cost-effeithiol o gyflawni galluoedd blaenoriaeth a chryfhau sylfaen ddiwydiannol gyfunol Ewrop.
23. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn edrych ar ragor o gyfleoedd i gryfhau ymrwymiad cadarn y DU i Wcráin. Mae'r opsiynau'n cynnwys cydweithio diwydiannol ac—ar ôl i'r gwrthdaro presennol ddod i ben—datblygu mynediad Wcráin at farchnadoedd newydd sy'n cynnal ei diwydiant amddiffyn yn ogystal â'i diogelwch yn y dyfodol.
24. Dylai'r DU sicrhau bod AUKUS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang yn enghreifftiau o gyd-arloesi a chydweithio diwydiannol rhwng cynghreiriaid. Yn seiliedig ar ei hymrwymiad i lwyddiant, dylai'r DU gryfhau dwy golofn cytundeb AUKUS, gan ddefnyddio Colofn 2 i brofi a datblygu templed ar gyfer partneriaethau technoleg yn y dyfodol.
25. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang Integredig, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud y canlynol:
    - Cwblhau adolygiad o'i phrif elfennau erbyn mis Ebrill 2026, gan optimeiddio ôl troed tramor Amddiffyn ar gyfer cyflawni ei rolau craidd (Pennod 3). Dylid gweithio drwy hyn mewn cydweithrediad agos â'r llwyfan 'One HMG' sy'n cael ei reoli gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.[73]
    - Datblygu ffrwd yrfaol filwrol a sifilaidd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol ym maes amddiffyn, gan greu dealltwriaeth ddofn o ranbarthau sydd o ddiddordeb i'r DU. Dylai llwybrau at uwch benodiadau gynnwys cwblhau o leiaf un swydd ryngwladol (gyda phwyslais ar NATO), gan roi mynediad i Amddiffyn at gronfa o arbenigedd dwfn ar gyfer ymgysylltiad mwy effeithiol ledled y byd.

73 Mae 'One HMG' yn ymgorffori holl eiddo tramor Llywodraeth y DU a'r gwasanaethau corfforaethol cysylltiedig a elwir yn 'Llwyfan'.

# Perthnasoedd Amddiffyn Byd-eang: Man Cychwyn yr Adolygiad Amddiffyn Strategol

Man cychwyn Amddiffyn ar gyfer gweithredu'r dull o gynghreirio a chreu partneriaethau a nodir ym Mhennod 5 yw creu rhwydwaith o gysylltiadau cadarn sy'n darparu cyrhaeddiad byd-eang i'r DU fel rhan o'i pholisi tramor a diogelwch ehangach.

## Ewro-Iwerydd

Mae perthynas amddiffyn y DU ag **Unol Daleithiau America** (UDA) yn unigryw. Mae cryfder y bartneriaeth yn deillio o genedlaethau o bersonél amddiffyn y DU ac UDA yn cydweithio wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang. Gyda thua 900 o staff milwrol a gweision sifil ar draws 30 talaith UDA, mae'r DU yn sicrhau ei bod yn barod i weithredu gyda'r Unol Daleithiau o'r 'Diwrnod cyntaf un' mewn ymgyrchoedd mawr. Yn yr un modd, mae gan UDA dros 10,000 o luoedd mewn chwe safle RAF ledled y DU, gan roi mynediad at Ewrop a thu hwnt i luoedd UDA. Mae'r ymarferion rheolaidd ar y cyd—fel yn yr Indo-Môr Tawel gydag UDA ac Awstralia yn 2023 a chyda'r UDA a Japan yn 2025—yn cynnal y cydweithio agos a gwerthfawr. Fodd bynnag, yr hyn sy'n atgyfnerthu'r berthynas hon yw'r cyflymder a'r parodrwydd i weithredu pan fo buddiannau diogelwch dan fygythiad, fel y dangoswyd gan yr ymateb ar y cyd rhwng yr UDA a'r DU i'r ymosodiadau parhaus gan Houthi ar longau rhyngwladol yn y Môr Coch.

Mae'r berthynas yn fwy na pherthynas 'filwrol' yn unig. Mae'r sector amddiffyn yn hanfodol i economïau'r DU a'r UDA. Mae portffolio Gwerthiant Milwrol Tramor y DU gyda'r UDA yn werth mwy nag $18.6bn. Hefyd, mae'r rhaglen F-35 yn esgor ar fanteision diwydiannol sylweddol i'r DU, gydag oddeutu 15% o werth pob awyren yn cael ei chynhyrchu yn y DU.

Mae perthynas amddiffyn y DU â **Ffrainc** yn hanfodol i'w diogelwch. Roedd Datganiad Chequers yn 1995 yn nodi y byddai bygythiad i fuddion hanfodol un ohonynt yn gyfystyr â bygythiad i'r ddau. Mae hyn yn dal yn wir yn 2025. A hwythau'n bwerau niwclear gyda lluoedd arfog medrus iawn ac ôl-troed sylweddol yn fyd-eang, mae gan y DU a Ffrainc gyfrifoldeb unigryw dros ddiogelwch yn Ewrop ac yn fyd-eang. Mae nodweddion pwysig ac unigryw yn sail i'r berthynas hon: cydweithio niwclear; cyd-leoliad diwydiannol mewn arfau cymhleth; a'r Llu Ymgyrchol Cyfun ar y Cyd (**Combined Joint Expeditionary Force**).

Mae agwedd **yr Almaen** tuag at ddiogelwch ac amddiffyn ers ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022, yn ogystal â phleidlais Bundestag ym mis Mawrth 2025 i ganiatáu mwy o fenthyca i wario ar amddiffyn, yn creu cyfleoedd i feithrin ein partneriaeth ymhellach. Mae'r cyfleoedd hyn wedi'u hymgorffori yng Nghytundeb Trinity House 2024. Mae gan Ffrainc a'r Almaen ill dau uchelgais rhyngddynt i ddatblygu galluoedd ymosodiadau manwl dros bellteroedd eang, a gallai cydweithio ar hyn arwain at gyfraniad pwysig at alluoedd ymosod Ewrop drwy'r rhaglen ELSA,[74] gan ategu'r berthynas E3 ar yr un pryd.

74 ELSA - European Long Range Strike Approach - ymdrech ryngwladol i wella systemau amddiffyn Ewrop erbyn y 2030au.

Amlygir partneriaeth agos y DU ag **Estonia** a **Gwlad Pwyl**—a'r ymrwymiad i atal gweithredoedd ymosodol gan Rwsia ar hyn ffin ddwyreiniol NATO—drwy Ymgyrch CABRIT, lle mae brigâd Byddin Prydain yn cael ei chadw'n barod yn y DU i ddarparu pŵer ymladd i atgyfnerthu cadlu'r DU sydd wedi'i leoli'n barhaol allan yno er mwyn helpu i ddiogelu ffiniau NATO yn Estonia ac i ddarparu galluoedd rhagchwilio yng Ngwlad Pwyl. Yn ddiweddar, cytunodd y DU ac Estonia ar fap ffordd amddiffyn newydd a llofnodwyd datganiad ar y cyd a fydd yn golygu o fis Gorffennaf 2025 ymlaen y bydd y 4ydd Tîm Ymladd Brigâd Ysgafn yn cael eu cadw'n hollol barod rhag ofn. Mae hyn yn golygu y bydd miloedd o filwyr ar gael ac wedi'u hymbaratoi i fynd i Estonia ar fyr rybudd. Yn 2025, bydd yr RAF yn cymryd rhan mewn ymgyrch Plismona Awyr NATO yng Ngwlad Pwyl. Mae'r cynllun DIAMOND, dan arweiniad y DU ac mae Gwlad Pwyl yn aelod ohono, yn gwella Amddiffynfeydd Awyr a Thaflegrau Integredig NATO drwy wella systemau'r rhwydwaith amddiffyn awyr ledled Ewrop.[75]

Mae'r cysylltiadau clos rhwng y DU a **Norwy** yn seiliedig ar ddaearyddiaeth agos a hanes gyffredin. Nodweddir y bartneriaeth hon gan ymrwymiad Norwy i ymuno â Grŵp Llongau Cludo Ymosod y DU yn 2025. Fel rhan o Ymgyrch Baltic Sentry NATO i wella gwyliadwriaeth forol, mae'r DU a Norwy hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu seilwaith hanfodol o dan y môr, gyda'r DU yn cyfrannu awyrennau gwyliadwriaeth forol Rivet Joint a P-8 Poseidon.

Ac yntau'n aelod o gymuned cudd-wybodaeth Five Eyes, ac yn un o gynghreiriad allweddol NATO yn yr Arctig, yr Uchel Ogledd a Gogledd yr Iwerydd, mae **Canada** yn parhau i fod yn hanfodol bwysig o ran sicrhau diogelwch ar draws Môr yr Iwerydd. Mae'r DU a Chanada yn archwilio cyfleoedd i adeiladu ar dros 50 mlynedd o hanes o hyfforddiant Byddin Prydain yn BATUS (British Army Training Unit Suffield),[76] sy'n gyrru arloesedd drwy gyfleusterau profi ac arfarnu y genhedlaeth nesaf.

Wrth i **Sweden** a'r **Ffindir** ymuno â NATO, mae hynny'n golygu y gall y DU weithio gyda phartneriaid y **Llu Ymgyrchol ar y Cyd** (JEF)—sy'n cynnwys cynghreiriaid allweddol eraill fel **Denmarc, Gwlad yr Iâ, Latfia, Lithuania, yr Iseldiroedd**, Estonia, a Norwy—i gefnogi ac ategu gweithrediadau NATO. Yn ddiweddar, dechreuodd JEF olrhain bygythiadau posibl i'r seilwaith o dan y môr a monitro fflyd gysgodol Rwsia. Mae'r cynllun yn amlygu potensial JEF i dreialu defnyddio technolegau arloesol i roi hwb i ddiogelwch ar y cyd yn Ewrop.

Mae perthynas amddiffyn y DU â **Romania** yn parhau i ehangu ar ôl llofnodi cytundeb newydd yn ddiweddar ar gydweithrediad milwrol. Mae **Groeg** yn un o gynghreiriad allweddol y DU yn Nwyrain Môr y Canoldir, gan hwyluso gweithrediadau'r DU ledled Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae **Gweriniaeth Cyprus** yn bartner rhanbarthol allweddol yr ydym yn cydweithio'n agos ag ef o ran amddiffyn, diogelwch a sefydlogrwydd rhanbarthol. Mae gan y DU Bencadlys Sofran o hyd yn ardaloedd Akrotiri a Dhekelia, sy'n strategol bwysig ac yn cael eu cynnal yn unol â Chytundeb Sefydlu 1960. Mae'r DU wedi ymrwymo i ymgyrch cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig yng Nghyprus, gan gydnabod ei rôl o ran cynnal sefydlogrwydd ar yr ynys.

75 Ar hyn o bryd mae Ffrainc, yr Almaen, Latfia, Norwy, Gwlad Pwyl, Sweden a'r DU yn aelodau o'r cynllun DIAMOND.

76 Yn gartref i un o ystadau hyfforddi mwyaf Byddin Prydain.

## Y Dwyrain Canol

Mae gan y DU rai o'r cysylltiadau dyfnaf, ehangaf a hynaf yn y **Dwyrain Canol** o holl wledydd Ewrop. Mae'r Gwlff yn darparu mynediad a chanolfannau hanfodol, gan alluogi'r DU i gefnogi diogelwch rhyngwladol a rhyddid mordwyo—sy'n hanfodol ar gyfer diogelwch ynni domestig a masnach ar y môr. Yn eu tro, mae Lluoedd Arfog y DU yn bartner naturiol i chwe gwlad **Cyngor Cydweithredu'r Gwlff**, gan gynnig addysg a hyfforddiant milwrol o'r radd flaenaf, a mynediad at raglenni offer allweddol a sylfaen ddiwydiannol y DU, i gefnogi partneriaethau milwrol hirsefydlog.

Mae'r DU wedi profi ei fod yn bartner dibynadwy gydag ymrwymiad ar y cyd i sefydlogrwydd rhanbarthol a byd-eang. Mae'r bartneriaeth ddiwydiannol, filwrol ac amddiffyn ar y cyd â **Saudi Arabia** yn adeiladu ar y berthynas ddwyffordd hirsefydlog, tra bod Amddiffyn yn parhau i feithrin perthynas â'r **Emiradau Arabaidd Unedig**. Mae Sgwadronau Awyr ar y cyd â **Qatar** yn ganolog i gydweithio dwyffordd, gyda'r potensial i ehangu i feysydd tir a pharthau eraill. Mae cysylltiadau'r DU ag **Oman** yn parhau gyda chyfle i ddatblygu ymhellach drwy alluoedd logistaidd a hyfforddiant ar y cyd i gefnogi mwy o integreiddio rhanbarthol. Mae Cyfleuster Cefnogi'r Llynges yn **Bahrain** yn caniatáu presenoldeb morol parhaus y DU yn y Dwyrain Canol, wedi'i ategu gan ymrwymiad y DU i ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr ar Integreiddio Diogelwch a Ffyniant UDA-Bahrain (C-SIPA). Mae'r DU yn elwa'n fawr o'i pherthynas hir â **Kuwait** a **Gwlad yr Iorddonen**, ac o gydweithio parhaus â'r **Aifft** ac **Irac**, sy'n dal yn bartneriaid diogelwch rhanbarthol allweddol.

Mae gan Amddiffyn y gallu o hyd i gynnal, neu gyfrannu at, ymyriadau cyfyngedig i gefnogi **gweithrediadau gwrthderfysgaeth rhyngwladol**, megis darparu cefnogaeth amddiffyn parhaus yn erbyn Daesh. Dros y degawd diwethaf, mae'r RAF wedi cynnal dros 10,000 o hediadau awyr dros Irac a Syria fel rhan o ymdrech ryngwladol i atal Daesh rhag ehangu ac ailsefydlu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae awyrennau a llongau rhyfel Prydain wedi helpu i ddiogelu masnach forol ryngwladol yn y Môr Coch rhag ymosodiadau Houthi.

## Yr Indo-Môr Tawel

Mae perthynas y DU ag **Awstralia, Japan, Gweriniaeth Corea a Seland Newydd** yn hanfodol i ddiogelwch rhanbarthol a byd-eang, a ddatblygwyd rhwng y cenhedloedd yn unigol, yn amlochrog a drwy NATO. Mae'r DU yn dal i ymuno â gweithrediadau ac ymarferion gyda'r partneriaid allweddol hyn, gan gynnwys drwy ddanfon HMS Tamar ac HMS Spey i'r rhanbarth. Mae eu presenoldeb parhaol yn yr Indo-Môr Tawel yn helpu i hyrwyddo diogelwch morol a darparu cymorth dyngarol ac adeg trychinebau. Mae'r mathau hyn o weithrediadau'n cael eu cefnogi gan bresenoldeb milwrol parhaol y DU yn **Singapore**, sy'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wella'r cydweithio â gwledydd y Trefniadau Amddiffyn Pum Pŵer, ac o gefnogi presenoldeb Byddin Prydain yn **Brunei**. Yn yr un modd â gwledydd eraill y Gymanwlad, mae'r DU yn cydnabod cyfraniadau hanfodol a gwerthfawr **Nepal**, gyda'r **Gurkhas** yn cyfrif am 8% o Fyddin Prydain.

Mae gan y DU bartneriaeth barhaus a deinamig ag **Awstralia**, wedi'i hategu gan Gytuniad Cydweithredu Amddiffyn a Diogelwch modern. Mae'r bartneriaeth gyffredinol yn amrywio o gydweithio ar alluoedd arloesol, gan gynnwys drwy AUKUS, i allforio offer fel sonar Thales 2087. Mae **Japan** yn bartner clos a phwysig yn y rhanbarth, a amlygir gan y cydweithredu—gyda'r Eidal—i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o awyrennau ymladd a'r ymarferion ar y cyd o dan Ymarferion Ynysoedd Gwyliadwrus. Bydd Grŵp Llongau Cludo Ymosod y DU yn hwylio i Awstralia yn 2025, gan ymweld â Japan fel rhan o'r daith, i ddangos eto ymrwymiad y DU i sefydlogrwydd a diogelwch y rhanbarth ac i gynnal y drefn ryngwladol.

Gan gydnabod rôl **India** ar y llwyfan byd-eang, mae'r DU yn parhau i feithrin y berthynas amddiffyn ddwyochrog ar draws ystod o ddiddordebau cyffredin, gan gynnwys yn rhanbarth Cefnfor India a thrwy gydweithrediad galluoedd. Mae'r cyhoeddiad ym mis Chwefror 2025 am Bartneriaeth Amddiffyn y DU-India yn gam nesaf pwysig ar gyfer cydweithio ddwyffordd ym maes amddiffyn, gan ganolbwyntio ar arfau'r genhedlaeth nesaf ym maes hanfodol amddiffyn yr awyr. Mae Map Amddiffyn y DU gydag **Indonesia** yn sail i ymdrechion ehangach y Llywodraeth i feithrin partneriaeth ddwyochrog gynhwysfawr. Mae'r berthynas â **Phacistan** yn un hanesyddol, gyda ffocws cyffredin ar amcanion diogelwch. Mae ymgysylltu ag **ASEAN** (Cymdeithas Cenhedloedd De-ddwyrain Asia) yn dal i fod yn bwysig, o ystyried ei rôl ganolog yn hyrwyddo sefydlogrwydd a chydweithrediad rhanbarthol, yn ogystal â darparu ymgysylltiad parhaus â phwerau 'tir canol' allweddol.


## Gweddill y byd

Ar hyn o bryd, mae **Affrica** yn ganolbwynt cystadleuaeth ddwys wrth i'w heconomïau dyfu, gyda dylanwad cynyddol Rwsia a Tsieina yn ymelwa ar yr ansefydlogrwydd ar draws y cyfandir at eu dibenion eu hunain. Mae'r DU yn parhau i gefnogi partneriaid strategol yn Affrica, gan hyrwyddo heddwch a sefydlogrwydd drwy addysg, hyfforddiant a meithrin gallu amddiffyn penodol, gan fynd i'r afael â bygythiadau 'oddi-uwch' i fuddiannau'r DU. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â bygythiadau gan sefydliadau terfysgol a gweithredwyr eraill nad ydynt yn wladwriaethau drwy gynnal perthnasoedd sefydledig â **Kenya, Nigeria a Ghana**, a gyda **Somalia.**

Mae'r DU yn parhau i gydnabod pwysigrwydd deialog strategol gyda phartneriaid yn **America Ladin—Brasil a Chile** yn bennaf—i hyrwyddo heddwch, diogelwch a ffyniant yn y rhanbarth. Mae'r **Caribî** yn arbennig o bwysig, o ystyried rhwymedigaethau'r DU i amddiffyn a diogelu ei Thiriogaethau Tramor. Mae'r DU yn parhau i ddarparu cymorth dyngarol a chymorth ar ôl trychineb fel blaenoriaeth pan fo angen.

Fel un o'r cyfranwyr ariannol mwyaf i **weithrediadau cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig**, mae'r DU yn parhau i leoli tua 250 o staff milwrol mewn lleoedd fel Somalia, De Sudan a Chyprus, lle mae milwyr Prydain yn gweithio ochr yn ochr â'r rheini sy'n cadw'r heddwch o wledydd eraill, gan feithrin eu gallu a galluogi'r Cenhedloedd Unedig i gyflawni ei mandadau cadw heddwch.[77]

77 UK reaffirms commitment to UN peacekeeping operations as Minister announces new funding for programmes - GOV.UK, 15 Mai 2025.



# 6. Amddiffyn a Gwydnwch Gartref: Dull Gweithredu Cymdeithas Gyfan

1. **Rhaid i'r DU fod yn ymwybodol o'r bygythiadau y mae'n eu hwynebu, ei gwendidau, a natur frys yr ymateb sydd ei angen** (Pennod 2). Mewn cyfnod o gystadleuaeth ac argyfwng, mae'r gallu i ymdopi ag ymosodiadau o dan y trothwy neu siociau mawr yn hanfodol i gynnal bywyd cenedlaethol. Mewn rhyfel, naill ai gartref neu ar dir mawr Ewrop, bydd natur yr ymosodiadau ar y DU yn newid ac yn dwysáu, gan fynnu ymateb a dygnwch cenedlaethol. Mae'r hyn sydd wedi digwydd i Wcráin ers 2022 yn dangos sut gall gwrthdaro modern fod, gan gynnwys y sgil-effeithiau sy'n estyn ymhell y tu hwnt i faes y brwydr.

2. Er mwyn i ataliaeth fod yn gredadwy yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i'r Llywodraeth wneud y canlynol:

   - **Meithrin cydnerthedd cenedlaethol** i fygythiadau sy'n is ac yn uwch na throthwy ymosodiad arfog drwy ymdrech ar y cyd sy'n cynnwys—ymysg eraill—diwydiant, y sector cyllid, cymdeithas sifil, y byd academaidd, addysg a chymunedau.
   - **Cynyddu parodrwydd y genedl i ryfela** fel bod y DU, os oes angen, yn gallu trawsnewid a datblygu, a chynnal rhyfel yn erbyn gelyn 'cyfatebol'—rhwymedigaeth i NATO o dan Erthygl III o Gytuniad Washington.

3. **Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir pa mor bwysig yw dull cymdeithas gyfan ar gyfer diogelwch a gwydnwch y DU** fel rhan o strategaeth diogelwch genedlaethol newydd.[78] Mae gan Amddiffyn ddiddordeb sylfaenol mewn polisi gwydnwch trawslywodraethol a chynllunio amddiffyn gartref dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet, ac mae'n rhan annatod o hynny.[79] Bydd y mesurau a amlinellir yn yr Adolygiad hwn yn cyfrannu at yr ymdrech hon, o berthynas wedi'i thrawsnewid â diwydiant a buddsoddwyr, i well defnydd a chysylltiad â Milwyr Wrth Gefn a chyn-filwyr ledled y wlad, a datblygiad sgiliau a pherthnasoedd allanol drwy hyfforddiant ac addysg Amddiffyn. Ond **mae mwy y gall Amddiffyn ei wneud, ac y mae'n rhaid iddo ei wneud, i gefnogi dull cymdeithas gyfan ar gyfer atal ac amddiffyn.**

## Ailgysylltu â chymdeithas

4. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth hyrwyddo undod o ran ymdrechion ar draws cymdeithas, gan arwain sgwrs genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r bygythiadau i'r DU, sut mae Amddiffyn yn eu hatal ac yn diogelu yn eu herbyn, a pham mae Amddiffyn angen cefnogaeth i gryfhau gwydnwch y genedl. Dylai ymdrechion i wrthsefyll bygythiadau i uniondeb gwybodaeth fel elfen hanfodol o gydlyniant cenedlaethol fod wrth wraidd y fenter hon.

5. Rhaid i Amddiffyn chwarae ei ran yn y gwaith hwn o dan un o'i ddwy rôl alluogi (Pennod 3), gan ddefnyddio cyhoeddi'r Adolygiad hwn fel catalydd. **Y cysylltiad rhwng Lluoedd Arfog y DU a chymdeithas ehangach yw'r sylfaen hirsefydlog ac angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y wlad.** Mae'r Lluoedd Arfog yn recriwtio ac yn gweithredu gyda chydsyniad y gymdeithas maent yn ei gwasanaethu a'i hamddiffyn. Mae Amddiffyn wrth galon llawer o gymunedau lleol ledled y DU, ac mae'r rhain yn aml yn cael eu ffurfio o amgylch safleoedd milwrol a diwydiannol (Ffigur 8). Mae hefyd yn chwarae rôl arwyddocaol yn y gwaith o hyrwyddo symudedd cymdeithasol

78 Datganiad Llafar y Prif Weinidog i Dŷ'r Cyffredin: 25 Chwefror 2025 - GOV.UK.

79 Bydd Rhaglen Amddiffyn Gartref dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet yn darparu haen ychwanegol o amddiffyniad, diogelwch a chynllunio gwydnwch, sy'n canolbwyntio ar gysondeb rhwng ymdrechion milwrol a sifilaidd mewn cyfnod o frwydro rhyngwladol sy'n effeithio ar y DU.


drwy gynnig llwybrau gyrfa amrywiol a chyfleoedd addysg i unigolion o bob cefndir. Serch hynny, mae degawdau o ymladd rhyfeloedd dramor a gostyngiad yn nifer y staff wedi arwain at gymdeithas sydd â llai o ymwybyddiaeth o Amddiffyn.

> Mae addysg ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn yn andros o bwysig. Dylen nhw wneud i ni ddeall beth maen nhw'n ei wneud i ni, a pham ddylen ni fod yn rhoi ein harian treth er mwyn helpu i ariannu'r hyn maen nhw'n ei wneud
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, Y Weinyddiaeth Amddiffyn Corsham**

6. **Mae'n hanfodol meithrin dealltwriaeth cymdeithas o'r hyn mae'r Lluoedd Arfog yn ei wneud, a sicrhau eu bod yn fwy amlwg.** Gellir cyflawni hyn drwy:

   - Diwrnodau ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd y Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid yn sefydliad gwerthfawr o ran cyflawni'r gwaith ymgysylltu hwn.
   - Gweithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog ymysg pobl ifanc mewn ysgolion.
   - Ehangu'r Lluoedd Cadetiaid sy'n darparu sgiliau a chymwysterau i bobl ifanc, yn hysbysu ac yn ysbrydoli staff Amddiffyn y dyfodol—o gefndiroedd amrywiol ledled y wlad—ac yn cefnogi twf economaidd. Bydd hyn o fudd i bedair gwlad y DU.
   - Darparu hyfforddiant Amddiffyn. Byddai gwahodd arweinwyr FTSE100, cwmnïau perthnasol eraill, a sefydliadau cymdeithas sifil i fynychu cyrsiau Amddiffyn—naill ai rhai pwrpasol neu rannau o gyrsiau fel y rhai a gynigir gan yr Academi Amddiffyn—yn cynyddu dealltwriaeth o rôl cymdeithas mewn cydnerthedd cenedlaethol a chynhyrchiant diwydiannol os bydd rhyfel. Ni ddylid ystyried bod hwn yn ymarfer gwneud elw. Mae'n ganolog i lwyddiant Amddiffyn yn yr amgylchedd o fygythiadau newydd.

**Ffigur 8: Cynrychiolaeth ym maes Amddiffyn a swyddi uniongyrchol yn y diwydiant ledled y DU**



## Diogelu seilwaith cenedlaethol hanfodol

7. **Mae rhediad esmwyth bywyd bob dydd a'r economi yn dibynnu ar seilwaith cenedlaethol hanfodol a pharhad gwasanaethau hanfodol.** Mae ymgyrchoedd difrodi ac ymosodiadau seiber a gefnogir gan y wladwriaeth eisoes wedi amharu'n fawr ar wasanaethau cyhoeddus y DU, gan arwain at gostau adfer sylweddol. Ar sail athrawiaeth bresennol gelynion, os bydd rhyfel mawr fe ddylai'r DU ddisgwyl i ymosodiadau o dan y trothwy ddwysáu fel rhan o ymgyrch 'hybrid' sydd hefyd yn cynnwys ymosodiadau cinetig ar seilwaith sifilaidd a milwrol—ar y tir, ar y môr ac yn y gofod.

8. **Mae angen corff o waith mwy sylweddol a chyda mwy o ffocws i sicrhau diogelwch a gwydnwch seilwaith cenedlaethol hanfodol y DU** ar draws y sbectrwm o gystadleuaeth hyd at argyfwng a gwrthdaro. Gan gyflymu ac adeiladu ar y gwaith presennol, dylai hyn arwain at ddiffiniad clir o'r hyn sydd o fewn y cwmpas yn ogystal â gwarchodaeth ddigonol o elfennau craidd y seilwaith cenedlaethol hanfodol, gan gynnwys y rheini y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Llywodraeth ehangach yn dibynnu arnynt. Un o flaenoriaethau Amddiffyn ddylai fod mynegi—fel rhan o Raglen Amddiffyn Gartref dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet—pa elfennau o seilwaith cenedlaethol hanfodol y DU sy'n hanfodol i gynnal gweithrediadau a dangos grym dramor, ac sydd felly angen cael eu diogelu mewn sefyllfaoedd sy'n is ac yn uwch na throthwy rhyfel. Dylai hefyd gefnogi ymdrechion y Llywodraeth i gryfhau pwerau deddfwriaethol—yn benodol:

- Adolygiad ehangach o ddeddfwriaeth fel Deddf Telegraffiaeth Danfor 1885, sy'n darparu ar gyfer diogelu seilwaith cyfathrebu o dan y môr rhag difrod bwriadol neu esgeulus.[80]
- Bwriad y Bil Seiberddiogelwch a Chadernid sydd ar y gweill—dan arweiniad yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg—yw cryfhau amddiffynfeydd seiber y DU, gan sicrhau bod y seilwaith cenedlaethol hanfodol a'r gwasanaethau digidol y mae'r cyhoedd a busnesau'r DU yn dibynnu arnynt yn fwy cadarn a diogel.

9. Mewn llawer o achosion, nid oes gan weithredwyr y seilwaith cenedlaethol hanfodol y gallu i ddiogelu'r seilwaith maen nhw'n berchen arno yn wyneb bygythiadau mor gymhleth sy'n esblygu. **Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn archwilio, gyda'r Llywodraeth yn ehangach, opsiynau ar gyfer 'cytundeb newydd' i amddiffyn y seilwaith cenedlaethol hanfodol**, sydd wedi'i wreiddio mewn partneriaeth rhwng Amddiffyn a gweithredwyr seilwaith sector preifat a chysylltiedig sydd fwyaf hanfodol i barhad gwasanaethau hanfodol yn y DU. Mae'r modelau a ddefnyddir gan wladwriaethau Nordig a Baltig yn rhoi enghreifftiau defnyddiol o sut i gymell, cefnogi a gweithio gyda gweithredwyr er budd pawb. I gefnogi'r cytundeb newydd hwn, dylai'r Llynges Frenhinol chwarae rôl newydd, arweiniol a chydlynol i warchod piblinellau a cheblau o dan y môr, a thraffig morol sy'n cludo'r wybodaeth, yr ynni, a'r nwyddau y mae bywyd cenedlaethol yn dibynnu arnynt (Pennod 7.2).

80 Mae'r darpariaethau o dan y Ddeddf ar gyfer diogelu ceblau cyfathrebu o dan y môr wedi bod yn ddigonol tan y datblygiadau a welwyd mewn bygythiadau yn gymharol ddiweddar.

10. **Bydd hefyd yn bwysig cael galluoedd ychwanegol ar gyfer diogelu safleoedd a seilwaith cenedlaethol hanfodol os bydd argyfwng neu wrthdaro**—gan sicrhau bod safleoedd allweddol, megis ar gyfer ynni, bwyd, dŵr, telegyfathrebiadau, cyflenwadau meddygol a seilwaith trafnidiaeth, yn cael eu diogelu. Dylai hyn fod yn gyfrifoldeb ar y cyd i nifer o sefydliadau ar draws y Llywodraeth (gan gynnwys Gwasanaeth Gwarchod y Weinyddiaeth Amddiffyn a Chymuned Cudd-wybodaeth y DU) a diwydiant, gan gynyddu gwydnwch a dyfnder strategol drwy sicrhau bod Milwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn yn gallu canolbwyntio ar ryfela, yn hytrach na thasgau sylfaenol. Fel rhan o hyn, dylid edrych ar opsiynau ar gyfer datblygu llu newydd sydd wedi'i fodelu ar y Llu Wrth Gefn ac sy'n cysylltu cymunedau lleol ag Amddiffyn: byddant yn cael eu recriwtio a'u cyflogi'n lleol, gydag ymrwymiad hyfforddiant a chylch gwaith sydd wedi'u diffinio'n fanwl. Gellid trefnu hyn o dan y strwythur Lluoedd Wrth Gefn, dan arweiniad y Fyddin, a'u harfogi â dulliau cyfathrebu, arfau a thechnoleg (megis dronau) sylfaenol. Rhaid i gynlluniau nythu yn y Rhaglen Amddiffyn Gartref a chael eu profi a'u sicrhau fel mater o drefn fel rhan o raglen ymarfer ehangach y DU.

## Cryfhau parodrwydd y genedl ar gyfer rhyfel

11. Mae paratoi ar gyfer rhyfel yn hanfodol er mwyn ymateb yn effeithiol i ymosodiad arfog. Gall hefyd helpu i atal gelyn rhag ymosod yn y lle cyntaf. Mewn amgylchiadau mor eithafol, ond sydd bellach yn bosibl, mae gwledydd yn mynd i ryfel, nid dim ond y lluoedd arfog. **Rhaid i'r Llywodraeth feddu ar y cynlluniau, y pwerau a'r staff angenrheidiol er mwyn sicrhau trosglwyddiad cynaliadwy ac effeithiol i ryfel os oes angen.** O ran Amddiffyn, dylai hyn gynnwys cynnal cynlluniau milwrol cyfredol ar gyfer amddiffyn gartref. Yn ogystal â hynny, dylai Amddiffyn weithio gyda Swyddfa'r Cabinet, drwy'r Rhaglen Amddiffyn Gartref, i:

- Mynegi'r hyn sydd ei angen gan awdurdodau sifil mewn argyfwng, gyda blaenoriaethau'n cael eu neilltuo i adrannau eraill y Llywodraeth a chynlluniau ar gyfer ymbaratoi'r Lluoedd Wrth Gefn a diwydiant os oes angen. Rydym yn croesawu cynigion Swyddfa'r Cabinet i godio 'cymorth sifilaidd i awdurdodau milwrol' mewn argyfwng a gwrthdaro fel rhan o'r gwaith hwn.
- Sicrhau bod cynlluniau'r DU yn cyd-fynd â chynlluniau NATO, yn unol â rhwymedigaethau'r Gynghrair.
- Dysgu o arferion gorau Cynghreiriaid NATO, yn enwedig gwladwriaethau Nordig a Baltig, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o brofiad y DU ei hun wrth hyfforddi recriwtiaid o Wcráin dan Ymgyrch INTERFLEX.[81]
- Sefydlu rhaglen o ymarferion i brofi cynlluniau ar gyfer ymateb i ymosodiad arfog ar y DU a/neu Gynghreiriaid NATO, gan gynnwys ar lefel wleidyddol a chenedlaethol. Dylid defnyddio'r rhaglen hon i ganfod bylchau sy'n dod i'r amlwg mewn cynlluniau wrth i fygythiadau ac amgylchiadau ehangach newid.

12. Rhaid i'r Llywodraeth feddu ar y modd, os oes angen, i baratoi ac ymateb wrth i fygythiadau i'r DU neu ei chynghreiriaid gynyddu ac—yn hollbwysig—cyn i argyfwng droi'n rhyfel. Nid oes gan y fframweithiau deddfwriaethol presennol yr hyblygrwydd i hwyluso hyn. Dylai

81 Ymgyrch INTERFLEX yw'r ymgyrch ryngwladol dan arweiniad y DU i hyfforddi a chefnogi Lluoedd Arfog Wcráin.

deddfwriaeth amddiffyn gartref newydd, ar ffurf **Bil Parodrwydd i Amddiffyn, roi pwerau ychwanegol wrth gefn i'r Llywodraeth i gefnogi'r gwaith o ymbaratoi'r diwydiant a Lluoedd Wrth Gefn.** Gallai hyn gynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- Gwella parodrwydd diwydiannau allweddol, gan gynnwys pwerau i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau, mynediad at y seilwaith cenedlaethol hanfodol, ac adnoddau ar gyfer Amddiffyn.
- Cefnogi'r gwaith o ymbaratoi Amddiffyn ehangach, gan gynnwys diwydiant a Lluoedd Wrth Gefn.
- Gwella gwydnwch seilwaith rhyfela Amddiffyn (Pennod 7.11) drwy gyflwyno cynlluniau i baratoi asedau preifat a masnachol.[82]
- Sicrhau bod y DU yn barod i weithredu o fewn fframwaith NATO.
- Galluogi craffu allanol ar barodrwydd y Lluoedd Arfog i ryfela drwy gyhoeddi data allweddol bob blwyddyn fel canran yr holl raglenni mewn gwasanaeth sydd ar gael, trefnu data'r holl raglenni uwchraddio a datblygu, a chrynodeb o asesiadau ynghylch fforddiadwyedd rhaglenni (Pennod 4.2).

13. **Mae'r Llu Strategol Wrth Gefn — sy'n cynnwys cyn-bersonél Parhaol sydd â rhwymedigaethau cyfreithiol parhaus—yn ganolog i ymbaratoi milwrol ac mae'n rhaid ei hadfywio.** Er mwyn datblygu a phrofi cynlluniau i fyddino'r Lluoedd Wrth Gefn, fe ddylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fapio lleoliadau a sgiliau Milwyr wrth Gefn a gwneud mwy o ymdrech ar y cyd i'w cynnwys o dan strategaeth gyfathrebu ddiwygiedig y cyn-filwyr. Dylai'r strategaeth hon nodi cynnig Amddiffyn i'r rheini sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog a'r hyn y gallai Amddiffyn fod ei angen ganddynt yn y dyfodol. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd gymell Milwyr Wrth Gefn Strategol i ymgysylltu drwy ddarparu lefelau priodol o hyfforddiant (Pennod 4.3) a mwy o fynediad at rolau gwirfoddoli.



82 Er enghraifft, mae cytundeb diweddar y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda Chymdeithas Porthladdoedd Prydain yn ehangu mynediad Amddiffyn at gyfleusterau porthladdoedd ledled y DU.

**Argymhellion:**

26. Rydym yn croesawu lansiad y Prif Weinidog o sgwrs genedlaethol ar amddiffyn a diogelwch. Dylai hyn ganolbwyntio ar gyfres ddwy flynedd o ddigwyddiadau allgymorth cyhoeddus ledled y DU, gan egluro'r bygythiadau presennol a thueddiadau'r dyfodol, y rôl y mae'n rhaid i gymdeithas ehangach ei chwarae o ran diogelwch a gwydnwch y DU, a'r rhesymeg dros fuddsoddi mwy mewn amddiffyn a diogelwch fel polisi yswiriant. Mae'n rhaid i Amddiffyn chwarae ei ran yn yr ymdrech hon, gyda'r Lluoedd Arfog yn dod yn fwy gweladwy mewn cymdeithas. I gyflawni hyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud y canlynol:
    - Gweithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog ymysg pobl ifanc mewn ysgolion.
    - Ehangu'r Lluoedd Cadetiaid 30% mewn ysgolion a chymunedau ledled y wlad erbyn 2030, gydag uchelgais i gyrraedd 250,000 yn y tymor hwy. Dylid canolbwyntio mwy o fewn y Cadetiaid ar ddatblygu sgiliau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg) ac archwilio technoleg fodern. Rhaid i Amddiffyn, y Llywodraeth ehangach, a phartneriaethau â'r sector preifat ddarparu arweiniad, cefnogaeth a chyllid priodol er mwyn sicrhau bod modd ehangu yn y fath fodd.
    - Rhoi rhyddid masnachol ar unwaith i'r Academi Amddiffyn ac i ganolfannau Amddiffyn eraill sy'n darparu addysg a hyfforddiant rhagorol er mwyn iddynt allu gweithredu, gan godi'r cyfyngiadau mai dim ond capasiti dros ben anostyngadwy y gellir ei gynnig yn allanol. Erbyn mis Chwefror 2026, dylai'r Academi Amddiffyn sefydlu cynllun ar gyfer gwahodd arweinwyr cwmnïau, o gwmnïau FTSE100 ac yn ehangach, ar gyrsiau Amddiffyn fel y bo'n briodol.
27. Mae angen llawer mwy o ffocws ar sicrhau bod seilwaith cenedlaethol hanfodol y DU yn cael ei ddiogelu rhag ymosodiadau sy'n is ac yn uwch na throthwy rhyfel. Dylai Amddiffyn fod yn fwy brwd ei gefnogaeth i waith Swyddfa'r Cabinet o osod a gorfodi safonau cadarn o warchodaeth a gwydnwch ar gyfer seilwaith, gan ddiffinio a blaenoriaethu'r seilwaith cenedlaethol hanfodol y mae Amddiffyn a'r Llywodraeth ehangach yn dibynnu arno yn y lle cyntaf. Dylai dull mwy cynhwysfawr gynnwys y canlynol:
    - Cryfhau pwerau'r Llywodraeth i ddiogelu'r seilwaith cenedlaethol hanfodol lle bo angen, cwblhau'r broses o ddiweddaru deddfwriaeth bresennol neu gyflwyno deddfwriaeth newydd erbyn diwedd y Senedd hon (2029).
    - Archwilio opsiynau ar gyfer 'cytundeb newydd' ar gyfer diogelu'r seilwaith cenedlaethol hanfodol mewn partneriaeth â'r sector preifat a gweithredwyr cysylltiedig. Fel rhan o hyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddatblygu opsiynau ar gyfer diogelu'r seilwaith cenedlaethol hanfodol os bydd argyfwng neu wrthdaro, gan gynnwys Llu Wrth Gefn newydd, gyda chynlluniau'n cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Rhagfyr 2026.

**Argymhellion:**

28. Ochr yn ochr â chynlluniau i amddiffyn y DU os bydd rhyfel, dylai Amddiffyn weithio ar draws y Llywodraeth i roi cyfres o fesurau ar waith a fyddai'n gwella parodrwydd cenedlaethol yn sylweddol. Mae'r meysydd ffocws pwysig yn cynnwys:
    - Bil Parodrwydd i Amddiffyn newydd sy'n rhoi pwerau wrth gefn i'r Llywodraeth i ymateb yn effeithiol os bydd pethau'n arwain at ryfel sy'n cynnwys y DU neu ei chynghreiriaid. Dylai'r Bil fandadu adroddiadau blynyddol ar barodrwydd y DU i ryfela er mwyn hwyluso craffu allanol.
    - Sicrhau bod y cynlluniau sy'n cael eu gwneud o dan y Rhaglen Amddiffyn Gartref yn diwallu anghenion Amddiffyn os bydd pethau'n arwain at ryfel, gan gynnwys ymbaratoi'r Lluoedd Wrth Gefn a diwydiant, a sicrhau bod gan Amddiffyn fynediad at seilwaith y sector preifat ar gyfer gweithrediadau. Dylai deddfwriaeth fod yn sail i hyn yn ôl yr angen.
    - Ymgysylltu mwy â'r Llu Strategol Wrth Gefn, a gynhelir drwy hyfforddiant blynyddol a rolau gwirfoddoli. Dylid sefydlu dull wedi'i ddigideiddio o reoli'r Lluoedd Wrth Gefn erbyn mis Ionawr 2027.





# 7. Y Llu Integredig: Llu sy'n Addas i Ryfel yn yr 21ain Ganrif

Hawlfraint delwedd © TEKEVER

1. Hyd yma, mae ein Hadolygiad wedi edrych ar yr hyn y mae'n rhaid i Amddiffyn ei wneud, ble, a sut mewn ymateb i'r cyd-destun diogelwch sy'n newid a chyda'r cyllid sydd ar gael (Penodau 3–6). Mae'r bennod hon yn **nodi'r cyfeiriad ar gyfer Llu Integredig sy'n addas i ryfel yn yr 21ain ganrif**, gan nodi'r galluoedd cychwynnol ar gyfer caffael fel rhan o lu sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n cael ei ddatblygu yn unol â'n **gweledigaeth ar gyfer Amddiffyn y DU erbyn 2035:**

**Yn bŵer amddiffyn blaenllaw sy'n defnyddio technoleg, gyda Llu Integredig sy'n atal, yn ymladd ac yn ennill drwy arloesi'n gyson ar gyflymder rhyfel.**

2. Mae darparu pŵer rhyfela bob amser wedi newid gyda thechnoleg ac amgylchiadau ond mae cyflymder y newidiadau heddiw yn ddigynsail. Mae'n debygol y byddai unrhyw wrthdaro â gwrthwynebydd 'cyfatebol' dros y blynyddoedd nesaf yn golygu y byddai'r DU a'i chynghreiriaid yn wynebu grym milwrol sy'n gallu cyflwyno arfau mwy modern fel dronau, arfau confensiynol datblygedig, a systemau arfau amddiffyn awyr a gwyliadwriaeth mwy effeithiol—i gyd wedi'u cysylltu gan ddata a rhwydweithiau digidol.

3. **Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, mae'n rhaid i'r DU droi at ffordd newydd o ryfela** (Blwch 9). Y dasg hanfodol yw trawsnewid y Lluoedd Arfog, adfer eu parodrwydd i ymladd, a gwrthdroi'r duedd o 'wanhau' y galluoedd sylfaenol na allant ddygymod hebddynt mewn gwrthdaro hirfaith a dwys. Cyflawnir hyn drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn deng mlynedd newydd. Mae pocedi o ragoriaeth i adeiladu arnynt: mae arbrofion diweddar gan y Gwasanaethau yn dangos y ffordd ar gyfer y Llu Integredig yn y dyfodol, ac mae'r rhaglen offer eisoes yn cynnwys rhai datblygiadau caffael trawsnewidiol, fel y System Brwydro Awyr y Dyfodol. Ond rhaid i Amddiffyn symud ymhellach ac yn gyflymach i gynyddu ei gapasiti i achosi angau ar y llwybr tuag at ailadeiladu mas a dygnwch.



**Blwch 9: Y Llu Integredig: galluogrwydd ar gyfer rhyfel yn yr 21ain ganrif**

Dylai’r nod gynnwys creu Llu Integredig sydd mor effeithiol â phosibl o ran capasiti i achosi angau ac sy’n meddu ar wahanol fathau o sgiliau rhyfela. Mae’n rhaid i’r llu hwn fod yr un mor barod i ymladd brwydr am dir ag y mae i orfodi ei ewyllys o bell heb esgidiau ar lawr gwlad:

- Mae’r capasiti i achosi angau, mas, a dygnwch yn cynyddu, wrth i lwyfannau gyda chriwiau ar y môr, o dan y môr, ar y tir, ac yn yr awyr gael eu cyfuno â chyfran gynyddol o lwyfannau cydweithredol di-griw ac awtonomaidd mewn ffyrdd ystwyth a newydd.
- Mae arfau hynod soffistigedig fel taflegrau manwl pellter hir yn cynnig gwell cyrhaeddiad ac maent yn cael eu hategu gan fwy o arfau llawer llai soffistigedig fel dronau a phelenni untro.
- Mae cynnydd yn y gallu i oroesi mewn brwydr fwy tryloyw yn sgil mwy o wasgaru, amddiffyn a symudedd.
- Mae penderfyniadau’n cael eu gwneud a’u rhoi ar waith yn llawer cyflymach, gyda phob elfen o’r Llu Integredig yn gysylltiedig â chyd-ddealltwriaeth a thrwy we targedu digidol unigol, sydd wedi’i gwreiddio mewn sylfaen ddigidol gyffredin (Pennod 4.1).

Yr hyn sy’n gyffredin i bob canlyniad yw’r frwydr gyson i reoli pob un o’r pum maes. Mae’r frwydr hon wedi’i seilio ar y sicrwydd yn y pen draw a ddarperir gan raglen niwclear ataliol annibynnol y DU.

4. **Dylai symud tuag at ddefnyddio mwy o awtonomi a Deallusrwydd Artiffisial (AI) yng ngrymoedd confensiynol y DU fod yn flaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer trawsnewid.** Fel yn Wcráin, byddai hyn yn darparu mwy o gywirdeb, rhagor o gapasiti i achosi angau, a galluoedd rhatach—gan newid economeg Amddiffyn. Dylid hwyluso’r newid hwn drwy ddatblygu sylfaen ddigidol gyffredin a gwe targedu digidol ochr yn ochr (Pennod 4.1), yn ogystal â diogelu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu deallusrwydd artiffisial. Dylid ymgorffori nifer fawr o systemau awtonomaidd a di-griw o fewn y Llu Integredig dros y pum mlynedd nesaf. Dylid eu rhwydweithio gydag asedau’r bumed a’r chweched genhedlaeth sydd â chriw fel rhan o gymysgedd ‘uchel-isel’ o alluoedd, ac mae’n rhaid teilwra dyluniad y systemau hyn i’r amodau y byddant yn gweithredu ynddynt—boed hynny o dan y môr, ar y môr, ar y tir, neu yn yr awyr. Ar ôl cymryd cam enfawr ymlaen, mae’n rhaid i Amddiffyn aros ar flaen y gad o ran technolegau dronau gan ddefnyddio egwyddorion y cylch arloesi a amlinellir ym Mhennod 4.

5. **Mae angen buddsoddiad wedi’i dargedu hefyd i ailadeiladu ymdrechion i gyd-gefnogi galluogwyr ac arfau ar draws y llu confensiynol**, gyda chyflenwadau arfau, darnau a thanwydd wedi’u hadfer yn cael eu dosbarthu ar hyd a lled y DU yn y pen draw ac o bosibl i gyfleusterau storio yn Ewrop. Dylai Amddiffyn gynnal galluoedd arfau sydd ‘ar waith bob amser’ fel bod modd cyflymu cynhyrchiant os oes angen. Dylai hefyd osod y sylfeini diwydiannol ar gyfer cynnydd mewn cyflenwadau arfau i ateb y galw am ryfela tempo uchel, gyda phedair gwlad y DU yn profi’r manteision economaidd. Dylai hyn gael ei **ategu gan ddatblygiad arfau ynni cyfeiriedig newydd** i greu dewisiadau amgen cost isel a chynaliadwy yn lle taflegrau i saethu targedau i lawr fel dronau.

6. **Bydd dilyniant darbodus o fuddsoddiad mewn galluoedd dros y deng mlynedd nesaf** yn gofyn am benderfyniadau anodd a symud y gwariant i flaenoriaethau newydd. Dylid cyfuno hyn â pharodrwydd i brynu oddi ar y silff ac ategu galluoedd milwrol gydag opsiynau sifil lle bo angen. Bydd y dilyniannu hwn yn sicrhau bod Amddiffyn yn gallu darparu Llu Integredig sy’n addas i ryfel yn erbyn gelyn ‘cyfatebol’, teithio’n gyflymach ar hyd y llwybr a nodir gan yr Adolygiad hwn pe bai amodau diogelwch rhyngwladol yn dirywio ymhellach, neu fyddino Amddiffyn yn gyflym mewn argyfwng. Bydd hyblygrwydd o ran opsiynau dilyniannu a chaffael hefyd yn hanfodol os bydd y DU yn anfon milwyr i Wcráin i gefnogi cadoediad.

**Argymhelliad:**

29. Gan adeiladu ar arbrofion diweddar a chynlluniau caffael presennol, mae’n rhaid i Amddiffyn symud ymhellach ac yn gyflymach i drawsnewid, gan symud i sefyllfa o barodrwydd i ryfela ar draws y Llu Integredig. Mae’r blaenoriaethau ar draws elfennau confensiynol y Lluoedd Arfog dros y pum mlynedd nesaf yn cynnwys:

- Newid tuag at ddefnyddio mwy o awtonomi a Deallusrwydd Artiffisial. I gefnogi hyn, dylai’r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu galluoedd gweithredu cychwynnol ar gyfer Canolfan Systemau Amddiffyn Heb Griw newydd erbyn mis Chwefror 2026. Dylai’r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd greu Cronfa Fuddsoddi mewn Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Amddiffyn sydd wedi’i gwarchod i gyflymu’r broses o fabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ar draws Amddiffyn, gan flaenoriaethu’r achosion defnydd mwyaf addawol.
- Creu capasiti cynhyrchu arfau sydd ‘ar waith bob amser’, yn barod i dyfu ar gyfer cynhyrchu tempo uwch os bydd pethau’n arwain at ryfel.

# 7.1 Rhaglen Niwclear Ataliol y DU

1. **Rhaglen niwclear ataliol wedi'i moderneiddio yw sylfaen amddiffyn y DU a chonglfaen ei hymrwymiad i NATO a diogelwch byd-eang.** Mae arfau niwclear y DU yn atal y bygythiadau mwyaf eithafol i ddiogelwch gwladol ac yn rhoi yswiriant hanfodol yn erbyn y risgiau mwyaf difrifol ac ansicrwydd y dyfodol. Ers dros 55 mlynedd o dan Ymgyrch RELENTLESS mae'r Llynges Frenhinol wedi bod yn rhedeg llong danfor gydag arfau niwclear bob awr o bob dydd—Ataliaeth Barhaus ar y Môr—i gyflawni'r genhadaeth bwysig hon.

2. **Erbyn hyn ni ellir ystyried ataliaeth niwclear ar wahân i'r amgylchedd strategol ehangach**, fel y disgrifir ym Mhennod 2. Gall unrhyw argyfwng neu wrthdaro y mae'r DU yn rhan ohonynt yn y dyfodol gynnwys gwladwriaethau gydag arfau niwclear neu wladwriaethau sydd â dyheadau niwclear sy'n fodlon defnyddio bygythiadau niwclear i orfodi neu gyfyngu ar benderfyniadau'r DU a'i chynghreiriaid. Mae sicrhau bod y DU yn gallu parhau i atal bygythiadau o'r fath a pheidio â chael ei gorfodi yn gofyn am fuddsoddiad parhaus ar draws y Fenter Niwclear Amddiffynnol ac yng nghynghreiriau, sgiliau a sylfaen ddiwydiannol y DU. Nid yw polisi niwclear y DU wedi newid (Blwch 10).

**Blwch 10: Polisi niwclear y DU**

Sylfaen dull gweithredu'r DU o atal o hyd yw ataliad niwclear credadwy ac annibynnol yn y DU, sydd wedi'i aseinio i amddiffyn NATO. Pwrpas arfau niwclear y DU yw cadw'r heddwch, atal gorfodaeth drwy rym, a rhoi stop ar ymddygiad ymosodol. Mae arfau niwclear y DU yn cael eu gweithredu'n annibynnol. Dim ond y Prif Weinidog all roi'r awdurdod i'w defnyddio, gan sicrhau bod rheolaeth wleidyddol yn cael ei chynnal bob amser. Dim ond mewn amgylchiadau eithafol lle byddai angen iddi amddiffyn ei hun y byddai'r DU yn ystyried defnyddio arfau niwclear, ac mae hynny'n cynnwys amddiffyn ei Chynghreiriaid NATO hefyd.

Mae'r DU yn fwriadol amwys ynghylch pryd yn union, sut yn union, ac i ba raddau y byddai'n ystyried defnyddio arfau niwclear. Nid yw'r DU yn cyhoeddi ffigurau ar gyfer ei chyflenwad gweithredol, nac ychwaith ar niferoedd yr arfbennau a niferoedd y taflegrau a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn gwella'i heffaith ataliol drwy wneud y cyfrifiadau'n gymhleth i ymosodwyr posibl ac mae'n golygu bod llai o risg y bydd y rheini yn ymosod arnom ni yn gyntaf.

Ni fydd y DU yn defnyddio, nac yn bygwth defnyddio, arfau niwclear yn erbyn unrhyw wladwriaeth heb arfau niwclear sy'n barti i'r Cytuniad ar Atal Twf Arfogaeth Niwclear. Nid yw'r sicrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wladwriaeth sy'n torri'r rhwymedigaethau atal twf arfogaeth niwclear yn sylweddol. Ceidw'r DU yr hawl i adolygu'r sicrwydd hwn os bydd bygythiad arfau distryw mawr yn y dyfodol, fel galluoedd cemegol a biolegol, neu dechnolegau datblygol a allai gael effaith debyg, yn golygu bod angen gwneud hynny.

Er mwyn sicrhau nad yw'r ataliaeth yn agored i gamau rhagataliol gan elynion posibl, mae'r DU yn cynnal pedair Llong Danfor Taflegrau Balistig (SSBN Ship Submersible Ballistic Nuclear) fel bod o leiaf un bob amser ar batrôl Ataliaeth Barhaus ar y Môr. Mae wedi ymrwymo i gynnal y pŵer dinistriol sydd ei angen i sicrhau bod rhaglen niwclear ataliol y DU yn parhau i fod yn gredadwy ac yn effeithiol yn erbyn yr ystod lawn o fygythiadau niwclear gwladol o unrhyw gyfeiriad. Mae'r DU yn parhau i gadw golwg cyson ar ei safiad niwclear gan ystyried y cyd-destun diogelwch rhyngwladol a gweithgareddau gelynion posibl.

## Ataliaeth a sicrwydd: gweithio gyda Chynghreiriaid NATO

3. Dibyniaeth gynyddol Rwsia ar orfodaeth niwclear fydd yr her ganolog i'r DU a'i Chynghreiriaid NATO dros y degawdau nesaf. Mae Rwsia yn moderneiddio ac yn ehangu ei set helaeth o alluoedd niwclear, sydd wedi'u dylunio i gael eu defnyddio ar sawl lefel o ryfela. Mae ei strategaethau ar gyfer rhyfela yn dibynnu ar y bygythiad o ddefnydd niwclear cyfyngedig i derfynu gwrthdaro ar delerau manteisiol. Bydd twf niwclear digynsail Tsieina yn rhoi pwysau ar rymoedd niwclear UDA a'r ataliaeth mae'n ei hymestyn i'r Ewro-Iwerydd. Mae cydweithio posibl ac oportiwnistiaeth ymysg y rhain a herwyr niwclear eraill—o'r math a welwyd yn Wcráin—yn ychwanegu rhagor o gymhlethdod at ataliaeth, deinameg dwysau, a sicrwydd rhwng cynghreiriaid.

4. Mae'r bartneriaeth â'r Unol Daleithiau—a ategwyd gan Gytundeb Amddiffyn Cydfuddiannol 1958 (a adnewyddwyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth hon) a Chytundeb Gwerthiannau Polaris 1963—yn parhau i fod yn hanfodol i nodau diogelwch niwclear y DU ac UDA ac i raglen niwclear ataliol y DU. Wrth i UDA ddelio â'r her ddigynsail o wynebu dau bŵer niwclear sy'n gymheiriaid agos, sef Rwsia a Tsieina, **mae'n rhaid i'r DU ystyried sut y gall gefnogi UDA a'i Chynghreiriaid NATO er mwyn cryfhau'r ataliaeth estynedig ar draws yr Ewro-Iwerydd.**

5. Fel yr unig wlad Ewropeaidd i neilltuo ei gallu niwclear i amddiffyn NATO, mae'r DU **mewn sefyllfa dda i arwain Ewrop i wella ei chyfraniad at ataliaeth a sicrwydd yn yr Ewro-Iwerydd**. Mae'n rhaid i'r DU weithio gyda Chynghreiriaid i sicrhau bod gallu NATO i atal yn addas i'r diben ar draws sbectrwm y gwrthdaro, wedi'i ategu gan gyd-fuddsoddiad yn yr ystod o alluoedd sy'n angenrheidiol i atal defnydd niwclear ar unrhyw raddfa. Rhaid i hyn gynnwys buddsoddiad deallusol i sicrhau bod arweinwyr milwrol a sifilaidd y Gynghrair yn deall dimensiynau niwclear unrhyw argyfwng neu wrthdaro y bydd eu gwledydd yn rhan ohonynt yn y dyfodol.

6. Er nad yw Ffrainc yn rhan ffurfiol o strwythurau cynllunio niwclear NATO, mae'r DU a Ffrainc wedi cydnabod ers tro y byddai bygythiad i fuddiannau allweddol un ohonynt yn fygythiad i fuddiannau allweddol y llall. Dylai'r DU geisio meithrin perthynas agosach â'i chynghreiriad niwclear Ewropeaidd, gan adeiladu ar Gytuniadau Lancaster House mewn meysydd sy'n ymwneud â chydweithrediad gwleidyddol, technegol a pholisi.

> Mae angen inni gael popeth yn ei le rhag ofn i rywbeth ddigwydd—rydyn ni angen y polisi yswiriant hwnnw
>
> **—Aelod o'r Panel Dinasyddion, Camp Rollestone**

## Ymrwymiad parhaus i reoli arfau, diarfogi, ac atal twf arfogaeth niwclear

7. Y Cytuniad ar Atal Twf Arfogaeth Niwclear yw conglfaen y drefn diarfogi ac atal twf a'r unig lwybr credadwy at ddiarfogi niwclear cyffredinol. Mae'r gyfundrefn bellach dan straen. Nid yw strwythurau hanesyddol ar gyfer cynnal sefydlogrwydd strategol a lleihau risgiau niwclear wedi cadw i fyny â'r darlun diogelwch sy'n esblygu. Ni ddilynodd eraill y cynnydd o ran diarfogi a arweiniwyd gan y DU ac UDA yn ystod y 2000au. Gyda'r Cytuniad DECHRAU Newydd ar fin dod i ben ym mis Chwefror 2026, nid yw dyfodol rheolaeth arfau strategol—o leiaf yn y tymor canolig—yn edrych yn addawol.[83]

8. Er mwyn cynnal hyder rhyngwladol yn y gyfundrefn atal twf arfogaeth niwclear, **mae arweinyddiaeth barhaus y DU o fewn y Cytuniad yn hanfodol**. Mae cenhadaeth niwclear gref NATO hefyd yn hanfodol gan ei bod yn un o'r adnoddau atal twf arfogaeth niwclear mwyaf arwyddocaol sydd ar gael i roi sicrwydd i Gynghreiriaid nad oes angen iddynt gael eu harfau niwclear eu hunain.

## Cyflawni rhaglen niwclear ataliol y DU fel 'Ymdrech Genedlaethol'

9. **Bydd y penderfyniadau a wneir yn y Senedd hon yn hanfodol ar gyfer cynnal rhaglen niwclear ataliol annibynnol y DU**, portffolio cymhleth sy'n defnyddio'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf ac sy'n ymestyn dros ddegawdau. Mae'r Fenter Niwclear Amddiffynnol (DNE, Blwch 11) yn gwneud ymdrech enfawr i gynnal yr Ataliaeth Barhaus ar y Môr ac i addasu ei hystâd a'i galluoedd, gydag oedi o ran gwneud penderfyniadau a chyflawni rhaglenni ers diwedd y Rhyfel Oer yn arwain at dwf mewn costau ar draws y portffolio dros y blynyddoedd diwethaf. Mae lansio dull 'Ymdrech Genedlaethol' ar gyfer y Fenter yn dechrau sbarduno gwydnwch ar draws galluogwyr hanfodol y rhaglen niwclear ataliol. Bydd llwyddiant yn gofyn am arweinyddiaeth a ffocws parhaus ar lefelau uchaf y Llywodraeth yn ogystal â newid sylweddol mewn meddylfryd ar draws pob adran sy'n hanfodol i gyflawni.

10. **Mae partneriaeth wedi'i thrawsnewid gyda diwydiant, gan adeiladu ar yr ymdrechion presennol o fewn y DNE, hefyd yn hanfodol**. Mae graddfa'r hyn y mae'n rhaid i ddiwydiant ei gyflawni i gynnal ac adnewyddu'r rhaglen niwclear ataliol yn enfawr. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gymell cwmnïau i flaenoriaethu gweithgareddau niwclear a buddsoddi adnoddau ar draws y Fenter i gyflawni yn unol â'r gyllideb a'r amserlen. Rhaid rhoi sylw hefyd i ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant diwydiannol, gan gynnwys gwell seilwaith a gweithlu medrus.

83 Mae DECHRAU Newydd, a lofnodwyd yn 2010, yn cyfyngu ar nifer yr arfbennau niwclear strategol a ddefnyddir gan UDA a Rwsia.

**Blwch 11: Y Fenter Niwclear Amddiffynnol (DNE)**

Y DNE yw'r bartneriaeth o sefydliadau sy'n gweithredu, yn cynnal a chadw, yn adnewyddu ac yn sicrhau rhaglen niwclear ataliol y DU. Sefydliadau craidd y DNE yn y Llywodraeth yw'r Sefydliad Niwclear Amddiffyn, y Llynges Frenhinol, yr Asiantaeth Cyflenwi Llongau Tanfor, y Sefydliad Arfau Atomig, a'r Drefn Reoli Strategol. Mae'r DNE ar hyn o bryd yn buddsoddi ar draws y meysydd canlynol er mwyn cynnal yr ataliad cyhyd ag y bo angen:

- Pedair llong danfor balistig niwclear dosbarth Dreadnought yn lle'r dosbarth Vanguard presennol. Bydd y cwch cyntaf yn cychwyn mynd ar batrôl ddechrau'r 2030au.
- Saith llong danfor ymosodol niwclear wedi'u harfogi'n gonfensiynol, dosbarth Astute (SSNs) a dyluniad cenhedlaeth nesaf yr SSN-A (AUKUS).
- Arfben sofran newydd y DU (ASTRAEA), gan gynnal y cyflenwad presennol ar yr un pryd.
- Elfennau hanfodol o seilwaith y DNE i addasu canolfannau llyngesol a phrosesau gweithgynhyrchu, gan gefnogi twf i gynnal anghenion y fflyd a gofynion arfau yn y dyfodol.
- Sefydlu Rhaglen Tanwydd Niwclear, a fydd yn ailsefydlu cylch tanwydd niwclear ar gyfer tanwydd adweithyddion at ddibenion amddiffyn.

## Sefydlogrwydd hirdymor yn y Fenter Niwclear Amddiffynnol

11. Fel ymdrech aml-genhedlaeth, **mae adnewyddu'r rhaglen niwclear ataliol yn gofyn am gyfeiriad hirdymor** fel bod y Weinyddiaeth Amddiffyn a diwydiant yn gallu rheoli risg a gwella perfformiad a gwerth am arian dros amser. Mae angen eglurder ynghylch sut mae'r rhaglen hon yn rhyngweithio â set ehangach o ofynion ar gyfer llongau tanfor niwclear sy'n cario arfau confensiynol, gan gynnwys y genhedlaeth nesaf o longau tanfor ymosodol o dan bartneriaeth AUKUS. Mae'r rhaglen i ddisodli'r arfben sofran yn hollbwysig a bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y Senedd hon. Rhaid i'r Llywodraeth gynnal y trefniadau ariannol presennol sy'n neilltuo niwclear i ffwrdd o bwysau adrannol ehangach er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y portffolio niwclear. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer seilwaith diwydiannol i liniaru'r risg wrth adeiladu llongau tanfor. **Mae cefnogaeth y cyhoedd a'r senedd hefyd yn hanfodol** ar adeg pan fo pwysigrwydd, graddfa a chost y Fenter yn cynyddu.



**Argymhellion:**

30. Mae’n rhaid i’r DU hwyluso mwy o gydlyniaeth rhwng cydrannau confensiynol a niwclear rhaglen amddiffyn ac atal NATO. Dylai hyn gynnwys pob parth a’r sbectrwm cyfan o wrthdaro, gan gynnwys rhyfel dwysedd uchel yn erbyn gwladwriaethau ag arfau niwclear. Dylai’r camau gynnwys:
    - Rhagor o fuddsoddiad mewn galluoedd ymosodiadau manwl confensiynol dwfn (pellter hir) ac Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig (Pennod 7.4) i ddarparu’r ystod ehangaf o opsiynau ar gyfer atal ac ymateb i fygythiadau difrifol.
    - Cryfhau ymarferion a hyfforddiant a arweinir gan NATO a’r DU, gan fynd i’r afael â sefyllfaoedd posibl o ddwysau a gwrthdaro â gwladwriaethau ag arfau niwclear.
    - Dechrau trafod â’r Unol Daleithiau a NATO am fanteision ac ymarferoldeb posibl cyfraniad pellach y DU yn ymgyrch niwclear NATO.
31. Rhaid i’r DU barhau i hyrwyddo ei chyfrifoldebau niwclear ar yr un pryd â cheisio adnewyddu’r drefn rheoli arfau, diarfogi ac atal twf arfogaeth niwclear, sy’n canolbwyntio ar y Cytuniad Atal Twf Arfogaeth Niwclear. Fodd bynnag, mae’n rhaid i flaenoriaethau ac amcanion y DU wrth geisio adnewyddu fod yn realistig ynghylch absenoldeb partneriaid parod ym Moscow a Beijing.
32. Dylai pwyllgor (Niwclear) y Cyngor Diogelwch Gwladol o uwch Weinidogion adolygu cynnydd yr ‘Ymdrech Genedlaethol’ ar gyfer darparu rhaglen niwclear ataliol y DU o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Dylai’r cyfarfodydd hyn ddod â Gweinidogion at ei gilydd o bob adran sy’n hanfodol i’w chyflawni.
33. Mae’n rhaid i’r Llywodraeth ymdrin mewn modd cynhwysfawr â gwella cynhyrchiant diwydiannol fel ffactor allweddol wrth ddarparu a chynnal rhaglen niwclear ataliol y DU. Mae hyn yn cynnwys:
    - Sicrhau bod hyblygrwydd i gymell buddsoddiad gan y diwydiant mewn seilwaith a rheoli asedau. Dylai hyn gynnwys ystyried y newidiadau i’r Rheoliadau Contractau Ffynhonnell Sengl yn ddwys.
    - Chwalu’r rhwystrau i gynhyrchiant sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y diwydiant. Dylid blaenoriaethu prosiectau fel y Cynllun Strategol Niwclear Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau a Chronfa Trawsnewid Barrow,[84] gydag adrannau eraill y Llywodraeth yn ymrwymo i ddarparu cyllid ar y cyflymder a’r raddfa angenrheidiol.
    - Archwilio cyfleoedd ar gyfer diwygio deddfwriaethol a allai, mewn amgylchiadau eithriadol, gyfarwyddo diwydiant i flaenoriaethu gofynion niwclear amddiffyn yn y gadwyn gyflenwi sofran neu alluogi caffael asedau’n orfodol lle bo angen i amddiffyn diogelwch gwladol.


84 Mae’r Cynllun Strategol Niwclear Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau a Chronfa Trawsnewid Barrow yn becyn sylweddol o fuddsoddiadau mewn sgiliau, swyddi a chymunedau sy’n hanfodol i fodloni gofynion amddiffyn a niwclear sifil cynyddol y DU.

**Argymhellion:**

34. Er mwyn osgoi costau'r gorffennol, mae'n rhaid i'r Llywodraeth ymrwymo i beidio ag ymestyn oes llongau tanfor dosbarth Dreadnought y tu hwnt i'w dyddiadau diwedd gwasanaeth o ganol yr 2050au. Dylai ddechrau diffinio'r gofyniad am raglen niwclear ataliol ar ôl Dreadnought yn ystod y Senedd hon.

35. Er mwyn cynnal cefnogaeth hirdymor i arfau ataliol niwclear y DU a sicrhau sefydlogrwydd wrth gyflawni'r portffolio, dylai'r Llywodraeth wneud y canlynol:

    - Datblygu mecanweithiau ar gyfer gwell craffu seneddol—dan amodau priodol—i roi hyder bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n ddoeth wrth fynd ar drywydd prif flaenoriaeth amddiffyn y wlad.
    - Darparu ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus ar gyfer 'Ymdrech Genedlaethol' sy'n cyfleu pwysigrwydd sylfaenol y rhaglen ataliol, a'r angen amdani.
    - Cadarnhau nifer arfaethedig y llongau tanfor ymosodol SSN, gan gynnwys y genhedlaeth nesaf o longau tanfor ymosodol o dan bartneriaeth AUKUS, er mwyn darparu'r tybiaethau angenrheidiol ar gyfer y capasiti adeiladu a'r tempo angenrheidiol.



# 7.2 Y Parth Morol



1. Mae diogelwch morol yn elfen strategol angenrheidiol i'r DU. **Mae masnach fyd-eang, piblinellau a cheblau data o dan y môr, a gosodiadau ynni ar y môr yn hanfodol ar gyfer cynnal bywyd cenedlaethol o ddydd i ddydd.** Fodd bynnag, mae'r parth morol yn fwyfwy agored i niwed. Mae newid technolegol ac ymlediad arfau confensiynol datblygedig yn peri bygythiadau cynyddol i ddiogelwch morol, ac mae gelynion yn fwy parod i fygwth llif rhydd nwyddau hanfodol fel bwyd ac ynni i roi'r DU a'i chynghreiriaid mewn perygl. Rhaid i'r Llynges Frenhinol fod yn barod i atal digwyddiadau morol fel difrodi piblinell nwy Nord Stream 2 a thorri ceblau data o dan y môr yn nyfroedd y DU a dyfroedd rhyngwladol. Rhaid i'r Llynges hefyd fod yn barod ar gyfer realiti daearyddol newydd sy'n cael ei greu gan newid hinsawdd, gyda'r Gogledd Uchel yn dod yn bwysicach i'r DU a'i Chynghreiriaid NATO wrth iddo ddod yn fwy hygyrch.

2. **Er mwyn bodloni gofynion oes newydd o fygythiadau, mae'n rhaid i'r Llynges Frenhinol gyflawni rolau newydd a pharhau i ddatblygu'r ffordd mae'n ymladd**: symud tuag at gymysgedd deinamig o awyrennau a llongau ar yr wyneb ac o dan yr wyneb sydd â chriw, heb griw ac sy'n dod yn fwyfwy awtonomaidd; a datblygu galluoedd y genhedlaeth nesaf fel llongau tanfor ymosodol SSN drwy bartneriaeth dairochrog AUKUS.

## Rôl y Llynges Frenhinol

3. Pwrpas y Llynges Frenhinol, i gefnogi'r rolau ar gyfer Amddiffyn y DU a nodir ym Mhennod 3, yw:

   - **Rôl 1: Amddiffyn, gwarchod a gwella gwydnwch y DU, ei Thiriogaethau Tramor a'i Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron:** darparu'r Ataliaeth Barhaus ar y Môr, sylfaen amddiffyniad y DU. Dylai'r Llynges Frenhinol hefyd ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros arwain a chydlynu diwydiant a'r Llywodraeth ehangach i ddiogelu seilwaith hanfodol o dan y môr a thraffig morol.

- **Rôl 2: Atal ac amddiffyn yn yr Ewro-Iwerydd:** cyfrannu at Gynlluniau Rhanbarthol NATO drwy ddarparu'r canlynol: CASD; gallu llongau cludo ymosod y pumed genhedlaeth; rhyfela gwrth-danforol, gan ganolbwyntio ar ddiogelu Gogledd yr Iwerydd drwy ei gynllun Atlantic Bastion (Blwch 12); ymosodiadau arfordirol; a llongau distryw Math 45 sy'n darparu Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig (Pennod 7.4).
- **Rôl 3: Dylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang:** defnyddio adnoddau Amddiffyn lle gall y Llynges sicrhau'r effaith fwyaf, gan gynnwys partneriaethau galluogrwydd, allforion, a hyfforddiant ac addysg, sy'n cael eu gwella gan bresenoldeb parhaol ac ymfyddiniad cyfnodol y Llynges y tu hwnt i'r Ewro-Iwerydd.

## Trawsnewid

4. **Bydd trawsnewid dros amser yn golygu newid y ffordd mae'r Llynges yn datblygu ei gweithlu a'i hyfforddiant.** Wrth i systemau cymhleth ddod yn haws eu gweithredu gyda llai o faich hyfforddi, dylai'r Llynges Frenhinol addasu cydbwysedd ei staff i gynnwys mwy o Filwyr Wrth Gefn i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a rhyddhau Milwyr Parhaol ar gyfer rolau gweithredol ar y rheng flaen. Wrth iddi ailystyried anghenion ei hystâd hyfforddi, dylai'r Llynges sicrhau bod 'capasiti drwy ddyluniad' er mwyn iddi allu parhau i ddarparu hyfforddiant i gynghreiriaid a phartneriaid heb effeithio ar ofynion cenedlaethol.

**Blwch 12: Integreiddio aml-barth ar waith: Atlantic Bastion**

Yr Atlantic Bastion yw cynllun y Llynges Frenhinol i ddiogelu Gogledd yr Iwerydd ar gyfer y DU a NATO yn erbyn y bygythiad parhaus a chynyddol o dan y dŵr gan rym tanfor Rwsia sy'n moderneiddio. Mae galluoedd rhyfela gwrth-danforol y DU yn agwedd ganolog ar amddiffyniad Ewropeaidd ac maent yn alluoedd pwysig i ddiwallu anghenion newidiol y Gynghrair.

Mae'r Atlantic Bastion yn defnyddio rhwydwaith synwyryddion cynhwysfawr a haenog—sy'n gweithredu ar y dŵr, uwchben y dŵr, ac o dan y dŵr—i greu dull aml-barth integredig, a ddarperir ar y cyd â'r RAf, y Drefn Reoli Strategol, Swyddfa Hydrograffeg y DU, NATO, a phartneriaid masnachol. Bydd y Llynges Frenhinol yn defnyddio: llu ffrigad rhyfela gwrth-danforol Math 26, gyda baeau cenhadaeth[85] i hwyluso uwchraddio cyflym a datblygu troellog; llongau ar yr wyneb heb griw; a cherbydau tanddwr heb griw. Bydd y galluoedd hyn yn cael eu harneisio gyda systemau canfod acwstig wedi'u pweru gan Ddeallusrwydd Artiffisial a'u hymgorffori yn y we targedu digidol (Pennod 4.1)—gan gyflymu'r broses o dargedu penderfyniadau ar draws Amddiffyn a gyda chynghreiriaid y DU.

85 Mae baeau cenhadaeth yn fannau sy'n ymestyn ar draws lled gyfan y llong a gellir eu hail-ffurfweddu'n gyflym ar gyfer cenadaethau eraill, gan gynnwys fel llwyfan amffibiaidd ar gyfer cyrchoedd neu weithrediadau'r Lluoedd Arbennig. Maent yn cynnig hyblygrwydd o ran rôl a thasg y llong.

5. **Rhaid i Amddiffyn hefyd greu'r amodau ar gyfer arloesi parhaus a chymorth diwydiannol i'r Llynges.** Mae llinell gyflenwi sydd 'ar waith bob amser' ar gyfer adeiladu llongau yn hanfodol er mwyn dal gafael ar sgiliau'r diwydiant a lleihau'r oedi o ran danfon llongau newydd sydd fel arall yn arwain at gostau cymorth ychwanegol ar gyfer parhau i ddefnyddio llwyfannau sy'n heneiddio. Byddai cytundebau partneru hirdymor gydag ymrwymiadau cyllido dros nifer o flynyddoedd neu ddegawdau, fel y rhai sy'n sail i gyflawni SSN-AUKUS, yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a lleihau risgiau buddsoddiadau mawr gan hefyd gyfrannu at dwf economaidd y DU. Mae angen rheoleiddio mwy hyblyg hefyd i gefnogi arbrofi hanfodol mewn meysydd fel awtonomi, gan gynnwys drwy greu 'blychau tywod' rheoleiddio—ardaloedd dynodedig ar y môr lle gall y Llynges a diwydiant brofi a defnyddio technolegau newydd.

## Galluoedd

6. **Rhaid i'r Llynges Frenhinol barhau i symud tuag at fflyd sy'n fwy pwerus ond sy'n rhatach ac yn symlach**, gan ddatblygu cymysgedd 'uchel-isel' o gyfarpar ac arfau sy'n manteisio ar awtonomi ac integreiddio digidol. Mae'r llongau cludo ymosod eisoes ar flaen y gad o ran galluoedd NATO ond mae angen cynnydd llawer cyflymach yn eu hesblygiad i longau cludo asgell awyr 'hybrid', lle mae awyrennau â chriw (F-35B) yn cael eu hategu gan blatfformau cydweithredol awtonomaidd yn yr awyr a dronau untro darfodedig. Dylai cynlluniau ar gyfer llongau cludo asgell awyr hybrid hefyd gynnwys taflegrau manwl pellter hir y gellir eu tanio o ddec y llong cludo.

7. **Bydd angen cydlynu'n agos â gweddill y Llywodraeth, diwydiant a chynghreiriaid er mwyn diogelu seilwaith hanfodol o dan y môr**—o bosibl fel rhan o fodel newydd ar gyfer cydweithredu rhwng gweithredwyr a'r Llywodraeth (Pennod 6). I gefnogi hyn, dylai'r Llynges wneud y canlynol:

   - Gwella ei gallu i ganfod a'i gallu i gydlynu tasgau drwy orchymyn a rheoli yn well gyda datblygiad System Cefnogi Penderfyniadau Byd-eang. Dylai ganolbwyntio ar yr Ewro-Iwerydd yn y lle cyntaf.
   - Defnyddio'r llong Arolygu Cefnfor Aml-swyddogaeth a fflydoedd o gerbydau awtonomaidd i wrthsefyll bygythiadau i seilwaith hanfodol o dan y môr.
   - Cynnal systemau ymateb lle gall cynghreiriaid olrhain bygythiadau posibl gyda'i gilydd.

8. **Mae gweithrediadau'r Llu Uwch Amffibiaidd yn parhau i fod yn ffocws hanfodol i Lu Comandos y Môr-filwyr Brenhinol**, gan weithredu yn rhai o'r amgylcheddau mwyaf eithafol a chynnig dewis gwleidyddol ar gyfer gweithredu ledled y byd. Dylai'r gweithrediadau hyn ganolbwyntio fwyfwy ar **gefnogi gofynion NATO**, gan gynnwys integreiddio i'r Corfflu Wrth Gefn Strategol dan arweiniad y DU pan fo hynny'n briodol (Pennod 7.3).

9. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar alluoedd rhyfela'r DU, **dylai'r Llynges Frenhinol edrych ar ddulliau eraill o ddarparu fflyd gytbwys a chost-effeithiol.** Gall hyn gynnwys defnyddio llongau masnachol a rhannu baich â Chynghreiriaid NATO i ategu llongau Cymorth Solet y Fflyd Frenhinol Gynorthwyol (RFA) mewn amgylcheddau lle nad oes gwrthwynebiad. Mae morwyr proffesiynol ymroddedig a llongau'r RFA yn sail i allbynnau gweithredol hanfodol y Llynges Frenhinol wrth ddarparu logisteg, cefnogaeth yn yr awyr a chymorth meddygol. Mae ei alluoedd unigryw yn cynnal CASD, llongau cludo ymosod, a gweithrediadau amffibiaidd gan wneud cyfraniad hollbwysig at gydnerthedd y famwlad. Rhaid cynnal y rhain.

**Argymhellion:**

36. Mae'n rhaid i'r Llynges Frenhinol chwarae rôl newydd, arweiniol a chydlynol i ddiogelu seilwaith hanfodol y DU o dan y môr a thraffig morol sy'n hanfodol i fywyd cenedlaethol bob dydd. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i'r Llynges Frenhinol weithio gyda'r Llywodraeth ehangach a phartneriaid masnachol i wella gwyliadwriaeth forol drwy alluoedd presennol a newydd.

37. Rhaid i'r Llynges Frenhinol barhau i drawsnewid y sgiliau, y cyfarpar a'r ffyrdd o weithredu sydd eu hangen ar gyfer y parth morol yn yr 21ain ganrif fel rhan o Lu Integredig. Dylai gynnwys y canlynol:
    - Symud i long cludo asgell awyr 'hybrid', sy'n cynnwys awyrennau ymladd gyda chriw, llwyfannau cydweithredol awtonomaidd yn yr awyr, dronau untro, ac, yn y pen draw, taflegrau pellter hir y gellir eu tanio o ddec y llong cludo.
    - Esblygiad cyflym dulliau rhyfela gwrth-danforol drwy integreiddio dronau dan y dŵr, ar yr wyneb, ac yn yr awyr (gan gynnwys Protector) gyda ffrigadau Math 26, patrôl morol P-8 ac awyrennau rhagchwilio, a llongau tanfor ymosodol SSN.
    - Esblygiad cyflym chwilio am ffrwydron i'w darparu gyda llwyfannau awtomataidd.
    - Archwilio datblygiad posibl o ddinistriwr Math 45 i system goruchafiaeth awyr awtomataidd neu â chriw bach iawn a allai integreiddio arfau ynni cyfeiriedig a galluogi gwell cysylltedd ag asedau eraill o fewn system Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig y DU.

38. O ystyried y farchnad fyd-eang ar gyfer systemau awtonomaidd a di-griw, dylai'r Llynges Frenhinol ymgysylltu â phartneriaid masnachol—gan gynnwys cyllid preifat—a Llywodraethau eraill i ddarparu grym ffrigad integredig yn gyflym ar gyfer rhyfela gwrth-danforol, sy'n cynnwys llwyfannau awtomataidd, gyda chriw, a heb griw. Dylai'r prosiect hwn—sy'n gwella galluoedd Math 26—fod yn enghraifft o sut mae arian preifat yn cael ei ddenu at dechnoleg amddiffyn a'i chysylltu â chyfleoedd sy'n cael eu harwain gan allforion o dan bartneriaeth newydd â diwydiant (Pennod 4.2).

39. Mae angen dulliau rheoleiddio mwy hyblyg er mwyn gallu arbrofi mewn meysydd fel awtonomi. Erbyn mis Ebrill 2026, dylai Amddiffyn sefydlu opsiynau i wella mandad Rheoleiddiwr y Sector Amddiffyn Morol i alluogi'r Llynges Frenhinol a diwydiant i ddefnyddio 'blwch tywod' rheoleiddio pwrpasol i brofi a defnyddio technolegau newydd.

40. Dylai'r Llynges Frenhinol edrych ar ddulliau eraill o ychwanegu at y Fflyd Frenhinol Gynorthwyol er mwyn darparu fflyd gytbwys a chost-effeithiol sy'n manteisio i'r eithaf ar allu'r DU i ryfela. Gallai hyn gynnwys defnyddio llongau masnachol a galluoedd rhannu baich â chynghreiriaid i ategu asedau fel llongau Cymorth Solet y Fflyd mewn amgylcheddau lle nad oes gwrthwynebiad.

# 7.3 Y Parth Tir




1. **Mae rhyfel yn cael ei ymladd ar draws pum parth ond mae pobl a'r tir maen nhw'n byw arno wrth galon y cyfan.** Hyd yn oed wrth i'r ffyrdd o ryfela newid (Pennod 2), bydd grym milwrol ar y tir—ac a gynhelir gan adnoddau ar y tir—yn parhau i chwarae rhan sylfaenol o ran atal gelynion ac, os oes angen, eu trechu. Er bod rhyfela ar y tir yn parhau i fod yn llawn arfau a symudiadau, mae'r amgylchedd gweithredu yn newid yn sgil mabwysiadu technolegau newydd yn gyflym.

2. **Mae'r Fyddin wrthi'n newid o'r grym a oedd ei angen ar gyfer ymyriadau'r cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer** i rym sy'n barod i chwarae ei ran o fewn 'ataliaeth drwy wadu' NATO, sy'n gofyn am fwy o gapasiti i achosi angau, mas a dygnwch. Rhaid iddi fod yn barod i gefnogi ffocws o'r newydd ar gydnerthedd cenedlaethol ac ymateb i argyfwng byd-eang, yn ogystal â chwarae rôl ymgyrchol—sy'n gallu cipio, dal neu ail-gymryd tir, yn bennaf i gefnogi NATO ar dir mawr Ewrop.

3. Ailgyfalafwyd ddiwethaf yn ystod y 1990au, ac mae llawer o alluoedd y Fyddin—gan gynnwys tanciau Challenger 2, magnelaeth AS90, a bwledi a chetris—wedi cael eu rhoi i Wcráin. Wrth i'r Fyddin ailadeiladu, **rhaid i fuddsoddiad gael ei baru â newidiadau o ran y ffordd mae'n cael ei threfnu, ei gweithredu a'i harfogi.** Mae'r Fyddin eisoes yn gwella galluogrwydd, gan gynnwys Challenger 3, Ajax a Boxer. Mae hefyd yn mabwysiadu dull blaengar wrth ddatblygu model newydd ar gyfer grym ymladd ar y tir (Blwch 13). Ond mae'n rhaid iddo fod yn fwy mentrus. Gall arwain at **gynnydd o ddeg gwaith mewn capasiti i achosi angau** drwy harneisio arfau manwl, technoleg gwyliadwriaeth, awtonomi, cysylltedd digidol, a data.

## Rôl Byddin Prydain

4. Pwrpas Byddin Prydain, i gefnogi'r rolau ar gyfer Amddiffyn y DU a nodir ym Mhennod 3, yw:

- **Rôl 1: Amddiffyn, gwarchod a gwella gwydnwch y DU, ei Thiriogaethau Tramor a'i Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron:** cyfrannu at gynlluniau cydnerthedd

ac amddiffyn cenedlaethol drwy well Drefn Reoli Sefydlog ar y Cyd (y DU) a'i rhwydwaith cenedlaethol o Gadlywyddion Milwrol ar y Cyd. Mewn rhyfel, bydd angen galluoedd ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddiogelu seilwaith cenedlaethol hanfodol (Pennod 6).

- **Rôl 2: Atal ac amddiffyn yn yr Ewro-Iwerydd:** darparu un o ddau Gorfflu Wrth Gefn Strategol i NATO, yn unol â Chynlluniau Rhanbarthol NATO, yn barod i'w fyddino'n gyflym o'r DU i unrhyw le yn ardal yr Ewro-Iwerydd. Rhaid i'r Fyddin hefyd gynnal ei chyfraniad at bresenoldeb NATO yn Estonia a Gwlad Pwyl i'r dyfodol.
- **Rôl 3: Dylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang:** darparu cenadaethau 'hyfforddi, cynghori, cynorthwyo a hebrwng' hanfodol gyda chynghreiriaid a phartneriaid allweddol sy'n datgloi'r budd mwyaf wrth gyflawni rolau craidd Amddiffyn. Rhaid blaenoriaethu'r perthnasoedd hyn fel rhan o strategaeth gyffredinol Amddiffyn ar gyfer ei ôl troed byd-eang (Pennod 5).

## Trawsnewid

5. Bydd y Fyddin yn darparu elfennau hanfodol o'r Llu Integredig fel grymoedd Uwch ac Ymateb i'w byddino dan orchymyn y DU neu NATO. Ategir hyn gan weithrediadau gwydnwch ac adfywio yn y DU:

- Mae Pencadlys rhyngwladol, dan arweiniad y DU, Corfflu Ymateb Cyflym Cynghreiriol (ARRC) NATO eisoes yn darparu Pencadlys y Corfflu a dwy adran ar gyfer un o ddau Gorfflu Wrth Gefn Strategol (SRC) newydd. Rhaid i'r Corffluoedd Wrth Gefn Strategol fod yn barod i weithredu opsiynau wedi'u cynllunio ymlaen llaw a bennwyd gan SACEUR i reoli unrhyw ddwysau (cyn penderfyniad gan NATO i alw Erthygl V i rym) a'u byddino yn unrhyw le yn Ewrop. Bydd y corfflu hwn yn cael ei integreiddio â galluoedd y DU a Chynghreiriaid ar draws pob parth fel rhan o'r Llu Integredig. Dylid ystyried rhoi bwledi a chetris ac offer trymach mewn cyfleusterau storio sydd wedi'u gwasgaru'n briodol yn Ewrop, gan gefnogi parodrwydd NATO a lleihau'r galw am symudiadau strategol.
- Bydd y Drefn Reoli Sefydlog ar y Cyd (y DU) yn goruchwylio ac yn rheoli cyfraniad y Fyddin at gynllunio, paratoi a darparu cymorth Amddiffyn ar gyfer cydnerthedd cenedlaethol y DU. Gyda'r rhan fwyaf o allu'r Fyddin wedi'i ymrwymo i NATO, byddai ei gallu i gefnogi gwydnwch domestig yn cael ei leihau'n sylweddol pe bai'n cael ei byddino ar gyfer rhyfel.

**Blwch 13: Integreiddio aml-barth ar waith: Prosiect ASGARD a 'Recce-Strike'**

Mewn rhyfela modern cynyddol gymhleth, bydd Prosiect ASGARD yn gwella gallu'r Fyddin i ganfod ('recce') targedau'r gelyn, a'u dinistrio ('strike'). Mae'n dwyn ynghyd rwydweithiau digidol a data, Deallusrwydd Artiffisial, a galluoedd cudd-wybodaeth gyda'r arfau i ganfod ac ymosod ar rymoedd y gelyn dros bellteroedd mwy nag erioed ar draws maes y frwydr. Bydd yn integreiddio galluoedd goruchwylio (gan gynnwys seiber a gofod) yn llawn gydag arfau (fel magnelaeth, taflegrau pellter hir, awyrennau, a systemau awyrennau di-griw untro) drwy'r we targedu digidol (Pennod 4.1). Bydd hyn yn darparu cymorth i wneud penderfyniadau ar gyflymder peiriant drwy Ddeallusrwydd Artiffisial. Bydd y Fyddin yn datblygu ac yn rhannu'r cysyniad ar draws Amddiffyn, cynghreiriaid a phartneriaid er mwyn iddo ddod yn lluosydd grym.

6. **Ansawdd ei phobl yw cryfder sylfaenol Byddin Prydain.** Dylai'r Fyddin fod yn gymysgedd o bersonél Parhaol ac Wrth Gefn gydag o leiaf 100,000 o filwyr, a dylai 73,000 o'r rheiny fod yn filwyr Parhaol. Mae achos cryf o hyd dros gynnydd bach yn niferoedd y Milwyr Parhaol pan fydd cyllid yn caniatáu hynny (gan roi cyfrif am gostau pobl, cyfarpar a hyfforddiant ychwanegol). Rhaid i'r Fyddin allu ehangu a byddino lluoedd Wrth Gefn yn gyflym, gan ddarparu dyfnder strategol a hygrededd i ymrwymiadau amddiffyn y DU. Dylai'r Fyddin adfywio'r Lluoedd Wrth Gefn Gweithredol a Strategol, a fydd yn hanfodol ar gyfer darparu gallu digwyddiadol a mynediad at arbenigedd y gellir ei ddefnyddio'n gyflym os oes angen. Dylai elwa o'r cynnydd arfaethedig o 20% yn niferoedd y Milwyr Wrth Gefn Gweithredol pan fydd cyllid yn caniatáu (Pennod 4.3).

7. **Rhaid i hyfforddiant fod yn flaenoriaeth strategol a sefydliadol i adfer parodrwydd y Fyddin i ymladd ar bob lefel.** Mae'r Fyddin eisoes wedi dechrau newid ei hagwedd at hyfforddiant unigol a chyfunol er mwyn paratoi ar gyfer rhyfela ar raddfa fawr. Byddai defnyddio efelychiad uwch yn darparu hyfforddiant mwy effeithiol ac effeithlon ond mae tanio byw dros bellteroedd o 100km neu fwy yn dal yn hanfodol er mwyn sicrhau gallu ymladd y Fyddin. Bydd hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth â chynghreiriaid a rhannu mynediad at gyfleusterau hyfforddi addas, yn enwedig ar draws NATO.

## Galluoedd

8. **Bydd y Fyddin yn parhau i fod angen llwyfannau arfog a hofrenyddion ymosodol i herio gwrthwynebydd gwladwriaethol mawr, gan ymladd i gymryd a dal tir.** Mae llwyfannau arfog yn gwella gallu personél i oroesi mewn brwydr sy'n fwyfwy tryloyw, gan gynnwys yn sgil esblygiad cyflym dronau ar y cyd ag arfau manwl-gywir ac ardal eang. Er mwyn gwella'r gallu i ryngweithredu ac arbedion maint, dylai Amddiffyn geisio cydweithio â Chynghreiriaid NATO ar gaffael llwyfannau tir allweddol (Pennod 4.2).

9. **Mae systemau awtonomaidd a di-griw (tir ac awyr) bellach yn rhan hanfodol o ryfela ar y tir**, wedi'u hintegreiddio â llwyfannau arfog craidd mewn cymysgedd 'uchel-isel' deinamig o ran gallu. Mae'n debygol y bydd angen cymysgedd '20-40-40': 20% o lwyfannau â chriw i reoli 40% o lwyfannau 'ailddefnyddiadwy' (fel dronau sy'n goroesi sawl cenhadaeth), a 40% o 'nwyddau traul' fel rocedi, pelenni, taflegrau, a dronau 'effeithiau unffordd'. Dylid blaenoriaethu buddsoddi mewn dronau ymosod a gwyliadwriaeth, ynghyd â systemau gwrth-dronau. Rhaid i'r Fyddin allu cadw i fyny ag arloesedd tempo uchel mewn dronau a galluoedd cysylltiedig fel rhyfela electromagnetig (Pennod 7.6), a gefnogir gan ddulliau gweithgynhyrchu sydd 'ar waith bob amser'.

**Argymhellion:**

41. Rhaid i'r Fyddin foderneiddio'r ddwy adran a Phencadlys y Corfflu y mae'n eu darparu i NATO fel un o ddau Gorfflu Strategol Wrth Gefn (SRC) y Gynghrair. Dylai'r SRC gael ei arwain gan Bencadlys y Corfflu (Corfflu Ymateb Cyflym Cynghreiriol) a'i alluogi, a'i reoli, gan allu ar lefel y Corfflu. Dylai'r adran gyntaf gynnwys Pencadlys y gellir ei defnyddio'n llawn, tair brigâd symud gyda galluoedd arfog a mecanyddol, brigâd gymorth, a galluogwyr cysylltiedig. Dylai'r gwaith cynllunio gynnwys integreiddio Llu Comandos y Môr-filwyr Brenhinol yn yr SRC pan fo hynny'n briodol (Pennod 7.2).
42. Mae'n rhaid i'r Fyddin gyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio ei dull 'Recce-Strike' newydd—gan gyfuno galluoedd a thechnolegau presennol, fel llwyfannau arfog, gyda thechnoleg sy'n esblygu'n gyson—fel rhan o'i hymdrechion i foderneiddio'r SRC. Dylai fod yn fwy beiddgar yn ei uchelgais, gan geisio cynyddu ei gapasiti i achosi angau ddeg gwaith, wedi'i fesur yn erbyn model confensiynol o frigâd arfog.
43. Dylai'r Fyddin ddatblygu ei chymysgedd o filwyr Parhaol ac Wrth Gefn, gydag o leiaf 100,000 o filwyr, lle bydd 73,000 o'r rheiny yn filwyr Parhaol. Dylid ystyried cynnydd bach mewn milwyr Parhaol pan fydd cyllid yn caniatáu (gan gyfrif hefyd am gostau arfogi a hyfforddi'r staff hyn), a dylai'r Fyddin elwa o'r cynnydd arfaethedig o 20% yn niferoedd y Milwyr Wrth Gefn Gweithredol (Pennod 4.3). Dylai'r Llu Gweithredol Wrth Gefn ganolbwyntio ar ddim ond tasgau y gall eu cyflawni'n dda a chyda gwerth am arian. Rhaid iddi ailgysylltu â'i Llu Wrth Gefn Strategol fel agwedd graidd ar gynllunio symudiadau milwrol (Pennod 6).
44. Dylai Trefn Reoli Sefydlog ar y Cyd y Pencadlys (y DU) orchymyn holl gymorth milwrol y DU i gydnerthedd cenedlaethol o dan y Pencadlys Strategol Milwrol a chael adnoddau yn unol â hynny. Dylid ei fyddino hefyd i arwain ymdrechion ehangach i ailgysylltu Amddiffyn â chymdeithas, fel rhan o ddull 'cymdeithas gyfan' o atal ac amddiffyn (Pennod 6).
45. Dylai ymateb i argyfwng byd-eang ar lefel uchel iawn o barodrwydd yn y parth tir gael ei arwain gan Frigâd Ymosodiadau Awyr 16. Dylai gallu a chapasiti parasiwtau yn yr awyr barhau i ganolbwyntio ar yr arbenigwyr ac un grŵp bataliwn.

# 7.4 Y Parth Awyr



1. Mae pŵer awyr yn hanfodol i ddiogelu'r DU a'r rhyddid i ymladd ac ennill. **Dros y ddau ddegawd nesaf, bydd yn rhaid i'r DU a'i chynghreiriaid gystadlu'n galetach i reoli'r awyr**, gan ymladd mewn ffordd nas gwelwyd ers dros 30 mlynedd oherwydd datblygiad cyflym galluoedd gwrthwynebwyr sydd wedi'u cynllunio'n benodol i wrthsefyll cryfderau'r Gorllewin. Mae ymosod ac amddiffyn cymhleth yn yr awyr yn dod yn fwyfwy anodd. Mae systemau arfau amddiffyn awyr a gwyliadwriaeth yn dod yn llawer mwy abl. Mae goruchafiaeth awyrennau â chriw yn cael ei herio'n sylfaenol.

2. Mae'r RAF yn cynnig dull cyflymaf y Llu Integredig o ymosod ar dargedau, gyda'r hyblygrwydd, y cyflymder a'r cyrhaeddiad i sicrhau effaith yn fyd-eang. Er nad oes amheuaeth ynghylch safon gallu'r RAF, mae ei faint diwastraff yn adlewyrchu gofynion cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer, sy'n canolbwyntio ar wrthderfysgaeth, rhwystro gwrthryfel, a phlismona'r awyr. Gyda gwrthdaro gwladwriaethol yn dychwelyd yn Ewrop, **mae'n rhaid i'r RAF wella ei gynhyrchiant, ei ystwythder a'i allu i addasu er mwyn meithrin mwy o barodrwydd a gwydnwch**. Wrth wneud hynny, dylai weithio gyda diwydiant a chynghreiriaid i gynnal y sector arbenigol hwn a manteisio ar dechnoleg ddatblygol, gan gynnwys drwy bartneriaethau fel y Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang.

## Rôl yr RAF

3. Pwrpas yr RAF, i gefnogi'r rolau ar gyfer Amddiffyn y DU a nodir ym Mhennod 3, yw:

   - **Rôl 1: Amddiffyn, gwarchod a gwella gwydnwch y DU, ei Thiriogaethau Tramor a'i Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron:** plismona gofod awyr y DU yn erbyn terfysgaeth yn yr awyr ac amddiffyn yn erbyn bygythiadau i'r wladwriaeth; a chwarae rôl arweiniol mewn Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig (IAMD, Blwch 14). Rhaid i'r DU allu sicrhau ei mynediad a'i mantais yn y gofod, oddi yno a thrwyddo ar sail sofran a chyda Chynghreiriaid NATO (Pennod 7.5).

- **Rôl 2: Atal ac amddiffyn yn yr Ewro-Iwerydd:** cyfrannu at gynlluniau NATO drwy ddarparu: cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a rhagchwiliad ar y cyd, gan gynnwys gallu i reoli a rhybuddio'n gynnar yn yr awyr; ail-lenwi tanwydd yn yr awyr; Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig; lluoedd awyr parodrwydd-uchel gyda digon o gyflenwadau; ac awyrennau ymladd datblygedig ar gyfer y llongau cludo asgell awyr.
- **Rôl 3: Dylanwadu ar yr amgylchedd diogelwch byd-eang:** cefnogi sefydlogrwydd byd-eang drwy weithrediadau ac ymarferion cyfnodol gyda chynghreiriaid a phartneriaid allweddol; a hyrwyddo buddiannau'r DU drwy raglenni cydweithredu ar alluogrwydd fel y Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang, nodi a datblygu cyfleoedd allforio, dylanwadu ar bolisïau amddiffyn rhyngwladol drwy NATO, a chynnig hyfforddiant ac addysg.

## Trawsnewid

4. **Mae angen ystod eang o sgiliau a thalent ar yr RAF ar gyfer rhyfela sy'n defnyddio technoleg heddiw ac yfory.** Dylai ganolbwyntio ar ddal gafael ar brofiad unigryw i greu arweinwyr ac arbenigwyr, a gellid gwella ei gynlluniau i gynyddu nifer ei Filwyr Wrth Gefn 50% er mwyn gwneud gwell defnydd o sgiliau arbenigol. Mae angen hyfforddiant rhagorol er mwyn i'r RAF barhau i fod yn effeithiol, ond mae'r trefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant jetiau cyflym yn annigonol, sy'n golygu bod peilotiaid y DU yn cael eu hanfon dramor i gael hyfforddiant ar hyn o bryd.

**Blwch 14: Integreiddio aml-barth ar waith: Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig (IAMD)**

Dim ond fel rhan o ymdrech NATO y gellir sicrhau Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig galluog ac effeithiol ar gyfer y DU. Fel prif Drefn Reoli'r DU ar gyfer IAMD, mae'r RAF yn gyfrifol am ddarparu'r gorchymyn a rheoli amserol, cydnerth ac integredig (C2) sy'n hanfodol i lwyddiant. Mae'r adnoddau i sicrhau C2 effeithiol yn cynnwys: GUARDIAN, y system Rheoli Brwydrau Awyr sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn rhwydwaith C2 IAMD NATO; a NEXUS, datrysiad gwneud penderfyniadau C2 yn y cwmwl sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial.

Mae llu awyr brwydro'r RAF yn darparu craidd galluogrwydd 'effaith' IAMD y DU, gyda Typhoon ac F-35 yn darparu amddiffyniad awyr i'r DU a NATO yn erbyn ymosodiad awyr a thaflegrau. Mae'r llwyfannau hyn hefyd yn rhan allweddol o allu gwrthymosod manwl ac awyr IAMD sy'n sail i ataliaeth gonfensiynol, gan ddangos grym o bell o'r DU i ddirymu bygythiadau cyn iddynt gael eu lansio.

Mae'r gydran awyr hefyd yn cyfrannu at IAMD y DU drwy awyrennau Protector a P8-A Poseidon sydd, ochr yn ochr â dinistriwr Math 45 y Llynges Frenhinol, yn darparu gwyliadwriaeth forwrol bron yn barhaus a'r gallu i ymosod o'r môr.

5. Mae natur newidiol y bygythiad i ddiogelwch y DU a'i chynghreiriaid (Pennod 2) yn golygu bod yn **rhaid i drefniadau cymorth logistaidd yr RAF fod yn fwy gwydn yn erbyn aflonyddwch ac ymosodiad milwrol**, gan fynnu dull gwahanol o ymladd o ganolfannau awyr, a chyflenwadau dyfnach, mwy gwasgaredig o arfau, darnau sbâr a thanwydd. Mae'r RAF eisoes yn mireinio ei ddull gweithredu drwy 'Ddefnyddio Ymladd Hyblyg': y gallu i wasgaru a defnyddio awyrennau o nifer o leoliadau ar draws ardal weithredu NATO. Rhaid cyflymu hyn, gan gynnwys drwy gynllunio ar gyfer defnyddio meysydd awyr masnachol y DU mewn cyfnodau o argyfwng (Pennod 6). Dylid rhoi sylw penodol i gynlluniau wrth gefn ar gyfer RAF Brize Norton, y prif safle yn y DU ar gyfer llawer o'r hyn y mae'r RAF yn ei gyflawni'n fyd-eang. Byddai ychwanegu at fflyd awyrennau Voyager, C-17 ac A400M yr RAF gydag opsiynau siarter sifil ar gyfer cludo pobl a chargo, ac ar gyfer ail-lenwi tanwydd yn yr awyr mewn amgylcheddau lle nad oes gwrthwynebiad, yn cynnig mwy o hyblygrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian.

## Galluoedd

6. **Mae dyfodol yr RAF yn ymwneud â chyflymu'r broses o fabwysiadu'r dechnoleg a'r arloesedd diweddaraf**, gan arwain y ffordd ar gyfer rhyfela fel prif lu awyr Ewrop. Ar hyn o bryd y Typhoon—sy'n mynd drwy gyfres uwchraddio gynhwysfawr[86]—a dau sgwadron o bumed genhedlaeth awyren F-35B sy'n rheoli'r awyr. Bydd y Typhoon, a'r F-35 yn ddiweddarach, yn cael eu disodli gan jet chweched genhedlaeth fel rhan o'r System Brwydro Awyr y Dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o awyrennau gyda chriw, heb griw ac awtonomaidd, effeithiau, a chysylltedd rhwydwaith aml-barth.

7. **Mae ychwanegu llwyfannau cydweithredol awtonomaidd at systemau gyda chriw** yn darparu mas a gallu ar draws amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys amddiffyn awyr, ymosodiadau, ac ymosodiadau electromagnetig. Bydd llwyfan brwydro awyr gyda chriw yn parhau i fod wrth galon dull system-o-systemau, yn enwedig mewn amddiffyniad awyr i wrthsefyll awyrennau gwrthwynebwyr cyfatebol, nes bydd Deallusrwydd Artiffisial ac awtonomi yn cyrraedd y lefelau angenrheidiol o allu ac ymddiriedaeth.

8. **Byddai mwy o awyrennau rheoli a rhybuddio'n gynnar yn yr awyr a radar ar y tir yn galluogi'r DU i gadw gwyliadwriaeth ddydd a nos yn yr awyr** i gefnogi gweithrediadau ymosodol ac amddiffynnol y DU a NATO. Mae'r awyrennau hyn yn darparu manteision sylweddol wrth ryfela, megis opsiynau ymosod manwl mwy parhaus. Efallai y bydd cyfleoedd i rannu costau â Chynghreiriaid NATO i gaffael mwy o awyrennau rheoli a rhybuddio'n gynnar E-7 Wedgetail.

9. **Bydd yr angen am wyliadwriaeth barhaus ac ymosod mewn amgylcheddau bygythiad awyr llai dadleuol yn parhau**, yn enwedig i gefnogi gweithrediadau gwrthderfysgaeth. Mae'r awyren ddi-griw Reaper, a'i olynydd Protector, wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan gynnwys o ran darparu gwyliadwriaeth, rhagchwiliadau ac ymosodiadau yn y gweithrediadau diweddar yn y Dwyrain Canol. Dylid gwella Protector gyda chyfarpar gwyliadwriaeth forol a chysylltedd fel bod modd ei defnyddio'n ehangach.

86 Mae'r gwaith uwchraddio hwn yn cynnwys radar, cymhorthion amddiffynnol, afioneg, ac arfau i wella effeithiolrwydd brwydro a sicrhau mantais weithredol yn erbyn bygythiad sy'n esblygu.

**Argymhellion:**

46. Mae'n rhaid i'r RAF aros ar flaen y gad o ran esblygiad brwydro awyr, drwy'r newid o lwyfannau brwydro awyr â chriw yn unig i System Brwydro Awyr y Dyfodol gyda chymysgedd o lwyfannau gyda chriw, heb griw, a mwyfwy awtonomaidd, wedi'u hintegreiddio i we targedu digidol y DU:
    - Er mwyn sicrhau dyfodol brwydro awyr y DU, dylid ystyried buddsoddi mewn llwyfannau cydweithredol awtonomaidd (ACPs) ochr yn ochr â buddsoddi mewn FACS a'r Rhaglen Brwydro Awyr Byd-eang. Mae'n rhaid i'r platfformau cydweithredol awtonomaidd gael eu dylunio i weithredu ar y cyd â'r bedwaredd genhedlaeth, y bumed genhedlaeth, a chenedlaethau'r dyfodol o awyrennau ymladd ac i weithredu o gludwyr awyrennau'r DU.
    - Bydd angen mwy o awyrennau F-35 dros y degawd nesaf. Gallai hyn gynnwys cymysgedd o fodelau F-35A a B yn unol â gofynion milwrol i ddarparu mwy o werth am arian.
47. Rhaid i'r RAF wella ei ystwythder a'i allu i addasu ymhellach er mwyn meithrin mwy o barodrwydd i ryfela drwy wneud y canlynol:
    - Cynnal awyrennau rheoli a rhybuddio'n gynnar yn yr awyr E-7 Wedgetail. Dylid caffael rhagor o awyrennau E-7 pan fydd cyllid yn caniatáu hynny (gan ystyried seilwaith a chostau gweithredu). Gellir cyflymu hyn drwy drefniant rhannu costau gyda Chynghreiriaid NATO.
    - Archwilio darparu gallu gwyliadwriaeth forol ar Protector, wedi'i integreiddio ag awyrennau rheoli morol a rhagchwilio P-8 Poseidon a ffrigadau Math 26.
    - Dechrau buddsoddi mewn gwella sylfeini galluoedd Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig y DU i gryfhau'r gallu i amddiffyn gartref.
    - Ychwanegu at y fflyd bresennol o awyrennau A400M gyda naill ai mwy o awyrennau A400M, siarter sifil, a/neu opsiynau gwasanaeth noddedig, gan leihau'r galw arferol ar drafnidiaeth awyr yr RAF lle nad oes angen gallu milwrol.
48. Rhaid i'r RAF ysgogi mwy o gynhyrchiant i wella ei wydnwch:
    - Dylai RAF Brize Norton fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer buddsoddiadau a gwelliannau mewn partneriaeth â chyllid preifat, fel rhan o bartneriaeth newydd â diwydiant (Penodau 4.2 a 7.11). Gan nad yw'n fforddiadwy sefydlu rhywle milwrol arall yn lle Brize Norton pe na bai ar gael ar gyfer gweithrediadau, rhaid cynllunio cyfleusterau masnachol eraill ac, os oes angen, deddfu ar eu cyfer o dan y Bil Parodrwydd i Amddiffyn newydd (Pennod 6).
    - Dylid sicrhau hyfforddwr jetiau cyflym cost-effeithiol yn lle Hawk T1[87] a Hawk T2. Rhaid adolygu'r trefniadau hyfforddiant hedfan presennol ar gyfer jetiau cyflym ar frys er mwyn sicrhau'r capasiti gorau posibl, gan gynnwys y defnydd mwyaf posibl o gontractwyr a darpariaeth ar gyfer hyfforddi myfyrwyr tramor.
    - Mae angen adolygu safonau storio a safonau eraill i gael gwared ar reoliadau sy'n gosod cyfyngiadau diangen ar hyfforddiant ac yn ychwanegu costau sylweddol diangen yng nghylch bywyd arfau drud iawn. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Mehefin 2026.


87 Yr awyren a ddefnyddir gan dîm arddangosfa awyr y Red Arrows.

# 7.5 Y Parth Gofod

1. **Mae'r gofod yn sector seilwaith cenedlaethol hanfodol, yn safle lle mae mwy a mwy o gystadleuaeth, ac yn barth sy'n ganolog i ryfela.** Mae mynediad sicr i weithredu yn y gofod, oddi yno a thrwyddo yn sail i ddiogelwch, ffyniant, a bywyd bob dydd y DU. Mae bron i 20% o GDP cenedlaethol yn dibynnu ar wasanaethau lloeren, a byddai tarfu ar GPS yn costio tua £1bn y dydd i economi'r DU.[88] Yn yr un modd, mae galluoedd yn y gofod—fel cyfnewid data a chyfathrebu lloeren, cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a rhagchwiliadau (ISR) sy'n defnyddio lloeren, Lleoliad, Llywio ac Amseru, a rhybuddion taflegrau ac olrhain—yn newid y ffordd mae rhyfeloedd yn cael eu hymladd mor gyflym ac mor sylfaenol ag y maent yn newid yr economi.

2. Mae defnyddio'r gofod yn effeithiol yn hanfodol i allu'r Llu Integredig i ddeall, cyfathrebu, symud ac ymladd. Ond **mae'r parth yn dod yn fwyfwy gorlawn a dadleuol.** Yn fwyaf nodedig, tyfodd fflydoedd lloerennau gweithredol cyfun Tsieina a Rwsia 70% yn 2019–21. Mae'r ddwy wlad wedi ceisio defnyddio'r gofod fel arf, gan ddangos y gallu a'r ewyllys i ddefnyddio arfau gwrth-loeren soffistigedig ym mhob trefn orbitol. Mae arfau manwl byd-eang gelynion, sy'n cael eu harwain gan systemau llywio yn y gofod, eisoes yn rhoi galluoedd strategol y DU mewn perygl. Prin yw'r rheolau a'r normau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol i lywodraethu gweithgareddau yn y gofod, ac mae hynny'n ei gwneud yn anoddach cynllunio a gweithredu gyda sicrwydd. Mae gweithredwyr masnachol yn dod yn fwyfwy gweithredol a dylanwadol yn y maes, gan leihau'r rhwystrau rhag mynediad i weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol fel ei gilydd, a chymhlethu trefniadau llywodraethu posibl ymhellach.

3. Rhaid i Amddiffyn wella ei allu i atal bygythiadau i'w fuddiannau yn y gofod ac, os oes angen, eu diogelu. Yn ogystal â chaffael galluoedd sofran dethol, byddai cymhwyso'r argymhellion a amlinellir ym Mhenodau 4.2 a 5 yn darparu **dull mwy uchelgeisiol o sicrhau mynediad i'r gofod, ar sail sofran a chyda NATO a chynghreiriaid allweddol eraill**—gan ehangu rôl Amddiffyn fel sbardun ar gyfer twf economaidd a chryfhau cyd-ddiogelwch wrth gyflawni ar gyfer yr ymladdwr rhyfel.



88 Yn ôl Adolygiad Blackett 2018.

## Darparu a sicrhau galluoedd yn y gofod ar gyfer Amddiffyn

4. Gyda galluoedd gwrthofod yn cynyddu'n gyflym, **mae'n rhaid i Amddiffyn ddatblygu gwydnwch ei systemau gofod milwrol ar frys**. Bydd creu gwagle yn opsiynau'r DU ar gyfer cael mynediad at y gofod yn allweddol, a chaiff ei gyflawni fwyfwy drwy systemau masnachol. Dylid canolbwyntio buddsoddiad ar dri maes na fydd y Llu Integredig yn gallu gweithredu'n effeithiol hebddynt:

   - **Rheoli'r gofod**. Er mwyn cefnogi rhyddid y DU i weithredu yn y gofod, dylid canolbwyntio buddsoddiad ar Ymwybyddiaeth o Barthau Gofod (fel synwyryddion ar y Ddaear), gorchymyn a rheoli ar lefelau dosbarthu uwch na Chyfrinachol (a ddatblygir mewn cydweithrediad â Chymuned Cudd-wybodaeth y DU a chynghreiriaid fel Unol Daleithiau America), a systemau gwrthofod (cyd-orbitol ac ar y Ddaear).
   - **Mantais gwneud penderfyniadau.** Mae cyfathrebu lloeren a chyfnewid data yn hanfodol i allu'r Lluoedd Arfog i ddeall maes y frwydr, i gyfnewid gwybodaeth, ac i wneud penderfyniadau mewn amser real a'u cyfathrebu. Rhaid i raglenni cyfathrebu lloeren SKYNET 6A a 6EC gynnal perthnasedd gweithredol neu gael eu disodli gan ddewisiadau eraill.
   - **Cefnogi 'Deall' ac 'Ymosod'**. Mae amrywiaeth o systemau yn y gofod—gan gynnwys ISR a PNT—yn cefnogi targedu cyflym, cywir ac effeithiol. Dylai Amddiffyn weithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg i sicrhau bod gofynion Amddiffyn yn cael eu hadlewyrchu mewn ymdrechion trawslywodraethol i gyflawni systemau PNT gwydn yn y gofod.

5. Dylai hyn gael ei **ategu gan gamau gweithredu gyda Chynghreiriaid yn NATO** i sicrhau bod gan y Gynghrair bolisi, athrawiaeth a chynlluniau gofod effeithiol.[89] Dylai hefyd chwilio am bartneriaid i ddatblygu'r gallu ISR uwchben, parhaus sydd ei angen ar gyfer Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig effeithiol yn yr Ewro-Iwerydd.

6. **Fel sector defnydd deuol sy'n tyfu yn y DU, mae'r gofod yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer allforion i Amddiffyn yn ogystal ag ar gyfer partneriaethau gyda galluoedd rhyngwladol**. Rhagwelir y bydd yr economi ofod fyd-eang yn cyrraedd $1.8tn erbyn 2035, wedi'i sbarduno'n bennaf gan alw masnachol. Mae gan Amddiffyn rôl bwysig i'w chwarae o ran dylanwadu ar farchnad ofod y DU a chefnogi allforion i Ewrop, Asia a'r Dwyrain Canol. Byddai hyn yn helpu i wneud y DU yn fwy amlwg o fewn NATO ochr yn ochr â'r Unol Daleithiau a Ffrainc; meithrin cysylltiadau â chynghreiriaid a phartneriaid; datblygu diwydiant hanfodol ar gyfer Amddiffyn; a chefnogi swyddi, sgiliau a thwf economaidd yn y DU.

---

89 Adeiladu ar aelodaeth bresennol y DU o grwpiau dwyochrog fel y fenter Gweithrediadau Gofod Cyfun (fforwm amlochrog ar gyfer gwella cydweithrediad yn y gofod a meithrin galluoedd cyffredin, rhyngweithredol a gwydn yn y gofod) a'r cynghrair gofod dan arweiniad UDA o dan Ymgyrch Olympic Defender (cynghrair rhyngwladol a ffurfiwyd i gyfuno pŵer gofod milwrol yn fyd-eang, galluogi Lluoedd ar y Cyd a Chyfun, atal ymddygiad ymosodol, ac os oes angen, trechu gelynion er mwyn dal gafael ar fantais filwrol).

7. **Dylai'r gofod fod yn bortffolio technoleg â blaenoriaeth ar gyfer y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol newydd**, gan greu cysylltiadau agosach ar draws y parth gofod milwrol, sifil a diwydiannol, yn ogystal â chysylltu ffynonellau allanol o arbenigedd ac arloesedd â phrosesau caffael ac allforio Amddiffyn (Pennod 4.2).

## Blaenoriaethu ar draws y llywodraeth ar gyfer parth sifil-milwrol

8. Mae menter gofod y DU yn gymhleth, ac mae'n ymestyn ar draws y Llywodraeth, darparwyr masnachol, a sefydliadau ymchwil ac academaidd. O fewn y Llywodraeth, mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu ymhellach rhwng adrannau a nifer o asiantaethau: er mai'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg yw'r arweinydd polisi trawslywodraethol, Trefn Reoli Gofod y DU yw arweinydd y parth ym maes Amddiffyn, ac mae'n gyfrifol—fel trefn reoli ar y cyd—am ddiogelu ac amddiffyn buddiannau'r DU a chynghreiriaid yn y gofod, a darparu galluoedd yn y gofod i gefnogi'r Llu Integredig.

9. **Dylai'r is-bwyllgor Cabinet ar ei newydd wedd[90]—neu grŵp gweinidogol cyfatebol—bennu dull strategol y DU o ymdrin â'r gofod** i fanteisio i'r eithaf ar y synergeddau polisi, gweithredu a galluogrwydd rhwng sector gofod sifil y DU ac anghenion milwrol. Byddai darparu cyfeiriad strategol ar gyfer sector gofod y DU, ac ar gyfer rôl y Llywodraeth ynddo, hefyd yn gwella hyder y sector preifat i fuddsoddi.

**Argymhellion:**

49. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fuddsoddi yng ngwydnwch systemau gofod milwrol y DU gan ganolbwyntio ar reoli'r gofod, mantais gwneud penderfyniadau, a galluoedd sy'n cefnogi'r swyddogaethau 'Deall' ac 'Ymosod'. Dylai'r adran adolygu rhaglenni cyfathrebu lloeren SKYNET 6A a SKYNET 6EC o bryd i'w gilydd i sicrhau y bydd y gallu hwn yn wydn ac yn weithredol berthnasol wrth ymuno â'r gwasanaeth.

50. I gefnogi Amddiffyniad Awyr a Thaflegrau Integredig yn yr Ewro-Iwerydd, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn chwilio am bartneriaid i ddatblygu galluoedd uwchben, deallusrwydd parhaus, gwyliadwriaeth a rhagchwilio'r genhedlaeth nesaf. Dylai hyn ddarparu'r gallu i synhwyro, rhybuddio ac olrhain bygythiadau yn yr Ewro-Iwerydd.

90 Cafodd y Cyngor Gofod Cenedlaethol ei ailsefydlu gan y Llywodraeth flaenorol yn 2023 ond ni chafodd ei ailgyfansoddi ar ôl Etholiad Cyffredinol 2024.

# 7.6 Y Parth Seiber ac Electromagnetig

1. **Mae'r parth seiber ac electromagnetig (SeiberEM) wrth galon rhyfela modern, y parth galluogi sy'n integreiddio pob un arall.** Dyma'r unig barth sy'n cael ei herio gan elynion bob dydd: mae'r DU yn wynebu gelynion yn y seiberofod yn barhaol, ac yn amddiffyn seilwaith cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i'r Llywodraeth ac i'r cyhoedd, ac yn diogelu cadwyni cyflenwi logisteg. Fel yn Wcráin, mae'n debygol y bydd ergydion cyntaf unrhyw wrthdaro yn digwydd ar y maes brwydr anweledig hwn.

2. **Mae gallu'r Lluoedd Arfog i ymladd yn dibynnu'n fawr ar fynediad at y sbectrwm electromagnetig a'r gallu i wrthsefyll colli gwasanaeth digidol**, gan gynnwys o ganlyniad i ymosodiad seiber. Mae sicrhau cywirdeb a chapasiti i achosi angau ym mhob parth, ar raddfa a chyrhaeddiad, yn dibynnu ar ennill y gystadleuaeth SeiberEM (Blwch 15). Y parth yw sylfaen y we targedu digidol newydd a fydd yn galluogi dewis a chyflymder o ran penderfynu sut i ddiraddio neu ddinistrio targed a bennwyd (Pennod 4.1). Mae gweithredu yn y maes hwn yn hanfodol i lwyddiant y genhadaeth ar gyfer grym y mae ei allu i ymladd yn cael ei ddarparu gan lwyfannau gyda chriw, heb griw ac awtonomaidd sy'n gweithio fel un.



**Blwch 15: Gweithrediadau yn y parth seiber ac electromagnetig**

Mae ‘SeiberEM’ yn cynnwys:

- Gweithrediadau seiberofod, ymosodol ac amddiffynnol.[91] Mae hyn yn cynnwys gweithrediadau technegol yn erbyn y rhwydweithiau TG neu’r dechnoleg a ddefnyddir gan elynion, gan geisio gwneud iddynt weithredu’n llai effeithiol neu fethu â gweithredu o gwbl. Sefydlwyd y Llu Seiber Cenedlaethol yn 2020 i gyflawni gweithrediadau seiber ymosodol i gefnogi blaenoriaethau Amddiffyn a blaenoriaethau diogelwch gwladol eraill, fel mynd i’r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae rôl Amddiffyn Digidol o ran cryfhau swyddogaethau hanfodol Amddiffyn yn erbyn ymosodiadau seiber yn hollbwysig (Pennod 4.1). Mae addysgu personél yr un mor bwysig â thechnoleg.
- Rhyfela electromagnetig,[92] sy’n gweithredu ar draws amgylchedd electromagnetig sy’n dod yn fwyfwy gorlawn. Mae’r gweithgareddau’n cynnwys diraddio gorchymyn a rheoli, jamio signalau i ddronau neu daflegrau, atal gallu gelyn i gyfathrebu neu dargedu, a rhyng-gipio cyfathrebiadau gelynion (deallusrwydd signalau, SIGINT)—a’r gwrthfesurau sy’n diogelu lluoedd y DU a’r cynghreiriaid yn erbyn gweithgareddau o’r fath.

3. Mae Amddiffyn a Chymuned Cudd-wybodaeth y DU wedi buddsoddi’n sylweddol yn y parth SeiberEM dros y degawdau diwethaf. Mae elfennau o ragoriaeth ym maes Amddiffyn ond mae perygl iddynt fod yn llai na swm eu rhannau. Mae Amddiffyn hefyd yn wynebu heriau hollbwysig o ran recriwtio, ac fe ddylid rhoi sylw iddynt yn rhannol drwy ddatblygu’r grŵp Ymladdwyr Rhyfel Digidol (Pennod 4.1) a harneisio sgiliau’r sector preifat (Pennod 4.3). **Heb newid, bydd y parth SeiberEM yn parhau i fod yn ffactor sy’n cyfyngu ar gyflawni Llu Integredig sy’n defnyddio technoleg** ac sy’n gallu meddwl yn well a bod yn gyfrwysach na’i elynion.

## Agwedd fwy rhagweithiol

4. Er mwyn diogelu ei allu i gyfathrebu a gweithredu yn wyneb bygythiad parhaus a deinamig iawn, **mae’n rhaid i’r Llu Integredig allu cyfuno gweithgarwch SeiberEM gwahanol nifer fach o sefydliadau arbenigol[93] a pharhau i achub y blaen** wrth fynd ar drywydd amcanion yr ymgyrch, gan gynnwys fel rhan o weithrediadau NATO. Mae hyn yn gofyn am bwynt awdurdod unigol—Trefn Reoli SeiberEM newydd fel rhan o Drefn Reoli Strategol (Blwch 16)—gyda chyfrifoldeb dros integreiddio galluoedd ar ran Pennaeth y Staff Amddiffyn a’r Pencadlys Strategol Milwrol.

91 Camau gweithredu yn y seiberofod neu drwyddo sy’n cyfleu grym, gan greu effeithiau sy’n cyflawni amcanion milwrol (ymosodol) neu sydd â’r bwriad o sicrhau rhyddid i weithredu yn gyfeillgar yn y seiberofod (amddiffynnol).

92 Mae’r sbectrwm electromagnetig (EMS) yn defnyddio ynni sy’n teithio mewn tonnau ac yn rhychwantu sbectrwm eang. Mae pob un ohonom yn dibynnu ar yr ynni hwn i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol bob awr o bob dydd. Pan fyddwn ni’n gwrando ar y radio, yn gwylio’r teledu, yn anfon neges destun neu’n coginio bwyd mewn microdon, rydym yn defnyddio ynni EM. Mae rhyfela electromagnetig (EW) yn defnyddio ynni cyfeiriedig i atal mynediad i’r EMS, gan rwystro signalau rhwng technolegau a’u gwneud yn anweithredol.

93 Er enghraifft: Grŵp Effeithiau Seiber ac Electromagnetig y Fyddin; y Ganolfan Rhyfela Awyr a Gofod; Grŵp Rhyfela Gwybodaeth y Llynges Frenhinol; a’r Drefn Reoli Gofod.

5. Fel arweinydd y parth, dylai'r Drefn Reoli SeiberEM reoli gweithrediadau seiber amddiffynnol, pennu galw Amddiffyn am weithredoedd seiber ymosodol, a chydlynu cyfraniadau Amddiffyn at weithgarwch yn y parth, gan ddal gafael ar arbenigedd Gwasanaeth unigol a'r gallu i weithredu. O dan yr awdurdodau cryfach hyn, **mae egwyddorion pwysig o ran sut y dylai'r drefn reoli newydd hon weithio**. Dylai wneud y canlynol:

   - Darparu mecanwaith llywodraethu cadarn lle mae gweithgarwch y Llu Seiber Cenedlaethol yn cael ei flaenoriaethu a'i bennu gan Amddiffyn. Bydd gan y Drefn Reoli SeiberEM yr awdurdod i bennu blaenoriaethau gweithredol ar draws y fenter ar gyfer gweithgareddau yn y parth ar ran Pennaeth y Staff Amddiffyn a bydd yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llu Seiber Cenedlaethol. Ni ddylai hyn effeithio ar awdurdodau'r Llu Seiber Cenedlaethol na'r ffordd mae'n cynnal gweithrediadau. Pan fydd yn rhaid alinio effeithiau seiber fel rhan o weithrediadau milwrol, bydd yr integreiddio hwn yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Cyd-Gadlywydd perthnasol, gyda chefnogaeth y Drefn Reoli SeiberEM.
   - Gweithredu fel arweinydd llywodraethu seiberddiogelwch ar gyfer y Lluoedd Arfog, o fewn y trefniadau llywodraethu seiberddiogelwch ehangach ar gyfer Amddiffyn a ddarperir gan y Prif Swyddog Gwybodaeth.
   - Gweithredu fel prif eiriolwr dros Amddiffyn ar weithrediadau seiber ymosodol ac amddiffynnol, gan gysylltu ar draws y Llywodraeth a gyda chynghreiriaid a phartneriaid ynghylch y rhain.
   - Sicrhau nad yw cyfarwyddyd mwy canolog ar flaenoriaethu a safonau gweithrediadau seiber, rhyfela electromagnetig a gwybodaeth yn amharu ar waith y Gwasanaethau unigol a Chyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig o ran cyflawni integreiddio aml-barth mewn amser real ac ar dempo uchel. Dylid gadael y gwaith cyflawni i'r lefel isaf briodol (a allai fod y canol ar adegau).

**Blwch 16: Y Drefn Reoli SeiberEM i gydlynu ond i beidio â gweithredu**

**Dylid arwain y parth SeiberEM mewn ffordd debyg i Drefn Reoli Gofod y DU**, gan ganoli'r awdurdodau a'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau i osgoi dyblygu ac i leihau aneffeithlonrwydd. Dylai'r Drefn Reoli SeiberEM weithredu fel 'hyb', gan integreiddio'r ystod lawn o weithrediadau milwrol a sicrhau cydlyniaeth o ran y ffordd mae Amddiffyn yn deall, yn datblygu ac yn cael mynediad at alluoedd gyda chynghreiriaid a diwydiant.

Dylai'r Drefn Reoli SeiberEM wneud y canlynol:

- Darparu dealltwriaeth ynghylch cysyniadau a datblygiad lluoedd i'r Pencadlys Strategol Milwrol er mwyn ei gefnogi wrth gydlynu gwaith datblygu'r lluoedd ar draws y Llu Integredig.
- Darparu cyngor a goruchwyliaeth weithredol, gan gynnwys wrth argymell blaenoriaethau ar gyfer gofynion y dyfodol i'r Pencadlys Strategol Milwrol wrth ymateb i'r cyfarwyddyd sy'n cael ei osod o'r canol.
- Gwella cydlyniaeth Amddiffyn o weithgarwch SeiberEM gwahanol yn ogystal â galluoedd cyn, ac yn ystod, gweithrediadau milwrol confensiynol.
- Pennu galw Amddiffyn am weithrediadau seiber ymosodol a gynhelir gan y Llu Seiber Cenedlaethol, gan weithredu fel cwsmer Amddiffyn unigol.
- Gweithrediadau seiber amddiffynnol uniongyrchol, gan gynnwys pennu blaenoriaethau, cyfeirio tasgau at asiantaethau cymorth, a dyrannu adnoddau i ddatgloi prosesau gwneud penderfyniadau gweithredol cyflym.
- Gorchmynion milwrol uniongyrchol i gydymffurfio â safonau Amddiffyn ar gyfer seibergadernid a bennir gan y Prif Swyddog Gwybodaeth ac Amddiffyn Digidol.
- Bod yn brif bwynt cyswllt milwrol yn y parth SeiberEM ar gyfer diwydiant, y Llywodraeth ehangach, a NATO.
- Cyfarwyddo cynnwys addysg, hyfforddiant ac athrawiaeth SeiberEM ar gyfer y lluoedd arfog.
- Arwain y strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu galluoedd rhyfela electromagnetig, gosod safonau caledwedd a meddalwedd yn unol â NATO, a darparu gofynion cydlynol wedi'u blaenoriaethu i Wasanaethau Cudd-wybodaeth Milwrol (Pennod 7.9), Cymuned Cudd-wybodaeth ehangach y DU, a phartneriaid rhyngwladol. I gefnogi hyn:
    - Dylid sefydlu Swyddfa Cydlynu'r Sbectrwm er mwyn cydlynu gweithrediadau sbectrwm electromagnetig ar y cyd, gan gefnogi'r gwaith o reoli meysydd brwydr mewn senario rhyfela i gyd-fynd â dull gweithredu NATO. Gallai'r strwythur hwn ddod o fewn y Drefn Rheoli SeiberEM, gan roi cyngor i'r Pencadlys ar y Cyd Parhaol a'r Pennaeth Gweithrediadau ar y Cyd.
    - Dylid grymuso gwasanaethau unigol i ddatblygu eu galluoedd rhyfela electromagnetig eu hunain yn unol â'r safonau a osodir gan y Drefn Reoli SeiberEM.

6. Fel arweinydd y parth, byddai'r drefn reoli newydd hefyd yn gweithredu fel **un pwynt cyswllt milwrol ar gyfer y rheini sy'n ceisio ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog ynghylch SeiberEM**. Mae hyn yn cynnwys:

   - **Timau polisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn** a'r rhai sy'n gyfrifol am uwchsgilio'r llu cyfan mewn esblygu ffyrdd o ryfela.
   - **Adrannau eraill y Llywodraeth**—yn enwedig yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg fel arweinydd polisi sbectrwm EM—i wella trefniadau rhannu sbectrwm, creu un dull o reoli maes y frwydr mewn senario rhyfela, a datblygu cyd-ddealltwriaeth o sut i reoli difrod ystlysol posibl a achosir gan weithrediadau sbectrwm EM.[94]
   - **Cymheiriaid rhyngwladol**, fel lluoedd arfog yr Unol Daleithiau a phartneriaid eraill Five Eyes.
   - **NATO**, gan ysgogi rhagoriaeth a ganfuwyd ar draws y Lluoedd Arfog yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi'r Gynghrair wrth iddi ddatblygu ei galluoedd SeiberEM, gan alluogi cydweithio a chyd-ddealltwriaeth.

7. Mae gweithrediadau gwybodaeth (IO)[95] yn perthyn yn agos i'r parth SeiberEM fel rhan o'r amgylchedd gwybodaeth ehangach, sy'n cael ei gynnal yn y seiberofod yn ogystal â'r byd ffisegol, gan ddefnyddio galluoedd ym mhob parth. Er nad yw IO yn swyddogaeth unigryw yn y parth SeiberEM, mae'n dod yn fwyfwy pwysig eu hystyried gyda'i gilydd. Mae offer seiber, rhyfela electromagnetig, ac IO oll yn hanfodol ar gyfer targedu, er enghraifft. Dylai'r drefn reoli SeiberEM newydd ei gwneud yn haws cydgysylltu a chydlynu'r gweithgareddau hyn.

**Argymhelliad:**

51. Erbyn diwedd 2025, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu gallu gweithredu cychwynnol ar gyfer Trefn Reoli SeiberEM newydd o fewn y Drefn Reoli Strategol. Dylai'r drefn reoli newydd hon efelychu glasbrint y Drefn Reoli Gofod ar gyfer cydlyniant y parth: cydlynu, ond heb weithredu, camau milwrol ar draws seiberofod a'r sbectrwm electromagnetig, gyda chyfrifoldeb dros weithredu'r gweithrediadau seiber ymosodol sydd ar ôl gyda'r Llu Seiber Cenedlaethol. Dylai'r Drefn Reoli SeiberEM gael ei harwain gan swyddog sydd ag arbenigedd yn y parth ac sydd mewn swydd lle gall ddarparu arweinyddiaeth swyddogaethol o fewn system y DU. Rhaid iddo fod yn ymdrech 'llu cyfan', gyda'i strwythur yn cael ei lenwi i raddau helaeth gan gymysgedd o sifiliaid a Milwyr Wrth Gefn, o ystyried bod mwy o arbenigedd yn bodoli yn y sector sifilaidd. Dylid cynllunio'r gweithlu a'i ddatblygu fel rhan o'r grŵp Ymladdwyr Rhyfel Digidol (Pennod 4.1).

94 Mae gweithrediadau sbectrwm electromagnetig yn siapio neu'n manteisio ar yr amgylchedd electromagnetig neu'n ei ddefnyddio ar gyfer ymosod neu amddiffyn, gan gynnwys i gefnogi gweithrediadau ym mhob amgylchedd gweithredol arall. Mae'r gweithrediadau'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: deallusrwydd signalau; cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth, caffael targedau, a rhagchwilio; rhyfela mordwyo; a rheoli sbectrwm maes brwydr.

95 Mae gweithrediadau gwybodaeth yn ganolog i siapio ymddygiad a chael gwybodaeth a mantais gwneud penderfyniadau, gan weithredu ar y lefelau strategol, gweithredol a thactegol, yn y byd ffisegol ac yn y seiberofod. Mae Amddiffyn yn chwarae rôl gefnogol gref mewn ymgyrchoedd cyfathrebu strategol cenedlaethol.

# 7.7 Y Drefn Reoli Strategol

1. I gefnogi'r Llu Integredig, **bydd y Drefn Reoli Strategol yn gyfrifol am gyflawni'r galluoedd arbenigol a'r cyd-alluogwyr canlynol, yn unol â chyfarwyddyd y Pencadlys Strategol Milwrol**: Cudd-wybodaeth Amddiffyn a chudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth, a rhagchwilio; gorchymyn a rheoli ar y cyd ar gyfer targedu; y Rhwydwaith Amddiffyn Byd-eang Integredig; y Drefn Reoli SeiberEM newydd; Lluoedd Arbennig a Lluoedd Gweithrediadau Arbennig; Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn; a'r Academi Amddiffyn.[96] Ar gyfer y galluoedd hyn, bydd y Drefn Reoli Strategol yn gosod, ac yn gorfodi, safonau cyffredin a hyfforddiant o fewn ei harbenigedd yn y parth ar draws y llu cyfan ac o dan un weledigaeth.

2. Mewn newid o'r arfer blaenorol, wrth Ddiwygio Amddiffyn, **y Pencadlys Strategol Milwrol nawr fydd yr 'ymennydd' ar gyfer y Llu Integredig**, gan feddu ar, a chyfarwyddo, swyddogaethau strategol fel datblygu cysyniadau a galluoedd, dylunio lluoedd, gemau rhyfel, a phrosesau a phenderfyniadau Cydbwyso Buddsoddiadau integredig, er mwyn darparu dewisiadau ac opsiynau gwell i Weinidogion yn ogystal ag ymgyrchoedd milwrol mwy effeithiol yn y dyfodol. Bydd rhai elfennau o gysyniadau galluoedd ar y cyd a datblygu dulliau rhyfela, fel athrawiaeth a hyfforddiant, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Drefn Reoli Strategol.

3. Er y bydd y Drefn Reoli Strategol yn cadw ei thîm arloesi, y jHub, bydd gwaith yr uned hon yn cael ei gydlynu gan sefydliad Arloesedd Amddiffyn newydd y DU (Pennod 4.2) mewn ymateb i set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer y swyddogaeth arloesi.

## Pencadlys ar y Cyd Parhaol

4. Mae'r Pencadlys ar y Cyd Parhaol yn rhan o'r Drefn Reoli Strategol. Mae wedi'i leoli yn Northwood, ac mae'n rheoli ymgyrchoedd milwrol y DU ledled y byd. Mae hyn yn cynnwys gweithrediadau cenedlaethol a gweithrediadau milwrol rhyngwladol ac ar y cyd. Wrth i'r Lluoedd Arfog baratoi i atal, ymladd ac ennill yn erbyn gelyn milwrol 'cyfatebol', dylai'r Pencadlys ar y Cyd Parhaol wneud y canlynol:

   - Canolbwyntio'n agosach ar amddiffyn tiriogaeth, gofod awyr a dyfroedd y DU fel pryder sy'n parhau. Dylai ei uwch gomander—y Pennaeth Gweithrediadau ar y Cyd—sefydlu safbwynt o'r gofynion gweithredol ar gyfer amddiffyn y DU i'w hystyried gan y Pencadlys Strategol Milwrol (Pennod 6).
   - Bod yn bwynt cyswllt gweithredol y DU ar gyfer Trefniadau Rheoli Lluoedd ar y Cyd a Threfniadau Rheoli Cydrannau NATO er mwyn cefnogi ataliaeth dan arweiniad NATO, gan gynnwys drwy weithrediadau rhyfela yn ôl yr angen o dan Gynlluniau Rhanbarthol NATO. Yn ystod gweithrediadau'r Gynghrair, bydd Comanderiaid NATO yn cyfarwyddo lluoedd y DU sydd wedi'u neilltuo iddynt gan Bennaeth y Staff Amddiffyn tra bydd y Pencadlys ar y Cyd Parhaol yn darparu ac yn cefnogi'r lluoedd hynny ar y cyd â'r Gwasanaethau a'r Drefn Reoli Strategol.

96 Wrth Ddiwygio Amddiffyn, bydd Cymorth Amddiffyn ac Amddiffyn Digidol yn symud i Grŵp y Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol.

- Arwain ar weithrediadau lle mae'r DU wedi ymrwymo lluoedd i gefnogi cynghreiriaid a phartneriaid mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai NATO. Dylai'r Pennaeth Gweithrediadau ar y Cyd orchymyn y lluoedd hyn ar ran Pennaeth y Staff Amddiffyn.
- Paratoi ar gyfer, a gweithredu, cynlluniau wrth gefn cenedlaethol ar gyfer argyfyngau y tu allan i'r DU, fel gweithrediadau i gefnogi'r Tiriogaethau Tramor a gwacau dinasyddion y DU o wledydd tramor mewn argyfwng. Fodd bynnag, dylai'r cyfrifoldeb am Gymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil mewn ymateb i argyfyngau yn y DU—fel digwyddiad CBRN (cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear)—aros gyda'r Comander Sefydlog ar y Cyd (y DU).

5. Gan fod y Pencadlys ar y Cyd Parhaol yn chwarae rhan hollbwysig yng ngweithrediadau milwrol y DU, mae'n rhaid iddo allu gwrthsefyll ymosodiadau ffisegol (gan gynnwys ymosodiadau awyr a thaflegrau) ac ymosodiadau seiber. Mae bwriad a galluoedd newidiol gelynion y DU yn golygu bod ei lleoliad presennol yn peri risgiau diangen i reolaeth sicr o weithrediadau milwrol y DU yn y dyfodol, gan gynnwys wrth amddiffyn y DU ei hun.

**Argymhelliad:**

52. Mae rôl hanfodol y Pencadlys ar y Cyd Parhaol o ran rheoli gweithrediadau milwrol y DU yn golygu y dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sicrhau ei bod yn fwy gwydn yn erbyn ymosodiadau ffisegol a seiber.



# 7.8 Y Lluoedd Arfog Arbennig

1. Lluoedd Arbennig y DU yw ‘blaen llafn’ y Lluoedd Arfog: maent wedi’u hintegreiddio drwy ddyluniad ac yn gallu cyrraedd targedau strategol arwyddocaol yn y mannau mwyaf heriol, gan weithredu ym mhob parth, yn agored ac yn gudd. **Rhaid i Amddiffyn ddal ati i wella’r Lluoedd Arfog Arbennig**, gan sicrhau dewis sofran y DU drwy gynnal y gallu strategol hwn ar y lefel uchaf un.

2. Wrth i fygythiadau arallgyfeirio’n gyflym, mae angen Lluoedd Arbennig sy’n gallu atal drwy ddal gafael ar y fantais gyntaf a bod yn fwy cyfrwys na gelynion cyfatebol i gefnogi amcanion cenedlaethol. Mae Lluoedd Arbennig y DU hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiogelu’r DU a’i buddiannau allweddol ar draws amrywiaeth o fygythiadau, gyda’r gallu i ddod â dinasyddion yn ôl i Brydain o wledydd tramor. Mae hyn yn cynnwys achub gwystlon a gwacáu heb ymladd yn yr amgylchiadau mwyaf heriol, yn ogystal â galluoedd milwrol arbenigol i gefnogi’r heddlu ac awdurdodau sifil. Mae’r rolau gyrru drwy rym hyn (Pennod 3) yn parhau i roi premiwm ar alluoedd o’r radd flaenaf o fewn y Lluoedd Arbennig, gyda’r gallu i warantu mantais gudd y DU. **Mae’n hanfodol bod asedau Amddiffyn yn cael eu cynnal, eu harfogi, a’u cadw’n barod i sicrhau bod y Lluoedd Arbennig bob amser yn gallu gweithredu’n bendant ac yn gyflym.**

3. **Mae Lluoedd Arbennig y DU eisoes yn cynrychioli model gweithredol y Llu Integredig**: gan arwain y ffordd o ran arloesi technolegau a systemau newydd ar draws pob parth. Rhaid iddynt barhau i integreiddio’n well â phartneriaid ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys Cymuned Cudd-wybodaeth y DU, a chyda chynghreiriaid a diwydiant, wedi’i sbarduno gan resymeg y cylch arloesi (Pennod 4).

4. Nid yw’r Gweithrediadau Arbennig Ehangach wedi’u cyfyngu i gael eu darparu gan Luoedd Arbennig sefydledig y DU. **Mae Lluoedd Gweithrediadau Arbennig y DU sy’n benodol i un gwasanaeth (sS SOF) yn darparu dewis a gwydnwch ychwanegol**. Drwy ehangu lluoedd a galluoedd cysylltiedig yn y tymor agos mae modd gwella gallu rhyfela’r DU a NATO, fel y dangosir gan gyfraniad y DU at Dasglu Gweithredoedd Arbennig NATO 2026, a’r fframwaith ar ei gyfer. Mae hyn yn caniatáu i’r DU gyfrannu’n ystyrlon ar Lefel 1 NATO gydag sS SOF (fel Marchfilwyr y Fyddin), Lefel 2 gyda galluoedd arbenigol (er enghraifft, Brigâd Ymosodiadau Awyr 16 a Llu’r Comandos), a Lefel 3 gyda chymorth sofran medrus gan Luoedd Arbennig y DU. Mae hyn yn hanfodol o ystyried y bydd ymrwymiadau NATO yn sbardun craidd i weithgarwch Amddiffyn o dan ddull NATO yn Gyntaf.

# 7.9 Cudd-wybodaeth

1. **Bydd y galw am gudd-wybodaeth dra chywir yn parhau i gynyddu** wrth i'r amgylchedd byd-eang ddirywio ac wrth i fygythiadau i'r DU a'i chynghreiriaid ddwysáu. Ochr yn ochr â gofynion gwrthderfysgaeth, mae galw cynyddol erbyn hyn am gudd-wybodaeth sy'n meithrin dealltwriaeth y DU o wrthwynebwyr gwladwriaethol ac yn cefnogi camau i fynd i'r afael â nhw. Ochr yn ochr â hynny, mae datblygiadau mewn technoleg yn newid y mathau o gudd-wybodaeth sydd ei hangen a pha mor gyflym y mae'n rhaid ei chasglu, ei dadansoddi a'i dosbarthu os yw am fod yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau. Mae symiau data'n ehangu'n gyflym ac mae'n rhaid eu harneisio er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol, gan gynnwys drwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial.

2. Mae'n heriol bodloni'r gofynion newidiol hyn mewn cyfnod lle mae cystadleuaeth eisoes yn ddwysach. Ond wrth i'r DU ailadeiladu ei gallu i ryfela, mae'n rhaid iddi hefyd **sicrhau ei bod yn gallu blaenoriaethu adnoddau a chynyddu'r capasiti i fodloni gofynion cudd-wybodaeth mewn argyfwng ac adeg rhyfel**. Byddai gwrthdaro â gwrthwynebydd milwrol 'cyfatebol' heddiw yn creu galw am gudd-wybodaeth a fyddai'n llawer iawn uwch nag ar gyfer rhyfeloedd Affganistan ac Irac. Mae dangosyddion, rhybuddion ac asesiadau amserol o strategaethau a galluoedd gelynion yn hanfodol ar gyfer achub y blaen a pharatoi ar gyfer rhyfel, gan gynnwys creu mantais rhyfela drwy gynyddu capasiti diwydiannol. Mae cudd-wybodaeth hefyd yn alluogwr gweithredol hanfodol ac mae'n rhaid ei hintegreiddio i mewn i drefniadau gorchymyn a rheoli, targedu, gweithrediadau seiber, rhyfela electromagnetig, gweithrediadau gwybodaeth, ac amddiffyn lluoedd fel rhan o'r Llu Integredig.

3. Mae gan y DU fynediad at alluoedd cudd-wybodaeth o'r radd flaenaf, o Gudd-wybodaeth Amddiffyn (DI)[97] i Gymuned Cudd-wybodaeth y DU (UKIC), cynghrair cudd-wybodaeth Five Eyes, a pherthnasoedd cudd-wybodaeth ddwyochrog y DU. **O fewn Amddiffyn, fodd bynnag, mae galluoedd cudd-wybodaeth yn cael eu tanbweru ac yn dameidiog.** Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw statws Cudd-wybodaeth Amddiffyn, sydd wedi'i neilltuo i ddiwallu anghenion Amddiffyn. Er bod y galw am ei wasanaethau yn cynyddu, mae tua 500 yn llai o bobl yn gweithio ym maes Cudd-wybodaeth Amddiffyn heddiw nag yn 2019 ac mae ei raglenni digidol wedi bod yn destun toriadau a gohiriadau sylweddol. Mae hefyd **elfennau sy'n rhwystro'r gallu i ryngweithredu rhwng Amddiffyn ac UKIC**, gan beryglu bod eu cyd-alluoedd yn cyflawni llai na swm eu rhannau.

4. **Mae gwella galluoedd cudd-wybodaeth Amddiffyn er mwyn ymateb yn well i fygythiadau heddiw ac optimeiddio ar gyfer rhyfela—ar draws technoleg, data, pobl a phrosesau—yn hanfodol**. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fuddsoddi mewn Cudd-wybodaeth Amddiffyn i feithrin ei gallu a'i chapasiti. Ar ben hynny, dylai Amddiffyn fanteisio i'r eithaf ar ei galluoedd cudd-wybodaeth presennol (DI, Cudd-wybodaeth ar y Cyd PJHQ (J2), Lluoedd Arbennig

97 Mae Cudd-wybodaeth Amddiffyn yn un o'r ychydig sefydliadau cudd-wybodaeth ledled y byd sy'n casglu, yn adrodd, yn asesu, yn targedu ac yn gweithredu, gan gynnwys gwrth-ddeallusrwydd.

y DU J2, a sefydliadau cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a rhagchwilio'r Llynges Frenhinol, y Fyddin, yr RAF a'r Drefn Reoli Gofod) fel rhan o'r Llu Integredig. Dylai wneud hynny drwy sefydlu un fenter cudd-wybodaeth amddiffyn. Dylai'r fenter hon weithredu dan faner Gwasanaethau Cudd-wybodaeth Milwrol (MIS) gydag arweinyddiaeth swyddogaethol yn cael ei darparu gan Gudd-wybodaeth Amddiffyn (DI). Byddai hyn yn lleihau darnio'r ddarpariaeth gudd-wybodaeth ym maes Amddiffyn, yn hwyluso rhannu data, ac yn ysgogi moderneiddio ei alluoedd drwy integreiddio prosesau casglu, adrodd, asesu, targedu a gweithrediadau. Byddai hefyd yn galluogi Amddiffyn i chwalu'r rhwystrau rhag cydweithio â phartneriaid ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys UKIC.

5. O fewn MIS, dylai Cudd-wybodaeth Amddiffyn gael cyfrifoldeb swyddogaethol dros y canlynol:

   - Arwain a gwella pob agwedd ar y cylch cudd-wybodaeth, gan gynnwys gweithio'n unol â set gydlynol o flaenoriaethau; gosod safonau casglu a dadansoddi cyffredin; a gwella prosesau rhannu data ag UKIC drwy fabwysiadu safonau data cyffredin, rheolaethau trin, a gweithdrefnau fetio.
   - Sbarduno gwelliannau o ran galluoedd cudd-wybodaeth—fel ffabrig data, synwyryddion, gwneud penderfyniadau, ecsbloetio a thargedu galluoedd—a gwasanaethau a rennir o fewn MIS.
   - Sicrhau blaenoriaethu a chydlyniad wrth fabwysiadu technolegau hanfodol, wedi'u cydlynu â phartneriaid ar draws y Llywodraeth a heb wrthdaro rhyngddynt.
   - Cysoni pensaernïaeth a safonau â'r rhwydwaith digidol, llwyfannau a gwasanaethau ar draws Amddiffyn ar gyfer gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar lefel yn uwch na Chyfrinachol.
   - Cefnogi arweinydd seiberddiogelwch Amddiffyn, gan sicrhau gallu'r systemau digidol i wrthsefyll ysbïo sy'n cael ei alluogi gan seiber.

6. Mae pobl, galluoedd a data Amddiffyn yn dargedau deniadol i wasanaethau cudd-wybodaeth gelyniaethus sy'n fodlon mynd y tu hwnt i normau ysbïo sefydledig. **Mae galluoedd gwrth-ddeallusrwydd yn hanfodol** i fynd i'r afael â'r bygythiadau hyn ac i roi sicrwydd i gynghreiriaid a phartneriaid y DU ei bod o ddifrif ynghylch diogelu eu hecwitïau. Mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn greu uned gwrth-ddeallusrwydd sy'n dwyn ynghyd arbenigedd a galluoedd arbenigol Amddiffyn[98] ochr yn ochr ag ymchwiliadau UKIC i ysbïo dynol a seiber a gweithgarwch 'bygythiadau mewnol'.



98 O'r Llynges Frenhinol, Byddin Prydain, y Llu Awyr Brenhinol, a'r Gwasanaeth Sifil.

Byddai hyn yn sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar ddiogelu galluoedd mwyaf hanfodol Amddiffyn, gartref a thramor, yn erbyn y bygythiadau mwyaf difrifol. Byddai'r uned hefyd yn darparu un pwynt cyswllt o fewn Amddiffyn ar gyfer diwydiant—i ddiogelu cadwyni cyflenwi hanfodol rhag tarfu ac i gaffael technoleg arloesol—ac ar gyfer cydweithio gwrth-ddeallusrwydd gyda NATO, Five Eyes, a phartneriaid eraill.

**Argymhellion:**

53. Mae cudd-wybodaeth yn sylfaenol i allu'r DU i atal a rhyfela. Rhaid i Gudd-wybodaeth Amddiffyn gael yr adnoddau i ddenu, datblygu a chynnal gweithlu llawn cymhelliant. Gallai hyn gynnwys rhyddid o ran cyflogau a recriwtio yn unol ag UKIC. Er mwyn osgoi cystadleuaeth wrthgynhyrchiol i ddarpar ymgeiswyr, dylai Amddiffyn weithio gydag adrannau ac asiantaethau eraill yn y system ddiogelwch gwladol i sicrhau llif cadarn o dalent ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys drwy ddatblygu'r canlynol:
    - Strategaeth gweithlu diogelwch gwladol trawslywodraethol.
    - Darpariaeth gadarn o hyfforddiant sy'n meithrin sgiliau arbenigol pwysig.
    - Secondiadau i staff milwrol a gweision sifil, gan gynnwys i mewn i ddiwydiant, er mwyn datblygu arbenigedd mewn technolegau datblygol, sgiliau seiber, a gwybodaeth am arferion gorau o ran mabwysiadu technoleg.
54. Dylai Amddiffyn gydlynu a manteisio i'r eithaf ar ei alluoedd cudd-wybodaeth arbenigol o dan un fenter, Gwasanaethau Cudd-wybodaeth Milwrol (MIS), erbyn mis Tachwedd 2025. Dylai arweinyddiaeth swyddogaethol DI o MIS gael ei hategu gan Siarter Cudd-wybodaeth Amddiffyn newydd sy'n codeiddio ei rôl a'i hawdurdodau.
55. Er mwyn sicrhau'r gallu i ryngweithredu â phartneriaid ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys UKIC, fe ddylai Amddiffyn wneud y canlynol:
    - Gweithio i ddatblygu set gydlynol o flaenoriaethau cudd-wybodaeth a rhannu data'n amserol ac yn ddiogel ar draws y Llywodraeth drwy gyd-fynd â safonau data a gweithdrefnau fetio UKIC.
    - Annog adolygiad ar draws y Llywodraeth o'r prosesau trin deunydd cudd-wybodaeth i sicrhau y gellir ei rannu'n haws mewn cyfnodau o argyfwng a rhyfel.
56. Erbyn mis Tachwedd 2025, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn sefydlu Uned Gwrth-Cudd-wybodaeth Amddiffyn o fewn DI gyda mandad i ddiogelu Amddiffyn rhag gwasanaethau cudd-wybodaeth gelyniaethus, gan weithio'n agos gydag UKIC.

# 7.10 Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn

1. Mae sicrhau iechyd a gofal meddygol gweithredol Lluoedd Arfog y DU yn hanfodol bwysig er mwyn atal ac amddiffyn, **gan alluogi'r Llu Integredig i ymladd a dal ati mewn ymgyrchoedd ac adeg gwrthdaro**. Mae gofal iechyd yn ddyletswydd foesol a chyfreithiol ar ran y Llywodraeth ac mae hefyd ymysg y tri phrif ffactor o ran cadw staff.

2. Nid y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal hwn. Mae'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn (DMS)[99] yn gyfrifol am ofal iechyd galwedigaethol sylfaenol, cymorth meddygol, a gwasanaethau adsefydlu adeg gwrthdaro—yn wir, mae gwasanaeth adsefydlu'r DMS yn adnabyddus yn rhyngwladol am ddarparu gwasanaethau rhagorol. Ond yn anorfod, mae Amddiffyn yn dibynnu ar y GIG i ddarparu gofal eilaidd a thrydyddol.[100]

3. Ym maes Amddiffyn, mae gofal meddygol yn dameidiog ac wedi cael ei esgeuluso a'i dan-ariannu ers tro byd. Hefyd, mae'r berthynas weithredol â'r GIG wedi llithro i lawr y drefn flaenoriaeth dros y blynyddoedd diwethaf. **Mae ail-adeiladu capasiti a gallu meddygol gyda'r GIG, ynghyd â diwygio sefydliadol o fewn Amddiffyn, yn hanfodol** os yw lluoedd y DU am barhau i fod yn ffit i frwydro mewn cyfnod o heddwch, ac wrth baratoi i ymateb i ofynion gweithredol mewn rhyfel. Drwy'r bartneriaeth hon, **gall Amddiffyn hefyd gyfrannu at genhadaeth y Llywodraeth i greu GIG sy'n barod at y dyfodol**.

## Partneriaeth rhwng Amddiffyn ac Iechyd

4. Rhaid i Amddiffyn weithio gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (DHSC) i **sicrhau bod gan yr ecosystem iechyd gwladol—Amddiffyn, y GIG a'r sector preifat—y capasiti a'r gallu i ddiwallu anghenion personél**. Mae'r cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn mynd y tu hwnt i ddarparu gofal eilaidd a thrydyddol. Mae cyfran sylweddol o'r Milwyr Wrth Gefn yn gweithio yn y GIG, sy'n golygu bod pwysau ar y GIG yn dod yn bwysau ar y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn, yn nodedig o ran prinder yn y gweithlu a bregusrwydd y gadwyn gyflenwi fyd-eang. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir: mae angen cynllunio'n ofalus wrth ddefnyddio Milwyr Wrth Gefn ym maes gofal meddygol Amddiffyn o ystyried yr effaith ar staff y GIG. Os bydd rhyfel mawr, mae'n rhaid i'r GIG hefyd fod yn barod i ddelio â llawer o anafusion milwrol.

5. **Er mwyn cryfhau'r bartneriaeth hon, dylai'r adrannau gynnal adolygiad sbrint brys**, gan greu cyd-ddealltwriaeth o'r capasiti presennol, yr angen nawr a'r

99 Grŵp o wasanaethau gofal iechyd meddygol milwrol, yn cynnwys galluoedd Un Gwasanaeth a Phencadlys yn y Drefn Reoli Strategol.

100 Gofal iechyd 'sylfaenol' yw pwynt cyswllt cyntaf y claf â'r gwasanaeth iechyd—er enghraifft, meddyg teulu, fferyllfa gymunedol, deintydd, gofal llygaid. Mae gofal iechyd 'eilaidd' yn cynnwys gofal wedi'i gynllunio neu ddewisol, fel arfer mewn ysbyty, yn ogystal â gofal brys ac argyfwng a gofal iechyd meddwl. Mae gofal 'trydyddol' yn ymwneud â thriniaeth arbenigol iawn.

angen posibl yn y dyfodol, a chynlluniau ar y cyd ar gyfer cyflawni. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Meddygol diweddar NATO,[101] gan ailadeiladu galluoedd meddygol ar gyfer rhyfela. Dylai gynnwys cynlluniau argyfwng integredig.

6. **Mae cynyddu capasiti a rennir yn flaenoriaeth**. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad gan Amddiffyn ond nid mater o gyllid yn unig ydyw. Mae'n rhaid i Amddiffyn ddod yn gyflogwr delfrydol i staff meddygol (Parhaol ac Wrth Gefn) drwy gynnig cyflogaeth, addysg a hyfforddiant hyblyg—wedi'i hwyluso drwy alinio â'r GIG o ran cyflogau, buddion, a thelerau ac amodau. Mae gan fodel 'Llu Wrth Gefn Noddedig' neu fodel cyfatebol y potensial i gynyddu nifer y milwyr meddygol wrth gefn, gyda mwy o bersonél yn disgwyl yn yr esgyll. Mae gofal iechyd yn y sector preifat yn cynnig rhagor o opsiynau ar gyfer helpu staff i gynnal lefelau ffitrwydd ac i ddod yn heini unwaith eto, gan gynnwys y nifer sylweddol sydd wedi'u categoreiddio fel rhai na ellir eu byddino ar hyn o bryd.

7. **Mae datblygu gallu clinigol arbenigol hefyd yn hanfodol i gefnogi'r Llu Integredig mewn argyfwng ac mewn rhyfel.** Dylai'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn fynd ati'n rhagweithiol i rannu arbenigedd a sgiliau â'r GIG a darparwyr gofal iechyd preifat. Mae'n hanfodol bod Amddiffyn yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu clinigol, gan weithio gyda diwydiant a'r byd academaidd. Er y gallai rhywfaint o'r gwaith ymchwil a datblygu hwn fod yn unigryw i Amddiffyn, bydd gan lawer ohono werth a defnydd clinigol ehangach, gan gynnwys o fewn y GIG.

## Diwygio system feddygol Amddiffyn

8. Byddai sefydlu **'Menter Feddygol Amddiffyn' unigol dan arweinyddiaeth swyddogaethol y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn** yn cryfhau elfen allweddol o'r ecosystem iechyd genedlaethol ymhellach fel rhan o'r Llu Integredig—gan gydlynu'r Gwasanaethau unigol a'r Drefn Reoli Strategol, a'r cymysgedd o staff milwrol, gweision sifil a chontractwyr.

9. Dylai **Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn fod yn gyfrifol am y canlynol**:

   - Darparu cyfeiriad swyddogaethol i weithlu meddygol Amddiffyn, gan gynnwys gosod blaenoriaethau cyffredin, safonau a hyfforddiant.
   - Unedau meddygol lefel theatr a chanolfannau hyfforddiant.
   - Hyfforddiant, addysg ac achrediad clinigol unigol ar gyfer elfennau milwrol a sifilaidd gweithlu meddygol Amddiffyn, a ddarperir gan Academi Feddygol Amddiffyn.
   - Un dull o reoli gyrfaoedd a gweinyddu'r holl staff meddygol ar draws y Trefniadau Rheoli Rheng Flaen, gan gynnwys meddygon a pharafeddygon.

   Dylai'r Trefniadau Rheoli Rheng Flaen ddal gafael ar ddigon o gapasiti ac arbenigedd i weithredu cyfarwyddyd technegol gan y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn a sicrhau bod elfennau'r llu sy'n aros yn cael eu hintegreiddio i mewn i Fenter Feddygol Amddiffyn.

101 Pum maes blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Meddygol NATO yw: fframweithiau rheoleiddio a deddfwriaeth; prinder yn y gweithlu; cynllunio ar gyfer digwyddiad lle mae llawer o gleifion; gwacáu cleifion; a logisteg feddygol.

10. I gefnogi'r diwygiad hwn, **dylid rhoi sylw o'r newydd i seilwaith ffisegol a digidol y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn** yn dilyn cyfnod hir o esgeulustod: mae dros hanner ystâd feddygol Amddiffyn dros 50 oed ac nid yw hen systemau TG yn gallu delio â gofynion yr oes sydd ohoni. Mae buddsoddiadau mewn digideiddio fel Prosiect CORTISONE[102] yn hanfodol er mwyn gallu rhannu data'n ddidrafferth rhwng y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn a'r GIG.

**Argymhellion:**

57. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn weithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i sicrhau bod gan Wasanaethau Meddygol Amddiffyn (DMS) a'r GIG y gallu gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion meddygol Amddiffyn, gan gynnwys yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol. Rhaid i'r ddwy adran gynnal adolygiad sbrint o gapasiti a gallu ar draws y system. Rhaid i Weinidogion yn y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd gael mynediad uniongyrchol at wybodaeth am barodrwydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, y GIG a gofal iechyd preifat i ddiwallu gofynion rhyfela ac argyfyngau iechyd strategol eraill sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn. Dylai bwrdd adolygu annibynnol, tebyg i Fwrdd Iechyd Amddiffyn UDA, sicrhau parodrwydd ecosystemau, gan adrodd o bryd i'w gilydd i Weinidogion, y Bwrdd Amddiffyn a'r Senedd.
58. Dylid grymuso DMS fel arweinydd swyddogaethol Menter Feddygol Amddiffyn sy'n diwallu anghenion gofal iechyd staff adeg heddwch, ar weithrediadau, ac adeg rhyfel. Fel rhan o waith ailadeiladu'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn a'r fenter ehangach yn unol â Chynllun Gweithredu Meddygol NATO, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud y canlynol:
    - Buddsoddi mewn gwacau meddygol a chyflenwadau meddygol ar raddfa sy'n cyfateb i ymrwymiadau a gweithrediadau milwrol y DU, yn ogystal â galluoedd hanfodol fel cyfarpar gwrthgemegol, biolegol, radiolegol a niwclear.
    - Creu cynllun 'llu cyfan' sy'n nodi gofynion y gweithlu, cymhellion a mesurau i ddod â staff na ellir eu byddino yn heini unwaith eto cyn gynted â phosibl fel rhan o ddull gweithredu parhaus y cytunwyd arno gyda'r GIG. Dylai'r Drefn Reoli Strategol ddatblygu'r cynllun hwn erbyn mis Mawrth 2026.
    - Sefydlu cynllun seilwaith ffisegol deng mlynedd ar gyfer maes meddygol Amddiffyn erbyn mis Chwefror 2026, gan weithio'n agos â'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn wrth iddo ddatblygu ei gynllun ei hun ar gyfer ail-gyfalafu ar draws yr ystâd Amddiffyn (Pennod 7.11). Gallai'r opsiynau o ran adnoddau ar gyfer seilwaith meddygol gynnwys defnyddio cyllid y GIG a chyllid preifat.

102 Prosiect CORTISONE yw rhaglen ddigideiddio'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn sydd wedi'i chynllunio i gofnodi, rheoli a manteisio'n briodol ar wybodaeth gofal iechyd sy'n cael ei chreu gan y Gwasanaeth hwnnw wrth ddarparu gofal iechyd i gleifion.

# 7.11 Seilwaith

1. **Mae'r ystad yn cynnwys lle mae Amddiffyn yn byw, yn gweithio, yn hyfforddi ac yn gweithredu yn y DU ac mewn gorsafoedd tramor.** Fodd bynnag, ers diwedd y Rhyfel Oer ni roddwyd ystyriaeth briodol i bwysigrwydd canolog y seilwaith Amddiffyn. Mae wedi cael ei dan-ariannu'n barhaus ac nid yw gofynion a chostau seilwaith wedi cael eu hystyried yn ddigonol wrth gynllunio galluoedd,[103] er gwaethaf y cysylltiad clir a phwysig rhwng y ddau.

2. Mae ymdrechion diweddar i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog—drwy optimeiddio'r ystad,[104] cynyddu'r gwariant blynyddol o sylfaen isel, a gweithio ar ddatblygu Strategaeth Tai Amddiffyn newydd—yn ddechrau da. Ond mae natur sylweddol yr her yn golygu na fydd y rhain yn ddigon i sicrhau bod y seilwaith Amddiffyn yn addas i'r diben. **Yn ogystal â darparu mwy o gyllid i'r adran dros amser, rhaid hefyd cael ffyrdd gwahanol iawn o weithio, a rhoi hynny ar waith fel mater o flaenoriaeth**, os yw Amddiffyn yn mynd i ymateb i faint yr her. Gyda'r agwedd gywir, gall yr ystad Amddiffyn, **fel ased strategol cenedlaethol, gyfrannu at gadernid a diogelwch ehangach y DU**.

## Y llwybr at ailgyfalafu seilwaith

3. **Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn greu un Cynllun Ailgyfalafu sy'n sefydlu asesiad cyfannol o ofynion seilwaith Amddiffyn dros y degawd nesaf**, gan ystyried gwaith yr adran o dan y Strategaeth Tai Amddiffyn a'r rhaglen Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn. Dylai'r cynllun hwn nodi blaenoriaethau ac opsiynau ar gyfer buddsoddi, cyfleoedd i gynyddu gwerth yr ystad i'r eithaf, amcangyfrif o'r costau, ac amserlenni cychwynnol ar gyfer cyflawni hyn. Dylai **wahaniaethu rhwng cyfleoedd ac anghenion penodol gwahanol segmentau yn y portffolio seilwaith Amddiffyn**.

4. **Dylai cartrefi i bersonél a'u teuluoedd** fod yn flaenoriaeth yn y portffolio seilwaith. Mae gwella safon Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog a Llety i Staff Sengl yn hanfodol i forâl ac i gadw staff y Lluoedd Arfog, felly hefyd cawl gwared â'r ansicrwydd ynghylch mynediad at Lety i Deuluoedd ymhlith staff sydd mewn perthynas hirdymor ond heb briodi (gan gynnwys cyplau o'r un rhyw). Mae blynyddoedd o sgrimpio ariannol ar gynnal a chadw Llety i Deuluoedd a Llety Staff Sengl wedi cyfrannu at argyfwng o ran recriwtio a chadw staff. Nid yw'r cynlluniau buddsoddi presennol yn atal cyfradd gyffredinol y dirywiad.

103 Mae hyn yn cynnwys dyluniad lluoedd, polisi pobl, hyfforddiant, a Llinellau Datblygu Amddiffyn eraill sydd â goblygiadau uniongyrchol i ofynion seilwaith.

104 Mae'r portffolio Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn yn werth £5.1bn i greu ystad Amddiffyn mwy fforddiadwy gyda'r seilwaith cywir yn y mannau cywir i gyflawni allbynnau Amddiffyn. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae Amddiffyn yn adeiladu cyfleusterau modern, gan gynnwys pencadlys, cyfleusterau arbenigol a llety, er mwyn galluogi unedau i symud gan gefnogi dyluniad lluoedd yn y dyfodol a'r safleoedd i'w rhyddhau ar gyfer eu gwaredu (er enghraifft, drwy werthu neu brydlesu).

Mae cytundeb pendant y Llywodraeth i brynu'n ôl miloedd o gartrefi milwrol yn cynnig cyfle pwysig i ddechrau o'r dechrau gyda chyflwr enbydus llety i deuluoedd y Lluoedd Arfog yn dilyn degawdau o danfuddsoddi, ac mae'n debyg y gwelir manteision hyn yng Nghymru, yn yr Alban ac yn Lloegr yn benodol. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ailfuddsoddi'r enillion o ddatblygu tai ar dir Amddiffyn yn ogystal â defnyddio cyfalaf preifat. Dylai'r Strategaeth Tai Amddiffyn sydd ar y gweill ystyried pob opsiwn, gan gynnwys ailgynllunio ac ailfodelu ystad llety i deuluoedd er mwyn sicrhau budd cymdeithasol ehangach, cynyddu dwysedd tai lle bo hynny'n briodol, a chefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i adeiladu tai ar yr un pryd. Dylid hefyd edrych ar gefnogi dyhead staff y lluoedd arfog i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, fel yr amlinellir ym Mhennod 4.3.

5. Dylid hefyd blaenoriaethu **rhannau o'r ystad sy'n cefnogi rhyfela**, gan gynnwys hyfforddiant, gweithrediadau a chefnogaeth. Dylid trin y Pencadlys Strategol fel gallu rheng flaen sy'n hanfodol i allu'r DU i amddiffyn y famwlad a danfon lluoedd dramor. Dylai'r Cynllun Ailgyfalafu nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y Pencadlys Strategol, gan gynnwys lle nad yw'r seilwaith gweithredol yn bodloni gofynion cynlluniau datblygu'r lluoedd. Dylai hefyd adnabod cyfleoedd ar gyfer partneriaethau o fewn y Llywodraeth a gyda'r sector preifat, a bod pawb yn elwa ohonynt. Dylai'r Rhaglen Amddiffyn Gartref, o dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet, gynnwys 'piler' seilwaith i sicrhau bod y Pencadlys Strategol yn gadarn os bydd rhyfel (Pennod 6).



## Manteisio i'r eithaf ar asedau o safbwynt amcanion cenedlaethol a chynhyrchu incwm

6. Mae **cyfle sylweddol i fanteisio ar yr ystad Amddiffyn**—sy'n cynnwys tua 1% o arwynebedd tir y DU—**i gynhyrchu incwm i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac i ddiwallu anghenion ehangach y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Llywodraeth.** Gall proses waredu ryddhau cyllid i'w ddefnyddio ar unwaith, ond nid dyma'r ffordd fwyaf effeithiol bob amser o gynhyrchu refeniw a gwireddu gwerth. Mae'r diogelwch amddiffynnol sy'n gwarchod llawer o safleoedd Amddiffyn yn ei wneud yn lleoliad deniadol iawn ar gyfer seilwaith defnydd deuol, sy'n bwysig yn strategol. Mae hynny'n agor y drws i'r posibilrwydd o glystyru arbenigedd a chyfalaf y sector preifat, ac ar yr un pryd, sicrhau capasiti ar gyfer Amddiffyn mewn cyfnodau o argyfwng a gwrthdaro.

7. Fel man cychwyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn adnabod cyfleoedd posibl drwy:

   - Rhyddhau rhagor o dir ar gyfer **adeiladu tai newydd ledled y DU**, yn dilyn cyhoeddiad mis Mawrth 2025 am dasglu trawslywodraethol newydd sy'n ymroddedig i'r ymdrech hon.[105]
   - **Creu seilwaith Deallusrwydd Artiffisial (AI).** Fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cyfleoedd AI y Llywodraeth,[106] mae canolfannau data AI yn seilwaith hanfodol ar gyfer hyfforddi, neilltuo a gweithredu systemau AI datblygedig.
   - **Cynhyrchu ynni cynaliadwy yn ogystal â dal a storio carbon**, gan ddefnyddio model 'arloesedd yn y farchnad yn unig'. Yn ogystal â diwallu'r galw cynyddol am ynni, rhaid hefyd ar yr un pryd ddatgarboneiddio systemau ynni ar draws Amddiffyn a'r DU. Byddai adeiladu seilwaith ynni ar yr ystad Amddiffyn a/neu ei ddefnyddio ar gyfer dal a storio carbon yn lleihau biliau ynni a risg ynni i'r adran, yn ychwanegu at wydnwch y Grid Cenedlaethol, ac yn darparu ffrydiau incwm i'r Llywodraeth. Gallai cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gaiff ei gynhyrchu ar Safleoedd Tramor arwain at fanteision ariannol a gwydnwch.
   - Rhyddhau safleoedd i fusnesau newydd a fusnesau sy'n tyfu, lle bo'n bosibl, ar gyfer **profi a gwerthuso cynnyrch** er mwyn helpu i feithrin arloesedd (Pennod 4.2).

## Trawsnewid rheoli seilwaith

8. Ni fydd arian yn unig yn datrys y problemau hirsefydlog sy'n effeithio ar y seilwaith Amddiffyn. **Mae angen newid sylfaenol o ran sut, a pha mor effeithiol, y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rheoli'r ystad.** Rhaid i benderfyniadau pwysig ar seilwaith fod yn seiliedig ar well gwybodaeth, a rhaid cyflymu'r broses gyflawni drwy reoli contractau ac enillion cynhyrchiant yn llawer gwell. I gyflawni hyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddatblygu:

   - Trosolwg gynhwysfawr o asedau, rhwymedigaethau, cyfraddau darfodiad, a chostau cylch oes ar draws yr ystad.

105 Public land unlocked for the next generation of home owners - GOV.UK, 27 Mawrth 2025. Mae'r tasglu'n cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, Trysorlys EM, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a Homes England.

106 Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial - GOV.UK, 13 Ionawr 2025.

- Dealltwriaeth amser real, drwy ddigideiddio, o'r anghenion ar draws yr ystad.
- Y sgiliau cyfreithiol a masnachol sydd lawn cystal â diwydiant, a gyflawnir drwy recriwtio allanol a gwella sgiliau mewnol.
- Mynediad at y fath o arbenigedd manwl a geir yn y sector preifat.

9. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Arfau Cenedlaethol **sicrhau bod gofynion seilwaith yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r gwaith o ddatblygu gallu a phenderfyniadau buddsoddi**, gyda threfniadau cymeradwyo a llywodraethu cadarn a syml. Dylid adolygu'r holl gynlluniau offer, gan gynnwys yn y Fenter Niwclear Amddiffynnol sydd wedi'i chlustnodi, i sicrhau bod seilwaith addas wedi'i ddarparu. Lle nad yw hynny wedi digwydd, dylid llunio cynllun gweithredol manwl i reoli unrhyw ddiffyg yng nghyllideb berthnasol y rhaglen yn y tymor hwy. Dylid ariannu unrhyw newidiadau yn y dyfodol i Lety i Deuluoedd neu Lety i Staff Sengl fel rhan o'r rhaglen galluogrwydd berthnasol i sicrhau nad effeithir yn ormodol ar y cynlluniau presennol i adeiladu a chynnal a chadw asedau tai.

10. Er mwyn gwreiddio ystyriaethau seilwaith yn y broses gwneud penderfyniadau, dylai Prif Weithredwr y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn fod yn ymgynghorai ffurfiol ar gynlluniau Amddiffyn a Rheolaeth. Dylai pob bwrdd Rheolaeth Rheng Flaen bennu aelod o'r bwrdd i fod yn gyfrifol am seilwaith. Wrth i'r rhaglen Diwygio Amddiffyn fynd rhagddi ac wrth i'r Strategaeth Tai Amddiffyn gael ei datblygu, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ystyried a fyddai'n fwy effeithiol rheoli'r seilwaith pe bai llety milwrol yn cael ei reoli ar wahân i weddill y portffolio ystadau, gan adlewyrchu ei ofynion penodol.



**Argymhellion:**

59. Rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gyflwyno Cynllun Ailgyfalafu seilwaith cyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Chwefror 2026. Dylai'r cynllun nodi (a) cyfleoedd i ddenu arbenigedd a chyfalaf y sector preifat cyn gynted â phosibl a (b) mecanweithiau ar gyfer gwireddu'r potensial hwn fel mater o frys. Dylai ystyried gwaith presennol yr adran o dan y Strategaeth Tai Amddiffyn a'r rhaglen Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn.

60. Rhaid i Strategaeth Tai Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn, sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni, nodi sut y bydd (a) yn gwella safon gyffredinol llety, yn unol â'r arferion masnachol gorau ar gyfer sicrhau llety o ansawdd uchel ac sy'n rhoi gwerth da am arian a (b) yn ehangu'r rheolau i alluogi'r rheini sydd mewn perthynas tymor hir i fod yn gymwys. Dylai Amddiffyn flaenoriaethu a chynyddu'r cyllid ar gyfer safleoedd llety sydd angen eu hatgyweirio ar frys.

61. O dan y Cynllun Ailgyfalafu, rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn asesu'r ffordd orau o gynhyrchu incwm a chynyddu gwerth ei hasedau, gan addasu'r rhaglen Optimeiddio'r Ystad Amddiffyn yn unol â hynny. Os mai defnyddio at bwrpas arall neu waredu yw'r opsiwn cywir, rhaid i'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn gael strategaeth ar gyfer manteisio i'r eithaf ar yr enillion wedi'u haddasu yn ôl risg, gan ymgysylltu'n frwd â'r sector preifat. Pan fydd elw'n cael ei greu o ddatblygu tai ar dir Amddiffyn, dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwaith o adnewyddu neu ddatblygu llety milwrol yn y dyfodol. Pan fydd Amddiffyn yn cadw gafael ar dir, rhaid gwneud y defnydd gorau posibl o'r asedau hynny, gan gynnwys drwy ddatblygu'r safle a chynhyrchu ynni. Mae partneriaethau trawslywodraethol a gyda'r sector preifat yn hanfodol.

62. Mae datrys problemau seilwaith Amddiffyn yn yr hirdymor yn gofyn am ddull proffesiynol iawn o reoli ystadau, sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac sy'n cael ei arwain gan dîm masnachol a chyfreithiol profiadol. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn:
    - Sicrhau bod gofynion seilwaith yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r gwaith o ddatblygu gallu a phenderfyniadau buddsoddi.
    - Sicrhau bod Amddiffyn yn gwneud defnydd llawn o system Rheoli Ystadau gwbl integredig, ddigidol, amser real.
    - Symleiddio a chyflymu ei brosesau masnachol drwy fabwysiadu safonau adeiladu'r diwydiant a chontractau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwasanaethau safonol. Ni ddylid cael unrhyw ofynion contractio ac adeiladu sy'n benodol ar gyfer Amddiffyn, ac eithrio pan fo'r rhain yn hanfodol i ddiogelu seilwaith a/neu wydnwch mewn cyfnod o argyfwng.
    - Datblygu ffyrdd cyflymach a mwy ystwyth o weithio sy'n gymesur â'r risgiau perthnasol. Dylid diddymu prosesau awdurdodi hirwyntog er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae'n rhaid 'stopio ac ailgychwyn', sy'n ffordd gostus o reoli prosiectau.

# Atodiad: Y Broses Adolygu

Cynhaliwyd yr Adolygiad mewn tri cham:

i. **Casglu gwybodaeth, Gorffennaf–Medi 2024:** ochr yn ochr â galwad cyhoeddus am dystiolaeth, gwnaethom gomisiynu ymatebion adrannol a cheisio barn arbenigwyr ar gynigion sy'n ymwneud ag Amddiffyn yn y DU.

ii. **'Adolygu a Herio', Hydref–Tachwedd 2024:** gwnaethom gynnull paneli a oedd yn cynnwys mwy na 150 o arbenigwyr i brofi ymatebion yr adran i'n cynigion. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom gynnal ymarfer desg ar ein galluoedd amddiffyn nawr ac yn y dyfodol gydag uwch staff o'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog.

iii. **Gwneud penderfyniadau a llunio'r adroddiad terfynol, Rhagfyr 2024–Mai 2025:** gwnaethom barhau i brofi ein canfyddiadau wrth i ni ddrafftio'r adroddiad terfynol a mireinio ein hargymhellion. Parhaodd yr ymgysylltu ar draws Whitehall a gyda chynghreiriaid a phartneriaid, gan gynnwys wrth baratoi ar gyfer cyhoeddi.

Drwy gydol y broses, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â chynghreiriaid, partneriaid, diwydiant a'r gymdeithas ehangach (Blwch 17). Roedd ein gwaith wedi elwa'n fawr o'r cyfraniadau niferus yn y cam casglu gwybodaeth a drwy weithio'n agos gyda phob rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Drwy gyd-asesu cynigion yr adran, roeddem wedi galluogi proses gyfoethog o Adolygu a Herio gan dimau o arbenigwyr allanol medrus. Rydym o'r farn ein bod wedi cynnal ein Hadolygiad ar y cyd â'r adran, yn hytrach gorfodi'r broses arni, ac mae llawer o'n hargymhellion yn deillio o ddatgloi manylder a chreadigrwydd arweinwyr presennol ym maes Amddiffyn. Gwnaethom gadw mewn cysylltiad agos â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn drwy gydol y broses, yn ogystal â'r Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys.

Roedd yr unigolion canlynol wedi cyfrannu at gam Adolygu a Herio'r Adolygiad Amddiffyn Strategol, gan gymryd rhan yn y sesiynau panel. Mae'r enwau gyda * yn dynodi eu bod yn Gadeiryddion Panel.

Ms Madeleine Alessandri*
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Robin Anderton-Brown
Syr Ian Andrews
Y Comander (wedi ymddeol) Ian Annett*
Dr Sophy Antrobus
Mr Andy Bamford*
Y Brigadydd (wedi ymddeol) Ben Barry
Mr Adrian Baguley
Yr Is-lyngesydd (wedi ymddeol) Paul Bennett
Ms Anita Bernie
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Michael von Bertele
Syr Simon Bollom
Mr Norman Bone
Mr Desmond Bowen*
Y Cadfridog Syr Adrian Bradshaw
Ms Samira Braund
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Martin Bricknell
Yr Athro Justin Bronk
Yr Uwch-gadfridog Jules Buczacki
Dr Phil Budden
Mr Hugh Bullock
Ms Clare Cameron
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Syr David Capewell*
Ms Grace Cassy*
Mr Miles Celic
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Doug Chalmers
Yr Athro Malcolm Chalmers*
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) James Chiswell*
Yr Athro Michael Clarke*
Mr Martin Clements

Syr Jon Coles
Mr Matt Collins
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) John Collyer
Mr Alex Cooper
Ms Gloria Craig
Comander yr Awyrlu (wedi ymddeol) Andrew Curtis
Yr Athro Tim Dafforn
Dr Keith Dear
Y Cadfridog Syr Christopher Deverell
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Alastair Dickinson*
Mr Edward Dinsmore*
Mr Brian Dubrie
Yr Athro John Economou
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Angus Fay
HMA Edward Ferguson
Yr Athro Syr Lawrence Freedman
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Syr Robert Fry
Yr Athro Steven Furnell
Mr Andy Gamble
Dr Melanie Garson
Ms Barbara Ghinelli
Mr Jean-Christophe Gray*
Mr Will Green
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Syr Andrew Gregory
Ms Judith Gough
Ms Kate Guthrie*
Mr John Hanley
Ms Angela Henderson
Yr Athro Beatrice Heuser
Dr Michael Holden
Mr Martin Howard
Mr Will Jessett
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Ivan Jones
Mr Peter Jones
Ms Sarah Kenny
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Seumas Kerr
Mr Paul Kett
Yr Ôl-lyngesydd (wedi ymddeol) John Kingwell
Mr Angus Lapsley*
Mr Stephen Lillie
Ms Claire Logan
Syr Stephen Lovegrove
HC Jane Marriott
Mr Robin Marshall*
Yr Athro Ciaran Martin*
Mr Brian McBride
Mr Tom McKane
Yr Is-gadfridog John Mead
Ms Oona Muirhead
Yr Athro Fonesig Fiona Murray*
Yr Athro Tracy Myhill
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) Paul Nanson
Yr Athro Vipin Narang
Syr Robin Niblett
Ms Alexandra Notay
Yr Athro Anu Ojha
Yr Athro Syr David Omand
Marsial yr Awyrlu (wedi ymddeol) Philip Osborn
Syr William Patey
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Syr Mark Poffley*
Yr Is-lyngesydd (wedi ymddeol) Duncan Potts
Mr Conrad Prince
Syr Jeremy Quin*
Mr John Raine
Ms Suzanne Raine
Mr Nick Reynolds
Syr Oliver Robbins*
Mr Joe Robinson
Syr Charles Roxburgh
Marsial yr Awyrlu (wedi ymddeol) Peter Ruddock
Dr Emma Salisbury
Mr Matthew Savill
Dr Gundbert Scherf
Ms Susan Schofield
Yr Arglwydd Mark Sedwill*
Y Fonesig Melinda Simmons*
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Stuart Skeates
Yr Uwch-gadfridog (wedi ymddeol) David Shouesmith
Dr Dave Smith
Y Brigadydd (wedi ymddeol) Mike Stone

Marsial yr Awyrlu (wedi ymddeol) Edward Stringer
Mr Paul Taylor
Syr Kevin Tebbit
Comander yr Awyrlu (wedi ymddeol) Steve Thornber
Yr Uwch-gadfridog Alex Turner
Yr Is-gadfridog (wedi ymddeol) Syr Tyrone Urch
Yr Athro Syr Jonathan Van-Tam*
Mr Simon Venn
Ms Sally Walker
Mr Peter Watkins
Dr Jack Watling
Yr Athro Tim Watson
Ms Alison White*
Mr Marcus Willett
Syr Gareth Rhys Williams
Dr Heather Williams
HMA Y Fonesig Caroline Wilson
Mr Dominic Wilson
Yr Athro Andy Wright
Syr Alex Younger

**Blwch 17: Ymgysylltu â'r rheini sydd â rhan i'w chwarae yn adolygiad Amddiffyn Prydain**

Mae ein Hadolygiad wedi cael ei lywio gan lefel ddigynsail o ymgynghori: Cyflwynodd 1,700 o unigolion a sefydliadau dros 8,000 o ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys tua 800 o ymatebion gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Lluoedd Arfog a'r gymuned cyn-filwyr. Ochr yn ochr â hyn, cawsom gyfraniadau ysgrifenedig gan dros 30 o gynghreiriaid a phartneriaid y DU, o Awstralia i'r Unol Daleithiau, o Wlad yr Iâ i Japan, ac o Norwy i Seland Newydd. Rydym wedi ymgysylltu â llawer o lysgenadaethau yn Llundain. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n agos â NATO, gan gynnwys yn uniongyrchol ag Uwch Gomander Cynghrair Ewrop. Mewn trafodaethau â'n partneriaid yn Awstralia, cawsom gyfle i bwyso a mesur canfyddiadau Adolygiad Strategol Amddiffyn Awstralia 2023, a gafodd ei arwain yn yr un modd yn allanol i'w Lywodraeth.

Daeth cyfraniadau ysgrifenedig i law gan dros 200 o gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi amddiffyn a'r diwydiant ehangach. Gyda'n cyd-adolygwyr, sef 'Tîm Adolygiad Amddiffyn 6', gwnaethom hefyd ymgysylltu ag arweinwyr yn y diwydiant amddiffyn, y Fforwm Cyflenwyr Amddiffyn, a mentrau llai sy'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sbarduno arloesedd a hyrwyddo galluoedd y DU. Roedd ein cais i sector gwybodaeth y DU a'n cynghreiriaid wedi ennyn dros 100 o ymatebion ysgrifenedig i'r Adolygiad gan felinau trafod a chyrff academaidd.

Fel rhan o'r broses adolygu, rydym wedi ymgysylltu'n aml â seneddwyr, gan gynnwys drwy ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi a thrwy ddarparu tystiolaeth lafar i Bwyllgor Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin. Mae Adroddiadau'r Pwyllgor Dethol—fel y rheini ar barodrwydd i ryfel a goblygiadau'r rhyfel yn Wcráin[107]—wedi bod yn amhrisiadwy.

Am y tro cyntaf erioed ym maes Amddiffyn, sefydlwyd Panel Dinasyddion ddiwedd 2024 i ddeall beth y gellir ei 'ddisgwyl yn rhesymol' yn llygaid y cyhoedd. Aethpwyd ag aelodau'r panel o drawstoriad o gymdeithas i bedwar safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys canolfannau Gwasanaeth unigol ac MOD Corsham, y Pencadlys Amddiffyn Digidol. Ar bob ymweliad, cafodd aelodau'r panel eu briffio gan bersonél Amddiffyn. Cawsant gyfle hefyd i ofyn cwestiynau a gweld galluoedd Amddiffyn arloesol. Ar ddiwedd y broses hon, cynigiodd y panel amrywiol safbwyntiau ar Amddiffyn. Cyflwynir y safbwyntiau hyn drwy gydol yr adroddiad hwn.

107 Pwyllgor Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin, Adroddiad Cyntaf Sesiwn 2023–24, Ready for War?, HC 26; Pwyllgor Cysylltiadau Rhyngwladol ac Amddiffyn Tŷ'r Arglwyddi, Adroddiad Cyntaf Sesiwn 2024–25, Ukraine: a wake-up call, HL Papur 10

